

At: Aelodau'r Cyngor Sir

Dyddiad: 20 Ionawr 2016

Rhif Union: 01824712589

ebost: dcc_admin@denbighshire.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CYNGOR SIR, DYDD MAWRTH, 26 IONAWR 2016** am **10.00 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN LL15 1YN.**

Yn gywir iawn

G Williams

Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democraidaidd

AGENDA

RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL AR GYFER Y RHAN HON O'R CYFARFOD

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

3 MATERION BRYG FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion bryg yn unol ag Adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

4 DYDDIADUR Y CADEIRYDD (Tudalennau 5 - 6)

Nodi ymrwymadau dinesig a ymgwymerwyd gan Gadeirydd y Cyngor (copi ynghlwm).

5 COFNODION (Tudalennau 7 - 14)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Cyngor Sir a gynhaliwyd 1 Rhagfyr 2015 (copi ynghlwm).

6 CYLLIDEB AR GYFER 2016/17 (Tudalennau 15 - 22)

Ystyried adroddiad (copi ynghlwm) sy'n rhoi diweddariad ar y broses o bennu'r gyllideb ac yn manylu ar gynigion i gael eu cymeradwyo gan y Cyngor Sir i osod cyllideb refeniw'r Cyngor ar gyfer 2016/2017.

7 CYMERADWYAETH FLYNYDDOL CYNLLUN LLEIHAU TRETH Y CYNGOR (Tudalennau 23 - 26)

Ystyried adroddiad (copi ynghlwm) mabwysiadu Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013, a Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig (Cymru) (Diwygio) 2016, o ran blwyddyn ariannol 2016/2017.

8 YMATEB DRAFFT I'R BIL LLYWODRAETH LEOL (CYMRU) (Tudalennau 27 - 342)

Ystyried adroddiad (copi ynghlwm) i ystyried ymateb y Cyngor i ymarfer ymgynghori sy'n cael ei gynnal gan Lywodraeth Cymru ar ddarpariaethau Drafft Bil Llywodraeth Leol (Cymru).

9 RHYBUDD O GYNNIG

Cyflwynodd Y Cynghorydd Martyn Holland, ar ran Grŵp y Ceidwadwyr Cymreig, Rybudd o Gynnig i'w ystyried gan y Cyngor Llawn:

"Mae Grŵp y Ceidwadwyr Cymreig yn credu y dylai'r sir ddarparu gwe ddarllediadau o holl gyfarfodydd y Cabinet ac Archwilio yn y dyfodol, er mwyn gwella canfyddiad y cyhoedd o'r Cyngor Sir".

10 RHYBUDD O GYNNIG

Cyflwynodd y Cynghorwyr Arwel Roberts a Cefyn Williams y Rhybudd o Gynnig canlynol i'w ystyried gan y Cyngor Llawn:

" yn ystod y blynyddoedd a fu mae Cyngor Sir Ddinbych wedi bod yn gwerthu ei stoc o Dai Cyngor, gan fod gennym rhai ar ôl gofynnwn i'r pwyllgor diddymu yr arferiad hwn oherwydd mae yn bwysig fod y Cyngor yn cadw nhw i deuluoedd sydd yn methu fforddio prynu tai ar y farchnad agored"

11 RHYBUDD O GYNNIG

Cyflwynodd Y Cyngorydd Dewi Owens y Rhybudd o Gynnig canlynol gan geisio cefnogaeth y Cyngor llawn i'r canlynol:

“Mae Cyngor Sir Ddinbych

- Yn gwerthfawrogi gwaith Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru.
- Yn mynegi pryder dros symud adnoddau o Gyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru i Fwrdd Cyngorau Iechyd Cymuned yng Nghymru
- Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithredu er mwyn gwarchod annibyniaeth Cyngorau Iechyd Cymuned unigol Cymru”.

12 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CYNGOR SIR (Tudalennau 343 - 346)

Ystyried Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor (copi ynghlwm).

AELODAETH

Y Cyngorwyr

Y Cyngorydd Gwyneth Kensler
(Cadeirydd)

Ian Armstrong
Raymond Bartley
Brian Blakeley
Joan Butterfield
Jeanette Chamberlain-Jones
Bill Cowie
Meirick Davies
Richard Davies
Stuart Davies
Peter Duffy
Peter Arnold Evans
Hugh Evans
Bobby Feeley
Carys Guy
Huw Hilditch-Roberts
Martyn Holland
Colin Hughes
Rhys Hughes
Hugh Irving
Alice Jones
Huw Jones
Pat Jones
Geraint Lloyd-Williams

Y Cyngorydd Ann Davies (Is-
Gadeirydd)

Jason McLellan
Barry Mellor
Win Mullen-James
Bob Murray
Peter Owen
Dewi Owens
Merfyn Parry
Paul Penlington
Pete Prendergast
Arwel Roberts
Anton Sampson
Gareth Sandilands
David Simmons
Barbara Smith
David Smith
Bill Tasker
Julian Thompson-Hill
Joe Welch
Cefyn Williams
Cheryl Williams
Eryl Williams
Huw Williams

COPIAU I'R:

Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Eitem Agenda 4

Digwyddiadau wedi eu mynychu gan y Cadeirydd / Events attended by Chairman

<u>Dyddiad/Date</u>	<u>Digwyddiad/Event</u>	<u>Lleoliad/Location</u>
20/11/15	Ymweliad Brenhinol Royal Visit (Is-gadeirydd yn bresennol/Vice-Chair attended)	Dinbych/Denbigh
24/11/15	Cyflwyniad Ysgoloriaeth Mynediad Prifysgol Bangor 2015 Bangor University Entrance Scholarship 2015 Presentation (Is-gadeirydd yn bresennol/Vice-Chair attended)	Bangor
26/11/15	Agor Parc Brickfields, y Rhyl Opening of Parc Brickfields, Rhyl (Is-gadeirydd yn bresennol/Vice-Chair attended)	Y Rhyl
03/12/15	Seremoni Torri'r Dywarchen yn Ysgol Glan Clwyd Turf Cutting Ceremony at Ysgol Glan Clwyd (Is-gadeirydd yn bresennol/Vice-Chair attended)	Llanelwy/St. Asaph
03/12/15	Diwrnod Agored Popeth Cymraeg a Lansiad y Dudalen Gwe newydd Popeth Cymraeg Open Day and Launch of New Web Page	Dinbych/Denbigh
04/12/15	Gwobrau Rhagoriaeth Sir Ddinbych Excellence Denbighshire Awards	Prestatyn
04/12/15	Derbyniad VIP ac Agor Canolfan Nova VIP Reception and Opening of the Nova Centre	Prestatyn
05/12/15	Hwyl Nadolig i'r Teulu ac Agor Canolfan Nova Family Festive Fun and Opening of the Nova Centre	Prestatyn
07/12/15	Ymweliad â Swyddfa Ddidoli Dinbych Visit to Denbigh Sorting Office	Dinbych/Denbigh
08/12/15	Gwasanaeth Carolau'r Cadeirydd, Eglwys y Santes Fair Chairman's Carol Service, St. Mary's Church	Dinbych/Denbigh
10/12/15	Sefydlu Canghellor Prifysgol Glyndwr, Trefor Jones a Chinio Dathlu ar gyfer Syr John Shortride Installation of Glyndwr University's Chancellor Designate Trefor Jones and Celebratory Dinner for Sir John Shortride	Wrecsam/Wrexham
12/12/15	Cyngerdd Gala – Noson o Gerddoriaeth a Chân Grand Gala Concert - Evening of Music and Song (Is-gadeirydd yn bresennol/Vice-Chair attended)	Y Rhyl
06/01/16	Swyddfeydd Partneriaeth Civica (Elwy) – Agoriad	Y Rhyl

Swyddogol
Civica Partnersip (Elwy) Offices – Official Opening

14/01/16	Ymweliadau Ysgolion Cynradd â Neuadd y Sir Primary School Visits to County Hall	Rhuthun/Ruthin
16/01/16	Cyngerdd Elusennol Maer Prestatyn a Gallt Melyd Mayor of Prestatyn and Meliden’s Charity Concert	Prestatyn

CYNGOR SIR

Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd yn SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN LL15 1YN, Dydd Mawrth, 1 Rhagfyr 2015 am 10.00 am.

YN BRESENNOL

Y Cyngorwyr Raymond Bartley, Brian Blakeley, Jeanette Chamberlain-Jones, Bill Cowie, Meirick Davies, Richard Davies, Stuart Davies, Peter Duffy, Peter Arnold Evans, Hugh Evans, Carys Guy, Huw Hilditch-Roberts, Martyn Holland, Colin Hughes, Rhys Hughes, Hugh Irving, Alice Jones, Huw Jones, Geraint Lloyd-Williams, Jason McLellan, Barry Mellor, Win Mullen-James, Bob Murray, Dewi Owens, Paul Penlington, Pete Prendergast, Arwel Roberts, Gareth Sandilands, Barbara Smith, David Smith, Bill Tasker, Julian Thompson-Hill, Cefyn Williams, Cheryl Williams a/ac Huw Williams

HEFYD YN BRESENNOL

Y Prif Weithredwr (MM), Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd (GQ), Pennaeth Dros Dro Cyllid ac Asedau (JG), Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (GB), Prif Swyddog Cyllid (RW), Rheolwr Cynllunio Datblygu a Pholisi (AL), Swyddog Arweiniol - Tai Cymunedol (GD) a Gweinyddwr y Pwyllgor (SLW)

Agorwyd y cyfarfod gan Bennaeth Gwasanaethau'r Gyfraith, AD a Democrataidd gydag eglurhad bod y Cadeirydd, y Cyngorydd Gwyneth Kensler, ar wyliau. Yn anffodus, nid oedd yr Is-gadeirydd, y Cyngorydd Ann Davies, yn gallu dod i'r cyfarfod gan ei bod yn sâl.

Cynigiodd y Cyngorydd Arwel Roberts y Cyngorydd Meirick Lloyd Davies yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod, a chafodd ei eilio gan y Cyngorydd Bill Cowie. Cynhaliwyd pleidlais drwy godi dwylo, a chytunwyd yn unfrydol y dylai'r Cyngorydd Meirick Lloyd Davies fod yn Gadeirydd ar gyfer cyfarfod y Cyngor Llawn.

Diolchodd y Cyngorydd Lloyd Davies i bawb am y ffrind o fod yn Gadeirydd a chroesawodd bawb i'r cyfarfod.

1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cyngorwr(wyr) Ian Armstrong, Joan Butterfield, Ann Davies, Bobby Feeley, Pat Jones, Gwyneth Kensler, Peter Owen, Merfyn Parry, Anton Sampson a/ac Joe Welch

2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Datganodd y Cyngorydd Meirick Lloyd Davies gysylltiad personol yn eitem 7, Strategaeth Dai Ddrafft Sir Ddinbych.

Datganodd y Cynghorydd Cheryl Williams gysylltiad personol yn eitem 7 - Strategaeth Dai Ddrafft Sir Ddinbych ac Eitem 8 – Polisi Tai Cymunedol.

3 MATERION BRYG FEL Y CYTUNWYD ARNYNT GAN Y CADEIRYDD

Dim Materion Bryg.

Yn y fan hon, talodd y Cynghorydd Huw Jones deyrnged i'r pump o bobl a oedd wedi colli eu bywydau yng Nghorwen yn ddiweddar. Anfonwyd meddyliau at deithiwr un o'r ceir a oedd yn hynod o sâl yn ysbyty Stoke hefyd. Cydymdeimlwyd â theuluoedd a chyfeillion yr holl bobl sy'n ymwneud â'r rhai a anafwyd ac a fu farw. Mynegodd y Cynghorydd Jones ei ddiolch i'r holl Gynghorwyr, Swyddogion ac aelodau'r cyhoedd o bob rhan o Gymru a oedd wedi anfon eu dymuniadau da i gymuned Corwen ar yr adeg eithriadol o drist hwn.

Mynegodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies, gydymdeimlad dwysaf y Cyngor i bawb a oedd yn rhan o'r digwyddiad a chafwyd munud o dawelwch fel teyrnged i'r rhai a oedd wedi colli eu bywydau.

Yn dilyn y munud o dawelwch, hysbyswyd yr aelodau bod y Cynghorydd Ian Armstrong yn sâl yn yr ysbyty ar hyn o bryd, a dymunwyd yn dda i'r Cynghorydd Armstrong a'i deulu.

4 DYDDIADUR Y CADEIRYDD

Roedd rhestr o ddigwyddiadau dinesig a fynychwyd gan y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd ar gyfer y cyfnod rhwng 15 Hydref 2015 a 13 Tachwedd 2015 wedi'i dosbarthu cyn y cyfarfod.

PENDERFYNWYD derbyn y rhestr o ymrwymadau dinesig a fynychwyd gan y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd.

5 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 7 Hydref 2015.

Tudalen 12 – Cyfeiriodd y Cynghorydd Alice Jones at y cais gan Brif Weithredwr Dros Dro BIPBC am unrhyw dystiolaeth o ofal gwael. Cadarnhawyd y byddai unrhyw wybodaeth am dystiolaeth yn cael ei rhoi naill ai i'r Prif Weithredwr neu i Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd, ac y byddent yn pasio'r wybodaeth ymlaen i'r Prif Weithredwr Dros Dro ar ei rhan.

Yna, gofynnodd y Cynghorydd Jones am gasgliad i'r cyfarfod ar 7 Hydref, 2015.

Eglurodd y Prif Weithredwr ei fod wedi crynhoi ar ddiwedd y cyfarfod fel a ganlyn:

- Cyfeirio'r mater o ofal sylfaenol ym Mhrestatyn at y Pwyllgor Craffu ym mis Chwefror 2015

- Pryder yr aelodau ynghylch Ysbyty Brenhinol Alexandra yn Y Rhyl. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr ei fod wedi mynychu cyfarfod gyda Phrif Weithredwr Dros Dro BIPBC a swyddogion, ac roedd wedi cael sicrwydd bod BIPBC yn ymrwymedig i adeiladu'r ysbyty yn Y Rhyl o hyd. Roedd y Bwrdd Iechyd yn ailystyried y posibilrwydd o ddarpariaeth ac wedi cytuno i gyfarfod eto â'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau cyn gwyliau'r Nadolig.
- Roedd yr Aelodau wedi cael gwybod am HASCAS (Gwasanaeth Ymgynghori Iechyd a Gofal Cymdeithasol) ac yn disgwyl am adroddiad gan y Gwasanaeth yn gynnar yn 2016. Byddai'r Prif Weithredwr yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf gan Brif Weithredwr Dros Dro BIPBC yn y cyfarfod cyn y Nadolig.
 - Byddai'r wybodaeth yn cael ei rhannu gyda Grŵp Aelodau Ardal y Rhyl ac yna ei chyflwyno mewn Pwyllgor Craffu. Gofynnodd y Cynghorydd Alice Jones i'r wybodaeth gael ei rhannu gyda holl Grwpiau Ardal yr Aelodau. Cadarnhaodd y Cadeirydd y caiff yr wybodaeth ei rhoi i holl Grwpiau Ardal yr Aelodau.

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 20 Hydref 2015.

PENDERFYNWYD yn amodol ar yr uchod, cadarnhau cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 7 Medi 2015 a 20 Hydref 2015 fel cofnod cywir a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi.

6 CYLLIDEB 2016/17 – NEWYDDION DIWEDDARAF

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol dros Gyllid ac Asedau, y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, adroddiad y gyllideb ar gyfer 2016/2017 (a ddosbarthwyd yn flaenorol).

Nododd yr adroddiad y sefyllfa ddiweddaraf o ran darparu cyllideb referniw 2016/2017 a thynnodd sylw at y mesurau sy'n cael eu cymryd yn rhan o Gam 5 y broses gyllideb dwy flynedd bresennol. Tynnodd yr adroddiad sylw hefyd at y buddsoddiad y gwnaeth y cyngor mewn seilwaith allweddol a gwelliannau ledled y sir dros gyfnod parhaus o ostyngiadau mewn cyllid. Roedd yr adroddiad hefyd yn amlinellu sut roedd strategaeth cyllideb y cyngor wedi diogelu gwasanaethau allweddol tra'n rheoli sefyllfa ariannol heriol.

Roedd Llywodraeth Cymru i fod i gyhoeddi ei gyllideb ar 8 Rhagfyr gyda Setliad Dros Dro Llywodraeth Leol yn dilyn ar 9 Rhagfyr. Byddai hyn yn gwneud y sefyllfa ariannu ar gyfer 2016/17 yn fwy eglur. Byddai cyhoeddi Setliad Dros Dro yn cynnwys prif ffigur, ond efallai na chaiff effaith newidiadau i ffrydiau cyllid grant referniw eu cyhoeddi ar yr un pryd.

Byddai cyhoeddi Setliad Llywodraeth Leol yn hwyr yn golygu efallai y bydd angen addasu amserlen y gyllideb. Roedd yn rhaid i'r Cyngor bennu ei gyllideb mewn pryd er mwyn caniatáu ar gyfer cynhyrchu a dosbarthu biliau Treth y Cyngor ym mis Mawrth 2016. Yn dibynnu ar lefel y Setliad Dros Dro, roedd yn debygol y gall fod angen cyfarfod ychwanegol o'r Cyngor Llawn i gwblhau'r gyllideb ym mis Chwefror 2016.

O ystyried lefel o ansicrwydd ynghylch y setliad refeniw, canolbwyntiodd gweithdai cyllideb diweddar i aelodau ar ystod o gynigion y bydd angen eu gweithredu efallai yn 2016/2017. Er mwyn cynnal momentwm a chyfyngu ar risgiau ar ddiwedd y broses, fe eglurwyd y byddai set o fesurau yn cael eu cyflwyno i'r cyngor er gwybodaeth ym mis Rhagfyr er mwyn gallu nodi effaith y gyllideb.

Ni fu cyfeiriad clir ynghylch a fyddai cyfarwydddebau i ddiogelu ysgolion a chyllidebau eraill. Ers 2011 bu addewid gweinidogol i amddiffyn cyllidebau ysgolion yng Nghymru. Er mwyn cydymffurfio â'r addewid i 'amddiffyn' cyllidebau ysgolion, dylai'r cyngor fod wedi cynyddu'r cyllid i ysgolion o £3.4m dros y pedair blynedd diwethaf. Yn wir, roedd cyllid ysgolion yn Sir Ddinbych wedi cynyddu o £6.3m.

Cafwyd trafodaeth bellach a chodwyd y pwyntiau canlynol:

- Roedd y Pwyllgor Craffu wedi codi mater adolygiad a chyllid Ysgol Rhuthun ynghylch dwy ysgol newydd a oedd i'w hadeiladu. Yr hyn a ddaeth i'r amlwg yn ddiweddar oedd bod dogfen newydd wedi ei pharatoi ar gyfer Llywodraeth Cymru a oedd yn awgrymu y dylai'r holl gynlluniau (Ysgol y 21^{ain} Ganrif, Adolygiad Rhuthun, ac Ysgol Ffydd) yn cael eu cynnwys fel un pecyn. Byddai'r cynllun yn cael ei ariannu 50% gan Gyngor Sir Ddinbych a 50% gan Lywodraeth Cymru. Disgwylir cael ychwanegiad o £6m gan Lywodraeth Cymru tuag at y pecyn. Cadarnhaodd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Cymunedau ei fod wedi ysgrifennu at Aelodau'r Cynulliad ynglŷn â materion ysgol.
- Cytundeb Menter Cyllid Preifat – cafwyd llongyfarchiadau yn dilyn terfynu'r Cytundeb Menter Cyllid Preifat. Disgwyliwyd camau cadarnhaol ar gyfer dyfodol yr adeiladau.
- Gwnaethpwyd cais am gyflwyniad cliriach o'r ffigurau i gynnwys manylion am ddadansoddiad, benthyca a ffigurau pellach ar gyfer cronfeydd wrth gefn. Cytunodd yr holl aelodau i'r cais am gynllun mwy manwl.
- Byddai'r setliad ar gyfer cyllideb 2016/2017 gan Lywodraeth Cymru ar gyfer un flwyddyn yn unig. Cafwyd sicrwydd bod disgwyl setliadau tair blynedd yn ar ôl y flwyddyn honno.

PENDERFYNWYD bod Aelodau'r Cyngor: -

- (i) yn nodi'r cynnydd a wnaed wrth gyflwyno cyllideb 2016/2017 a'r camau arfaethedig i gwblhau'r broses.*
- (ii) nodi nad yw'r rhan fwyaf o arbedion a wnaed hyd yn hyn yn y broses gyllideb ddwy flynedd wedi gosod toriadau i wasanaethau neu gynnydd mewn costau*
- (iii) nodi bod y buddsoddiad cyfalaf o bron i £200 miliwn ar brosiectau a gwblhawyd ac a gynlluniwyd ar draws y sir o 2012 yn ymestyn i 2019.*

7 DRAFFT O STRATEGAETH TAI SIR DDINBYCH

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol dros Foderneiddio a Thai, y Cynghorydd Barbara Smith, yr Adroddiad Drafft ar Strategaeth Dai Sir Ddinbych (a ddosbarthwyd yn

flaenorol) i geisio cymeradwyaeth yr Aelodau i fabwysiadu'r Strategaeth Dai Ddrafft a chymeradwyo'r Cynllun Gweithredu cyfatebol.

Ar y pwynt hwn, diolchodd yr Aelod Arweiniol i bawb a oedd wedi gweithio ar y Strategaeth Dai Ddrafft, gan gynnwys Angela Loftus a'i Thîm, ynghyd ag Aelodau'r Grwpiau Tasg a Gorffen.

Roedd cynnwys y Strategaeth Dai a'r Cynllun Gweithredu Ddrafft yn cynrychioli uchafbwynt yr ymgynghoriad â phartneriaid, gwaith gyda swyddogion ar draws y Cyngor a mewnbwn gan Aelodau.

Roedd mynediad at dai o ansawdd da yn flaenoriaeth gorfforaethol allweddol a byddai datblygu Strategaeth Dai glir a chadarn yn darparu'r fframwaith ar gyfer holl swyddogaethau perthnasol y Cyngor i fynd i'r afael â'r flaenoriaeth yn llwyddiannus. Bwriad y Strategaeth Dai oedd darparu datganiad clir o weledigaeth a nodau'r Cyngor ar gyfer tai yn y Sir am y pum mlynedd nesaf.

Roedd y weledigaeth strategol fel a ganlyn: -

“Mae pawb yn cael ei gefnogi gyda balchder i fyw mewn cartrefi sy'n diwallu eu hanghenion, o fewn y cymunedau bywiog a chynaliadwy y mae'n uchelgais gan Sir Ddinbych eu creu.”

O fewn y Strategaeth, i sicrhau cysondeb, roedd saith egwyddor lleol: -

- Cefnogi'r Economi Lleol – drwy adeiladu tai ac adfywio
- Lleihau anghydraddoldebau – drwy geisio sicrhau bod cartrefi priodol ar gael i bawb a bod pobl fregus yn cael eu cefnogi
- Ymgysylltu a chynnwys – gyda phartneriaid i helpu i ddarparu cartrefi priodol ar y cyd a gweithio gyda thrigolion i adfywio eu cymdogaethau
- Cynaliadwyedd - cefnogi marchnad dai gynaliadwy a sicrhau cymunedau cynaliadwy
- Yr iaith Gymraeg a diwylliant – ystyried datblygiadau newydd, a'u hybu
- Monitro ac adolygu – paratoir adolygiad blynyddol i amlinellu cynnydd ac unrhyw newidiadau i gamau y cytunwyd arnynt
- Canolbwyntio ar ganlyniadau – bydd y strategaeth yn canolbwyntio ar ddarparu'r canlyniadau a nodwyd.

Bu i'r Strategaeth nodi pum "thema" a oedd yn feysydd blaenoriaeth i'w rhoi ar waith, ac roedd y rhain yn ffurfio craidd y Strategaeth. Y pum thema oedd: -

- Mwy o gartrefi i ddiwallu'r angen a'r galw lleol
- Creu cyflenwad o gartrefi fforddiadwy
- Sicrhau cartrefi diogel ac iach
- Cartrefi a chymorth i bobl ddiamddiffyn, a
- Hyrwyddo a chefnogi cymunedau

Cafwyd trafodaeth ddwys a chodwyd y pwyntiau canlynol:-

- Pa mor gyraeddadwy yw dyddiadau targed. Roedd rhai o'r camau eisoes ar y gweill ac roedd rhai bron wedi'u cyflawni. Roedd y camau i'w hadolygu a byddai sylw'n cael eu rhoi iddynt pe bai posibilrwydd i'r llinell amser lithro.

- Roedd nifer o gamau gweithredu o dan Thema 2 - Tai Fforddiadwy. Roedd swyddogion yn sôn am dai cyngor a thai cymdeithasol i gyd yn cael eu grwpio gyda'i gilydd. Roedd yr Aelodau Arweiniol i fod yn gyfrifol am y Cynllun Gweithredu a byddai'n cael ei ddwyn i gyfrif. Awgrymwyd y dylai unrhyw faterion nad oedd yn cael eu cyflwyno gan unrhyw Aelod yn cael eu rhoi gerbron Pwyllgor Craffu.
- O ran Cam Gweithredu 2.10, gofynnodd y Cynghorydd Jason McLellan bod "cynllun busnes yn cael ei ddatblygu er mwyn sicrhau bod mwy o dai Cyngor yn cael eu darparu" – bydd yr wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei rhoi i'r Cyngor ym mis Ebrill 2016.
- Hyrwyddo iaith a diwylliant Cymru – os bydd unrhyw gais dros faint penodol, byddai'n ofynnol i'r datblygwr gyflwyno Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg. Byddai'r Strategaeth Dai Ddrafft ei hun, unwaith y bydd wedi'i chymeradwyo, yn cael ei chyfieithu a'i chyhoeddi yn y Gymraeg hefyd.
- Y niferoedd presennol ar y rhestr aros am dai oedd: -
 - 1915 o geisiadau cyffredinol
 - 264 o geisiadau trosglwyddo
 - 28 yn ddigartref
- Cartrefi Gwag - Datblygu Cynllun Cyflawni Tai Gwag y Cyngor, ymchwilio mecanweithiau arloesol ar gyfer dod â chartrefi gwag yn ôl i ddefnydd a gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu mentrau newydd. Roedd y perfformiad yn eithaf da o ran gweithio ar gartrefi gwag.
- Roedd gan 24% o'r boblogaeth salwch neu anabledd a oedd yn cyfyngu ar weithgarwch ac, oherwydd hyn, byddai'r math o dai a fyddai ar gael yn hanfodol
- Cafodd 176 o eiddo eu hadeiladu rhwng 2014/2015 a oedd 17 yn fwy na 2013/2014
- Roedd gan y Cyngor ddyletswydd i gynnal a chyflwyno Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr cyn mis Chwefror 2016. Roedd hyn yn ofyniad statudol a byddai'n darparu gwybodaeth gyfredol am anghenion llety sipsiwn a theithwyr yn Sir Ddinbych.
- Yn ystod y deng mlynedd diwethaf, roedd ychydig o dan 500 o gartrefi wedi'u darparu yn Sir Ddinbych.

Mynegwyd diolch gan Aelodau i'r Aelodau Arweiniol a'r Swyddogion am eu holl waith ar y Strategaeth Dai Ddrafft.

PENDERFYNWYD yn amodol ar yr uchod, bod y Cyngor yn mabwysiadu Strategaeth Dai Sir Ddinbych ynghyd â Chynllun Gweithredu drafft cysylltiedig.

8 POLISI TAI CYMUNEDOL - DIWEDDARIADAU AR GYFER CYMERADWYO

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol dros Foderneiddio a Thai, y Cynghorydd Barbara Smith, yr adroddiad ar Bolisi Tai Cymunedol (a ddisbarthwyd eisoes) i geisio cymeradwyaeth yr Aelodau i adolygu'r polisïau canlynol:

- (i) Polisi Dyraniadau
- (ii) Polisi Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, a
- (iii) Polisi Tenantiaeth Rhagarweiniol.

Polisi Dyraniadau

Roedd y polisi Dyraniadau angen ei adolygu a'i ddiweddarau i adlewyrchu deddfwriaeth newydd a chod ymarfer newydd a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru.

Er bod y polisiau a ddiweddarwyd yn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol, bu i'r Cabinet gymeradwyo mabwysiadu SARTH (Un Llwybr Mynediad at Dai) ar 14 Ionawr, 2014, a oedd yn cynnwys symud oddi wrth y system dyrannu pwyntiau presennol at system "bandio" angen am dai. Roedd y polisi hwn felly yn fesur dros dro i sicrhau cydymffurfiaeth â'r rhwymedigaethau cyfreithiol hyd nes y gweithredir SARTH yn Sir Ddinbych.

Polisi Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

Roedd y polisi hwn wedi cael ei ddiweddarau i adlewyrchu cyflwyno'r Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a Phlisma 2014. Nid oedd unrhyw newidiadau sylfaenol i ddelio ag ymddygiad niwsans, fodd bynnag roedd atebion cyfreithiol cyffredin fel y Gorchymyn ymddygiad gwrthgymdeithasol (ASBO) wedi'u disodli. Cafodd y polisi ei ddiweddarau i adlewyrchu'r newidiadau a gellid ystyried yr holl bwerau fel rhan o'r gweithgareddau gorfodi.

Polisi Tenantiaeth Rhagarweiniol

Roedd y Polisi Tenantiaeth Rhagarweiniol wedi cael ei ysgrifennu gyda chymorth Cyfreithwyr Whiteheads er mwyn gwella eglurder y Polisi a'r weithdrefn gyfredol; tra'n sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth.

PENDERFYNWYD bod y Cyngor yn cymeradwyo'r polisiau canlynol:

- (i) Polisi Dyraniadau
- (ii) Polisi Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, a
- (iii) Polisi Tenantiaeth Rhagarweiniol.

9 IS-DDEDDFAU CERBYDAU HACNI DIWYGIEDIG ARFAETHEDIG

Cyflwynodd Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus, y Cynghorydd David Smith, yr adroddiad Diwygiedig Arfaethedig ar Is-ddeddfau Cerbydau Hacni (a ddosbarthwyd yn flaenorol) ar gyfer cymeradwyaeth yr Aelodau.

Y rheswm am yr adroddiad oedd ceisio mabwysiadu is-ddeddfau diwygiedig a chyfredol i sicrhau dull teg, tryloyw a chyson wrth benderfynu ar unrhyw faterion gorfodi cerbyd hacni.

Y rheswm dros ddod â'r adroddiad i'r Cyngor Llawn oedd bod gwneud is-ddeddfau o dan a68 o Ddeddf Cymalau Heddlu Tref 1847 yn swyddogaeth y Cyngor (yn hytrach na swyddogaeth Weithredol) o dan y Rheoliadau Trefniadau Gweithrediaeth Awdurdodau Lleol (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2007.

PENDERFYNWYD:-

- (i) *Bod aelodau wedi cytuno i fabwysiadu Is-ddeddfau Enghreifftiol yr Adran Drafnidiaeth, fel y nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad hwn.*
- (ii) *Cytuno i ganiatáu i Swyddogion anfon yr Is-ddeddfau Enghreifftiol i Lywodraeth Cynulliad Cymru i'w cadarnhau.*

10 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CYNGOR SIR

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd Raglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor (dosbarthwyd eisoes).

Mis Ionawr 2016 - ad-drefnu Llywodraeth Leol - gofynnwyd am hyn gan y Cynghorydd Jason McLellan.

Mis Ebrill 2016 - Ychwanegu adroddiad pellach ar elfen o strategaeth dai fel y cytunwyd yn gynharach yn y cyfarfod. Datblygu cynllun busnes er mwyn sicrhau bod mwy o dai cyngor yn cael eu darparu - gofynnwyd am hyn gan y Cynghorydd Jason McLellan.

PENDERFYNWYD yn amodol ar yr uchod y dylid cymeradwyo a nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.30 pm.

Adroddiad i'r: Cyngor Sir

Dyddiad y Cyfarfod: 26 Ionawr 2016

Aelod/Swyddog Arweiniol: Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill /
Richard Weigh

Awdur yr Adroddiad: Richard Weigh, Prif Swyddog Cyllid

Teitl: Cyllideb 2016/17 (Cynigion Terfynol - Cam 6)

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn nodi goblygiadau Setliad Dros Dro Llywodraeth Leol 2016/17 a chynigion i gwblhau'r gyllideb ar gyfer 2016/17.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i'r Cyngor bennu cyllideb gytbwys a chyflawnadwy cyn dechrau pob blwyddyn ariannol ac i osod lefel sy'n deillio o Dreth y Cyngor i ganiatáu i filiau gael eu hanfon at breswylwyr.

Darparu trosolwg o broses y gyllideb ac effaith Setliad Dros Dro Llywodraeth Leol a gwneud argymhellion i osod y gyllideb ar gyfer 2016/17, gan gynnwys lefel Treth y Cyngor.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Nodi effaith Setliad Dros Dro Llywodraeth Leol ac nad oes angen unrhyw arbedion pellach yn dilyn y £5.2 miliwn a gymeradwywyd eisoes gan wasanaethau ar gyfer 2016/17.

Bod y cyngor yn cymeradwyo'r cynigion ar gyfer y gyllideb isod, yn seiliedig ar Setliad Drafft Llywodraeth Leol er mwyn cwblhau cyllideb 2016/17:

1. I gynyddu cyllid i ysgolion i fodloni'r lefel ddiogelu genedlaethol o +1.85%.
2. I neilltuo arian wrth gefn am flwyddyn o £480 mil ar gyfer cyflawni'r gyllideb er mwyn lleihau'r risg i gyflawni'r gyllideb yn yr adroddiad hwn
3. I gymeradwyo'r cynnydd cyfartalog o ganlyniad yn Nhreth y Cyngor o 1.5%.

4. Manylion yr Adroddiad

Roedd Setliad Llywodraeth Leol ar gyfer 2015/16 yn golygu gostyngiad yng nghyllideb y cyngor o 3.6%, a oedd yn cyfateb i £5.3m. Arwyddion oedd y byddai'r Setliad ar gyfer 2016/17 yn waeth ac yn unol â hynny, roedd y cyngor wedi cynllunio ar gyfer gostyngiad o -4% (sy'n cyfateb i ostyngiad o tua £5.6

miliwn). Gyda phwysau cost chwyddiant mae'n rhaid i'r cyngor ariannu a chaniatáu ar gyfer amcangyfrif o ddiogelwch cyllideb ar gyfer ysgolion, roedd y bwlch yn y gyllideb ar gyfer 2016/17 wedi ei gyfrifo yn £8.0 miliwn.

Tra'n ymdrin â gostyngiad yn y gyllideb a chwyddiant, gosododd y cyngor flaenoriaethau i warchod a buddsoddi mewn gwasanaethau pwysig megis ysgolion, gofal cymdeithasol a'r ffyrdd ac mae wedi parhau i wneud hyn drwy gydol y broses gyllideb.

Cafodd cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ac felly'r Setliad Dros Dro i lywodraeth leol eu cyhoeddi'n hwyrach na'r arfer eleni o ganlyniad i amseriad Adolygiad Gwariant yr Hydref Llywodraeth y DU. Roedd cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ar 8 Rhagfyr yn dangos twf mewn termau arian parod o £15.6bn i £15.9bn, sef cynnydd o £351miliwn, neu gyfanswm o 2.3%. Mae bron i ddwy ran o dair o'r cynnydd o £230miliwn (15.8% o gynnydd) yn berthnasol i gyllidebau cyfalaf a £121miliwn (0.85%) i refeniw. Roedd y gyllideb yn darparu £278 miliwn ychwanegol i'r GIG, gan gynnwys cynnydd o £30 miliwn i'r Gronfa Gofal Canolraddol, a ddylai gynnwys buddion ar gyfer llywodraeth leol.

Ers 2011 bu addewid gweinidogol i 'amddiffyn' cyllidebau ysgolion. Y mecanwaith ar gyfer hyn oedd awgrymu bod awdurdodau lleol yn cynyddu cyllidebau ysgolion 1% yn fwy na'r 'grant bloc' refeniw i Gymru. Mae'r cyllid refeniw i Gymru wedi cynyddu o 0.85% ac felly i gydymffurfio â'r polisi diogelu angenrheidiol, byddai angen i'r Cyngor gynyddu cyllidebau ysgolion 1.85% mewn cyfanswm. Mae'r lefel hon o amddiffyniad dwbl yr hyn a dybiwyd (a oedd yn seiliedig ar ffigur y llynedd) ac yn arwain at gynnydd ariannol i ysgolion, cyn addasu ar gyfer nifer y disgyblion, o £1.173miliwn. Bydd y buddsoddiad ychwanegol hwn yn helpu i gynnal ymrwymiad ariannol parhaus Sir Ddinbych i ysgolion. Ar sail fesul disgybl yn 2015/16, mae cyfanswm gwariant y cyngor ar ysgolion yr ail uchaf yng Nghymru a bron 10% yn uwch na chyfartaledd Cymru.

Roedd y Setliad a gyhoeddwyd ar 9 Rhagfyr yn llawer gwell na'r disgwyl gyda gostyngiad arian parod cyffredinol i lywodraeth leol o -1.4% a gostyngiad i Sir Ddinbych o -1.2%. Roedd yr ystod o ostyngiadau ar draws cyngorau Cymru yn amrywio o -0.1% (Caerdydd) i -4.1% (Powys) gyda'r effaith yn gyffredinol yn waeth i siroedd gwledig. Mae mecanweithiau ariannu gwaelodol blaenorol wedi cael eu tynnu o'r Setliad a dyna pam mae'r ystod yn gymharol eang.

Mae tua thri chwarter o gyllid net y cyngor yn dod drwy'r Setliad felly mae effaith y newidiadau canrannol bach bob amser yn sylweddol. Mae setliad ariannol y cyngor o -1.2% yn golygu bod y gostyngiad yn y prif gyllid £3.9miliwn yn llai na'r disgwyl gyda -4% o ostyngiad.

Mae'r broses i nodi'r arbedion sydd eu hangen i gyflawni'r cyllidebau dros y ddwy flynedd a elwir yn Rhyddid a Hyblygrwydd ac wedi nodi arbedion o £7.7miliwn yn 2015/16 a £5.2miliwn yn 2016/17. Mae wedi cynnwys adolygiad o bob gwasanaeth a gweithgaredd a dadansoddiad o gyllideb refeniw'r Cyngor. Roedd y broses yn ymgorffori cyfres o weithdai cyllideb gydag aelodau etholedig pan gafodd cyllideb refeniw cyfan y cyngor ei gyflwyno ar sail llinell

wrth linell, ynghyd â chynigion i wneud arbedion o bob gwasanaeth. Mae'r broses wedi cyflwyno un ar bymtheg o weithdai cyllideb gyda'r aelodau gyda'r sesiwn olaf yn cael ei gynnal ar 14 Rhagfyr.

Mae'r broses Rhyddid a Hyblygrwydd yn dod i ben gyda gosod cyllideb 2016/17 a bydd proses cyllideb newydd yn cael ei ddatblygu ar gyfer 2017/18.

Ym mis Rhagfyr, roedd adroddiad i'r cyngor llawn yn nodi'r sefyllfa a rhagdybiaethau cyllideb diweddaraf, a oedd yn dangos bwch cyllidebol sy'n weddill o £2miliwn. Mae'r bwch hwn wedi ei gyfrifo gyda nifer o ragdybiaethau sydd wedi newid o ganlyniad i'r Setliad Amodol. Mae Atodiad 1 yn amlinellu'r rhain yn fanwl, ond mae crynodeb yn cael ei ddangos yn y tabl isod. Cafodd y rhain eu hegluro mewn manylder yn y gweithdy cyllideb gydag aelodau ar 14 Rhagfyr:

	Cyn Setliad	Ar ôl setliad	Effaith '000
Cyllid			
Setliad	-4%	-1.20%	£3,884
Treth y Cyngor	2.75%	1.50%	-£551
Cyfanswm			£3,333
Bwlch presennol yn y gyllideb	£2,000	0	£2,000
Gwarchod Ysgolion Ychwanegol	0	£1,173	£1,173
Gostyngiad mewn Demograffeg			
Disgyblion	-£320	0	-£320
Cyfanswm			£2,853
Sefyllfa Ariannu			£480

Mae'r newidiadau i werth y Setliad yn caniatáu ar gyfer cynnig i ostwng lefel y cynnydd arfaethedig yn Nhref y Cyngor o 2.75% i gyfartaledd o 1.5%. Bydd hyn yn lleihau cyllid y cyngor £551 mil, ond bydd yn golygu bod rhai o fanteision y Setliad yn cael eu trosglwyddo yn uniongyrchol i Dalwyr Treth y Cyngor. Er gwaethaf sawl blwyddyn o gynnydd isel, mae Treth y Cyngor Sir Ddinbych yn gymharol uchel o gymharu ag eraill yng Nghymru a bydd y cynnydd lefel is arfaethedig yn helpu i unioni'r sefyllfa hon. Mae effaith y cynnig i gynyddu Treth y Cyngor 1.5% yn cael ei nodi'n fanwl yn Atodiad 2 ac mae sefyllfa gymharol y cyngor yn 2015/16 yn cael ei ddangos yn Atodiad 3. Yn y gweithdy cyllideb ym mis Rhagfyr, roedd consensws ymhlith yr aelodau na ddylai lefel y cynnydd yn Nhref y Cyngor fod yn llai na 1.5%.

Nid yw'r cynigion a nodir uchod yn gofyn am arbedion pellach gan wasanaethau yn 2016/17. Mae arbedion o £5.2m eisoes wedi eu nodi mewn cyfnodau blaenorol o'r broses dwy flynedd.

Mae gosod y tybiaethau uchod yn arwain at sefyllfa gyllido gadarnhaol o £480 mil. Fodd bynnag, mae'n rhaid ystyried hyn yng nghyd-destun y tebygolrwydd o

ostyngiadau pellach yn y dyfodol. Mae'r Setliad ar gyfer 2016/17 yn well na'r disgwyl, ond mae'n setliad blwyddyn heb unrhyw arwyddion am y blynyddoedd i ddod. Y gobaith yw ar ôl etholiadau Llywodraeth Cymru ym mis Mai, bydd setliadau aml-flwyddyn dibynadwy yn cael eu darparu, ond tan hynny, nid oes canllawiau cynllunio cadarn. Mae Atodiad 1 yn dangos bod cyllidebau ar gyfer y blynyddoedd i ddod (gan dybio lleihad o 3% a Threth y Cyngor o 2.75%) â bylchau o bron £6 miliwn bob blwyddyn. Hyd yn oed os bydd y gyllideb yn 'arian parod gwastad' yn 17/18, byddai angen ariannu pwysau o dros £3miliwn. Felly, ni ddylai'r cyngor ymrwymo'r cyllid sydd ar gael yn 2016/17 i unrhyw gynigion tymor hir y byddai'n rhaid eu torri yn 2017/18. Mae'r tabl isod yn crynhoi'r sefyllfa:

	2016/17 £'000	2017/18 £'000	2018/19 £'000
<u>CYLLID</u>			
Cyfanswm Cyllid	185,056	182,104	179,312
<u>GWARIANT</u>			
Cyllideb Sylfaenol wedi'i ddwyn ymlaen:	184,756	184,576	187,939
PWYSAU			
Chwyddiant (ac eithrio Ysgolion)			
Gwarchod Ysgolion	2,899	1,969	1,969
Buddsoddi mewn Blaenoriaethau	1,173	1,194	1,217
Trosglwyddo i mewn/allan o Setliad	250	200	
	1,036		
ARBEDION/ADDASIADAU:			
Cam 1 – 5	(5,218)		
Addasiad Demograffeg Ysgol Net	(320)		
Cyfanswm Gwariant	184,576	187,939	191,125
Diffyg Gwariant/(Ar gael)	(480)	5,835	11,813

Mae yna hefyd nifer o risgiau sy'n weddill o fewn y Setliad presennol. Mae'r rhain yn cynnwys nifer o grantiau refeniw sydd heb eu cadarnhau eto ac y gallai fod cyfarwyddyd pellach i 'warchod' gofal cymdeithasol yn ariannol ond nid yw hyn wedi cael ei ddiffinio hyd yma. Yn bwysicaf oll, fodd bynnag, mae pob cyngor yn gorfod pennu cyllidebau a Threth y Cyngor yn seiliedig ar setliad dros dro. Tra mae darpariaeth gyfreithiol i ganiatáu hyn, mae perygl, os, er enghraifft, bod ffrydiau grant refeniw yn cael eu trosglwyddo i'r Grant Cynnal Refeniw rhwng y setliadau dros dro a therfynol, gallai fod yna addasiad ariannol i'r setliad terfynol ac felly mae'n ddoeth cael byffer i allu amsugno hyn heb effeithio ar y sylfaen treth. Gall trafodaethau cenedlaethol parhaus am yr amrediad o werthoedd setliad rhwng cynghorau hefyd effeithio ar y sefyllfa derfynol. Ni fydd Setliad Terfynol Llywodraeth Leol yn cael ei gyhoeddi o flaen y Senedd tan 2 Mawrth 2016 ac ni fydd cyllideb derfynol Llywodraeth Cymru yn mynd gerbron y Senedd tan 8 Mawrth. Byddai newidiadau i'r sylfaen dreth ar y cam hwn yn risg yn y gofyniad i osod Treth y Cyngor cyn y dyddiad gofynnol ar 11 Mawrth.

Mae hefyd yn ddoeth, o ystyried lefel yr arbedion a wnaed dros y blynyddoedd diwethaf i gael cynllun ariannol wrth gefn yn erbyn peidio â chyflawni neu lithro wrth gyflawni arbedion y cytunwyd arnynt yn barod. Er bod hanes y cyngor yn ardderchog o ran darparu arbedion, efallai y bydd rhai o'r eitemau a gytunwyd ar gyfer 16/17 yn gofyn am fwy o amser i'w cyflawni.

Felly, argymhellir bod adnoddau dros ben yn ystod y flwyddyn yn cael eu neilltuo fel arian at raid cyflenwi'r gyllideb ar gyfer 2016/17. Gall hyn gael ei adolygu yn ystod 2016/17 a'r penderfyniadau a wneir ynghylch y defnydd gorau o unrhyw adnoddau sy'n weddill os yw'r risgiau cyllidebol yn cael eu symud. Yna dylai'r arian wrth gefn gael ei ryddhau fel rhan o'r arbedion angenrheidiol ar gyfer 2017/18 ac felly ni ddylid ei ymrwymo i gyllido unrhyw wariant refeniw parhaus.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae rheolaeth effeithiol o gyllideb y cyngor a chyflawni'r strategaeth gyllidebol a gytunwyd yn sylfaen i weithgareddau ym mhob maes, gan gynnwys blaenoriaethau corfforaethol.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Nid oes angen unrhyw arbedion pellach gan wasanaethau o ganlyniad i'r cynigion hyn. Mae'r cynigion yn cynnwys cyllid net ychwanegol ar gyfer ysgolion o £853 mil.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad?

Mae AEC wedi'i gwblhau ar gyfer pob cynnig perthnasol.

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?

Mae adroddiadau blaenorol wedi rhoi sylw manwl i'r broses ymgynghori sylweddol a gynhaliwyd i gyflwyno cyllidebau 2015/16 a 2016/17, gan gynnwys gweithdai, pwyllgorau archwilio, y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, grwpiau tasg a gorffen, Cyd Bwyllgor Ymgynghorol ac ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd y llynedd. Roedd yr ymarfer ymgysylltu a gwblhawyd y llynedd, o'r enw 'Torri'r Brethyn' yn cynnwys cynigion ar gyfer y ddwy flynedd ariannol a chafwyd 822 o ymatebion a dros 5,179 o ymweliadau â'r wefan. Cafodd yr adroddiad manwl o ymatebion i'r ymarfer ymgysylltu ei gyflwyno i'r cyngor y llynedd ac mae ar gael ar y system Modern.gov. Fe sefydlwyd grŵp tasg a gorffen aelodau i asesu effaith cynigion arbedion sydd wedi eu rhoi ar waith fel rhan o'r broses gyllideb hon. Ers cwblhau'r ail gam o broses y gyllideb dwy flynedd, mae cynigion i fynd i'r afael â'r bwlch yn y gyllideb wedi canolbwyntio ar fesurau effeithlonrwydd ac nid mesurau a fyddai'n cael effaith ar y cyhoedd, ac felly ni fyddai ymgysylltu pellach ar gynigion o'r fath yn werth chweil. Ar 12 Ionawr 2016, penderfynodd cabinet y cyngor i gefnogi'r argymhellion yn yr adroddiad hwn sy'n dod i'r cyngor llawn i'w gymeradwyo.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno cam olaf y broses gyllidebol Rhyddid a Hyblygrwydd dwy flynedd fydd wedi cyflawni'r hyn y mae'n bwriadu ei wneud yn llwyddiannus - cyflwyno dwy gyllideb. Mae wedi bod yn broses anodd ar adegau ac mae rhai penderfyniadau anodd wedi gorfod cael eu gwneud. Fodd bynnag, mae'r mwyafrif helaeth o arbedion - dros 80% - wedi bod yn arbedion effeithlonrwydd neu foderneiddio, ac felly nid yw'r effaith ar wasanaethau i'r cyhoedd wedi bod yn sylweddol.

Nod proses y gyllideb yw sicrhau bod y cyngor yn cyflwyno cyllideb gytbwys. Mae'r ansicrwydd dros lefel y setliadau ariannol yn y blynyddoedd diwethaf wedi gwneud cynllunio ariannol o dan amgylchiadau sydd eisoes yn anodd hyd yn oed yn fwy heriol. Er bod y setliad refereniw ar gyfer 2016/17 yn well na'r hyn yr oedd y cyngor wedi cael ei arwain i gredu y byddai ac mae hyn yn amlwg yn cael ei groesawu, erys diffyg unrhyw arwyddion cynllunio ariannol ystyrlon ar gyfer y dyfodol. Y gobaith yw mynd i'r afael â hyn yn dilyn etholiadau Mai 2016 gan fod yr ansicrwydd ac amrywiadau o flwyddyn i flwyddyn sydd wedi bod yn norm ers 2013 yn peri risg sylweddol i gyflwyno cyllidebau yn y dyfodol.

Er nad yw'r union lefelau yn hysbys, mae'n debygol y bydd gostyngiadau cyllid i awdurdodau lleol yng Nghymru yn parhau yn y tymor canolig ac er y bydd y cyngor bob amser yn ymdrechu i fod yn fwy effeithlon er mwyn arbed arian, efallai na fydd hyn ynddo'i hun yn ddigonol yn y dyfodol. Bydd penderfyniadau cyllideb yn rhai caletach ac mae'n debyg y bydd angen rhagor o amser i'w cyflawni.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Mae proses y gyllideb ynddi ei hun yn fesur ar gyfer rheoli risg, gyda'r nod o ddynodi, o asesu ac o gytuno ar gynigion y gyllideb mewn modd cynlluniedig ac amserol. Mae rheoli risg proses y gyllideb yn ystyriaeth allweddol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol o dan Adran 151, Deddf Llywodraeth Leol 1972 wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu eu materion ariannol yn briodol.


Appendix 1

	at 1st Dec £'000	2016/17 £'000	2017/18 £'000	2018/19 £'000
FUNDING				
Revenue Support Grant & NNDR (RSG)	134,533	139,602	135,414	131,352
Council Tax	45,731	44,954	46,190	47,461
SSA / Budget Requirement	180,264	184,556	181,604	178,812
Use of Balances	500	500	500	500
Total Funding	180,764	185,056	182,104	179,312
EXPENDITURE				
Base Budget carried forward	184,756	184,756	184,576	187,939
PRESSURES:				
Inflation (excluding Schools)	2,977	2,899	1,969	1,969
Schools Protection	320	1,173	1,194	1,217
Investment in Priorities	250	250	200	
Transfers into/out of Settlement		1,036		
EFFICIENCIES / SAVINGS:				
F&F Phase 1	(870)	(870)		
F&F Phase 2	(1,785)	(1,785)		
F&F Phase 4	(1,290)	(1,290)		
F&F Phase 5	(1,273)	(1,273)		
Schools Demography Adjustment	(320)	(320)		
Total Expenditure	182,765	184,576	187,939	191,125
Funding Shortfall / (Available)	2,001	(480)	5,835	11,813
Annual increase/(decrease) in shortfall	2,001	(480)	6,315	5,978

Appendix 2

2016/17 Options	Increase %	Funding Increase £'000	Budget Impact £'000	Avg Band D Annual Impact	Avg Band D Annual £
	0.00%	0	-661.71	£0.00	£1,142.22
	0.25%	110	-551.43	£2.86	£1,145.08
	0.50%	221	-441.14	£5.71	£1,147.93
	0.75%	331	-330.86	£8.57	£1,150.79
	1.00%	441	-220.57	£11.42	£1,153.64
	1.25%	551	-110.29	£14.28	£1,156.50
New Proposal	1.50%	662	0.00	£17.13	£1,159.35
	1.75%	772	110.29	£19.99	£1,162.21
	2.00%	882	220.57	£22.84	£1,165.06
	2.50%	1,103	441.14	£28.56	£1,170.78
Original Case	2.75%	1,213	551.43	£31.41	£1,173.63
	3.00%	1,323	661.71	£34.27	£1,176.49
	3.50%	1,544	882.28	£39.98	£1,182.20
	4.00%	1,765	1,102.85	£45.69	£1,187.91
	4.50%	1,985	1,323.42	£51.40	£1,193.62
	5.00%	2,206	1,543.99	£57.11	£1,199.33

Appendix 3



Adroddiad i'r: Cyngor Llawn

Dyddiad y Cyfarfod: 26 Ionawr 2016

Aelod / Swyddog Arweiniol: Julian Thompson-Hill/ Richard Weigh

Awdur yr Adroddiad: Rod Urquhart / Steve Gadd

Teitl: Cynllun Lleihau Treth y Cyngor 2016/17

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mabwysiadu'r Cynlluniau Lleihau Treth y Cyngor Cymru Gyfan a Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 a Chynlluniau Lleihau Treth y Cyngor Cymru Gyfan a Rheoliadau Diwygiadau Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2016.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Roedd Deddf Diwygio Lles 2012 yn cynnwys darpariaethau i ddiddymu budd-dal treth y cyngor yn ei ffurf bresennol ar draws y DU. O 31 Mawrth 2013 daeth budd-dal treth y cyngor i ben ac mae'r cyfrifoldeb am ddarparu cefnogaeth ar gyfer treth y cyngor a'r arian sy'n gysylltiedig ag ef, wedi cael ei basio i Lywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol yng Nghymru, wedi cyflwyno cynllun newydd i ddarparu cymorth treth y cyngor a fabwysiadwyd gan y Cyngor ym mis Ionawr 2013.

Bydd Llywodraeth Cymru yn cwblhau'r ddwy set o reoliadau ar 19 Ionawr 2016 ac mae angen mabwysiadu'r Cynlluniau Lleihau Treth y Cyngor newydd a Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013, a Rheoliadau diwygiadau 2016 erbyn 31 Ionawr 2016.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Yr aelodau i fabwysiadu'r Cynlluniau Lleihau Treth y Cyngor a Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013, a Rheoliadau Diwygiadau i Ofynion Rhagnodedig (Cymru) 2016, o ran blwyddyn ariannol 2016/17.

Bod yr aelodau'n cymeradwyo'r 3 elfen ddewisol o'r cynllun, a ddangosir yn adran 4.1, yn cael eu parhau yn 2016/17.

4. Manylion yr Adroddiad

Y Cynllun Arfaethedig 2016/17

Wrth ystyried datblygu cynllun newydd ar gyfer 2016/17 fe gytunodd Llywodraeth Cymru y dylai'r cynllun diwygiedig arsylwi'r paramedrau canlynol:

- Parhau gydag un cynllun a ddiffinnir yn genedlaethol i ddarparu lefel gyson o gymorth i hawlwy'r ar draws Cymru. Mae'r lefel uchaf o gefnogaeth wedi ei osod ar 100%.
- I barhau i ddarparu nifer fach o elfennau dewisol, yn debyg i'r rhai sydd ar gael o dan y cynllun presennol, gan alluogi awdurdodau lleol i ymateb i'w hamgylchiadau lleol gwahanol (ar yr amod bod costau unrhyw amrywiad lleol yn cael eu hariannu'n lleol).
- Parhau i fod yn seiliedig ar ddiwygio'r system Budd-dal Treth y Cyngor blaenorol, tan 2017-18 fel bod y risgiau gweithredol yn cael eu rheoli ac y gellir parhau i ddarparu cymorth.
- Mae nifer o newidiadau yn angenrheidiol i adlewyrchu'r trefniadau newydd mewn perthynas â gofal ac anghenion cymorth sydd wedi cael eu cyflwyno yn Lloegr gan Ddeddf Gofal 2014 a fydd yn cael eu cyflwyno yng Nghymru gan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 sydd i fod i ddod i rym yn llawn erbyn Ebrill 2016.

Mae'r rhan fwyaf o'r newidiadau hyn yn ofynnol i ddisodli'r dull presennol a ddefnyddir i bennu bod unigolyn yn ddall gyda'r amod bod yn rhaid i unigolyn fod naill ai'n ddall neu â nam difrifol ar eu golwg-. Mae hyn oherwydd bod y diffiniad o "dall" yn cael ei ddiddymu gan Ddeddf Gofal 2014 a gorchmynion o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, gydag un ar gyfer "nam difrifol ar y golwg" (mae'r diffiniad hwn yn fras yn ailadrodd y diffiniad blaenorol o ddall).

Mae angen gwneud newidiadau eraill i sicrhau bod ystod o daliadau sydd wedi eu diystyru'n flaenorol ar gyfer dibenion cyfrifo CTRS yn parhau i fod fel eu bod yn cael eu darparu o dan Ddeddfau 2014. Mae'r rhain yn cynnwys:

- newid i sicrhau bod y sawl sy'n derbyn taliadau gan Awdurdodau Lleol o dan Ddeddfau 2014 am eu gofal a chymorth yn parhau i gael y rhain wedi eu diystyru; a
- newid yn sicrhau y bydd y rhai sy'n derbyn bwrsariaethau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cael hwn wedi'i ddiystyru.

Mae pob un o'r newidiadau uchod yn angenrheidiol i sicrhau bod yr ymgeiswyr yr effeithir arnynt yn dal i gael hawl i'r premiwm anabled.

- Mae newidiadau canlyniadol wedi cael eu gwneud er mwyn cymryd i ystyriaeth y newidiadau i derminoleg a ddefnyddir mewn deddfwriaeth o ganlyniad i'r Yswiriant Gwladol
- Deddf Cyfraniadau 2015. Mae pob cyfeiriad at "eithriad enillion bach" wedi cael eu disodli gan gyfeiriadau at "trothwy elw bach".

- Mae'n ofynnol i ddiwygiadau canlyniadol hefyd gymryd i ystyriaeth y trefniadau a therminoleg newydd a gyflwynwyd drwy gyfrwng Deddf Pensiynau 2014. Mae'n ofynnol i ddiwygiadau i Reoliadau 2013 fewnosod cyfeiriadau at 'bensiw'n y wladwriaeth' lle cyfeirir at 'bensiw'n ymddeol'. Mae hyn oherwydd o fis Ebrill 2016, bydd dau fath o bensiw'n y wladwriaeth. Mae'r newidiadau hyn yn angenrheidiol i sicrhau bod yr ymgeiswyr yr effeithir arnynt yn dal i gael hawl i'r premiwm a gostyngiadau perthnasol.
- Yn ogystal, mae'n ofynnol i newidiadau gymryd i ystyriaeth adran newydd o Ddeddf Cyfraniadau Nawdd Cymdeithasol a Budd-daliadau 1992 (adran 55A) sy'n ymwneud â 'chredyd pensiwn y wladwriaeth newydd'.
- Bydd y ffigurau a ddefnyddir i gyfrifo hawl ymgeiswyr i leihau Treth y Cyngor yn cael ei uwchraddio yn unol â'r CPI, fel y nodir gan y DU a Llywodraeth Cymru.

4.1 Elfennau dewisol ar gyfer penderfyniad y Cyngor

- a) Y gallu i gynyddu'r cyfnod talu estynedig safonol o 4 wythnos a roddir i bobl ar ôl iddynt ddychwelyd i'r gwaith os ydych wedi bod yn derbyn budd-dal cymwys perthnasol am o leiaf 26 wythnos
- b) Disgresiwn i ddiystyru rhan neu'r swm cyfan o Bensiynau Anabledd Rhyfel a Phensiwn Rhyfel Gwraig Weddw wrth gyfrifo incwm.
- c) Y gallu i ôl-ddyddio, am hyd at 6 mis unrhyw gais dyfarniadau Cymorth Treth y Cyngor ar gyfer cwsmeriaid oedran gweithio fwy na'r cyfnod safonol o 3 mis cyn y cais.

4.2 Roedd Llywodraeth Cymru wedi cynnal ymarfer ymgynghori ffurfiol ar y cynllun presennol a'r newidiadau posibl, gan ei alluogi i fod yn gost niwtral i Awdurdodau Lleol. Cyflwynwyd sylwadau gan nifer o sefydliadau, gan gynnwys Cyngor Sir Ddinbych, gan awgrymu newidiadau i'r cynllun.

Ar ôl ystyriaeth briodol, penderfynwyd parhau â'r cynllun fel y mae tan ar ôl etholiadau nesaf y cynulliad, gydag unrhyw ddiffyg rhwng y lleihad a roddir a'r grant penodol a dderbynnir, yn cael ei feddu gan yr Awdurdod Lleol.

Yn anffodus, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi penderfynu bod y lefelau cyllid ar gyfer y cynllun i aros ar lefelau 2013/14, a oedd yn creu pwysau cyllidebol yn 2015/16 a bydd yn parhau i wneud hynny yn 2016/17.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Bydd mabwysiadu'r cynllun hwn yn helpu pobl ddiamddiffyn, gan sicrhau eu bod yn byw mor annibynnol ag sy'n bosib.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Collwyd incwm grant trwy'r newidiadau i'r system Budd-daliadau Treth y Cyngor. Yn 2016/17, bydd y Cyngor yn derbyn cyllid o £9.167miliwn ar gyfer Cymorth Treth y Cyngor gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, y gwariant presennol yw £9.647miliwn, os byddai Treth y Cyngor Net yn cynyddu 2.5% (hy cynnydd arfaethedig y cynghorau a lwfans ar gyfer newidiadau i praeseptau eraill sydd wedi'u cynnwys yng nghyfanswm y bil) mae'r gwariant a ragwelir ar gyfer 2016/17 oddeutu £9.863miliwn. Mae hyn yn rhoi diffyg o tua £696mil ar gyfer 2016/17.

Gall y diffyg un ai gynyddu neu leihau yn dibynnu ar y lefelau o Dreth y Cyngor a godir ar gyfer 2016/17 ac / neu unrhyw amrywiadau pellach ar lwyth achosion.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Aseiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai'r templed AEC wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar lefel genedlaethol ar ei newidiadau arfaethedig i'r Cynllun Lleihau Treth y Cyngor.

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?

Ddim yn berthnasol gan fod hyn yn ychwanegiad ar y cynllun presennol a ymgynghorwyd arno yn 2012.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Nid oes gan y Cyngor unrhyw ddewis ond i fabwysiadu'r cynllun. Mae'n cynrychioli pwysau sylweddol ar gyllid y Cyngor. Mae cyllideb 2016/17 yn cynnwys rhagdybiaethau doeth ynghylch y costau ac mae'n darparu cyllideb i dalu am y diffyg amcangyfrifedig.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Mae risgiau i'r Cyngor o beidio mabwysiadu'r cynllun hwn, o ganlyniad i hynny byddai'n rhaid i Gyngor Sir Ddinbych fabwysiadu'r cynllun diodyn, a all gynyddu'r gost.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

- Dylid mabwysiadu Cynlluniau Gostyngiadau Treth y Cyngor a Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013.
Pennod 2: Cynghorau Cymuned â Chymhwysedd	19
Rhan 3: Hybu Mynediad i Lywodraeth Leol	21
Pennod 2: Cyfranogiad y Cyhoedd mewn Llywodraeth Leol.....	21
Pennod 3: Pwyllgorau Ardaloedd Cymunedol.....	22
Pennod 4: Ceisiadau Gwella.....	22
Pennod 5: Mynediad i Gyfarfodydd etc.....	23
Materion eraill	24
Rhan 4: Swyddogaethau Cynghorau Sir a'u Haelodau	26
Pennod 4: Darpariaeth Bellach am Ddyletswyddau ar Aelodau.....	26
Pennod 7: Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu a Phwyllgorau Safonau	26
Materion eraill	27
Rhan 5: Cynghorau Sir: Llywodraethu yn Well.....	34
Pennod 1: Dyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau llywodraethu da etc.	34
Pennod 2: Cynlluniau Corfforaethol	35
Pennod 3: Asesu Trefniadau Llywodraethu	35
Pennod 6: Darpariaeth Amrywiol	36
Pennod 7: Rôl y Pwyllgorau Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio....	36
Materion eraill	36
Rhan 6: Cynghorau Cymuned.....	42
Pennod 1: Adolygiad o Drefniadau Cynghorau Cymuned	42
Pennod 2: Aelodau o Gynghorau Cymuned i Ddilyn Hyfforddiant	43
Pennod 3: Dyddiadau Etholiad Cynghorau Cymuned.....	43
Materion eraill	44
Rhan 7: Materion y Gweithlu.....	47
Pennod 2: Comisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus.....	47
Rhan 8: Cyffredinol ac Atodlenni.....	49
Atodlenni.....	49
Atodiad A: Asesiadau gan Gymheiriaid.....	50
Themâu Llywodraethu	50
Adolygwyr	50
Proses Enghreifftiol.....	51
Atodiad B: Cwestiynau Ymgynghori.....	54

Rhagair gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus

Roedd y Papur Gwyn *Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol* yn nodi fy ngweledigaeth ar gyfer Llywodraeth Leol yng Nghymru. Mae'r weledigaeth honno yn seiliedig ar Gynghorau gweithredol sy'n gweithio i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus modern, hygyrch o safon uchel gyda'u cymunedau lleol. Dylai fod Cynghorau'n ymddwyn fel arweinwyr cymunedol a chyfryngwyr newid - yr arweinyddiaeth yn canolbwyntio ar ragoriaeth a'r Cynghorau'n ymrwymedig i edrych tuag allan yn eu rôl o safbwynt llunio lleoedd.

Roedd y Papur Gwyn hefyd yn nodi'r weledigaeth ar gyfer gwahanol feysydd llywodraeth yng Nghymru a'r berthynas rhyngddynt. Dymunwn weld Llywodraeth Leol sy'n gryf, yn hyblyg ac sydd wedi'i grymuso i gyflawni'r cyfeiriad strategol a nodwyd gan Lywodraeth Cymru yng ngoleuni amgylchiadau lleol. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn darparu'r fframwaith ar gyfer cydlynu rhannau gwahanol o'r llywodraeth yng Nghymru. Bydd y Bil Drafft hwn a'r rhaglen ddiwygio yn cyfrannu at ganlyniadau gwell trwy sicrhau bod gwasanaethau Llywodraeth Leol yn gynaliadwy, yn integredig ac yn cynnwys pobl Cymru.

Ym mis Mehefin fe gyhoeddais yr opsiwn y mae Llywodraeth Cymru'n ei ffafrio o ran patrwm Llywodraeth Leol yng Nghymru yn y dyfodol. Gyda'r cyhoeddiad hwn, cyhoeddwyd mapiau a oedd yn dangos dau opsiwn mewn perthynas â'r Gogledd. Roedd y mapiau'n nodi'r opsiwn rydym ni'n ei ffafrio ar gyfer strwythur De, Canolbarth a Gorllewin Cymru ar gyfer y dyfodol, gan hwyluso trafodaeth bellach ar gyfer y Gogledd. Mae'n anodd tafoli ai dau ynteu tri Awdurdod Lleol fyddai orau yn y Gogledd. Rwyf yn croesawu barn trwy'r ymgynghoriad ffurfiol hwn ar ein holl gynigion ar gyfer uno Awdurdodau Lleol.

Rwyf yn deall fod hwn yn gyfnod ansicr, ac rwyf wedi ymrwymo i sicrhau y caiff telerau ac amodau staff Awdurdodau Lleol eu hamddiffyn fel na fydd unrhyw un dan anfantais oherwydd eu bod yn cael eu trosglwyddo i Awdurdod newydd. Felly, bydd y Bil hefyd yn sefydlu Comisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus; cynnig sydd wedi denu cefnogaeth eang gan Lywodraeth Leol. Bydd Cyngor Partneriaeth Gweithlu y Gwasanaethau Cyhoeddus yn parhau wrth wraidd y weledigaeth i gefnogi'r gwaith o ddatblygu gweithlu gwasanaeth cyhoeddus o'r radd flaenaf. Dyma fydd y prif gyfeirbwynt ar gyfer y Comisiwn.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn rhan bwysig o'r drafodaeth sydd eisoes ar y gweill am ddiwygio Llywodraeth Leol. Rwyf am glywed gennych a fydd ein cynigion ar gyfer deddfwriaeth yn helpu i gyflawni'r nod o greu'r Cynghorau 'gweithredol' sydd eu hangen ar Gymru. Hoffwn wybod hefyd a ydych yn credu y gallwn wneud rhagor i gyflawni'r amcan hwn.

Leighton Andrews AC
Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus

Cyflwyniad – Beth yw'r ymgynghoriad hwn

Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar Fil Llywodraeth Leol (Cymru) Drafft ("y Bil Drafft") a fydd yn cwblhau'r rhaglen o uno Awdurdodau Lleol ac yn nodi fframwaith deddfwriaethol newydd a diwygiedig ar gyfer democratiaeth, atebolrwydd, perfformiad ac elfennau o gyllid Awdurdodau Lleol. Bydd hefyd yn sefydlu comisiwn statudol, Comisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus.

Rydym wedi ymgynghori o'r blaen ynghylch cynigion i ddiwygio Llywodraeth Leol. Mae'r tri Phapur Gwyn *Diwygio Llywodraeth Leol* (Gorffennaf 2014), *Comisiwn Staff i'r Gwasanaethau Cyhoeddus* (Hydref 2014) a *Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol* (Chwefror 2015),¹ yn nodi'r rhesymau pam ein bod yn cynnig y newid a'r dull a gynigiwn er mwyn diwygio Llywodraeth Leol. Mae manylion llawn yr ymgynghoriad, yr ymatebion a gafwyd a dolenni i'r ddogfennaeth ar gael ym Memorandwm Esboniadol y Bil Drafft.

Fel rhan o'r pecyn diwygio, pasiwyd y Bil Llywodraeth Leol (Cymru) cyntaf gan y Cynulliad ar 20 Hydref. Rhagwelir y ceir Cydsyniad Brenhinol yn ystod y cyfnod ymgynghori. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn gwneud darpariaeth ar gyfer uno gwirfoddol ac mae'n gosod deddfwriaeth baratoi ar gyfer uno a diwygio pellach. Mae'r ddeddfwriaeth yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â Phwyllgorau Pontio, trefniadau etholiadol, trefniadau cydnabyddiaeth ariannol a chyfyngiadau ar drafodion a recriwtio etc.

Ar ôl ystyried y materion a godwyd a'r farn a fynegwyd yn ystod yr ymgynghoriad, rydym yn awr yn cyhoeddi Bil Llywodraeth Leol (Cymru) Drafft, Memorandwm Esboniadol Drafft, Aseiad Effaith Rheoleiddiol Drafft ac aseuadau effaith penodol am gyfnod ymgynghori pellach. Byddwn yn ystyried sylwadau a gafwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori hwn wrth inni baratoi'r Bil a'r dogfennau cysylltiedig i'w cyflwyno i'r Cynulliad nesaf, ar ôl mis Mai 2016.

Mae'r Papur hwn yn cynnwys esboniadau polisi ychwanegol lle rydym wedi diwygio neu benderfynu peidio â pharhau â'r cynigion ym Mhapur Gwyn *Grym i Bobl Leol*, yn nodi cynigion ychwanegol rydym yn dymuno ymgynghori arnynt a materion nad ydym wedi cynnwys yn y Bil Drafft ond y bwriadwn eu cynnwys yn y Bil i'w gyflwyno. Lle bo'r darpariaethau yn y Bil Drafft fwy neu lai yr un peth â'r cynigion yn y Papur Gwyn, mae eglurhad pellach ar gael yn y Memorandwm Esboniadol, ac ni chaiff ei ailadrodd yma. Felly, dylid darllen y Papur hwn ar y cyd â'r Bil Drafft a'r dogfennau cysylltiedig. O ran ei strwythur, mae'r Papur hwn yn dilyn y Bil Drafft yn hytrach na'r Papur Gwyn.

Yn y ddogfen hon, mae unrhyw gyfeiriad at "y Papur Gwyn", yn cyfeirio at *Bapur Gwyn Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol*, oni bai y nodir yn wahanol.

¹ <http://gov.wales/consultations/localgovernment/white-paper-reforming-local-government/?skip=1&lang=cy>
<http://gov.wales/consultations/localgovernment/power-to-local-people/?skip=1&lang=cy>
<http://gov.wales/consultations/improving/public-services-staff-commission-consultation/?skip=1&lang=cy>

Y Bil Drafft

Bydd y cynigion yn y Bil Drafft yn cwblhau'r rhaglen o uno Awdurdodau Lleol ac yn pennu fframwaith deddfwriaethol newydd a diwygiedig ar gyfer democratiaeth, atebolrwydd, perfformiad ac elfennau o gyllid Awdurdodau Lleol. Bydd hefyd yn sefydlu comisiwn statudol, Comisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus.

Mae diben y darpariaethau sydd wedi'u nodi yn y Bil Drafft, a'r effaith y bwriedir iddynt ei chael, i'w gweld ym Mhennod 3 y Memorandwm Esboniadol. Mae Nodiadau Esboniadol ar gyfer darpariaethau'r Bil Drafft hefyd ar gael yn Atodiad A y Memorandwm Esboniadol. Mae'r adrannau canlynol yn rhoi diweddariad ar gynigion a gafodd eu hamlinellu yn y Papur Gwyn, a chynigion newydd neu arfaethedig yr hoffem eich barn arnyn nhw.

Diwygiadau Canlyniadol

Nid yw'r Bil Drafft yn cynnwys diwygiadau canlyniadol cynhwysfawr na threfniadau trosiannol. Bydd y rhain yn cael eu drafftio i'w cynnwys yn y Bil i'w gyflwyno. Er enghraifft, mae rhai gofynion cynllunio statudol yn gysylltiedig ag etholiadau cyffredin Cynghorwyr (wrth 'cyffredin' golygwn etholiad arferol y Cyngor llawn). Y bwriad yw y bydd trefniadau trosiannol yn cael eu gwneud er mwyn sicrhau nad yw etholiadau cyffredin Awdurdodau Cysgodol yr Awdurdodau newydd yn 2019 yn sbarduno'r adolygiad o strategaethau sydd ei angen o dan Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 neu wrth baratoi Cynlluniau Llesiant Lleol sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Rhan 1: Ardaloedd Llywodraeth Leol a Chynghorau Sir

Mae Rhan 1 o'r Bil Drafft yn cynnwys y darpariaethau a fydd yn sefydlu'r siroedd newydd a'u Cynghorau. Mae Pennod 1 yn nodi ardaloedd Llywodraeth Leol yng Nghymru. Mae Pennod 2 yn darparu ar gyfer cyfansoddiad ac ethol y Cynghorau newydd. Mae Pennod 3 yn darparu ar gyfer sefydlu'r Cynghorau newydd ac mae Pennod 4 yn gwneud darpariaeth amrywiol.

Cwestiwn 1.1: A oes gennych sylwadau am unrhyw un o'r darpariaethau yn Rhan 1 o'r Bil Drafft?

Rydym hefyd yn croesawu eich barn ar y materion canlynol.

Pennod 1: Ardaloedd Llywodraeth Leol

Argymhellodd y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus ("y Comisiwn") y dylid lleihau nifer yr Awdurdodau Lleol yng Nghymru drwy gyfres o drefniadau uno. Cafodd y dadleuon o blaid yr argymhelliad hwn a thystiolaeth ategol eu hegluro'n helaeth yn adroddiad y Comisiwn. Derbyniodd Llywodraeth Cymru y dadleuon hyn mewn Papur Gwyn a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2014, *Datganoli, Democratiaeth a Chyflawni: Diwygio Llywodraeth Leol*. Roedd y ddogfen hon yn nodi'r opsiwn y mae Llywodraeth Cymru yn ei ffafrio i uno Awdurdodau Lleol ar sail Opsiwn 1 y Comisiwn, a fyddai'n arwain at 12 o Awdurdodau newydd. Roedd hefyd yn nodi bod Gweinidogion yn parhau'n agored i ystyried patrymau eraill.

Yn y Papur Gwyn *Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol*, nodwyd y bwriad i barhau i uno Awdurdodau Lleol trwy'r Bil Drafft hwn. Ar 17 Mehefin 2015, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru yr opsiwn y mae'n ei ffafrio ar gyfer patrwm Llywodraeth Leol y dyfodol yng Nghymru, yn seiliedig ar wyth neu naw o Brif Awdurdodau Lleol newydd. Nodir y dewisiadau eraill hyn mewn dau dabl yn Atodlen 1 i'r Bil Drafft, a'r gwahaniaeth rhyngddynt yw patrwm y Siroedd newydd arfaethedig yn y Gogledd:

Tabl 1

Enw	Ardal
Sir 1 ²	Ynys Môn, Gwynedd a Chonwy
Sir 2	Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam
Sir 3	Ceredigion, Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin
Sir 4	Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot
Sir 5	Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful
Sir 6	Caerdydd a Bro Morgannwg
Sir 7	Blaenau Gwent, Caerffili, Torfaen, Sir Fynwy a Chasnewydd
Powys	Powys

² Ymdrinnir ag enwi'r Siroedd newydd isod.

Tabl 2

Enw	Ardal
Sir 1	Ynys Môn a Gwynedd
Sir 2	Conwy a Sir Ddinbych
Sir 3	Sir y Fflint a Wrecsam
Sir 4	Ceredigion, Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin
Sir 5	Abertawe Chastell-nedd Port Talbot
Sir 6	Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful
Sir 7	Caerdydd a Bro Morgannwg
Sir 8	Blaenau Gwent, Caerffili, Torfaen, Sir Fynwy a Chasnewydd
Powys	Powys

Wrth nodi'r opsiwn y mae'n ei ffafrio, pwysleisiodd Llywodraeth Cymru y byddai cyfle i'r cyhoedd, sefydliadau sydd â diddordeb a rhanddeiliaid gyflwyno'u barn yn ffurfiol ar y cynigion. Mae'r adran ganlynol yn nodi amrywiaeth o faterion sy'n ymwneud â'r uno arfaethedig, ac mae'n estyn gwahoddiad ffurfiol am farn ar batrwm Awdurdodau Lleol yng Nghymru yn y dyfodol.

Y Materion Dan Sylw

Ystyriodd y Comisiwn bosibiliadau a fyddai wedi arwain at saith neu wyth o Awdurdodau Lleol mawr iawn, ond ei gyngor oedd peidio â mynd ar drywydd hyn. Teimlai y gallai'r angen i gynnal democratiaeth a chydlyniant lleol fod yn ffactor a fyddai'n cyfyngu ar y graddau y gellid gwneud newid o'r fath. Fodd bynnag, credwn fod y cynigion yn y Papur Gwyn ynghylch rhagor o gyfranogiad gan y cyhoedd mewn democratiaeth, prosesau agored a thryloyw ar gyfer gwneud penderfyniadau a mwy o amrywiaeth ym maes Llywodraeth Leol, ynghyd â phwyllgorau ardaloedd cymunedol, yn darparu mecanweithiau effeithiol ar gyfer cynnal ymgysylltiad democrataidd gyda chymunedau mewn ardaloedd mwy. Mae hefyd yn bwysig nodi bod llawer o Awdurdodau mewn rhannau eraill o'r DU yn gweithredu ar ochr uchaf graddfa yr hyn sy'n arfaethedig yng Nghymru.

O ran Cyllid Ewropeaidd, nododd y Comisiwn fater alinio gydag ardal 'gydgyfeirio' y Gorllewin a'r Cymoedd, sydd â chysylltiadau â chyllid yr UE a lwfansau cymorth gwladwriaethol. Er ei bod yn ystyriaeth berthnasol, nid ydym yn credu y dylai fod yn drech nag achos strategol hirdymor dros uno. Dylai fod cyn lleied o effaith â phosibl ar y ddarpariaeth a'r cymhwysedd perthnasol yn ystod cyfnod cyllido presennol yr UE sef 2014-2020. Mae mwyafrif y rhanbarthau yn ardal 'gydgyfeirio' y Gorllewin a'r Cymoedd yn parhau yn yr ardal honno. Nid yw'r meini prawf ar gyfer pennu cymhwysedd cyllid yr UE ar ôl 2020 wedi'u cytuno eto a bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i bwysio am y cytundeb gorau posibl wrth drafod unrhyw raglenni newydd gan yr UE.

Fe wnaeth y Comisiwn ystyried amrywiaeth eang o ffactorau gan gynnwys y lleiafswm o uno yr oedd ei angen er mwyn mynd i'r afael mewn modd systemataidd â phroblemau maint; alinio ardaloedd Awdurdodau Lleol ag ardaloedd Byrddau Iechyd Lleol a'r Heddlu; ac osgoi'r tarfu fyddai'n cael ei achosi trwy rannu Awdurdodau Lleol presennol. Ar wahân i un eithriad o ran

alinio â ffiniau Byrddau Iechyd Lleol (Pen-y-bont ar Ogwr), mae'r mapiau a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2015 yn gyson â'r egwyddorion a nodwyd yn Adroddiad y Comisiwn. Maent yn fireiniad ar Opsiwn 1 y Comisiwn, sy'n seiliedig ar ystyriaeth bellach o amrywiaeth o faterion gan gynnwys barn Awdurdodau Lleol unigol.

Sir Gaerfyrddin ac Abertawe

O ran Sir Gaerfyrddin ac Abertawe, nododd adroddiad y Comisiwn ei hun *'nid yw materion mor eglur mewn manau eraill - yn ardaloedd Pen-y-bont ar Ogwr / Castell-nedd Port Talbot / Abertawe a Sir Gaerfyrddin / Ceredigion / Sir Benfro - a dim ond o ran sut y byddent yn effeithio ar yr ardaloedd hynny y mae ein dewis opsiynau yn wahanol.*³ Datganodd yr adroddiad yn glir bod gan *'bob un o'n hopsiynau dethol wahanol gryfderau a gwendidau'* ac nad oedd yn ffafrio un opsiwn yn fwy na'r llall.⁴

O ran Sir Gaerfyrddin, byddai uno â Cheredigion a Sir Benfro yn helpu i integreiddio gofal iechyd a chymdeithasol yn ardal Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda, a byddai'n uno ardal sydd â rhai nodweddion cyffredin arwyddocaol o ran y natur wledig, yr economi leol ac – mewn rhan helaeth o'r ardal – y defnydd o'r Gymraeg. Mae'r patrwm hwn yn cydweddu â'r opsiwn o batrymau "mwy" fel y mynegwyd hwy y Prosbectws⁵ a gyhoeddwyd i wahodd ceisiadau gwirfoddol i uno, ac mae'n darparu un Awdurdod cryfach sydd â mwy o gapasiti a gallu. Byddai hefyd yn cydymffurfio ag Opsiynau 2b a 3 y Comisiwn.

O ran Abertawe, mae cwestiwn o ran a yw'r Awdurdod yn ddigon mawr i barhau ar ei ben ei hun yn gynaliadwy yn y tymor hwy. Mae eisoes yn gweithio'n agos â Chastell-nedd Port Talbot ar brosiect sy'n uno gwasanaethau cymdeithasol. Byddai uno â Chastell-nedd Port Talbot yn osgoi'r anghysondeb o gadw Abertawe fel endid unigol ond gan uno dinas Caerdydd â Bro Morgannwg, yn ogystal â chyfuno dwy ardal sydd ag amodau economaidd-gymdeithasol tebyg. Mae hefyd ddadl gref bod Abertawe yn ganolbwynt ar gyfer twf economaidd yn ardal ehangach Bae'r Gorllewin (gweler yr adran "Sail Ranbarthol a Chydweithredu" isod), a bod datblygiadau'r dyfodol yn canolbwyntio ar ei ffin ddwyreiniol â Chastell-nedd Port Talbot (er enghraifft, datblygiad newydd y brifysgol). Yn wir, dadleuodd y ddau Awdurdod Lleol yn frwd yn ôl ym mis Tachwedd 2014 fel rhan o'r trafodaethau ar uno'n wirfoddol, mai nhw ddylai ffurfio craidd awdurdod dinas-ranbarth newydd ar gyfer yr ardal (ond gan gynnwys ardal Llanelli/Rhydaman a De-orllewin Powys hefyd). Yn amlwg, nid yw torri'r ffiniau presennol yn y ffordd hon yn bodloni ein hegwyddorion. Ar y llaw arall, nid yw hepgor yr ardaloedd ychwanegol yn tanseilio'r ddadl o uno'r ddau Awdurdod presennol. Byddai uno Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot hefyd yn unol yn rhannol ag Opsiynau 2a a 3 y Comisiwn.

Pen-y-bont ar Ogwr

³ Y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus, 2014, t.100.

⁴ Y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus, 2014, t.102.

⁵ Gwahoddiad i Brif Awdurdodau Lleol yng Nghymru Gyflwyno Cynigion ar gyfer Uno Gwirfoddol

Ni wnaeth adroddiad y Comisiwn nodi unrhyw faterion penodol ynghylch Pen-y-bont ar Ogwr. Yn Opsiwn 1, cafodd ei chynnwys gydag Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot yn unol â'r egwyddorion y dylid alinio ardaloedd Awdurdodau Lleol ag ardaloedd Byrddau Iechyd Lleol, ac mae hyn yn parhau'n ddadl gref. Fodd bynnag, er bod rhai yn teimlo bod Pen-y-bont ar Ogwr mewn 'clustogfa' rhwng y De-ddwyrain a'r De-orllewin, mae tystiolaeth sy'n nodi bod ei lleoliad naturiol yn Rhanbarth Dinas De-ddwyrain Cymru yn hytrach nag i'r gorllewin.

Fel rhan o'i fynegiant o ddiddordeb o ran uno'n wirfoddol, cyflwynodd yr Awdurdod Lleol dystiolaeth ynghylch patrymau manwerthu, cysylltiadau trafniadaeth a theithio i leoliadau gwaith, ac roedd y rhain i gyd yn cyfeirio at y De-ddwyrain yn hytrach na'r Gorllewin. Mae mwy o debygrwydd economaidd-gymdeithasol â Bro Morgannwg neu dde Rhondda Cynon Taf nag sydd â Chastell-nedd Port Talbot. O ran trefniadau cydweithio a chytundebau partneriaeth, mae'r dystiolaeth eto'n awgrymu ei bod yn gweithredu'n fwy naturiol yn rhanbarth y De-ddwyrain. Mae'r enghreifftiau mwyaf amlwg yn cynnwys ei haelodaeth o Brifddinas-Ranbarth Caerdydd a Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De. Mae hefyd yn aelod o nifer o fforymau sefydledig Llywodraeth Leol gan gynnwys Grŵp Cynllunio Strategol De-ddwyrain Cymru, Fforwm Tai Rhanbarthol De-ddwyrain Cymru a Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol y De-ddwyrain.

Y mater allweddol i'w ystyried yw y byddai patrwm sy'n cynnwys Pen-y-bont ar Ogwr / Rhondda Cynon Taf / Merthyr Tudful yn croesi ffin bresennol y Bwrdd Iechyd Lleol, gan gamu i ffwrdd felly oddi wrth egwyddorion alinio a ffiniau cyffredin. Yn ein barn ni, er y byddai heriau i'w datrys, byddai modd i'r trefniant hwn o groesi ffiniau iechyd weithio mewn ffyrdd a allai ddatrys y cymhlethdod ychwanegol. Ystyriwn nad oes yr un her na fyddai modd ei goresgyn ac mae'n ymddangos bod y Byrddau Iechyd yn fodlon gwneud yr hyn sydd ei angen i sicrhau bod unrhyw drefniadau newydd yn gweithio. Er nad oes cynlluniau ar hyn o bryd i gynnig unrhyw newidiadau i ffiniau Byrddau Iechyd Lleol, bydd y goblygiadau i ffiniau'r Byrddau hyn yn cael eu hystyried pan fydd y trafodaethau ar ben a bod map sydd wedi'i gadarnhau ar waith. Beth bynnag fo'r map terfynol, mae Llywodraeth Cymru am i Fyrddau Iechyd Lleol gweithio'n agosach i ddarparu gwasanaethau ysbytai ar draws ffiniau traddodiadol, waeth lle mae'r ffiniau ffurfiol.

Wrth gwrs, byddai unrhyw uniad a fyddai'n cynnwys Pen-y-bont ar Ogwr / Rhondda Cynon Taf / Merthyr Tudful yn arwain at Awdurdod newydd sy'n sylweddol fwy, gyda manteision cymesur o ran capasiti a gallu, ond byddai angen cydbwysu'r rhain yn erbyn y datgymhelliad posibl o ran materion ffiniau iechyd. Yn olaf, ffactor arall i'w ystyried yw bod Pen-y-bont ar Ogwr, yn ymarferol, mewn lleoliad daearyddol penodol ac y bydd ei lleoliad mewn strwythur newydd yn pennu dewisiadau eraill. Gwnaethpwyd hyn yn glir trwy uniad arfaethedig Pen-y-bont ar Ogwr a Bro Morgannwg a fyddai wedi atal map Opsiwn 1 rhag cael ei gyflwyno gan y byddai dinas Caerdydd wedi bod ar wahân. Yn ei dro, gallai hyn fod wedi ysgogi patrymau gwahanol ar hyd y De-ddwyrain, a gallai hyn fod wedi effeithio ar y cynigion yng Ngwent a'r Cymoedd. Ni fyddai uno Pen-y-bont ar Ogwr a Rhondda Cynon Taf / Merthyr Tudful yn rhwystr i gyflwyno map Opsiwn 1 Williams wedi'i ddiwygio.

Y De-ddwyrain

Fodd bynnag gwnaeth y Comisiwn, wrth argymhell uno Casnewydd / Sir Fynwy a Blaenau Gwent / Caerffili / Torfaen, gydnabod y gallai fod opsiynau eraill. Nododd fod ardal Heddlu Gwent yn cynnwys cymysgedd amrywiol o Awdurdodau sy'n gymoedd, yn drefol neu'n wledig, ac yn cynnwys ardaloedd o amddifadedd uchel ac isel iawn, ac o dreth gyngor uchel ac isel iawn. Dywedodd y Comisiwn fod cyfuno Awdurdodau eraill yn bosibl. Fodd bynnag, roedd yn bryderus y byddai cyfuniadau eraill yn torri'r meini prawf ar gyllid cydgyfeirio'r UE. Teimlai hefyd y gallai creu ardaloedd Awdurdod Lleol megis Gwent gyfan neu'r Gogledd cyfan arwain at anawsterau o ran bodloni anghenion lleol amrywiol ac amryfal yn effeithiol neu o ran cynnal cynrychiolaeth ddemocrataidd deg mewn ardaloedd o'r fath, gan felly beryglu rhai o fanteision posibl uno.

Mae'n glir y byddai patrwm ardal Gwent yn y De-ddwyrain yn creu'r Awdurdod Lleol mwyaf yng Nghymru gyda chyfanswm poblogaeth dros 580,000. Byddai hyn yn ei roi ar yr un lefel ag Awdurdodau Unedol poblog yn y DU megis Glasgow a Chernyw, ond byddai'n parhau'n llai o lawer nag Awdurdodau megis Birmingham a Leeds. Er gwaethaf hyn, a'r amrywiaeth o amodau daearyddol ac economaidd-gymdeithasol yn yr ardal, rydym wedi gweld cydweithio cryfach na'r arfer a synnwyr amlwg o hunaniaeth Gwent ymysg y gwasanaethau cyhoeddus. Mae'n bwysig nodi bod Awdurdodau yn ardaloedd Gwent yn falch iawn eu bod wedi sefydlu trefniadau cydweithio a chytundebau partneriaeth effeithiol yn ystod y blynyddoedd diweddar ac mae'r rheini sydd ar waith yn gweithio'n dda. Er enghraifft, mae'r pum Awdurdod Lleol yn rhan o Gonsortium Gwasanaeth Cyflawni Addysg a Phwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Gwent (Cefnogi Pobl), ac maent yn treialu dull rhanbarthol o ariannu gwasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Yn ogystal â hyn, mae'r Heddlu a'r Bwrdd Iechyd Lleol yn gweithredu yn ôl troed ardal Gwent.

Ffactor arall i'w nodi yw'r gwrthwynebiad sylweddol yn ardal Gwent i'r patrymau posibl sy'n cael eu cynnig gan y Comisiwn. Mae tri o'r pum Awdurdod Lleol wedi mynegi barn glir ar uno ag eraill neu barhau'n annibynnol - mae Casnewydd yn gwrthwynebu uno â Sir Fynwy ac fel arall, ac mae Caerffili yn gwrthwynebu uno ag unrhyw un. Gan ystyried y teimladau cryf a'r gwrthwynebiad clir i'r patrymau a awgrymwyd gan y Comisiwn, mae dadl y gallai uno'r pum Awdurdod Lleol a chreu Awdurdod mwy fod o fantais, yn bennaf o ran sicrhau'r arbedion maint mwyaf posibl a rhoi llais cryf i'r Awdurdod. Byddai hefyd yn cydymffurfio ag Opsiwn 1, er y byddai'n rhan o uned fwy.

Y Gogledd

Yn y Gogledd, roedd pob un o'r tri opsiwn a gyflwynwyd gan y Comisiwn yn cynnwys tri Awdurdod Lleol. Er bod cydweithio yn dueddol o ddigwydd ar sail ranbarthol y Gogledd (Consortium GwE, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, Cefnogi Pobl ac ati), gwrthododd y Comisiwn y syniad o greu un ardal Awdurdod Lleol sy'n cynnwys y Gogledd i gyd. Byddai gwneud hynny yn debygol o arwain at anawsterau o ran bodloni anghenion lleol amrywiol ac amryfal yn effeithiol, neu o ran cynnal cynrychiolaeth ddemocratig deg.

Yn ychwanegol, nid oedd meini prawf cyllid cydgyfeirio'r UE yn gyson â rhannu'r Gogledd yn ddau Awdurdod Lleol yn hytrach nag yn dri trwy uno Ynys Môn, Gwynedd a Chonwy; a Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam. Gallai Sir Ddinbych beryglu ei gymhwyster ar gyfer cyllid cydgyfeirio trwy uno â Sir y Fflint a Wrecsam gan nad ydyn nhw'n gymwys. Gan roi'r mater hwn i'r naill ochr, mae'n anodd tafoli ai dau ynteu tri Awdurdod Lleol fyddai orau yn ardal y Gogledd. Mae'r materion yn cynnwys:

- poblogaeth – o gael patrwm o dri Awdurdod yn y Gogledd, byddai gan ddau o'r tri Awdurdod hynny boblogaeth tua 200,000 h.y. Gwynedd / Ynys Môn a Chonwy / Sir Ddinbych. Heb ystyried Powys, byddai hyn yn sylweddol is na'r rhan fwyaf o batrymau eraill yng Nghymru, sef dros 380,000, gyda Wrecsam / Sir y Fflint ychydig o dan 300,000;
- y Gymraeg – cwestiwn pwysig yw ai creu dau ynteu tri Awdurdod yn y Gogledd fyddai'n rhoi'r gefnogaeth orau i'r iaith. Dadl rhai yw y gallai uno Sir Ddinbych â siroedd ffiniol y Fflint a Wrecsam gael effaith andwyol ar gynnal a chryfhau ffyniant yr iaith yn ardal Sir Ddinbych. Ar y llaw arall, gallai uno Conwy ag Ynys Môn a Gwynedd greu ardal lle byddai llai na 50% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg, o bosibl. Byddai hyn yn golygu na fyddai gan yr un Awdurdod yng Nghymru fwyafrif o siaradwyr Cymraeg, a gallai hyn effeithio ar arferion gweinyddol mewnol presennol yng Ngwynedd;
- byddai creu dau yn hytrach na thri Awdurdod yn lleihau'r amrywiant trwy'r Gogledd o ran dangosyddion ariannol, yn enwedig o ran y dangosyddion allweddol megis y gallu i godi'r Dreth Gyngor (maint y sylfaen drethu) a'r pŵer gwario (gwariant refeniw gros);
- mae'r strwythurau cyflawni is-ranbarthol presennol ar gyfer yr heddlu, y gwasanaeth tân ac iechyd ar hyn o bryd yn gweithredu ar sail tair ardal – Ynys Môn / Gwynedd, Conwy / Sir Ddinbych a Wrecsam / Sir y Fflint. Yn ddiweddar, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno strwythur cyfarwyddwr ardal yn seiliedig ar yr ardaloedd hyn;
- y ffafriaeth gref a fynegwyd gan Gonwy yw pe byddai'r uno yn mynd rhagddo, y dylid archwilio uniad rhwng Conwy a Sir Ddinbych ymhellach gan ystyried eu tystiolaeth gefnogol.

Felly, mae'n anodd tafoli'r achos o blaid dau neu dri Awdurdod Lleol yn y Gogledd, ac mae manteision ac anfanteision i'r ddau ddewis.

Cyflwynir dadansoddiad llawn o'r opsiynau ar gyfer wyth neu naw Awdurdod newydd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol Drafft cysylltiedig. Byddem yn croesawu eich barn ar yr opsiwn a ffeirir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer patrwm Llywodraeth Leol yng Nghymru yn y dyfodol.

Cwestiwn 1.2: Beth yw eich barn ar yr opsiynau ar gyfer 2 neu 3 Sir yn y Gogledd, fel y nodwyd yn Atodlen 1 i'r Bil Drafft?

Cwestiwn 1.3: Beth yw eich barn ar y patrwm arfaethedig ar gyfer ardaloedd Llywodraeth Leol yng Nghymru?

Powys

Argymhellodd y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus y dylai Cyngor Sir Powys a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys uno oherwydd nodweddion unigryw sir Powys a'r patrymau darparu gwasanaeth nodweddiadol y mae hyn yn ei greu.

Wrth ystyried yr opsiynau sydd ar gael, mae Gweinidogion yn cydnabod yr anawsterau o uno'n llwyddiannus ddau sefydliad sydd â swyddogaethau, trefniadau llywodraethu a sail ddeddfwriaethol mor wahanol. O ganlyniad, mae Llywodraeth Cymru yn credu bod y materion cyllido a llywodraethu'n golygu nad uniad ffurfiol yw'r ateb gorau, ond dylai'r gwaith barhau i annog ac ymchwilio i gyfleoedd eraill i sicrhau mwy o integreiddio ar y rheng flaen ac yn strategol. Dylai hyn gynnwys enghreifftiau lle gallai'r cyfleoedd hyn arwain at yr angen i ddeddfu i ddileu rhwystrau neu i hwyluso cynnydd pellach.

Mae Cyngor Sir Powys a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys eisoes yn sefydliadau cydffiniol, sy'n gwasanaethu'r un boblogaeth, ac yn bennaf yn profi yr un heriau a chyfleoedd o sir sy'n fawr o ran ei maint, yn llai poblog ac yn wledig iawn ei natur. Mae gan y sefydliadau enw da o gydweithio i ddatblygu gwasanaethau ar gyfer pobl Powys, ac mae ganddynt hanes o weithio gyda chymunedau, y sector gwirfoddol a rhanddeiliaid a phartneriaid eraill i gyflawni gwelliannau. Arweiniodd hyn at ffurfio Cynllun Powys yn Un 2014-17.

Ym mis Tachwedd 2014, cyflwynwyd Mynegiant o Ddiddordeb ar y cyd i Lywodraeth Cymru lle'r oedd y ddau sefydliad yn ceisio cymorth i ddatblygu'r integreiddio rhyngddynt. Yn ystod gwanwyn 2015, cytunodd y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus i ddarparu cymorth gan Lywodraeth Cymru mewn ymateb i gynigion a gyflwynwyd gan Gyngor Sir Powys a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn *Working Together for a Thriving Powys*. Mae'r cytundeb hwn yn cynnwys cyfraniad ariannol tuag at y gwaith.

Ers mis Tachwedd 2014, mae'r ddau Brif Weithredwr a'u timau gweithredol wedi bod yn cyfarfod yn rheolaidd fel Tîm Rheoli ar y Cyd. Mae ymchwil wedi'i chyflawni i nodi pa wersi y mae modd eu dysgu gan sefydliadau eraill sydd eisoes yn cyflawni'r lefel integreiddio hon. Maent wedi datblygu cynllun integreiddio sy'n nodi'r blaenoriaethau i'w gweithredu. Eu blaenoriaeth gyntaf yw creu timau iechyd a gofal cymdeithasol yn y gymuned. Gallai'r rhain gynnwys staff megis nyrsys ardal, therapyddion lleferydd ac iaith, gweithwyr cymdeithasol, ffisiotherapyddion a therapyddion galwedigaethol. Bydd y timau hyn yn gweithio'n agos gyda meddygon teulu lleol i gynnig gofal yng nghartrefi pobl neu mor agos atynt â phosibl trwy ddefnyddio technoleg lle bo'n ymarferol.

Cwestiwn 1.4: A oes angen i Weinidogion Cymru geisio unrhyw bwerau pellach i gefnogi'r gwaith o integreiddio Bwrdd Iechyd Powys a Chyngor Sir Powys?

Enwi'r Siroedd Newydd

Ac eithrio Powys, sy'n Awdurdod sy'n parhau, cyfeirir at y Siroedd newydd arfaethedig yn syml fel Sir 1 ac ati yn y Tablau a gyflwynir yn Atodlen 1 i'r Bil

Drafft. Y bwriad yw y bydd yr Awdurdodau Cysgodol sydd i'w hethol yn 2019 yn pennu enwau'u Sir newydd (yn Gymraeg ac yn Saesneg). Bydd y pwerau gwneud rheoliadau ym mharagraff 2(1) Atodlen 1 yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi effaith gyfreithiol i'r enwau a bennir gan yr Awdurdodau Cysgodol.

Cwestiwn 1.5: Beth yw eich barn ar y weithdrefn ar gyfer enwi'r Siroedd?

Sail Rhanbarthol a Chydweithredu

Yn 2011 sefydlwyd Patrwm Cydweithredu Rhanbarthol cyffredin ar gyfer y gwasanaethau cyhoeddus, yn seiliedig ar 6 ardal: y Gogledd, y Canolbarth a'r Gorllewin, Bae'r Gorllewin, Cwm Taf, Caerdydd a'r Fro a Gwent. Nododd y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus fod ffiniau y rhan fwyaf o'r prif ddarparwyr gwasanaeth wedi'u halinio'n weddol dda, ond fod cydweithredu rhanbarthol yn parhau'n rhy gymhleth, yn dameidiog ac yn anodd ei weinyddu, er gwaethaf datblygiad y Patrwm. Dadleuodd y Comisiwn y byddai alinio cydweithrediadau gwasanaethau cyhoeddus yn symleiddio trefniadau gweithio, yn osgoi dyblygu ac yn helpu i greu gwasanaethau mwy integredig i'r cyhoedd.

Ym mis Gorffennaf 2014, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei gweledigaeth ar gyfer diwygio gwasanaethau cyhoeddus sydd wedi'u datganoli yn y ddogfen '*Datganoli, Democratiaeth a Chyflawni: Gwella Gwasanaethau Cyhoeddus i Bobl Cymru*'. Mae un o'r 20 o gamau gweithredu lefel uchel a nodwyd yn y ddogfen yn canolbwyntio ar bwysigrwydd alinio cydweithrediadau presennol â ffiniau'r Awdurdodau Lleol unedig newydd a phartneriaid darparu eraill.

Ers hynny, mae gwaith wedi'i wneud ar draws Llywodraeth Cymru i nodi'r cydweithrediadau rhanbarthol mwyaf strategol. Mae'r wybodaeth a gafwyd wedi nodi bod cydweithrediadau a phartneriaethau presennol wedi'u halinio'n dda yn fras ag ardaloedd arfaethedig Llywodraeth Leol, a'u bod yn gyson â Phatrwm Cydweithredu Rhanbarthol Llywodraeth Cymru, yn enwedig mewn ardaloedd megis y Gogledd a Gwent.

Nid yw Llywodraeth Cymru'n bwriadu cymryd unrhyw gamau i alinio cydweithrediadau a phartneriaethau cyn y penderfyniad terfynol ar ardaloedd yr Awdurdodau Lleol. Yn y cyfamser fodd bynnag, mae Gweinidogion wedi cytuno y dylid *gohirio'r gwaith o sefydlu unrhyw gydweithrediadau a phartneriaethau newydd cyn cyhoeddi'r map terfynol*. Nid yw gohiriad o'r fath yn berthnasol i unrhyw ofyniad statudol presennol. Er enghraifft, ni fydd yn effeithio ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus lle bydd darpariaethau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn dod i rym ym mis Ebrill 2016. Mae'r un peth yn wir am reoliadau arfaethedig o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, megis ar gyfer sefydlu'r Partneriaethau Rhanbarthol Gwasanaethau Cymdeithasol.

Pennod 2: Etholiadau cyffredin Cynghorwyr a'r cyfnod yn y swydd

O 2015 ymlaen, yn unol â Deddf Seneddau Tymor Penodol 2011, cynhelir etholiadau cyffredinol Seneddol bob pum mlynedd ar sail tymor penodol. Yn

yr un modd, symudodd Deddf Cymru 2014 etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i dymor penodol o bum mlynedd, yn weithredol o 2016. Yn unol â'r cylchoedd hynny ac i osgoi gwrthdaro, rydym yn cynnig creu cylchoedd tymor penodol o bum mlynedd ar gyfer etholiadau Llywodraeth Leol (Prif Gyngorau a Chyngorau Cymuned), yn weithredol o 2023.

Cyn symud i'r cylch pum mlynedd hwn, cynigiwn wneud trefniadau trosiannol amrywiol fel a ganlyn:

- Tair blynedd fydd cyfnod swydd Cyngorwyr sy'n cael eu hethol i Brif Awdurdodau (Siroedd a Bwrdeistrefi Sirol) yn etholiadau Llywodraeth Leol ym mis Mai 2017. Bydd yr Awdurdodau presennol yn cael eu diddymu o 1 Ebrill 2020. Nid yw hyn yn wir yn achos Powys a fydd yn parhau fel Awdurdod, ac mae'r manylion i'w gweld isod.
- Cynhelir yr etholiadau ar gyfer y Cyngorau Sir newydd ym mis Mai 2019 a bydd y Cyngorwyr yn gwasanaethu am bedair blynedd. Am y flwyddyn gyntaf o'r cyfnod hwnnw, bydd y Cyngorau Sir newydd yn Awdurdodau Cysgodol, a byddant yn ymarfer swyddogaethau paratoi a nodwyd mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru. Bydd y Cyngorau Sir newydd yn ymgymryd â holl swyddogaethau Llywodraeth Leol o 1 Ebrill 2020. Mae'r Bil Drafft yn nodi mai ym mis Mai 2023 y bydd etholiadau cyffredin y Cyngorau Sir newydd. Bydd hyn yn rhoi tair blynedd o 1 Ebrill 2020 i'r Cyngorau Sir newydd gadarnhau eu trefniadau newydd.
- Byddai cynnal etholiadau yn 2017 a 2023 ym Mhowys, fel Awdurdod sy'n parhau, yn golygu y byddai'r Cyngorwyr a gafodd eu hethol yn 2017 yn gwasanaethu am chwe blynedd. Byddai hyn yn gyfnod digyffelyb ac er mwyn osgoi rhoi straen ar y mandad democrataidd, cynhelir etholiadau cyffredin ym Mhowys yn 2020, gan olygu dau gyfnod o dair blynedd o wasanaeth i'r Cyngorwyr. Fodd bynnag, bydd cyngorwyr cymuned ym Mhowys yn gwasanaethu am chwe blynedd rhwng 2017 a 2023 (gweler Rhan 6 isod).

4 Mai 2017	(i) Etholiadau i'r Awdurdodau sy'n parhau , nad ydynt yn destun proses uno (ii) Etholiadau diwethaf i bob Awdurdodau sydd dan yr amod i uno	(i) h.y. Powys. Bydd y Cyngorwyr hyn yn gwasanaethu am 3 blynedd tan fis Mai 2020 (ii) Bydd y Cyngorwyr hyn yn gwasanaethu am 3 blynedd tan 1 Ebrill 2020
Mai 2019	Yr etholiadau cyntaf i'r Cyngorau Sir newydd	Cyngorau Sir newydd yn bodoli fel Cyngorau Cysgodol tan y Diwrnod Breinio ar 1 Ebrill 2020. Bydd

		y Cynghorwyr hyn yn gwasanaethu am 4 blynedd
Mai 2020	Etholiadau i'r Awdurdodau sy'n parhau	H.y. Powys. Bydd y Cynghorwyr hyn yn gwasanaethu am 3 blynedd tan 2023
Mai 2023	Etholiadau i bob Awdurdod Lleol yng Nghymru	Bydd pob Cyngorydd yn gwasanaethu am 5 mlynedd tan fis Mai 2028

Cwestiwn 1.6: Beth yw eich barn ar y newidiadau arfaethedig i amserlen etholiadau Llywodraeth Leol?

Pennod 3: Cyngorau Newydd: Cyllid

Mae'r Bil Drafft yn cynnwys newidiadau deddfwriaethol mewn perthynas â chyllid y mae ei angen i gefnogi uno strwythurol a rhai o'r diwygiadau ehangach arfaethedig mewn rhannau eraill o'r Bil Drafft. Roedd y Papur Gwyn yn trafod yr angen i adolygu system ariannol Llywodraeth Leol dros gyfnod hwy na'r disgwyl ar gyfer yr uno a'r diwygiadau a nodwyd yn y Bil Drafft. Derbyniwyd y cynnig hwn gan y rhan fwyaf o'r ymatebwyr, gyda'r mwyafrif yn cydnabod y risgiau sy'n gysylltiedig â newid sylfaenol i'r system gyllid yn rhy gynnar yn y broses ddiwygio.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ymgynghori ar gynigion, gan gynnwys deddfwriaeth ar wahân fydd yn ymwneud yn benodol â'r mecanweithiau ar gyfer dosbarthu, codi, rheoli a chyfrifyddu ym maes ariannu Llywodraeth Leol yng Nghymru. Bydd hyn yn ein galluogi i lunio system sy'n ystyried newidiadau ehangach i bwerau a chyfrifoldebau cyllidol y Cynulliad, ac sy'n datganoli rhagor o annibyniaeth a chyfrifoldebau ariannol i Awdurdodau Lleol.

Gofynion Cyfrifon ac Archwilio

Bydd y Bil i'w gyflwyno yn cynnwys darpariaethau diweddar a modern a fydd yn nodi sut y dylai cyrff Llywodraeth Leol yng Nghymru fod yn atebol am yr arian y maent yn ei wario a sut y bydd eu cyfrifon yn cael eu harchwilio. Mae cyrff Llywodraeth Leol yng Nghymru yn cadw at y gofynion a nodwyd yn y rheoliadau a wnaethpwyd o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Byddwn yn cymryd y cyfle a ddarperir gan y Bil hwn i foderneiddio gofynion cyfrifon ac archwilio cyrff lleol yng Nghymru yn unol â'r arferion da diweddaraf ar gyfer rheolaeth ariannol a systemau rheoli mewnol.

Bydd Gweinidogion Cymru hefyd yn gwneud darpariaeth mewn rheoliadau mewn perthynas â'r mecanwaith ar gyfer ariannu Awdurdodau Cysgodol yn yn ystod y cyfnod cysgodi. Bydd y rheoliadau yn cynnwys y prosesau y bydd yn ofynnol i Awdurdod Cysgodol ymgymryd â nhw mewn perthynas â monitro ei adnoddau mewnol, ac, os bernir bod angen, cadw ac archwilio cyfrifon.

Y Dreth Gyngor

Un o egwyddorion craidd trethi lleol yw bod trethdalwyr sy'n byw yn yr un ardal Awdurdod Lleol yn cyfrannu symiau cyfatebol (sy'n berthnasol i'w hamgylchiadau) ar gyfer darparu gwasanaethau lleol yn yr ardal honno. Mae gan bob Awdurdod Lleol gyfrifoldeb democrataidd dros benderfynu ar y Dreth Gyngor a godir yn ei ardal. Mae hyn yn golygu y bydd angen i bob Awdurdod newydd osod ei lefel Dreth Gyngor ei hun wrth i rai presennol uno i ffurfio Awdurdod newydd mwy.

Mewn rhai achosion, gall fod angen ymgymryd â phroses gysoni i symud i'r un lefel Dreth Gyngor ar draws ardal Awdurdod. Ni fyddai hyn o reidrwydd angen ei gyflawni'n syth wrth greu Awdurdod newydd. Er enghraifft, gallai cyfnod pontio helpu i greu sefydlogrwydd o ran refeniw treth ac i sicrhau y diogelir preswylwyr rhag newidiadau sydyn i'r hyn sy'n daladwy ganddynt o ran y Dreth Gyngor. Yn yr un modd, gallai cysoni'n gynnar arwain at system decach i'r trethdalwyr hynny a fyddai'n profi gostyngiad yn eu biliau. Mae'r ddeddfwriaeth gyllid bresennol yn cynnwys amrywiaeth eang o bwerau y byddai modd eu defnyddio i weithredu nifer o ddulliau polisi i osod y Dreth Gyngor. Mae hefyd pwerau presennol ar gyfer Gweinidogion i gyfyngu ar godiadau yn y Dreth Gyngor. Nid ydym yn cynnig y dylai Gweinidogion Cymru gael unrhyw bwerau newydd mewn perthynas â hyn, ac felly nid ydym wedi cynnwys darpariaethau newydd yn y Bil Drafft.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ymgynghori'n llawn, pan fo'r amser yn briodol, ar unrhyw gynigion a fydd ganddi ar gyfer ymdrin â'r Dreth Gyngor. O ystyried y sefyllfa ariannol sy'n newid, ystyriwn ei bod yn rhy gynnar yn y broses ddiwygio i lunio cynlluniau cysoni cadarn, ond byddwn yn archwilio ac yn monitro'r darlun wrth iddo ddatblygu dros Gymru. Byddwn yn disgwyl i Bwyllgorau Pontio ac Awdurdodau Cysgodol asesu'n ofalus nodweddion penodol yr Awdurdod newydd. Byddwn hefyd yn disgwyl iddynt ystyried y pwysau ariannol ar aelwydydd, a defnyddio'r wybodaeth hon i lywio cyllidebau'r dyfodol agos a chynlluniau tymor canolig ar gyfer y dreth gyngor. Man lleiaf, rydym yn disgwyl i Bwyllgorau Pontio ac Awdurdodau Cysgodol ddiogelu yn erbyn unrhyw wahaniaeth yn lefelau'r Dreth Gyngor yn y cyfnod sy'n arwain at yr uno. Bydd y cyfyngiadau ar drafodiadau penodol a nodwyd yn y Bil Llywodraeth Leol (Cymru) cyntaf yn cynorthwyo'r broses rheoli cyllid a bydd canllawiau pellach yn cael eu cyhoeddi maes o law.

Rheolaethau ar Osgoi Cyfraddau Annomestig

Roedd y Papur Gwyn yn cydnabod bod anghysondebau rhwng systemau trethi lleol y gallem fod am eu hadolygu fel rhan o welliannau tymor byr i'r system gyllid. Ystyriwn mai un o'r anghysondebau hynny yw absenoldeb dyletswydd ar dalwyr Ardrethi Annomestig i roi gwybod i'w Hawdurdod Bilio am newid i'w hamgylchiadau a allai effeithio ar eu hatebolrwydd, neu'u cymhwysedd i hawlio gostyngiad, disgownt neu eithriad. Er y gall swyddogion prisio gyflwyno hysbysiadau i dalwyr ardrethi ddarparu gwybodaeth, nid yw'n ofynnol i'r talwyr roi gwybod i'r swyddogion prisio na'r Awdurdod Bilio am newid i'w hamgylchiadau. Mae hyn yn wahanol i rai o'r gofynion ar dalwyr y Dreth Gyngor a gall arwain at filiau mawr ôl-ddyddiedig pan wneir newidiadau.

Mae'r crynodeb o'r ymatebion i'r papur trafod diweddar ar osgoi talu ardrethi⁶ a luniwyd gan yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol a Thrysorlys ei Mawrhydi yn nodi mai un o'r mesurau osgoi cyffredin yw talwyr ardrethi yn rhoi gwybod i'w Hawdurdodau Bilio yn ôl-weithredol am gyfnodau meddiannu, sydd o ganlyniad yn anodd iawn i'w gadarnhau.

Nid yw'r graddau osgoi yn y system Ardrethu Annomestig yng Nghymru, yn anfwriadol neu'n fwriadol, yn hysbys ar hyn o bryd a bydd angen ymchwilio ymhellach. Fodd bynnag, mae dadansoddiad diweddar gan y Gymdeithas Llywodraeth Leol yn amcangyfrif bod tua £230 miliwn (tua 1%) o refeniw'r ardrethi yn Lloegr yn cael ei gollu bob blwyddyn wrth i bobl osgoi ei dalu.⁷ Gan fod hwn yn faes polisi cymhleth sy'n dal i ddatblygu, cynigiwn y dylai'r Bil i'w gyflwyno gynnwys darpariaeth i alluogi Gweinidogion Cymru i lunio rheoliadau ym maes osgoi Ardrethi Annomestig.

Nid ydym yn rhagweld y byddwn yn darparu ar gyfer dull polisi manwl yn y Bil gan ein bod yn dymuno datblygu'r cynigion wrth ymgynghori â Llywodraeth Leol, talwyr ardrethi, Asiantaeth y Swyddfa Brisió, Tribiwnlys Prisió Cymru a Swyddfa'r Arglwydd Brif Ustus. Rhoddir ystyriaeth lawn hefyd i'r broses apelio ar gyfer talwyr ardrethi sy'n teimlo'n ddig o ganlyniad i benderfyniad ac i brotocolau rhesymol i'w gorfodi gan Awdurdodau Bilio. Wrth lunio cynigion manwl, byddwn yn ystyried y dystiolaeth sydd ar gael, canfyddiadau'r Panel Ardrethi Busnes,⁸ canlyniad adolygiad ar osgoi talu ardrethi yn Lloegr a phwerau arfaethedig ym Mil Menter Llywodraeth y Swyddfa Brisió a'r Awdurdodau Bilio. Byddai unrhyw reoliadau a fyddai'n cael eu datblygu maes o law yn amodol ar y weithdrefn ddeddfu gadarnhaol, gan olygu y byddai'r cynigion manwl yn destun archwiliad penodol cyn cael eu trafod gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Bydd y broses o ddatblygu polisi yn gyson â dull Llywodraeth Cymru o ymdrin â chasglu a rheoli trethi a'i hegwyddorion polisi trethi a gyhoeddwyd yn 2014.⁹ Mae mesurau i fynd i'r afael ag osgoi a gweithgarwch twyllodrus yn ategu egwyddorion Llywodraeth Cymru o sicrhau tegwch i bob trethdalwr, gan sicrhau bod yr ardrethi sy'n ddyledus yn ymateb i newidiadau mewn amgylchiadau a bod rhwymedigaethau yn cael eu rhannu'n deg rhwng pob trethdalwr. Mae'r egwyddorion hefyd yn cynnwys cael rheolau clir sy'n ceisio lleihau costau gweinyddu trwy wella cywirdeb yr wybodaeth, a rhoi sefydlogrwydd a sicrwydd i drethdalwyr trwy leihau'r achosion o rwymedigaethau ôl-ddyddiedig.

⁶ *Business Rates Avoidance: Summary of Responses*, Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol, Trysorlys ei Mawrhydi, Gorffennaf 2015.

<https://www.gov.uk/government/consultations/business-rates-avoidance-discussion-paper>

⁷ Papur trafodaeth Ymateb y Gymdeithas Llywodraeth leol i *Business Rates Avoidance*, Chwefror 2015.

<http://www.local.gov.uk/documents/10180/6869714/Business+rates+avoidance+-+discussion+paper+-+LGA+response.pdf/89897cc8-7bba-4257-a97b-243bf6d22ece>

⁸ *The Devolution of Business Rates to Wales*, Chwefror 2015.

<http://gov.wales/docs/det/publications/150202-devolution-of-business-rates-en.pdf>

⁹ *Pwerau treth, amcanion, egwyddorion a blaenoriaethau*, Llywodraeth Cymru, Rhagfyr 2014.

<http://gov.wales/docs/caecd/publications/150109-treasury-paper-cy.pdf>

Cwestiwn 1.7: A oes gennych unrhyw sylwadau cyffredinol am y darpariaethau yn adran 16 ac Atodlen 3 i'r Bil Drafft sy'n ymwneud â chyllid Llywodraeth Leol?

Cwestiwn 1.8: Sut y gallai Llywodraeth Cymru fesur y nifer sy'n osgoi talu Ardrethi Annomestig ar hyn o bryd?

Cwestiwn 1.9: A oes gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau ynghylch sut y gallai deddfwriaeth yn y dyfodol helpu i leihau'r nifer sy'n osgoi talu Ardrethi Annomestig?

Cwestiwn 1.10: Ym mha ffyrdd eraill y gallai Llywodraeth Cymru alluogi Llywodraeth Leol i leihau'r nifer sy'n osgoi talu ac sy'n twyllo'r system Ardrethu Annomestig?

Materion eraill

Ethol Cam wrth Gam

Roedd y Papur Gwyn yn ceisio barn ynghylch a ddylid cynnal etholiadau Llywodraeth Leol mewn camau. Mewn ymateb i bryderon rhanddeiliaid, ni fydd Llywodraeth Cymru yn parhau â'r cynnig hwn.

Nifer y Cynghorwyr

Er mwyn cydnabod gofynion democrataidd Awdurdodau newydd, mae'r cap blaenorol o 75 o Gynghorwyr i bob Awdurdod wedi'i ddisodli. Cynhaliwyd Ymgynghoriad ar Gyfarwyddiadau Drafft i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru rhwng mis Awst a mis Tachwedd 2015. Roedd yr ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar y nifer priodol o Gynghorwyr y gallai fod eu hangen ar yr Awdurdodau newydd i'w galluogi i sicrhau cynrychiolaeth effeithiol a llywodraethu democrataidd. Rydym ar hyn o bryd yn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn.

Y Siroedd wedi eu Cadw

Y siroedd sydd wedi'u cadw yng Nghymru yw'r rhai a grëwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ("Deddf 1972"). Cafodd y siroedd a grëwyd o dan Ddeddf 1972 eu diddymu gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 ("Deddf 1994"). Fodd bynnag, crëodd Deddf 1994 y cysyniad o siroedd wedi eu cadw yn seiliedig ar ardaloedd wyth sir, i'w defnyddio ar gyfer amrywiaeth o ddibenion, yn bennaf yn berthnasol i ddibenion barnwrol a gweinyddol. Endidau tybiannol yn unig yw'r wyth sir wedi eu cadw; nid oes ganddynt gynghorau wedi'u hethol, dim prosesau gweinyddu na swyddogaethau eu hunain.

Ers Deddf 1994, mae rhan fwyaf o'r rhesymau paham y cadwyd y siroedd wedi diflannu. Er enghraifft, mae ardaloedd cyfiawnder bellach yn seiliedig ar ardaloedd daearyddol newydd yn hytrach na'r siroedd wedi eu cadw. Mewn rhai achosion, mae cyfeiriadau amherthnasol yn parhau at "siroedd wedi eu cadw" mewn deddfwriaeth, a bydd angen diwygio hyn. Fodd bynnag, mae rhai cyfeiriadau at siroedd wedi eu cadw yn parhau'n berthnasol. Maent yn ymwneud â rhaglafiaethau, siryfiaethau a physgodfeydd môr.

Arglwydd Raglawiaid ac Uchel Siryfion

Yn draddodiadol, mae arglwydd raglawiaid ac uchel siryfion wedi'u penodi drwy gyfeirio at ardaloedd gweinyddol lleol. Adeg diwygio llywodraeth leol ym 1972, roedd yn ofynnol i'r Frenhines benodi Arglwydd Raglaw ar gyfer pob sir yng Nghymru a Lloegr, yn ôl Deddf Llywodraeth Leol 1972 ("Deddf 1972"). Penodir uchel siryfion yn flynyddol gan y Frenhines o dan ddarpariaethau Deddf Siryfion 1887, a rhoddodd Deddf 1972 drefniadau trosiannol ar waith er mwyn i uchel siryfion gael eu penodi i'r siroedd newydd a sefydlwyd o dan Ddeddf 1972. Parhaodd arglwydd raglawiaid ac uchel siryfion i gael eu penodi ar gyfer y siroedd a sefydlwyd o dan Ddeddf 1972 rhwng 1974 a 1996.

Fel y nodwyd uchod, fe wnaeth Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 ddiwygio llywodraeth leol yng Nghymru, ond cadwyd y siroedd a sefydlwyd o dan Ddeddf 1972 at ddibenion penodol. Roedd hyn yn cynnwys yr ardal ddaearyddol y byddai'r arglwydd raglawiaid a'r uchel siryfion yn cael eu penodi.

Heddiw, mae'r siroedd wedi eu cadw yn parhau i wasanaethu fel yr ardaloedd ar gyfer diffinio rhaglawiaethau a siryfiaethau yng Nghymru, yn unol â Deddf Rhaglawiaethau 1997 a Deddf Siryfion 1887. Mae arglwydd raglaw ac uchel siryf ar gyfer yr holl siroedd wedi eu cadw yng Nghymru, sef cyfanswm o wyth arglwydd raglaw ac wyth uchel siryf. Mae rhai arglwydd raglawiaid ac uchel siryfion yn cwmpasu dau neu ragor o'r awdurdodau lleol gweinyddol presennol a grëwyd gan Ddeddf 1994. Mae rhaglawiaeth a siryddiaeth Gwent yn cynnwys pum awdurdod lleol (Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen); ar y llaw arall, mae rhaglawiaeth a siryddiaeth Powys yn cynnwys un awdurdod yn unig, sef sir weinyddol Powys.

Deddf Pysgodfeydd Môr (Pysgod Cregyn) 1967

Mae adran 10 o Ddeddf Pysgodfeydd Môr (Pysgod Cregyn) 1967 ("Deddf 1967") yn nodi y bydd y rhan o lan y môr y mae gorchymyn o dan adran 1 (pŵer i wneud gorchymynion o ran pysgodfeydd ar gyfer pysgod cregyn) y Ddeddf honno yn ymwneud â hi, at holl ddibenion awdurdodaeth yn cael ei ystyried yng nghorff y sir neu fwrdeistref gyfagos. Darparodd Ddeddf 1994 fod y cyfeiriad at "sir" yn adran 10(1) o Ddeddf 1967 mewn perthynas â Chymru yn cynnwys cyfeiriad at sir wedi ei chadw.

Bydd cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer uno llywodraeth leol yn arwain at leihau nifer y prif awdurdodau lleol i wyth neu naw, o 1 Ebrill 2020. Pa bynnag un o'r ddau opsiwn y penderfynir arno, mae'n ymddangos nad oes llawer o bwrpas cadw nifer cyfatebol o siroedd wedi eu cadw, a fyddai'n ychwanegu cymhlethdod diangen at fap llywodraeth leol Cymru.

Rydym yn cynnig diddymu'r siroedd wedi eu cadw yng Nghymru o 1 Ebrill 2020. O ganlyniad, bydd angen diwygio'r statudau perthnasol i sicrhau bod penodiadau'r arglwydd raglawiaid a'r uchel siryfion yn berthnasol i'r siroedd newydd a fydd yn bodoli ar ôl 1 Ebrill 2020, a bydd angen diweddarau'r cyfeiriad yn Neddf 1967. **Caiff arglwydd raglawiaid ac uchel siryfion eu penodi gan y Frenhines, felly bydd angen i unrhyw newidiadau gael eu gwneud drwy ymgynghori â'r swydd-ddeiliaid ac â chynghorwyr y Frenhines.** Byddwn yn gweithio gyda phawb y mae hyn yn effeithio arnynt i sicrhau, os oes angen, bod trefniadau trosiannol ar waith cyn 1 Ebrill 2020.

Cwestiwn 1.11: A ydych chi'n cytuno y dylid diddymu'r siroedd wedi eu cadw a gwneud diwygiadau canlyniadol er mwyn penodi arglwydd raglawiaid ac uchel siryfion mewn perthynas â'r siroedd fydd yn bodoli ar ôl 1 Ebrill 2020?

Materion Technegol Eraill

Mae nifer o faterion a all gael eu hystyried yn dechnegol eu natur y byddwn yn ceisio barn arnynt. Mae'r rhain yn cynnwys:

- unrhyw eiddo, hawliau a rhwymedigaethau, gan gynnwys grantiau, sy'n gofyn am ddarpariaeth benodol i'w trosglwyddo'n effeithiol i'r Cynghorau newydd;
- unrhyw effaith ar gontractau ac eiddo presennol a fyddai angen darpariaeth benodol yn y Bil;
- yr amser ar gyfer atal is-etholiadau yn y Cynghorau presennol cyn i'r Cynghorau newydd dderbyn eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau llawn ar 1 Ebrill 2020, ee lle bo seddi gwag achlysurol;
- mecanweithiau i gadw hawliau seremonïol hanesyddol, gan gynnwys statws dinas a bwrdeistref;
- cyd-bwyllgorau, cyd-fyrddau ac awdurdodau iechyd porthladd.

Ein bwriad yw cynnal trafodaethau uniongyrchol ag Awdurdodau Lleol ar y materion hyn; fodd bynnag, rydym yn croesawu barn ar y rhain ac unrhyw faterion technegol tebyg fel rhan o'r ymgynghoriad hwn.

Cwestiwn 1.12: A oes materion eraill o natur dechnegol y dylid hefyd eu hystyried?

Rhan 2: Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol

Mae'r darpariaethau ym Mhennod 1 Rhan 2 yn ymwneud â phŵer cymhwysedd cyffredinol Cyngorau Sir ac mae'r rheini ym Mhennod 2 yn nodi'r amodau y mae'n rhaid i Gyngorau Sir eu bodloni er mwyn iddynt fod yn Gyngorau Sir â chymhwysedd.

Cwestiwn 2.1: A oes gennych unrhyw sylwadau ar unrhyw un o'r darpariaethau yn Rhan 2 o'r Bil Drafft?

Rydym hefyd yn croesawu eich barn ar y materion canlynol.

Pennod 2: Cyngorau Cymuned â Chymhwysedd

Mae'r Bil Drafft yn cynnwys amodau y mae'n rhaid i Gyngor Cymuned eu bodloni os yw am fod 'â chymhwysedd'. Byddai bod 'â chymhwysedd' yn galluogi Cyngor Cymuned i ddefnyddio pŵer cymhwysedd cyffredinol a darparu rhywfaint o hyder i sefydliadau eraill bod gan y Cyngor y capasiti a'r gallu i 'wneud busnes'. Bydd hefyd fantais o ran enw da, lle bydd cymunedau'n gallu gweld bod eu Cyngor yn bodloni safonau penodol.

Sefydlwyd trwy'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn bod barn glir yn erbyn y cynnig y dylai un o'r profion cymhwysedd fod yn isafswm trosiant blynyddol o £200,000. Yn benodol, gwelwyd hyn yn anfantais i Gyngorau gwledig. Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y ddadl ac nid oes darpariaeth o'r fath wedi'i chynnwys yn y Bil Drafft.

Nodwyd hefyd yn y Papur Gwyn ein bwriad pe byddai Cyngor Cymuned yn penderfynu ei fod â chymhwysedd, y dylai orfod rhoi gwybod i bwyllgor y Prif Awdurdod ar gyfer yr ardal honno, ac y dylai'r pwyllgor a enwebir gael pwerau i dynnu cymhwysedd y Cyngor Cymuned yn ôl mewn rhai amgylchiadau. Roedd mwy o ymatebion ymgynghori o blaid nac yn erbyn y cynnigion. Fodd bynnag, rydym wedi ystyried y goblygiadau y gallai hyn eu cael ar y berthynas rhwng Prif Gyngorau a Chyngorau Cymuned, yn enwedig y risg o gymylu atebolrwydd a chreu tensiwn yn y berthynas weithio rhwng y ddwy haen o Lywodraeth Leol. Felly, rydym wedi edrych ar hyn yn wahanol yn y Bil Drafft.

Mae'r darpariaethau yn y Bil Drafft yn galluogi Cyngor Cymuned i basio penderfyniad mewn unrhyw gyfarfod o'r Cyngor ei fod yn bodloni'r gofynion cymhwysedd a'i fod yn Gyngor Cymuned 'â chymhwysedd'. Bydd Cyngor Cymuned o'r fath yn parhau'n gymwys tan y cyfarfod cyffredinol blynyddol cyntaf yn dilyn yr etholiadau cyffredinol, lle bydd yn rhaid iddo basio penderfyniad ei fod yn parhau i fod yn Gyngor Cymuned â chymhwysedd, neu'n peidio â bod â chymhwysedd. Gall Cyngor Cymuned â chymhwysedd hefyd basio penderfyniad mewn unrhyw un o gyfarfodydd y Cyngor ei fod yn peidio â bod yn Gyngor Cymuned â chymhwysedd. Gall Cyngor sy'n peidio â bod yn Gyngor Cymuned â chymhwysedd barhau ag unrhyw weithgareddau sydd eisoes ar waith tra roedd yn gweithredu'r pŵer cymhwysedd cyffredinol.

Mae hyn yn golygu y byddai Cyngor yn gallu penderfynu ei fod â chymhwysedd ei hun yn ei gyfarfod cyntaf yn dilyn etholiad, a pharhau â chymhwysedd am y pum mlynedd nesaf tan ei gyfarfod cyffredinol blynyddol yn dilyn yr etholiadau nesaf, er y gallai fethu â bodloni unrhyw un neu bob un o'r tri gofyniad cymhwysedd yn y blynyddoedd yn y cyfamser, gan gynnwys y gofyniad i gael cyfrifon diamod o ddwy flynedd. Yn ystod y cyfnod hwn, byddai'r Cyngor Cymuned yn gallu arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol a gwneud pethau na fyddai'n gallu'u gwneud pe na byddai wedi penderfynu bod yn gyngor â chymhwysedd, fel sy'n wir mewn cynghorau plwyf cymwys yn Lloegr. Byddai'r dull hwn yn rhoi sicrwydd i Gynghorau Cymuned wrth iddynt ymgymryd â gweithgareddau gan ddibynnu ar y pŵer cymhwysedd cyffredinol, ac yn rhoi sicrwydd hefyd i drydydd partïon wrth iddynt ddelio â Chynghorau Cymuned ynghylch graddau pwerau Cyngor penodol. Byddai Llywodraeth Cymru yn croesawu eich barn ar hyn.

Cwestiwn 2.2: A oes gennych unrhyw sylwadau am ein cynigion sy'n ymwneud â Chynghorau Cymuned â chymhwysedd?

Rhan 3: Hybu Mynediad i Lywodraeth Leol

Mae'r Rhan hon yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â hybu mynediad i Lywodraeth Leol. Mae Pennod 1 yn rhoi trosolwg o'r darpariaethau. Mae Pennod 2 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol annog cyfranogiad y cyhoedd mewn Llywodraeth Leol. Mae Pennod 3 yn sefydlu pwyllgorau ardaloedd cymunedol, at ddiben sicrhau y caiff buddiannau a blaenoriaethau'r gymuned eu hystyried gan y Cyngor wrth iddo arfer i swyddogaethau. Mae Pennod 4 yn delio â cheisiadau gwella, lle mae Cyngor yn cynnal trafodaethau â chyrrff cymunedol at ddiben gwella canlyniadau lleol. Mae Pennod 5 yn ymestyn mynediad cyhoeddus i gyfarfodydd Awdurdodau Lleol ac mae Pennod 6 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol gyhoeddi canllaw i'w cyfansoddiad a chyhoeddi cyfeiriadau swyddogol eu haelodau. Mae'r darpariaethau sy'n ymwneud â chyfranogiad cyhoeddus, pwyllgorau ardaloedd cymunedol a cheisiadau gwella yn cefnogi *Egwyddorion ar gyfer Gweithio gyda Chymunedau Llywodraeth Cymru*.¹⁰

Cwestiwn 3.1: A oes gennych sylwadau am unrhyw un o'r darpariaethau yn Rhan 3 o'r Bil Drafft?

Rydym hefyd yn croesawu eich barn ar y materion canlynol.

Pennod 2: Cyfranogiad y Cyhoedd mewn Llywodraeth Leol

Mae nifer o gyfeiriadau yn y Papur Gwyn at yr angen i Awdurdodau Lleol fod yn fwy gweithredol o ran cynnwys y cyhoedd yng ngwaith y Cyngor ac yn y penderfyniadau a fydd yn effeithio arnynt. Mae'r rhan hon o'r Bil Drafft yn dwyn ynghyd y cynigion ar gyfer cyfranogiad y cyhoedd i greu un ddyletswydd trosfwaol ar Awdurdodau Lleol er mwyn annog cyfranogiad wrth i Gynghorau Sir a'u hawdurdodau perthnasol (Cynghorau Cymuned, awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau Parc Cenedlaethol) wneud penderfyniadau. Mae hefyd yn pennu sut y mae'n bwriadu cyflawni hyn mewn strategaeth. Mae'n rhaid i'r strategaeth gyfranogiad ymdrin â'r materion canlynol: ymwybyddiaeth o swyddogaethau'r Cyngor a sut i ddod yn aelod ohono, hwyluso mynediad at wybodaeth am benderfyniadau a ffyrdd i'r cyhoedd gyflwyno sylwadau i'r Cyngor, cynnwys y cyhoedd mewn prosesau craffu, a defnyddio cyfryngau cymdeithasol.

Gan ystyried pwysigrwydd y broses o bennu'r gyllideb, gwneir darpariaeth ar wahân i sicrhau ymgynghoriad eang ac ystyrlon ar y gyllideb flynyddol.

Cwestiwn 3.2: A oes gennych unrhyw sylwadau am y ddyletswydd arfaethedig ynghylch cyfranogiad y cyhoedd a'r gofyniad i ymgynghori ar y gyllideb flynyddol?

¹⁰ Gweler Datganiad Ysgrifenedig Llywodraeth Cymru, 15 Medi 2015.

<http://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/2015/workingcommunities/?skip=1&lang=cy>

Pennod 3: Pwyllgorau Ardaloedd Cymunedol

Yn y Papur Gwyn, cyflwynwyd dadl gennym o blaid sefydlu model o lywodraethu cymunedol er mwyn i gymunedau allu cynnal a gwella'u hymgysylltiad â'r Awdurdodau Lleol mwy sydd wedi uno, gyda rôl arweiniol i Aelodau Etholedig. Disgrifiwyd dull sy'n seiliedig ar ardal, gyda 'byrddau ardal' yn cynnwys Aelodau Etholedig, cyrff cymunedol, y trydydd sector, Cyngorau Cymuned a gwasanaethau cyhoeddus eraill.

Gofynnodd ymatebwyr i'r ymgynghoriad am ragor o fanylion am yr hyn a fwriedir, mynegwyd pryder ynghylch y posibilrwydd o fiwrocratiaeth gynyddol, a soniwyd am bwysigrwydd sicrhau cynrychiolaeth briodol, yn enwedig o'r trydydd sector a Chyngorau Cymuned. Cytunai'r mwyafrif y dylai Awdurdodau Lleol gael hyblygrwydd i ddylunio dull sy'n addas i'w hardal. Mae'r cyhoedd hefyd wedi dweud wrthym ni, er eu bod yn cefnogi Awdurdodau Lleol mwy, eu bod yn bryderus y byddant yn colli cysylltiad â chymunedau.

Mae'r darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn y Bil Drafft yn ceisio mynegi ein bwriadau a darparu sail fwy gwybodus i wneud sylwadau. Maent yn nodi'r bwriad i'w gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol sefydlu pwyllgor ym mhob un o'u hardaloedd cymunedol (fel y pennwyd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015). Bydd pwyllgorau ardaloedd cymunedol yn darparu ffordd strwythuredig i fynegi barn ar flaenoriaethau lleol a'u bwydo i broses gynllunio cyllideb yr Awdurdod Lleol, ac i gymunedau a phobl leol ymgysylltu â'u Haelodau Etholedig ar faterion ymarferol o bwysigrwydd lleol. Bydd Awdurdodau Lleol hefyd yn gallu ceisio cyngor y cymunedau hyn ar unrhyw fater sy'n ymwneud ag ardal gymunedol y pwyllgor. Mae'r darpariaethau hefyd yn galluogi'r Awdurdod Lleol i ddirprwyo swyddogaethau i bwyllgorau ardaloedd cymunedol. Bydd swyddogaethau o'r fath sydd wedi'u dirprwyo i bwyllgorau ardaloedd cymunedol yn cael eu pennu gan reoliadau i'w penderfynu arnynt gan Weinidogion Cymru.

Cwestiwn 3.3: Sut y dylid ceisio a dewis cynrychiolwyr cymunedol i fod ar bwyllgorau ardaloedd cymunedol?

Cwestiwn 3.4: A ydych chi'n cytuno y dylai Cyngorau Sir allu dirprwyo swyddogaethau i bwyllgor ardal gymunedol? Os ydych, a oes unrhyw swyddogaethau y dylid neu na ddylid eu dirprwyo?

Cwestiwn 3.5: A oes gennych unrhyw farn ynghylch a oes angen rhoi trefniadau trosiannol ar waith ar gyfer pwyllgorau ardaloedd presennol, neu a yw cyfnod arweiniol da yn ddigonol?

Pennod 4: Ceisiadau Gwella

Yn y Papur Gwyn, ymgynghorwyd ar gynnig y dylai fod 'hawl i gymryd rhan'. Byddai hyn yn galluogi cyrff cymunedol i ddod yn rhan o wella gwasanaeth.

Mae'r Bil Drafft yn cynnwys darpariaethau sy'n gorfodi Awdurdodau Lleol i drafod â chyrff cymunedol ynghylch sut y mae modd gwella canlyniad wrth gael cais gan gorff cymunedol, oni bai bod ganddo resymau teg dros beidio â gwneud hynny. Mae'r diffiniad o gyrff cymunedol yn un eang.

Mae'r weithdrefn yn nodi y bydd yr Awdurdod yn cyhoeddi crynodeb ar ei wefan o'r trafodaethau a'r camau y cytunwyd arnynt ar ddiwedd y cyfnod trafod. Byddem yn disgwyl i Awdurdodau Lleol a chyrff cymunedol lynu wrth y materion y maent wedi cytuno arnynt yn gyhoeddus. Fodd bynnag, nid ydym yn ystyried y byddai'n ffafriol i'r berthynas dda rhwng Awdurdodau Lleol a grwpiau cymunedol, nac i'r broses o feithrin diwylliant o gynnwys pobl, pe baem yn gosod dyletswyddau sydd wedi'u rhagnodi'n drwm ar yr Awdurdod Lleol.

Cwestiwn 3.6: A oes gennych unrhyw sylwadau am y darpariaethau diwygiedig ar gyfer 'ceisiadau ar gyfer gwella' neu ar y rhyngweithio rhwng y darpariaethau hyn a'r rheini sy'n ymwneud â'r ddyletswydd cyfranogiad y cyhoedd (Rhan 3, Pennod 2) a phwyllgorau ardaloedd cymunedol (Rhan 3, Pennod 3)?

Pennod 5: Mynediad i Gyfarfodydd etc.

Yn ogystal â'r materion yr ymgynghorwyd arnynt yn y Papur Gwyn ac y darperir ar eu cyfer yn Rhan 3, Pennod 5 o'r Bil Drafft, rydym hefyd yn dymuno ymgynghori ar gynigion ychwanegol amrywiol sy'n ymwneud â chyfarfodydd y Cyngor.

- Cyhoeddi hysbysiadau o gyfarfodydd yn electronig. Cyflwynodd Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 ofyniad ar Gynghorau Cymuned i gael gwefannau a chyhoeddi gwybodaeth sy'n ymwneud â'r Cyngor. Rydym yn cynnig y dylid rhoi Prif Gynghorau mewn sefyllfa debyg i Gynghorau Cymuned.
- Gwysion electronig. Rydym yn cynnig y dylai Prif Gynghorau allu dewis cyhoeddi hysbysiadau'n electronig yn unig yn ôl eu dymuniad.
- Gwahardd alcohol mewn cyfarfodydd Cynghorau Cymuned a dileu'r cyfyngiad ar gynnal cyfarfodydd mewn safle trwyddedig. Mae cymdeithas wedi newid yn sylweddol ers darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 1972. Erbyn hyn mae gan lawer mwy o safleoedd drwydded ac mae llawer iawn o weithgarwch cyhoeddus megis priodasau a chynadleddau yn cael eu cynnal mewn lleoedd sydd wedi'u trwyddedu i werthu alcohol. Felly mae'n ymddangos bod y gwaharddiadau wedi dyddio ac rydym yn cynnig eu diddymu. Fodd bynnag, byddai'n cael ei gynnig y gallai Cynghorau Cymuned fabwysiadu rheolau sefydlog a fyddai'n gwahardd Cynghorwyr neu aelodau o'r cyhoedd rhag yfed alcohol yn ystod cyfarfod.
- Pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i'w gwneud yn ofynnol i gyfarfodydd yr Weithrediaeth gadw a chynnal cofnodion. Ar hyn o bryd, mae rheoliadau a wnaethpwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i gofnodion penderfyniadau gweithredol gael eu hysgrifennu, eu cynnal a'u cyhoeddi. Byddai'r pŵer rheoliadol

arfaethedig yn galluogi Gweinidogion Cymru i orfodi i gyfarfodydd Cabinetau Cyngorau gael eu cofnodi. Byddem yn croesawu eich barn ar y cynnig hwn yng ngolwg ein bwriad y byddai cyfarfodydd y Cabinet yn cael eu darlledu'n fyw.

Cwestiwn 3.7: A oes gennych sylwadau am unrhyw un o'n cynigion pellach sy'n ymwneud â mynediad i gyfarfodydd?

Materion eraill

Cyngorau Ieuenctid

Roedd y Papur Gwyn yn cynnig ei gwneud yn ofynnol i'r Prif Weithredwr sefydlu Cyngor Ieuenctid, gyda'r amcan o annog plant a phobl ifanc i gyfranogi'n well mewn democratiaeth. Yn dilyn yr ymgynghoriad, ystyriwyd y cynnig hwn ymhellach, a'r teimlad bellach yw nad yw'n ddigon eang i adlewyrchu'r arfer gorau sydd eisoes ar waith mewn llawer o Awdurdodau Lleol, o ran ymgysylltu â phlant a phobl ifanc, gan gynnwys trwy gyfryngau digidol a chymdeithasol.

Mae Adran 12 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 ('y Mesur') yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdod Lleol wneud trefniadau, fel y gwêl yn briodol, er mwyn hyrwyddo a hwyluso cyfranogiad gan blant ym mhenderfyniadau'r Awdurdod a allai effeithio arny'n nhw. Mae canllawiau statudol o dan Fesur 2010 yn nodi disgwyliadau Gweinidogion Cymru:

- y dylai Awdurdodau Lleol hyrwyddo a hwyluso cyfranogiad plant a phobl ifanc, o fewn cyd-destun eang Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, fel rhan o'u polisiau, eu gwasanaethau ac wrth ymgysylltu'n ehangach â dinasyddion;
- y dylai cyfranogiad plant a phobl ifanc gael eu cynnwys ym mhob agwedd ar gynllunio, darparu ac adolygu gwasanaethau, gan gynnwys cynlluniau llesiant lleol;
- y dylai Awdurdodau Lleol sefydlu fforwm neu gyngor ieuenctid ar gyfer y sir gyfan fel ffordd i gyflwyno barn pobl ifanc i'r Awdurdod a chyrrff lleol a chenedlaethol eraill sy'n gwneud penderfyniadau.

Mae'r canllawiau wrthi'n cael eu diweddarau i adlewyrchu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sy'n dod i rym o fis Ebrill 2016.

Er bod Mesur 2010 yn gwneud rhywfaint i gyflawni nod ein polisi i annog cyfranogiad mewn democratiaeth leol, byddai'r darpariaethau cyfranogiad y cyhoedd yn Rhan 3 o'r Bil Drafft yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdod Lleol gynnwys plant a phobl ifanc (ymysg 'pobl leol' eraill) ym mhroses yr Awdurdod o wneud penderfyniadau. Mae hyn yn gam ymhellach nag adran 12 o Fesur 2010, sydd wedi'i gyfyngu i gyfranogiad gan blant ym mhenderfyniadau'r Awdurdod 'a allai effeithio arny'n nhw'. Byddai rôl plant a phobl ifanc yn cael ei phwysleisio yn y canllawiau i'w cyhoeddi o dan y Bil, ac rydym yn bwriadu

iddo gynnwys mesurau penodol y gallai Cyngorau eu cymryd i gynorthwyo i drefnu pobl ifanc yn eu hardal a chyfeirio'u barn i ystyriaethau'r Cyngor.

Cwestiwn 3.8: A oes gennych unrhyw sylwadau am ein cynigion i wella cyfranogiad gan blant a phobl ifanc trwy'r ddyletswydd cyfranogiad y cyhoedd?

Rhan 4: Swyddogaethau Cynghorau Sir a'u Haelodau

Mae'r darpariaethau yn Rhan 4 o'r Bil Drafft yn delio â swyddogaethau'r Cynghorau newydd a'u haelodau. Mae Pennod 1 yn rhoi trosolwg o'r darpariaethau yn y Rhan hon. Mae Pennod 2 yn nodi'r dyletswyddau y mae'n rhaid i bob Cynghorydd eu cyflawni. Mae Pennod 3 yn nodi sut y dylid delio â Chynghorwyr sy'n torri'u dyletswyddau ac mae Pennod 4 yn gwneud darpariaethau pellach mewn perthynas â'r dyletswyddau hyn. Mae Pennod 5 yn nodi bod yn rhaid i'r Maer Etholedig neu'r Arweinydd osod amcanion ar gyfer y Cabinet a bod yn rhaid i ymgeiswyr ar gyfer swydd Maer Etholedig neu'r Arweinydd baratoi maniffesto ysgrifenedig. Mae hefyd yn galluogi Cynghorwyr i gael eu penodi fel cynorthwyr i'r weithrediaeth. Mae Pennod 6 yn gwneud darpariaeth ynghylch penodi'r Prif Weithredwr, gosod ei amcanion, yn ogystal â gwneud swydd pennaeth gwasanaethau democrataidd yn brif swyddog. Mae Pennod 7 yn gwneud amrywiaeth o ddarpariaethau sy'n ymwneud â phwyllgorau trosolwg a chraffu a phwyllgorau safonau. Mae Pennod 8 yn gwneud mân ddiwygiadau i ddeddfwriaeth arall.

Cwestiwn 4.1: A oes gennych sylwadau ar unrhyw un o'r darpariaethau yn Rhan 4 o'r Bil Drafft?
--

Rydym hefyd yn croesawu eich barn ar y materion canlynol.

Pennod 4: Darpariaeth Bellach am Ddyletswyddau ar Aelodau

Yn y Papur Gwyn cynigiwyd y dylai'r Arweinwyr Grŵp fod â dyletswydd i sicrhau y caiff amrywiaeth ei pharchu, ac y dylai Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau fod â rolau gorfodi. Roedd y mwyafrif o'r ymgynghorion a ymatebodd i'r mater hwn yn gefnogol. Mae Pennod 4 yn rhoi dyletswydd ar arweinwyr grwpiau gwleidyddol i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan aelodau'r grŵp. Rhoddir swyddogaethau newydd i bwyllgorau safonau fonitro cydymffurfiaeth gan arweinwyr grwpiau gwleidyddol gyda'r ddyletswydd hon, ac i gynghori ar hyfforddiant newydd sy'n ymwneud â'r ddyletswydd, a'i drefnu.

Pennod 7: Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu a Phwyllgorau Safonau

Mae'r Bil Drafft yn rhoi swyddogaethau newydd i bwyllgorau safonau ddelio â chwynion bod Cynghorwyr wedi torri'r dyletswyddau a osodwyd arnynt trwy Bennod 2 y Rhan hon (adrannau 82 i 86), ac i fonitro cydymffurfiaeth arweinwyr grwpiau gwleidyddol â'r ddyletswydd a osodwyd arnynt gan Bennod 4. O ystyried rôl ehangach y Pwyllgor Safonau, credwn fod gwerth i'r Awdurdod gael trosolwg o waith y Pwyllgor Safonau yn ystod y flwyddyn, yn ei holl swyddogaethau, er mwyn meithrin dealltwriaeth well o dueddiadau safonau ymddygiad yn yr Awdurdod. Ym Mhennod 7 felly, rydym yn rhoi dyletswydd ar Bwyllgorau Safonau i gyhoeddi adroddiad blynyddol ac, fel y bo'n briodol, i wneud argymhellion i'r Awdurdod.

Cwestiwn 4.2: A oes gennych unrhyw sylwadau am y ddyletswydd arfaethedig ar arweinwyr grwpiau gwleidyddol neu ar rolau monitro ac adrodd y Pwyllgor Safonau?

Materion eraill

Dirprwyo Swyddogaethau

Yn y Papur Gwyn nodwyd ein bwriad i adolygu'r darpariaethau yn Neddf Dadreoleiddio a Chontractio Allan 1994 ("Deddf 1994") er mwyn galluogi Awdurdodau Lleol yn gyffredinol i wneud penderfyniadau ar sut y maent yn cyflawni gwasanaethau, mewn sefyllfaoedd nad ydynt wedi'u rhagnodi. Roedd y cynnig hwn yn gysylltiedig â'r cynnig i roi pŵer cymhwysedd cyffredinol i Brif Gynghorau a Chynghorau Cymuned cymwys â phŵer cymhwysedd cyffredinol. Mae darpariaeth wedi'i chynnwys yn y Bil Drafft ar gyfer pŵer cymhwysedd cyffredinol.

Ein bwriad, fel sy'n digwydd yn awr o dan Ddeddf 1994, yw y dylai Awdurdodau Lleol gael caniatâd i ddirprwyo'r gwaith o arfer rhai o'u swyddogaethau i drydydd partïon. Fodd bynnag, ystyriwn fod y darpariaethau presennol yn anhyblyg. Ar hyn o bryd, nid oes modd i Weinidogion Cymru arfer y pŵer contractio allan mewn perthynas â Chymru, ac nid yw'r gorchmynion sydd wedi'u gwneud hyd yn hyn yn gwneud llawer i annog Awdurdodau Lleol i fod yn fwy arloesol yn y ffordd y maent yn darparu'u gwasanaethau.

Felly, rydym yn cynnig y dylid diddymu Rhan 2 o Ddeddf 1994, fel y mae'n berthnasol i gontractio swyddogaethau Awdurdodau Lleol yng Nghymru, a chael trefn newydd yn ei lle a fydd yn caniatáu i Awdurdodau Lleol ddirprwyo swyddogaethau i drydydd partïon yn ôl rheoliadau gan Weinidogion Cymru. Cynigiwn y dylai'r pŵer dirprwyo hwn fod yn berthnasol i Brif Gynghorau, Cynghorau Cymuned, Awdurdodau Tân ac Achub, Awdurdodau Parc Cenedlaethol a Chydbwyllgorau Cynllunio. Yn yr un modd â'r pŵer cymhwysedd cyffredinol, ein bwriad yw dod â'r ddarpariaeth i rym cyn gynted â phosibl ar ôl pasio'r Bil er mwyn i'r drefn newydd fod ar gael i Awdurdodau presennol.

Cwestiwn 4.3: A oes gennych unrhyw sylwadau am ein cynigion sy'n ymwneud ag Awdurdodau Lleol yn dirprwyo swyddogaethau?

Cymhwyster Etholiadol

Mynegodd ymatebwyr i'r Papur Gwyn bryderon ynghylch codi'r gwaharddiad ar swyddogion Awdurdodau Lleol rhag ymgeisio i'w hethol i'w Hawdurdod eu hun. Fel y cyhoeddwyd o'r blaen, ni fyddwn yn parhau â'r cynnig hwn.

Yn ychwanegol, roedd y Papur Gwyn yn cynnig:

- ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr etholiadau Llywodraeth Leol ddatgan eu bod yn aelod o blaid wleidyddol, lle y bo'n briodol;

- rhwystro aelodau etholedig Prif Gynghorau rhag gwasanaethu'n Gynghorwyr Cymuned yr un pryd;
- rhwystro unigolyn rhag gwasanaethu ar fwy nag un Cyngor Cymuned yr un pryd.

Mae'r cynigion hyn yn cael eu hystyried ymhellach, ac nid oes unrhyw ddarpariaeth wedi'i gwneud yn y Bil Drafft.

Cyfyngiadau ar Gyfnodau Gwasanaeth

Roedd safbwyntiau clir yn ymgynghoriad y Papur Gwyn ynghylch y cynnig i gyfyngu ar gyfnodau gwasanaeth parhaus Aelodau Etholedig, yr Arweinydd ac Aelodau'r Cabinet. O ganlyniad, fel y cyhoeddwyd o'r blaen, ni fydd y cynigion hyn yn mynd rhagddynt.

Rhyddhau Cynghorwyr o'u Cyflogaeth

Roedd y Papur Gwyn yn cynnig rhoi dyletswydd ar wasanaethau cyhoeddus sydd wedi'u datganoli i ryddhau gweithwyr i ymgymryd â dyletswyddau fel Cynghorwyr. Gan ystyried y ddarpariaeth yn adran 50 o Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 1996 (yr hawl i gael amser o'r gwaith ar gyfer dyletswyddau cyhoeddus) nid oes darpariaeth bellach wedi'i gwneud ar gyfer hyn yn y Bil Drafft. Bydd codi ymwybyddiaeth a hyrwyddo'r defnydd o'r ddarpariaeth bresennol hon yn cael eu rhoi ar waith trwy'r rhaglen *Amrywiaeth mewn Democratiaeth*.¹¹

Cydnabyddiaeth Ariannol Cynghorwyr

Fel y nodwyd yn y Papur Gwyn, mae disgwyliad y mae modd ei gyfiawnhau ymysg y cyhoedd na ddylai gwleidyddion etholedig gael cydnabyddiaeth ariannol mwy na'r hyn y mae modd ei gyfiawnhau mewn perthynas â graddau eu cyfrifoldebau a'u hymrwymiad amser. Yn yr un modd, nid yw Llywodraeth Cymru yn dymuno achosi anfantais ariannol i unrhyw un am fod yn Gyngorydd, gan y byddai hyn yn mynd yn groes i'n bwriad clir i gynyddu amrywiaeth ymysg Cynghorwyr.

Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol sy'n penderfynu ar y fframwaith cydnabyddiaeth ariannol i Gynghorwyr. Er nad oes darpariaeth wedi'i chynnwys yn y Bil Drafft, cynigir y bydd gan Weinidogion Cymru bŵer yn y Bil i'w gyflwyno i gyfeirio'r Panel i ystyried canllawiau wrth adolygu'r fframwaith cydnabyddiaeth ariannol ar gyfer Cynghorwyr.

Cwestiwn 4.4: A oes gennych unrhyw sylwadau am ein cynnig i roi pŵer i Weinidogion Cymru gyfarwyddo Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol i ystyried canllawiau wrth adolygu'r fframwaith cydnabyddiaeth ariannol ar gyfer Cynghorwyr?

Adalw Cynghorwyr

Cytunodd 75% o'r ymatebwyr ar-lein y dylai fod yr hawl i adalw. Er i 5 Awdurdod Lleol gytuno (gydag amodau, yn enwedig o ran trefniadau diogelu yn erbyn cam-drin), roedd 13 yn erbyn hyn. Er nad yw wedi'i gynnwys yn y Bil Drafft, mae darpariaethau sy'n cynnwys hawl i adalw dros Aelodau Prif

¹¹ <http://gov.wales/topics/localgovernment/diversity-in-democracy/?skip=1&lang=cy>

Gynghorau yn cael eu hystyried, yn debyg i drefniadau sydd ar waith mewn perthynas ag Aelodau Seneddol. Byddai hyn yn cryfhau cyfrifoldebau pwyllgorau safonol gan eu galluogi i ystyried honiadau o fethiant gan Gynghorydd i berfformio'i ddyletswyddau, yn ogystal â materion camymddwyn. Yn y ddau achos, pe câi Cynghorydd ei atal o'i swydd dros dro, byddai hyn yn galluogi pobl leol, yn ôl eu dymuniad, i lunio deiseb yn galw am is-etholiad mewn perthynas â sedd y Cynghorydd hwnnw. Pe câi'r ddeiseb ei llofnodi gan ugain y cant neu ragor o'r etholaeth yn y ward etholiadol honno, byddai'n rhaid galw is-etholiad.

Mynychu Cyfarfodydd o Bell

Nid yw'r darpariaethau sy'n galluogi mynychu cyfarfodydd y Cyngor o bell, a gyflwynwyd ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 ("Mesur 2011"), wedi'u mabwysiadu'n eang hyd yn hyn. Yn ôl adborth gan Lywodraeth Leol, gwelir bod un ai diffyg galw am y cyfleuster neu farn bod yr heriau technegol sy'n ofynnol i gadw at ddarpariaethau manwl y Mesur wedi arwain at y ffaith nad yw'r diwygiad yn cael ei weithredu ar lefel Awdurdodau Lleol.

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod atyniadau penodol i'r syniad o ganiatáu mynychu o bell ar gyfer Aelodau sy'n gallu ei chael yn anodd i fynd i rai cyfarfodydd oherwydd rhesymau cyflogaeth, teithio neu ddomestig. Gall hyn gynyddu ar ôl creu'r Awdurdodau newydd, o ystyried eu meintiau mwy ac os gwelir gwelliant o ran oedran, rhyw a phroffil cyflogaeth Cynghorwyr, yn ôl y bwriad.

Er na wneir darpariaeth yn y Bil Drafft, ein bwriad yw cynnwys darpariaethau yn y Bil i'w gyflwyno a fyddai'n diwygio Mesur 2011 er mwyn ei gwneud yn hwylusach i Gynghorwyr fynychu cyfarfodydd y Cyngor o bell.

Cwestiwn 4.5: A ydych chi'n cytuno y dylai'r darpariaethau sy'n ymwneud â mynychu cyfarfodydd o bell ym Mesur 2011 fod yn fwy hyblyg?

Cost Uwch-Reolwyr mewn Llywodraeth Leol

Roedd y Papur Gwyn yn cynnig mecanwaith rheoli parhaol ar gyfer dyfarnu cyflogau i bob Prif Swyddog trwy Banel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol, proses benodi 'ganolog' i Brif Weithredwyr a Phrif Swyddogion, a chyfyngu ar hyd tymor Prif Weithredwyr yn eu swydd. Yn dilyn ystyriaeth bellach, eir i'r afael â'r materion hyn fel rhan o ystyriaethau ehangach mewn perthynas ag uwch-reolwyr ym mhob rhan o'r gwasanaeth cyhoeddus, a hynny er mwyn creu fframwaith mwy tryloyw ac agored ar gyfer uwch-benodiadau a chyflogau mewn Llywodraeth Leol. Ymdrinnir â'r materion hyn hefyd trwy waith Comisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus.

Rôl a Chyfrifoldebau Prif Weithredwyr

Byddwn yn ceisio cyfle deddfwriaethol priodol pellach i sicrhau y dylai rôl y Swyddog Canlyniadau ym mhob Prif Awdurdod fod yn un o ddyletswyddau hanfodol y Prif Weithredwr, ac na fyddai'n cael ffi bersonol ychwanegol am ei chyflawni.

Ar sail y cylchoedd etholiadol presennol, byddai'r Cyngorau Sir newydd yn ysgwyddo swyddogaethau llawn Llywodraeth Leol ar 1 Ebrill 2020, ychydig dros fis cyn yr Etholiad Cyffredinol a drefnir ar gyfer mis Mai y flwyddyn honno. Os hynny, ni fyddai'n ymarferol penodi Swyddog Canlyniadau newydd ar gyfer yr Awdurdod newydd hwnnw ar yr adeg honno. Er nad oes darpariaeth yn y Bil Drafft, cynigiwn roi pwerau, yn y Bil i'w gyflwyno, i'r Awdurdodau Cysgodol benodi Swyddogion Canlyniadau i wasanaethu tan y bydd yn gyfleus.

Cwestiwn 4.6: A oes gennych unrhyw sylwadau am ein cynnig y dylai fod yn ofynnol i Awdurdodau Cysgodol benodi Swyddogion Canlyniadau dros dro?

Prif Weithredwyr i Hybu Gwaith Ymgysylltu ac Amrywiaeth mewn Democratiaeth

Yn y Papur Gwyn, ymgynghorwyd ar gynnig y dylai fod dyletswydd ar y Prif Weithredwr i hybu gwaith ymgysylltu ac amrywiaeth mewn democratiaeth. O edrych yn ôl, rydym yn ystyried y dylai'r ddyletswydd i hybu gwaith ymgysylltu mewn democratiaeth fod yn gyfrifoldeb i'r Awdurdod cyfan, fel y nodir yn Rhan 3 o'r Bil Drafft, *Hybu Mynediad i Lywodraeth Leol*.

Bydd Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol yn etifeddu pwerau a dyletswyddau sydd gan Bennaeth Gwasanaethau Cyflogedig yr Awdurdod Lleol ar hyn o bryd. Bydd hyn yn cynnwys gofyniad iddynt gadw golwg ar reolaeth briodol o staff y Cyngor a, lle bo'n briodol, gwneud cynigion i'r Cyngor. Mae hyn yn golygu y dylid ystyried cydymffurfiaeth â'r ddarpariaeth gyfreithiol a'r dyletswyddau cyfreithiol presennol (er enghraifft, mewn perthynas â bwlio, aflonyddwch a gwahaniaethu) wrth gynnig polisiau a gweithdrefnau i'r Awdurdod ystyried eu mabwysiadu. Yn ogystal â hynny, yn Adran 104 o'r Bil Drafft, mae'n ofynnol i'r Arweinydd osod amcanion i'r Prif Weithredwr, a allai gynnwys amcanion sy'n ymwneud â chydaddoldeb ac amrywiaeth. Gallai Gweinidogion Cymru argymhell mewn canllawiau statudol y dylai Arweinwyr ystyried pwysigrwydd gosod a monitro amcanion o'r fath er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth cydraddoldebau. Felly, nid oes darpariaeth ychwanegol benodol ar gyfer hyn yn y Bil Drafft gan fod darpariaeth ddeddfwriaethol helaeth eisoes ar waith ar y materion hyn.

Pŵer i Ddiswyddo Uwch-swyddogion trwy Bleidlais y Cyngor Llawn

Mae trefniadau cyflogaeth uwch-swyddogion penodol (y Prif Weithredwr, y Prif Swyddog Cyllid, y Swyddog Monitro a'r Pennaeth Gwasanaethau Democratiaidd) yn golygu nad oes gan Awdurdod hawl i'w diswyddo heb fod ymchwiliad wedi'i gynnal yn gyntaf gan berson annibynnol a fyddai'n cyfiawnhau'r camau gweithredu hyn. Yn Lloegr, mae Llywodraeth y DU wedi disodli hyn â'r gofyniad i gynnal pleidlais o'r Cyngor llawn i ddiswyddo. Mae'n bosibl y gallai hyn arwain at hawliadau yn erbyn Awdurdodau Lleol am ddiswyddo annheg, a byddai angen ystyried y ofalus pe bai dull o'r fath yn cael ei fabwysiadu yng Nghymru. Serch hynny, byddai Llywodraeth Cymru yn croesawu barn ynghylch a ddylid mabwysiadu trefn debyg.

Cwestiwn 4.7: A oes gennych unrhyw sylwadau am fuddioldeb rhoi'r pŵer i Gyngorau ddiswyddo'r Prif Weithredwr, y Prif Swyddog Cyllid, y Swyddog Monitro a'r Pennaeth Gwasanaethau Democraataidd trwy bleidlais?

Swyddogaethau a Chyfrifoldebau'r Cyngor

Darperir ar gyfer y trefniadau i bennu pwy sy'n gyfrifol mewn Awdurdod Lleol am wneud penderfyniadau mewn perthynas â swyddogaethau amrywiol Llywodraeth Leol yn y rheoliadau a wnaed o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.¹²

Yn gryno, cyfrifoldeb Gweithrediaeth Awdurdodau Lleol yw mwyafrif y swyddogaethau, ond mae'r rheoliadau'n disgrifio'r swyddogaethau hynny nad oes modd i'r Weithrediaeth fod yn gyfrifol amdanynt, nad oes modd i'r Weithrediaeth fod yn gwbl gyfrifol amdanynt, neu a all fod un ai'n gyfrifoldeb i'r Weithrediaeth neu i'r Cyngor llawn, yn ddibynnol ar ddewis lleol.

Mae'r rheoliadau hyn yn fanwl ac yn gyfarwyddol. Maent hefyd yn debygol o ddyddio ac angen eu diwygio'n rheolaidd. Rydym yn cynnig symleiddio'r system a rhoi rhagor o hyblygrwydd i Awdurdodau newydd yn dilyn uno.

Rydym yn cynnig y dylid cael darpariaeth fwy rhyddfrydig yn hytrach na darpariaethau adran 13 o Ddeddf 2000 mewn perthynas â dyrannu cyfrifoldeb yn yr Awdurdod Lleol. Byddai Awdurdodau yn gorfod ystyried canllawiau gan Weinidogion Cymru wrth benderfynu ar gyfrifoldebau dros swyddogaethau. Er hyn, dylai fod angen iddynt gadw at egwyddorion penodol yr ydym yn cynnig eu cynnwys yn y Bil i'w gyflwyno. Rydym hefyd yn cynnig y dylai fod pŵer cyfarwyddo gan Weinidogion Cymru i'w gwneud yn ofynnol i Awdurdod Lleol ddyrannu cyfrifoldeb dros swyddogaeth mewn ffordd benodol.

Rydym yn cynnig mai'r swyddogaethau a fyddai'n arwain y gwaith o ddyrannu swyddogaethau fyddai:

- wrth i'r Cyngor weithredu mewn rôl led-farnwrol, ni ddylai'r swyddogaethau sy'n gysylltiedig â hynny fod yn rhai ar gyfer y Weithrediaeth. Byddai hyn yn cynnwys penderfyniadau mewn perthynas â chynllunio a thrwyddedu;
- dylai cymeradwyo cyllideb y Cyngor a chynllunio ariannol, gan gynnwys swm y Dreth Gyngor sy'n ofynnol, fod yn benderfyniad i'r Cyngor llawn;
- dylai penodi uwch staff fod yn benderfyniad i'r Cyngor llawn;
- dylai penodi Swyddog Cofrestru Etholiadol a materion etholiadol yn gyffredinol fod yn benderfyniad i'r Cyngor llawn;
- dylai taliadau cydnabyddiaeth Aelodau o'r awdurdod fod yn benderfyniad i'r Cyngor llawn;
- dylai swyddogaethau sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau gan y Cyngor fod yn gyfrifoldeb i'r Weithrediaeth;
- mae angen cytundeb y Cyngor llawn a'r Weithrediaeth i ddyrannu swyddogaethau;

¹² <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2007/399/contents/made>

- dylai cynllun dirprwyo'r Cyngor gael ei gyhoeddi a bod ar gael trwy wefan y Cyngor.

Gall Awdurdodau Lleol a'u Gweithrediaeth ddirprwyo'u swyddogaethau, yn amodol ar rai eithriadau, yn ôl eu dymuniad ac, o dan y cynigion hyn, byddai hyn yn cynnwys gallu i ddirprwyo swyddogaethau penodol i bwyllgorau ardaloedd cymunedol, yn ogystal â threfn newydd ar gyfer dirprwyo swyddogaethau i drydydd partïon (gweler uchod).

Cwestiwn 4.8: A oes gennych unrhyw sylwadau am ein cynigion i newid y fframwaith a ddefnyddir gan y Cyngorau a'u Gweithrediaeth i benderfynu sut i ddyrannu eu swyddogaethau?

Trosglwyddo Asedau Awdurdodau Lleol

Roedd y Papur Gwyn yn cynnwys cynigion i alluogi cyrff cymunedol cymwys i gychwyn proses o drosglwyddo asedau o Awdurdod Lleol. Roedd mwyafrif yr ymatebion ymgynghori o blaid (59% o blaid, 22% yn erbyn). Amcan y cynnig oedd hwyluso'r gwaith o drosglwyddo asedau i gyrff cymunedol.

O safbwynt cyrff cymunedol, y mater a godwyd amlaf yn y gweithdai ymgynghori ac yn yr ymatebion ysgrifenedig fel rhwystr i drosglwyddo asedau oedd ansawdd yr ymgysylltu rhwng Awdurdodau Lleol a chyrff cymunedol. Cyfeiriwyd yn aml at y cyfnod rhybudd a roddir i gyrff cyhoeddus ynghylch gwaredu, ac ansawdd yr wybodaeth a ddarparwyd (gan gynnwys am rwymedigaethau). Roedd cyrff cyhoeddus hefyd awyddus i Awdurdodau Lleol fabwysiadu dull o weithio mewn partneriaeth yn hytrach na dull trafodol, ac i gydnabod yr angen am gymorth parhaus yn ystod camau cynnar y trosglwyddo. Tynnodd Awdurdodau Lleol sylw at y ffaith fod diffyg gallu ymarferol ymysg cyrff cymunedol, megis arbenigedd cyfreithiol ac arbenigedd iechyd a diogelwch, yn rhwystr i'r broses.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried y materion a godwyd ac mae'n cynnig addasu ei dull o fynd ati. Gallai'r cynigion a nodwyd yn y Papur Gwyn arwain at brosesau biwrocraidaidd cymhleth a chreu drwgdeimlad rhwng Awdurdodau Lleol a chyrff cymunedol, yn hytrach na hyrwyddo perthnasoedd gwell. Nid yw'r Bil Drafft yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n ymwneud â throsglwyddo asedau, ond mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnwys darpariaeth yn y Bil i'w gyflwyno.

Rydym yn cynnig bod cyrff cymunedol yn cael hysbysiad statudol pan fydd asedau Awdurdod Lleol uwchben gwerth penodol yn cael eu gwaredu, gan roi'r cyfle iddynt gyflwyno syniadau newydd. Ni fyddai hyn yn rhwystro Awdurdodau Lleol rhag mynd ati mewn modd cynlluniedig i waredu asedau, a rhoi mwy o rybudd i gyrff cymunedol am gyfleoedd lleol a sicrhau arfer mwy cyson ar draws Cymru.

Er enghraifft, gallai fod yn ofynnol i Awdurdodau Lleol nodi gwaredu asedau uwchben gwerth penodol fel 'penderfyniad allweddol'. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau gwneud rheoliadau o dan adran 22 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 i'w gwneud yn ofynnol i Weithrediaeth Awdurdodau Lleol roi gwybodaeth

am fathau penodol o benderfyniadau i'r cyhoedd neu Gynghorwyr. Mae adran 107 o'r Bil Drafft yn diwygio adran 22 o Ddeddf 2000 i'w gwneud yn ofynnol i'r wybodaeth gael ei darparu hefyd i bwyllgorau craffu a'u his-bwyllgorau. Gall y rheoliadau nodi mathau o benderfyniadau (a allai gynnwys gwaredu asedau), yr wybodaeth y mae'n rhaid iddi fod ar gael, a hyd y rhybudd sy'n ofynnol cyn gwneud penderfyniad.

Byddai modd cryfhau'r pwerau hyn gan gynnwys darpariaeth yn y Bil i'w gyflwyno ar gyfer mynd i'r afael â materion o'r fath, megis sut y dylai Awdurdod Lleol ymateb os yw corff cymunedol yn dangos diddordeb mewn ased penodol, yr asedau (os o gwbl) a allai fod wedi'u heithrio, sut y dylid delio â sefyllfaoedd brys ac yn y blaen. Byddai angen ystyried y goblygiadau ariannol a'r dyletswyddau ar Awdurdodau i gyflawni gwerth am arian fel rhan o'r ystyriaethau hyn. Byddem yn croesawu eich barn.

Cwestiwn 4.9: A oes gennych unrhyw sylwadau am ein cynigion mewn perthynas â gwaredu a throsglwyddo asedau Awdurdodau Lleol?

Asedau o Werth Cymunedol

Dangosodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad gefnogaeth gref ar gyfer cofrestr o asedau (preifat) o werth cymunedol (86% o blaid, 7% yn erbyn). Bu'r mater yn destun ymgynghori pellach gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi yn *Amddiffyn Asedau Cymunedol*. Nid oes darpariaeth sy'n ymwneud ag asedau o werth cymunedol yn y Bil Drafft, ond bydd y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi yn ystyried pa gamau sydd angen eu cymryd maes o law, gan gynnwys yr angen am ddeddfwriaeth.

Rhan 5: Cynghorau Sir: Llywodraethu yn Well

Mae Rhan 5 o'r Bil Drafft yn nodi trefniadau ar gyfer trefn wella newydd. Mae Pennod 1 yn rhoi dyletswydd gyffredinol ar Awdurdodau Lleol i wneud trefniadau llywodraethu, ac i gydymffurfio â nhw. Mae Pennod 2 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol gael cynllun corfforaethol, i ymgynghori arno, i'w adolygu ac i adrodd ar y cynnydd a wneir. Mae Pennod 3 yn nodi sut y mae angen i Awdurdodau Lleol asesu ansawdd eu llywodraethu drwy hunanasesu, asesu gan gymheiriaid ac asesu ar y cyd. Mae Pennod 4 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru drefnu adolygiad o drefniadau llywodraethu Awdurdod Lleol ac mae'n rhoi pŵer iddynt ymyrryd pan fo trefniadau llywodraethu Awdurdod Lleol yn annigonol. Mae Pennod 5 yn darparu ar gyfer cydgysylltu gwell rhwng y rheoleiddwyr ac mae Pennod 6 yn gwneud darpariaeth amrywiol sy'n ymwneud â'r penodau cynt. Mae Pennod 7 yn nodi swyddogaethau newydd ac aelodaeth ddiwygiedig Pwyllgorau Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio (a elwid gynt y Pwyllgorau Archwilio).

Ein bwriad yw cychwyn y mwyafrif o'r darpariaethau hyn pan fydd y Bil yn cael ei wneud yn ddeddf, er mwyn i'r gwaith o bontio i'r drefn newydd allu dechrau yn syth a chefnogi'r broses uno.

Cwestiwn 5.1: A oes gennych sylwadau am unrhyw un o'r darpariaethau yn Rhan 5 o'r Bil Drafft?

Rydym hefyd yn croesawu eich barn ar y materion canlynol.

Pennod 1: Dyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau llywodraethu da etc.

Ar hyn o bryd, mae Cynghorau Sir yn destun 'dyletswydd gyffredinol mewn perthynas â gwella' a'r drefn gysylltiedig o ran asesu gwelliant ac ymyrryd y darperir ar ei chyfer yn Rhan 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ("trefn 2009"). Bydd trefn 2009 yn cael ei ddiddymu mewn perthynas â Chynghorau Sir yn ôl adran 147 o'r Bil Drafft. Mae'r darpariaethau yn Rhan 5 yn cymryd lle trefn 2009 gyda threfn sy'n canolbwyntio ar ansawdd llywodraethu mewn Cynghorau Sir, gyda llawer mwy o benderfyniadau ac atebolrwydd lleol.

Mae'r bennod hon yn ei gwneud yn ofynnol i Gyngor Sir lunio trefniadau, eu rhoi ar waith a chydymffurfio â hwy er mwyn sicrhau llywodraethu da, atebolrwydd, a dull darbodus, effeithlon ac effeithiol o ddefnyddio adnoddau'r Cyngor. Caiff cydymffurfedd y Cyngor â'i drefniadau llywodraethu ei hun ei asesu trwy hunanasesiadau, asesuadau gan gymheiriaid ac asesuadau ar y cyd, fel y nodir isod.

Mae'n rhaid i drefniadau llywodraethu Cyngor Sir gydymffurfio â'r egwyddorion, y prosesau a'r arferion sy'n cael eu nodi yn y rheoliadau gan Weinidogion Cymru. Gall Gweinidogion Cymru ragnodi cod ymarfer neu ganllawiau mewn rheoliadau. Enghraifft o god ymarfer o'r fath yw *Delivering Good Governance in Local Government: Framework* a gyhoeddwyd ar y cyd

gan Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth a Chymdeithas Prif Weithredwyr yr Awdurdodau Lleol.

Cwestiwn 5.2: A oes gennych unrhyw sylwadau am ein cynnig i'w gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol ymgymryd â dyletswydd trefniadau llywodraethu?

Pennod 2: Cynlluniau Corfforaethol

Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn gefnogol iawn i'r cynigion y dylai fod yn ofynnol i Awdurdodau Lleol lunio cynllun corfforaethol. Fodd bynnag, nid oedd yr ymatebwyr yn cytuno'n gyffredinol y dylai'r cynllun corfforaethol gael ei neilltuo i'r Prif Weithredwr, ond yn hytrach y dylai'r Cyngor gytuno arno. Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y dadleuon ac mae'r Bil Drafft yn adlewyrchu'r newidiadau rydym wedi'u gwneud mewn ymateb i'r pryderon hyn.

Pennod 3: Asesu Trefniadau Llywodraethu

Mae'r Bil Drafft yn gosod dyletswydd newydd ar Awdurdodau Lleol i wneud trefniadau llywodraethu, ac i'w rhoi ar waith (gweler uchod). Bydd cydymffurfio â'r ddyletswydd hon yn destun yr hunanasesiadau, asesiadau gan gymheiriaid ac asesiadau ar y cyd arfaethedig.

Hunanasesu ac Asesu gan Gymheiriaid

Roedd yr ymatebion i ymgynghoriad y Papur Gwyn o ran hunanasesu ac asesu gan gymheiriaid yn gefnogol. Pwysleisiodd Awdurdodau Lleol a'r CLILC fanteision trefn asesu gan gymheiriaid dan arweiniad y sector. Mynegwyd pryderon ynghylch baich y cynnig arfaethedig i gynnal asesiadau gan gymheiriaid bob dwy flynedd. Mae'r Bil Drafft yn adlewyrchu'r newidiadau rydym wedi'u gwneud wrth ymateb i'r pryderon hyn, fel mai dim ond o leiaf unwaith bob cylch etholiad y byddai'n ofynnol i bob Awdurdod Lleol ymgymryd ag asesiad gan gymheiriaid.

Mae Atodiad A yn nodi sut y byddem yn disgwyl i asesiad gan gymheiriaid gael ei ddatblygu. Bydd hyn yn sail i ganllawiau gan Lywodraeth Cymru. Byddem yn croesawu eich barn ynghylch a yw'r dull gweithredu hwn yn rhesymol ac a fyddai modd ei gryfhau mewn unrhyw ffordd.

Cwestiwn 5.3: A oes gennych unrhyw sylwadau am y dull gweithredu enghreifftiol tuag at asesiad gan gymheiriaid a nodir yn Atodiad A?

Asesu ar y Cyd

Roedd yr ymatebion ar-lein i gynigion y Papur Gwyn ynghylch asesu trefniadau llywodraethu Awdurdodau Lleol unigol yn allanol yn weddol gefnogol. Cafwyd rhywfaint o drafodaeth ar y cynigion hyn mewn ymatebion rhydd. Roedd gan y CLILC a'r Awdurdodau Lleol hynny a wnaeth ymateb bryderon ynghylch y baich o gynnal 'archwiliad iechyd' bob dwy flynedd. Yn dilyn trafodaethau pellach â'r rheoleiddwyr perthnasol (Archwilydd Cyffredinol

Cymru, AGGCC ac Estyn) mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y ddatl hon ac mae'r Bil Drafft yn darparu ar gyfer trefn llai rhagnodol o asesiadau ar y cyd.

Pennod 6: Darpariaeth Amrywiol

Diwygio Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009

Mae'r Bil Drafft yn tynnu Cynghorau Sir a Bwrdeistref Sirol o'r diffiniad 'awdurdod gwella Cymreig' ym Mesur 2009. Golyga hyn na fydd y drefn wella yn Rhan 1 o'r Mesur bellach yn berthnasol i Brif Gynghorau. Ein bwriad yw y dylai'r ddarpariaeth hon ddod i rym yr un pryd ag y mae'r ddyletswydd yn Rhan 5, Pennod 1 o'r Bil Drafft (*Dyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau llywodraethu da etc.*) yn dod i rym. At ddibenion ymgynghori ar y Bil Drafft, bydd Rhan 1 o Fesur 2009 yn parhau i fod yn berthnasol i Awdurdodau Parc Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru. Bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori'n llawn ar drefniadau'r dyfodol ar gyfer Awdurdodau Parc Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru ynghylch mecanweithiau rheoli perfformiad a llywodraethu maes o law.

Pennod 7: Rôl y Pwyllgorau Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio

Cynigir y dylai'r cyfrifoldeb fod ar y Pwyllgorau Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio i ddwyn yr Awdurdod Lleol i gyfrif am weithredu mewn ymateb i hunanasesiad, asesiad gan gymheiriaid, asesiad ar y cyd ac adolygiad llywodraethu annibynnol. Mae'r Bil Drafft yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgorau Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio adolygu ymateb yr Awdurdod i adroddiadau ac argymhellion a wnaethpwyd o dan yr asesiadau hyn ac, os yw'n briodol, i wneud argymhellion i'r Awdurdod.

Cwestiwn 5.4: A oes gennych unrhyw sylwadau am rôl arfaethedig y Pwyllgorau Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio mewn perthynas ag ymateb yr Awdurdod Lleol i'r hunanasesiad, yr asesiad gan gymheiriaid, yr asesiad cyfun a'r adolygiad llywodraethu?

Materion eraill

Cryfhau Craffu Mewnol ac Allanol

Roedd ymatebion yr ymgynghoriad i'r cynnig yn y Papur Gwyn i gryfhau'r cysylltiadau rhwng craffu mewnol ac allanol ("y rheoleiddwyr perthnasol") yn weddol gadarnhaol. Nid oes darpariaethau ar gyfer hyn wedi'u cynnwys yn y Bil Drafft ond byddant yn cael eu cynnwys yn y Bil i'w gyflwyno.

Ein bwriad yw ei gwneud yn ofynnol i'r rheoleiddwyr gyflwyno'u hadroddiadau i'r pwyllgor trosolwg a chraffu perthnasol yr un pryd ag y rhoddir yr adroddiadau terfynol i'r Awdurdod Lleol. Byddai'n ofynnol i'r Awdurdod Lleol

gynnwys y pwyllgor trosolwg a chraffu perthnasol wrth ddatblygu'i ymateb i adroddiadau'r rheoleiddwyr. Er enghraifft:

- byddai'r Awdurdod Lleol yn paratoi adroddiad/cynllun gweithredu drafft mewn ymateb i archwiliad neu arolwg;
- byddai'r pwyllgor trosolwg a chraffu perthnasol yn ystyried yr adroddiad drafft ac yn darparu cynigion ar gyfer newid;
- byddai'n rhaid i'r Awdurdod Lleol, wrth lunio ei ymateb terfynol i adroddiad, ystyried unrhyw gynigion o'r fath gan y pwyllgor.

Byddai'n ofynnol i'r rheoleiddwyr gyflwyno'u canfyddiadau i'r pwyllgor trosolwg a chraffu perthnasol, pan ofynnid iddynt wneud hynny, i'w cynorthwyo i ystyried ymateb yr Awdurdod Lleol i adroddiadau.

Adroddiad ar 'Gyflwr Llywodraeth Leol'

Er y cafodd y cynnig i'r rheoleiddwyr perthnasol lunio adroddiad ar 'Gyflwr Llywodraeth Leol' ei gefnogi'n gyffredinol gan ymatebwyr ar-lein, prin oedd yr adborth ar fanylion y cynnig. Ni wnaeth yr Awdurdodau Lleol trwy eu hymatebion rhydd nodi unrhyw faterion, pryderon neu fanteision penodol ar gyfer y cynnig hwn, ac eithrio pwynt cyffredinol am ychwanegu beichiau diangen ar Awdurdodau Lleol.

Ers ymgynghori, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wedi cael Cydsyniad Brenhinol ac mae'n dod i rym. Bydd y Ddeddf hon yn arwain at nifer o adroddiadau. Byddwn yn ystyried y cynnig am adroddiad 'Cyflwr Llywodraeth Leol' gan y rheoleiddwyr perthnasol ymhellach, wrth i'r broses o roi Deddf 2015 ar waith fynd rhagddi.

Un Porth Gwybodaeth

Roedd ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn cefnogi data perfformiad mwy syml, tryloyw a hygyrch. Cefnogodd ymatebwyr ar-lein ddull cyson i ganiatáu i berfformiad gael ei gymharu rhwng Awdurdodau Lleol.

Er nad yw darpariaethau sy'n ymwneud ag un porth gwybodaeth yn ymddangos yn y Bil Drafft, ein bwriad yw y bydd y Bil i'w gyflwyno yn cynnwys darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol gyhoeddi data allweddol a dogfennau trwy borth ar-lein. Bydd y ddarpariaeth yn galluogi Llywodraeth Cymru i nodi'r wybodaeth y mae'n rhaid ei chyhoeddi.

Cwynion

Mae'r Papur Gwyn yn nodi ein cynigion y dylai Awdurdodau Lleol sefydlu proses statudol i ddelio â chwynion, a hynny ar-lein yn bennaf. Dylai hefyd fod yn ofynnol iddynt gofnodi gwybodaeth am gwynion a geir, eu dadansoddi, ac adrodd ynghylch sut yr aethpwyd i'r afael â hwy. Byddai hyn yn seiliedig ar y Polisi Pryderon a Chwynion Enghreifftiol ac yn cyd-fynd â'r gofyniad presennol i Awdurdodau Lleol gael proses ar waith i'w galluogi i ddelio â chwynion a sylwadau am eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Rydym yn cydnabod bod Pwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ddiweddar wedi cyhoeddi Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) Drafft i ymgynghori arno a byddwn yn ystyried ein cynigion ymhellach wrth i'r ddeddfwriaeth hon ddatblygu.

Pwyllgorau Cyfrifon Cyhoeddus Lleol

Roedd y Papur Gwyn yn ceisio barn ynghylch a oes rhinwedd mewn sefydlu system o bwyllgorau cyfrifon cyhoeddus lleol yng Nghymru. Ychydig a ymatebodd yn uniongyrchol i'r pwynt hwn ac roedd llawer yn tybio nad oedd digon o wybodaeth yn y Papur Gwyn i lunio barn.

Bu nifer o ymdrechion yn y gorffennol gan Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd ac eraill i ddeall effaith gyfun gwariant cyhoeddus ar ganlyniadau mewn ardal leol. Y nod yn gyffredinol oedd nodi ac osgoi dyblygu gwariant, rhwystro costau rhag cael eu symud o un lle i'r llall a chanfod ffyrdd craffach o wneud pethau.

Mae anawsterau cynhenid wrth ddylunio system leol lle byddai angen i bwyllgor cyfrifon cyhoeddus adrodd i nifer o sefydliadau ar wahân yn hytrach nag i un corff. Mae'r Ganolfan Craffu Gyhoeddus wedi cyflwyno system sy'n addas i'r math o drefniadau datganoli sy'n ymddangos yn Lloegr, megis cyfuno awdurdodau, a fyddai'n sefydlu pwyllgorau cyfrifon cyhoeddus lleol fel cyrff ar wahân gyda'u hadnoddau eu hunain. Byddai'r model hwn yn ychwanegiad sylweddol at gost a chymhlethdod gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, ac nid yw'n debygol o ychwanegu digon o werth fel bod modd ei gyfiawnhau.

Yn ogystal, mae pwyllgorau cyfrifon cyhoeddus yn edrych yn ôl-weithredol ar yr hyn sydd wedi'i wneud a sut y mae arian wedi'i wario, yn hytrach nag archwilio'n feirniadol ddewisiadau polisi'r dyfodol a allai arwain at ganlyniadau mwy effeithiol o ran cost. Gallai dull gwahanol ddatblygu ar y model arwain gwasanaeth cyhoeddus lleol ar y cyd y mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn ei sefydlu. Yn fframwaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, bydd gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ddiddordeb mawr mewn archwilio sut y gallai'r dewisiadau o ran polisi a'r penderfyniadau ynghylch adnoddau sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus gael eu defnyddio wella canlyniadau mewn ardal mewn ffordd sy'n fwy cost-effeithiol. Gallai aelodau Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gytuno ar y cyd ar raglen waith a chyfrannu at ei hadnoddau, gan roi tystiolaeth bwerus iddynt i'w throsglwyddo i'w sefydliadau er mwyn cyfrannu at benderfyniadau corfforaethol.

O ran craffu ar waith y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, credwn fod y ddarpariaeth ddeddfwriaethol bresennol ac arfaethedig yn ddigonol. Ceir gofyniad yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 y dylai penderfyniadau, camau gweithredu a threfniadau llywodraethu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus fod yn destun craffu gan bwyllgor trosolwg a chraffu Awdurdod Lleol. Bydd darpariaethau yn Rhan 4, Pennod 7 o'r Bil Drafft hwn yn galluogi'r Awdurdod Lleol i roi hawliau pleidleisio i aelodau cyfetholedig pwyllgorau trosolwg a chraffu. Byddai hyn yr un mor berthnasol i bwyllgorau sy'n craffu ar waith Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Yn ogystal â hyn, mae adran 108 o'r Bil Drafft yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi mewn rheoliadau yr amgylchiadau lle bo'n rhaid i ddau Awdurdod Lleol neu ragor sefydlu cyd-bwyllgor craffu.

Rydym yn croesawu eich barn ynghylch a ydym yn iawn i wrthod y syniad o gael Pwyllgorau Cyfrifon Cyhoeddus lleol yng Nghymru, ai Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yw'r cyrff cywir i archwilio'r darparu dewisiadau polisi sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus lleol, ac os felly, a fyddent yn elwa ar bwerau cyfreithiol ychwanegol, er enghraifft, i alw swyddogion i roi tystiolaeth a darparu gwybodaeth, ac i gomisiynu arbenigedd allanol i gyfrannu at eu hymchwiliadau.

Cwestiwn 5.5: A oes gennych unrhyw sylwadau am ein cynnig i wrthod pwyllgorau cyfrifon cyhoeddus lleol?

Cwestiwn 5.6: Ai cyrff gwasanaethau cyhoeddus yw'r cyrff cywir i archwilio'r dewisiadau o ran polisi sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus lleol?

Cwestiwn 5.7: Os felly, a fydd pwerau cyfreithiol ychwanegol o fudd iddynt?

Rôl Cwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol mewn Gwasanaethau Cyhoeddus

Ein hunig reswm dros argymhell modelau cyflawni cydweithredol a chydfuddiannol a mathau eraill o fodolau cyflawni fyddai fel dewis amgen i roi'r gorau i wasanaethau neu eu preifateiddio – hynny yw, yr opsiwn 'lleiaf gwael'.

Mae tri rhagamod pwysig ar gyfer gwaith parhaus i ddatblygu fframwaith newid cryfach a chymorth gwell sef:

- atebolrwydd i Lywodraeth Leol;
- amddiffyn telerau ac amodau gweithwyr;
- parhad cydnabyddiaeth undebau llafur.

Rydym yn ymgynghori ar wahân ar y gwaith o ddatblygu fframwaith cenedlaethol i gefnogi gwneud penderfyniadau yn lleol ar briodoldeb modelau darparu eraill ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus.¹³ Bydd yr ymgynghoriad hwn yn archwilio'r cymorth ymarferol a ddylai fod ar gael i sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus, eu gweithlu, dinasyddion a chymunedau wrth wneud penderfyniadau am sut y dylid dylunio a chyflawni gwasanaethau.

Diben datblygu'r fframwaith a sicrhau bod cymorth ar gael yw:

- bod yr amgylchedd ehangach lle ystyrir cynigion ar gyfer modelau newydd, ac yna'u sefydlu, yn ffafriol ar gyfer cynaliadwyedd a llwyddiant parhaus;
- bod modelau newydd yn cael eu profi'n gywir cyn eu mabwysiadu;
- bod buddiannau dinasyddion, cymunedau a'r gweithlu'n cael eu hystyried a'u diogelu'n gywir drwyddi draw.

¹³ <http://gov.wales/consultations/improving/alternative-delivery-models-public-service-delivery/?skip=1&lang=cy>

Roedd y Papur Gwyn yn nodi y dylai cydfuddiannaeth, cydweithio a chydberchnogaeth gyda chymunedau fod wrth wraidd y gwaith o drawsnewid gwasanaethau cyhoeddus. Adlewyrchir hyn gan y cyfleoedd a nodwyd gan Gomisiwn Cwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol Cymru¹⁴ ac yn yr adroddiad dilynol i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus a Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, *Ai Cydfuddiannaeth yw'r Ffordd ymlaen? Ffyrdd Newydd o Gynllunio a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru.*¹⁵

Wrth ymateb i'r heriau hyn, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig rhoi pŵer cymhwysedd cyffredinol i Awdurdodau Lleol yn y Bil Drafft. Bydd Awdurdodau Lleol yn gallu defnyddio'r pŵer hwn fel sail i ddatblygu modelau cyflawni eraill. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi adolygu pwerau Awdurdodau Lleol i ddirprwyo swyddogaethau o dan Ddeddf Dadreoleiddio a Chontractio Allan 1994, ac mae'n cynnig y dylid eu diddymu a chael trefn newydd yn eu lle a fydd yn caniatáu i swyddogaethau Awdurdodau Lleol gael eu dirprwyo i drydydd partiön trwy reoliadau a wnaethpwyd gan Weinidogion Cymru. Mae'r Bil Drafft hefyd yn cynnwys darpariaethau i rymuso cyrff cymunedol i achub y blaen mewn perthynas â cheisiadau gwella a'n bwriad yw defnyddio deddfwriaeth bresennol ac, os oes angen, cynnwys darpariaeth ychwanegol yn y Bil i'w gyflwyno sy'n ymwneud ag Awdurdodau Lleol yn gwaredu asedau (gweler Trosglwyddo asedau Awdurdodau Lleol a Chwestiwn 4.9 uchod).

Cydwasaethau

Roedd Adroddiad y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus yn cynnwys ystyriaeth o'r gwelliannau posibl i effeithiolrwydd costau trwy fabwysiadu cydwasaethau. Roedd yn cymeradwyo Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru ac fe'i hawgrymodd fel model ar gyfer cydwasaethau'r sector cyhoeddus.

Er mwyn i'r Partneriaeth gael y cyfle i ymgymryd â'r rôl ehangach hon, byddai angen i'r fframwaith deddfwriaethol newid gan fod cynnal gwasanaeth mewn Ymddiriedolaeth y GIG yn ei gyfyngu gan y ddeddfwriaeth bresennol i ddarparu nwyddau a gwasanaethau at ddibenion y gwasanaeth iechyd.

Bydd uno Awdurdodau Lleol yn creu unedau gwasanaeth mwy yn y Cynghorau Sir newydd ond mae hefyd dystiolaeth o adroddiad KPMG i swyddogaethau gweinyddol a chymorth, y gallai arbedion cost a'r cyfle am wasanaethau gwell fod ar gael trwy gydwasanaethau ar raddfa fwy. Mae tystiolaeth o fannau eraill yn nodi bod posibilrwydd i allu Llywodraeth Leol i gymryd rhan mewn mentrau ar y cyd a threfniadau tebyg â'r sector cyhoeddus a phartneriaid eraill arwain at gyfleoedd ar gyfer arloesedd ac arfer gorau. Rydym yn dymuno ystyried a yw'r ddeddfwriaeth a'r rheoliadau presennol ar gyfer Awdurdodau Lleol yn darparu'r fframwaith priodol i gefnogi'r cyfleoedd hyn. Byddem yn croesawu eich barn.

¹⁴ <http://gov.wales/topics/businessandconomy/how-we-support-businesses/welsh-coop-mutuals-commission/?skip=1&lang=cy>

¹⁵ <http://gov.wales/topics/improvingervices/publications/is-the-feeling-mutual-report/?skip=1&lang=cy>

Cwestiwn 5.8: Pa fesurau deddfwriaethol allai gael eu hystyried i ganiatáu i Llywodraeth Leol ymgymryd â rôl cydwasanaethau ar draws y sector cyhoeddus?

Rhan 6: Cynghorau Cymuned

Mae'r darpariaethau yn Rhan 6 o'r Bil Drafft yn ymwneud â Chynghorau Cymuned a Thref. Mae Pennod 1 yn ei gwneud yn ofynnol i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru gynnal adolygiad o drefniadau Cynghorau Cymuned. Mae Pennod 2 yn ei gwneud yn ofynnol i Gynghorwyr Cymuned ddilyn hyfforddiant ar faterion a benodir gan y Prif Gyngor. Mae Pennod 3 yn ymestyn tymor Cynghorwyr Cymuned fydd yn cael eu hethol yn 2017 i chwe blynedd ac mae'n nodi y bydd tymhorau Cynghorwyr cymuned yn rhai penodol o bum mlynedd o 2023 ymlaen.

Cwestiwn 6.1: A oes gennych sylwadau am unrhyw un o'r darpariaethau yn Rhan 6 o'r Bil Drafft?

Rydym hefyd yn croesawu eich barn ar y materion canlynol.

Noder: yn gyffredinol, mae'r term Awdurdod Lleol yn cyfeirio at Brif Gynghorau (Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol) a Chynghorau Cymuned. Er mwyn gwahaniaethu rhyngddynt, rydym yn defnyddio'r termau Prif Gyngor / Cyngor Sir a Chyngor Cymuned yn yr adran hon, yn hytrach nag Awdurdod Lleol.

Pennod 1: Adolygiad o Drefniadau Cynghorau Cymuned

Roedd y Papur Gwyn yn nodi ein bwriad o gryfhau'r sector Cynghorau Cymuned er mwyn iddo gael rhagor o gapasiti a gallu i ymgymryd â chyfrifoldeb dros gyfleusterau a gwasanaethau lleol. Y cynnig oedd y byddai Prif Gynghorau yn cynnal adolygiad o drefniadau Cynghorau Cymuned yn eu hardal, â'r bwriad o osod cymunedau llai o dan Gyngor Cyffredin.

Roedd ymatebion i'r ymgynghoriad gan Brif Gynghorau a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) yn dadlau er bod y dull hwn yn un rhesymol mewn egwyddor, byddai'n anodd i Brif Gynghorau gwblhau adolygiad o'r fath erbyn 2023, o ystyried cyd-destun ehangach uno a diwygio. Mae Llywodraeth Cymru'n cytuno â hyn ac mae wedi cyhoeddi y bydd adolygiad yn awr yn cael ei gynnal gan Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru.

Mae'r darpariaethau yn y Bil Drafft yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn gyflwyno'i adroddiadau drafft i'r Cynghorau Sir newydd ar neu wedi 1 Ebrill 2020, sef y diwrnod y byddant yn ysgwyddo cyfrifoldebau a swyddogaethau llawn Llywodraeth Leol. Mae achos dros dod â'r dyddiad hwn ymlaen i fis Mai 2019 pan fydd yr Awdurdodau Cysgodol yn dod i rym, er mwyn i'r Comisiwn allu cynnal yr adolygiad, cyhoeddi'r adroddiadau drafft ac ymgynghori yn fwy prydlon. Byddem yn croesawu eich barn.

Mae'r darpariaethau yn ei gwneud yn ofynnol i Gynghorau Sir roi ar waith argymhellion y Comisiwn drwy orchymyn. Neu, fel arall, mae hyn yn dasg y gallai'r Comisiwn ei gyflawni. Byddai hyn yn ei alluogi i wneud yr adolygiadau

a'u rhoi ar waith mewn un broses ddiraffferth. Byddem yn croesawu eich barn.

Cwestiwn 6.2: A ddylai fod yn ofynnol i'r Comisiwn Ffiniau gyflwyno'i adroddiadau drafft i Awdurdodau Cysgodol o fis Mai 2019 ymlaen?

Cwestiwn 6.3: A ddylai'r Cynghorau Sir newydd roi ar waith argymhellion y Comisiwn Ffiniau neu a ddylai hyn fod yn gyfrifoldeb i'r Comisiwn Ffiniau ei hun?

Pennod 2: Aelodau o Gynghorau Cymuned i Ddilyn Hyfforddiant

Mae gan Gynghorau Cymuned a Phrif Gynghorau berthynas ffurfiol ar nifer o faterion. Er enghraifft, mae gan bwyllgorau safonau Prif Gynghorau oruchwyliaeth dros faterion y cod ymddygiad sy'n ymwneud â Chynghorwyr Cymuned, mae Cynghorau Cymuned yn ymgynghori ar faterion cynllunio yn eu hardal, a gall Prif Gynghorau ddirprwyo swyddogaethau i Gynghorau Cymuned. Mae er budd y ddwy ochr bod gan Gynghorwyr Cymuned yr wybodaeth a'r sgiliau hanfodol i ymgymryd â'u rôl yn effeithiol. Felly, mae'r Bil Drafft yn cynnwys darpariaethau a allai ei gwneud yn ofynnol i Brif Gynghorau ystyried a oes materion y dylai fod yn orfodol i Gynghorwyr Cymuned ddilyn hyfforddiant priodol arnynt.

Os yw clerc y Cyngor Cymuned yn cael cwyn nad yw Cynghorydd Cymuned wedi dilyn hyfforddiant gorfodol, mae'r Bil Drafft yn gosod dyletswydd ar y clerc i ymchwilio i'r mater. Os daw'r clerc i'r casgliad, ar ôl siarad â Chadeirydd y Cyngor Cymuned ac ystyried unrhyw sylwadau y mae'r Cynghorydd Cymuned yn eu gwneud ynghylch pam iddo fethu â dilyn yr hyfforddiant, nad oes gan y Cynghorydd Cymuned reswm da dros beidio â dilyn yr hyfforddiant, mae'n rhaid i'r clerc roi gwybod i'r Cyngor Cymuned mewn cyfarfod cyhoeddus. Gan fod y clerc yn gweithio i'r Cyngor, gall hyn niweidio'r berthynas dda rhwng y clerc a'r Cyngor. Rydym yn croesawu eich barn ynghylch ai dyma'r ffordd orau o sicrhau bod Cynghorwyr Cymuned yn dilyn hyfforddiant gorfodol, neu a oes ffordd arall y dylem ei hystyried.

Cwestiwn 6.4: A oes gennych unrhyw sylwadau am ein cynigion sy'n ymwneud â hyfforddiant gorfodol ar gyfer Cynghorwyr Cymuned?

Pennod 3: Dyddiadau Etholiad Cynghorau Cymuned

Mae'r Bil Drafft yn nodi y bydd etholiadau pob Cyngor Cymuned, gan gynnwys y rheini ym Mhowys, yn cael eu cynnal ym mis Mai 2017 a mis Mai 2023, ac yn y ddau achos byddant yn cyd-fynd ag etholiadau i'r Prif Gynghorau. Byddai angen ymestyn tymor Cynghorwyr Cymuned sy'n cael eu hethol yn 2017 er mwyn iddynt wasanaethu am chwe blynedd. O 2023 ymlaen, bydd etholiadau Cynghorau Cymuned yn cael eu cynnal bob pum mlynedd, yn unol â'r cylch etholiadau newydd i Brif Gynghorau.

Cwestiwn 6.5: A oes gennych unrhyw sylwadau am ein cynnig i ymestyn tymor Cyngorwyr Cymuned sy'n cael eu hethol yn 2017 i chwe blynedd?

Materion eraill

Capio Praesept y Cyngor Cymuned

Mae ystyriaeth bellach wedi'i rhoi i'r cynnig yn y Papur Gwyn i gapio'r swm y gall Cyngorau Cymuned heb gymhwysedd godi'u praesept Treth Gyngor. Bydd y mater hwn bellach yn cael ei ystyried yn y tymor hwy, yn dilyn adolygu Cyngorau Cymuned ac ochr yn ochr â'r diwygiadau ariannol ehangach.

Adroddiadau Blynyddol

Roedd y Papur Gwyn yn nodi ein bwriad i ystyried a ddylid cryfhau agweddau eraill ar lywdoraethu Cyngorau Cymuned. Ein bwriad yw ei gwneud yn ofynnol i bob Cyngor Cymuned gyhoeddi adroddiad blynyddol er mwyn i bobl leol allu deall yr hyn y mae'r Cyngor wedi'i gyflawni yn ystod y flwyddyn flaenorol. Mae llawer eisoes yn gwneud hyn. Er nad ydym hyd yn hyn wedi cynnwys darpariaeth yn y Bil Drafft, ein bwriad yw cynnwys darpariaeth i'r perwyl hwn yn y Bil i'w gyflwyno.

Hyfforddiant

O ystyried y cyfrifoldebau ychwanegol y gall Cyngorau Cymuned eu derbyn, gan gynnwys y cyfrifoldebau cyfreithiol ac ariannol sylweddol a all ddeillio o ymarfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol, credwn ei bod yn briodol i Gyngorau Cymuned ystyried eu hanghenion hyfforddi eu hunain (Cyngorwyr a gweithwyr) a, lle y bo'n briodol, gwneud yr hyfforddiant hwnnw'n un gorfodol. Nid ydym wedi ymgynghori ar y cynnig hwn o'r blaen ac nid oes unrhyw ddarpariaeth wedi'i chynnwys yn y Bil Drafft. Fodd bynnag, ein bwriad yw cynnwys darpariaeth i'r perwyl hwn yn y Bil i'w gyflwyno.

Cwestiwn 6.6: A oes gennych unrhyw sylwadau am ein cynnig y dylai fod yn ofynnol i Gyngorau Cymuned ystyried a chynllunio ar gyfer anghenion hyfforddi eu haelodau a'u gweithwyr eu hunain?

Rheoli Perfformiad

Yn y Papur Gwyn, ymgynghorwyd ar gynnig y dylai cadeirydd Cyngor Cymuned nodi amcanion ar gyfer y cler, neu fel arall reoli ei berfformiad. Caiff y cler ei gyflogi gan y Cyngor ac er mwyn dangos arfer cyflogaeth dda, dylai gael swydd-ddisgrifiad clir a chael amcanion blynyddol er mwyn iddo fod yn ymwybodol o'r hyn y mae'n ofynnol iddo'i wneud. I Gyngorau Cymuned bach iawn, gall hyn ymddangos yn ormod o faich. Fodd bynnag, wrth i Gyngorau Cymuned sydd â chyllidebau mwy gael rhagor o gyfrifoldebau, sef ein bwriad trwy adolygu trefniadau Cyngorau Cymuned, bydd arfer cyflogaeth dda yn dod yn fwy pwysig. Byddem yn croesawu barn bellach ar y cynnig hwn ac, yn benodol, a ddylai fod yn ddyletswydd ar y Cyngor cyfan neu ei gadeirydd, ac a ddylai dyletswydd o'r fath fod yn berthnasol i bob Cyngor Cymuned neu i rai yn unig.

Cwestiwn 6.7: A oes gennych unrhyw sylwadau sy'n ymwneud â gosod amcanion ar gyfer clerc Cyngor Cymuned?

Pleidleisiau Cymunedol

Yn y Papur Gwyn, nodwyd y 'byddwn hefyd yn egluro'r fframwaith deddfwriaethol sy'n llywodraethu pleidleisiau cymunedol'. Ni chafwyd digon o ymatebion i lunio unrhyw gasgliad defnyddiol. Rydym yn nodi yma ein syniadau pellach am bleidleisiau cymunedol.

Caiff pleidleisiau cymunedol eu llywodraethu gan adran 99 ac Atodlen 12 i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. Gall pleidlais gymunedol gael ei galw mewn perthynas ag unrhyw un o'r materion a godwyd mewn cyfarfod cymunedol, yn amodol ar gefnogaeth nifer digonol o etholwyr. Mae pleidleisiau cymunedol yn dangos teimlad y gymuned am bwnc y bleidlais. Er hyn, nid ydynt yn gyfreithiol rwymol ac nid oes yn rhaid i Brif Gyngor na Chyngor Cymuned weithredu ar ganlyniadau'r bleidlais, er bod yn rhaid iddynt dalu'r gost.

Yn aml mae pleidleisiau cymunedol yn ymwneud â materion sydd y tu allan i reolaeth Llywodraeth Leol. Er enghraifft, yn y blynyddoedd diweddar mae pleidleisiau cymunedol wedi'u cynnal ar ddyfodol Ysbyty Coffa Ffestiniog ac Ysbyty Cymuned y Flint, ond nid oes gan Lywodraeth Leol unrhyw ddylanwad ar y materion hyn. Mae pleidleisiau cymunedol yn ddrud ac yn gyffredinol, mae'r ganran sy'n pleidleisio yn isel. Costiodd pedair pleidlais ddiweddar yng Nghaerdydd dros £20,000 ac yn ystod y pleidleisiau diweddar hyn, mae'r ganran sy'n pleidleisio o'r rheini sydd â'r hawl i bleidleisio wedi amrywio o 37% i lawr i 9% mewn pleidlais yn 2012 a oedd yn ymwneud â chau pwll padlo ym Mharc Ynys Angharad ym Mhontypridd.

Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried y dylid diwygio i foderneiddio gan gryfhau llais y gymuned a datblygu agenda ddigidol Llywodraeth Leol, trwy ddefnyddio deisebau electronig. Mae deisebau'n nodwedd sefydledig o Lywodraeth ar bob lefel yn y DU, ac yn y blynyddoedd diwethaf gwelwyd cynnydd sylweddol yn nefnydd e-ddeisebau fel ffordd o roi mwy o lais i'r cyhoedd mewn penderfyniadau a fydd yn effeithio arnynt gan y Cynulliad Cenedlaethol, Llywodraeth y DU, Senedd yr Alban a Llywodraeth Leol yn Lloegr a'r Alban. Mae gan y rhan fwyaf o'r Cyngorau yng Nghymru weithdrefnau ar gyfer delio â deisebau ysgrifenedig, ond nid yw'n hysbys bod yr un ohonynt yn cynnal e-ddeisebau.

Rydym felly yn cynnig y dylid, yn y Bil i'w gyflwyno, ddiddymu'r deddfwriaeth bresennol sy'n darparu ar gyfer pleidleisiau cymunedol mewn perthynas â Chymru, ac yn ei lle y dylai fod dull arall a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i Brif Gyngorau sefydlu cynllun deisebau a chyfleuster e-ddeisebau. Byddai hyn yn galluogi cymunedau (o le neu fuddiant) i fynegi'u barn ar faterion sy'n ymwneud â nhw, heb y cyfyngiadau a'r costau sydd ar hyn o bryd ynghlwm wrth bleidleisiau cymunedol, ac felly byddai'n ofynnol i Gyngorau nodi sut y byddent yn ymateb. Byddem yn croesawu eich barn.

Felly, ein bwriad yw gohirio gweithredu unrhyw newidiadau i reolau presennol Pleidleisiau Cymunedol, yn dilyn yr ymgynghoriad ar ddiwygiad arfaethedig i'r

rheolau¹⁶ a ddaeth i ben ym mis Chwefror 2014. O ran pleidleisiau sy'n cael eu cynnal at ddiben ffurfio neu ddiddymu Cyngor Cymuned, ein bwriad yw adolygu'r ddeddfwriaeth bresennol, fel y nodir yn yr adran ganlynol.

Cwestiwn 6.8: A oes gennych unrhyw sylwadau am ein cynnig i ddiddymu'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â phleidleisiau cymunedol ac yn hytrach ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol weithredu system e-ddeisebau?

Adolygu Deddfwriaeth Cyngor Cymuned

Mae'r ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu'r gwaith o greu, grwpio, uno a diddymu Cyngorau Cymuned a chynnal cyfarfodydd cymunedol ac ati ar gael yn Neddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd.

Ein bwriad yw atal y mwyafrif o ddarpariaethau 1972 am geisiadau cymunedol ar gyfer cyfnod adolygiad Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru o drefniadau Cyngorau Cymuned ac am gyfnod wedi hynny. Diben hyn yw sicrhau bod y Comisiwn yn gallu cyflawni'i adolygiad heb i drefniadau'r Cyngor newid yn ystod yr adolygiad. Mae cwestiwn ynghylch a ddylid troi'n ôl at y darpariaethau yn Neddf 1972 o 2025 ymlaen. Rydym yn bwriadu defnyddio'r cyfnod yn y cyfamser i ymgynghori ymhellach â'r sector ac ystyried fframwaith ddeddfwriaethol ar gyfer Cyngorau Cymuned sy'n briodol ar gyfer canol yr 21^{ain} ganrif.

¹⁶ [Llywodraeth Cymru | Pleidleisiau Cymunedol](#)

Rhan 7: Materion y Gweithlu

Mae Rhan 7 o'r Bil Drafft yn delio â materion y gweithlu. Mae Pennod 1 yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau i gyrff cyhoeddus ar faterion gweithlu. Mae Pennod 2 yn darparu ar gyfer sefydlu Comisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus.

Rydym yn cydnabod bydd y weledigaeth hon, a'n huchelgais ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus o'r radd flaenaf, dim ond cael eu gwireddu drwy weithlu gwasanaethau cyhoeddus o'r radd flaenaf gyda'r sgiliau cywir a'r gefnogaeth i'w cyflawni. Mae ymroddiad a rhagoriaeth gweithlu'r gwasanaeth cyhoeddus yn allweddol i drawsnewid. Ein Comisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus anstatudol wedi bod yn gweithredu ers mis Medi gan ddefnyddio Cyngor Partneriaeth y Gweithlu fel ei fan cyfeirio cynradd. Rydym wedi ymrwymo i barhau ein model cryf o bartneriaeth gymdeithasol drwy Gyngor Partneriaeth y Gweithlu wrth i ni ddatblygu ein rhaglen o ddiwygio.

Cwestiwn 7.1: A oes gennych sylwadau am unrhyw un o'r darpariaethau yn Rhan 7 o'r Bil Drafft?

Rydym hefyd yn croesawu eich barn ar y materion canlynol.

Pennod 2: Comisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus

Yn dilyn ymgynghori ar y Papur Gwyn, sef *Datganoli, Democratiaeth a Chyflawni: Comisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus* ddiwedd 2014, sefydlodd y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus Gomisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus ar sail anstatudol ym mis Medi 2015. Roedd y mwyafrif helaeth o'r ymatebion i'r ymgynghoriad o blaid rhoi'r Comisiwn ar sail statudol ac mae'r Bil Drafft yn cynnwys darpariaeth o'r fath.

Fodd bynnag, gallai Comisiwn statudol fod yn fwy cyfyngedig yn y materion y gall gynnig canllawiau gweithlu arnynt o'i gymharu â'r Comisiwn anstatudol. Bydd hyn yn dibynnu ar gynnwys Bil Cymru arfaethedig Llywodraeth y DU a fydd yn gwneud newidiadau i'r setliad datganoli yng Nghymru.

Ni fydd modd gwybod beth fydd cynnwys Bil Cymru a'i oblygiadau mewn perthynas â Chomisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus statudol arfaethedig yn llawn tan i'r Bil gael ei basio. Ni fydd hyn yn digwydd yn ystod yr ymgynghoriad hwn, ac nid oes gan Weinidogion Cymru reolaeth dros hynt Bil Cymru. Serch hynny, byddai Llywodraeth Cymru yn croesawu barn yn awr ar y ffordd orau ymlaen pe gwelid y byddai Comisiwn statudol yn fwy cyfyngedig o ran y materion y gall gynnig canllawiau arnynt i'r gweithlu, o'i gymharu â'r Comisiwn anstatudol.

Cwestiwn 7.2: A oes gennych unrhyw sylwadau am a fyddai'n parhau'n ddymunol i sefydlu Comisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus

statudol os byddai'n fwy cyfyngedig na Chomisiwn anstatudol o ran y materion y gallai roi canllawiau arnynt?

Rhan 8: Cyffredinol ac Atodlenni

Mae Rhan 8 o'r Bil Drafft yn nodi ystyr termau a chyfeiriadau at ddeddfwriaeth bresennol yn y Bil Drafft, yn nodi sut y bydd y darpariaethau'n berthnasol i Awdurdodau Lleol cyn 1 Ebrill 2020, yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ganlyniadol a throsiannol, yn gwneud darpariaeth ar gyfer gorchmynion a rheoliadau, yn nodi pryd y daw rhannau gwahanol y Bil Drafft i rym, a'r enw byr a roddir i'r Bil Drafft os daw'n ddeddf.

Atodlenni

Yn ogystal â hyn, mae nifer o Atodlenni i'r Bil Drafft.

Mae **Atodlen 1** yn nodi ardaloedd y Siroedd newydd yng Nghymru. Darperir dau dabl arall (gweler Rhan 2, Pennod 1 uchod am drafodaeth fanwl).

Mae **Atodlen 2** yn nodi'r trefniadau ar gyfer cynnal yr etholiadau cyffredinol cyntaf a chyfarfodydd cyntaf y Cynghorau newydd.

Mae **Atodlen 3** yn nodi darpariaethau sy'n ymwneud ag ariannu Cynghorau newydd.

Mae **Atodlen 4** yn gwneud trefniadau trosiannol amrywiol ac mae'n darparu ar gyfer trosglwyddo staff, eiddo, hawliau a rhwymedigaethau o'r Cynghorau Sir a Bwrdeistref Sirol presennol i'r Cynghorau Sir newydd.

Mae **Atodlen 5** yn gwneud diwygiadau i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Mae **Atodlen 6** yn gwneud diwygiadau i ddeddfwriaeth bresennol mewn perthynas â chynorthwyr i weithrediaeth Awdurdodau Lleol y darparwyd ar eu cyfer ym Mhennod 5, Rhan 4 o'r Bil Drafft.

Mae **Atodlen 7** yn gwneud diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth bresennol mewn perthynas â Phrif Weithredwyr y Cynghorau newydd.

Mae **Atodlen 8** yn gwneud diwygiadau a diddymiadau amrywiol i ddeddfwriaeth bresennol mewn perthynas â phwyllgorau ardaloedd cymunedol a sefydlwyd gan ddarpariaethau ym Mhennod 3, Rhan 3 o'r Bil Drafft.

Mae **Atodlen 9** yn gwneud diwygiadau amrywiol mewn perthynas ag ailenwi Pwyllgorau Archwilio Cynghorau Sir.

Mae eglurhad pellach o gynnwys yr Atodlenni yn y Memorandwm Esboniadol a'r Nodiadau Esboniadol.

Cwestiwn 8.1: A oes gennych unrhyw sylwadau am unrhyw un o'r darpariaethau yn Rhan 8 o'r Bil Drafft neu unrhyw un o'r Atodlenni?

Atodiad A: Aseidiadau gan Gymheiriaid

Themâu Llywodraethu

Ffocws aseidiadau gan gymheiriaid o dan y Bil Drafft yw cydymffurfiaeth Awdurdod Lleol â'i ddyletswydd i lywodraethu'n dda. Yn ei hanfod, bydd yr asesiad yn edrych ar allu a chapasiti corfforaethol Awdurdod Lleol, o fewn fframwaith o 'themâu llywodraethu da', megis yr hyn sydd wedi'i nodi yn *Delivering Good Governance in Local Government: Framework* (CIPFA/SOLACE).¹⁷

Adolygwyr

Er mwyn sicrhau'r gwerth gorau, dylai aelodau'r panel aseidiadau gan gymheiriaid nid yn unig fod yn aelodau o'r tu allan i'r Awdurdod Lleol, ond hefyd fod yn brofiadol ac yn ddibynadwy. Mae hynny'n sicrhau bod yr Awdurdod Lleol yn gwybod bod modd ymddiried yn eu canfyddiadau, a bydd yn rhoi'r hyder iddynt fod y newidiadau sy'n cael eu cynnig yn rhai hanfodol.

Dylai paneli aseidiadau gan gymheiriaid gynnwys trawstoriad o unigolion (aelodau etholedig, swyddogion a chynrychiolwyr o sectorau eraill) y mae eu sgiliau a'u harbenigedd yn cynnwys yr holl themâu craidd ac unrhyw faes ychwanegol y mae'r Awdurdod Lleol yn dymuno'i gynnwys. Er ei bod yn bwysig bod gan gyfran o'r tîm asesu ddealltwriaeth dda o'r cymhlethdod o weithio mewn amgylchedd gwleidyddol a'r effaith y gall gwleidyddiaeth leol ei chael ar ddiwylliant a blaenoriaethau sefydliadol Awdurdod Lleol, gall y rheini sydd â phrofiad o sectorau eraill gynnig cipolwg gwerthfawr. Byddem yn disgwyl i banel aseidiadau gan gymheiriaid gynnwys y rheini sydd â phrofiad uniongyrchol o weithio i Lywodraeth Leol a chyda hi.

Fel canllaw/isafswm, byddem yn disgwyl i baneli aseidiadau gan gymheiriaid gynnwys:

- Cadeirydd a fydd yn arwain yr asesiad gan gymheiriaid
- O leiaf 1 aelod etholedig o Awdurdod Lleol yng Nghymru nad yw'n ffinio â'r Awdurdod sy'n cynnal
- O leiaf 1 uwch swyddog o Awdurdod Lleol yng Nghymru nad yw'n ffinio â'r Awdurdod sy'n cynnal
- O leiaf 1 aelod etholedig neu swyddog o ardal weinyddol Llywodraeth Leol arall (e.e. Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon, Iwerddon neu ymhellach)
- O leiaf 1 aelod sydd ag arbenigedd neu wybodaeth berthnasol o'r tu hwnt i Lywodraeth Leol (e.e. y sector Preifat neu'r Trydydd sector)

¹⁷ <http://www.cipfa.org/Policy-and-Guidance/Publications/D/Delivering-Good-Governance-in-Local-Government-Framework>

Gallai Awdurdodau Lleol hefyd ystyried a fyddai'n briodol gwahodd eraill i fod yn aelodau o'r panel asesu, er enghraifft:

- Cynrychiolydd o CLILC (neu CLIL)
- Cynrychiolydd o gorff Archwilio, Arolygu a Rheoleiddio

Proses Enghreifftiol

Fel arfer, bydd proses asesiadau gan gymheiriaid yn cymryd nifer o fisoedd o'r dechrau i'r diwedd, ac awgrymir y gall fod perthynas barhaus â'r cadeirydd neu'r panel mewn capasiti mentora yn y tymor hwy. Enghraifft yw'r wybodaeth isod, sy'n cydnabod y bydd angen proses fwy hyblyg, ond egwyddor asesiadau gan gymheiriaid yw ei bod yn broses 'byr a chyflym' sy'n sicrhau bod unrhyw ganfyddiadau'n parhau'n berthnasol, ac sy'n caniatáu i'r Awdurdod Lleol ymateb mewn modd amserol.

Cyn asesu

Byddai'r broses cyn asesu fel arfer yn cymryd tua 8 wythnos. Yn ystod y cyfnod hwn bydd yr Awdurdod Lleol, wrth weithio gyda phartneriaid neu sefydliad sy'n cael ei dalu i gydlynu'r gweithgarwch hwn, yn cwmpasu gofynion eu hasesiadau gan gymheiriaid, a nodi unrhyw heriau penodol sydd wedi'u hamlygu yn eu hunanasesiad, neu yn adroddiadau diweddar rheoleiddwyr perthnasol, gan gynnwys asesiad ar y cyd. Bydd hyn hefyd yn helpu i nodi'r sgiliau a'r arbenigedd gofynnol i fanteisio i'r eithaf ar yr adolygiad.

Ar ôl cwmpasu, bydd yr Awdurdod Lleol, gan weithio gyda phartneriaid neu sefydliad sy'n cael ei dalu i gydlynu'r gweithgarwch hwn, yn gallu nodi panel asesu priodol i ymgymryd â'r asesiad.

Ar ôl ei benodi, bydd gan y cadeirydd (neu brif aseswr) y cyfle i gwrdd ag Arweinydd a Phrif Weithredwr yr Awdurdod Lleol sy'n cynnal i drafod cwmpasu yr asesiad yn fanwl a'i ddiwygio yn ôl yr angen. Mae hyn hefyd yn gyfle i drafod disgwyliadau a'r ffordd o ymdrin â'r asesiad.

Yn ystod yr amser hwn, bydd yr Awdurdod Lleol yn gallu casglu gwybodaeth i'w rhannu â phanel asesiadau gan gymheiriaid sy'n berthnasol i osod y cyd-destun ar gyfer yr asesiad, ac i gyfrannu ato. Yn anaml iawn y bydd gofyn llunio'r wybodaeth hon yn benodol ar gyfer yr asesiad gan y dylai'r dogfennau hyn fel arfer fodoli. Fodd bynnag, gallai fod yn ddefnyddiol i'r Awdurdod sy'n cynnal lunio dogfen sy'n rhoi trosolwg.

Asesu

Bydd yr asesiad ei hun fel arfer yn cael ei gynnal dros gyfnod o tua 4 wythnos. Mae cyfnod cychwynnol yr asesiad ar gyfer y panel asesu yn cael ei gynnal wrth ddesg. Bydd gan aelodau'r panel asesu amser i ystyried yr wybodaeth a roddir iddynt, a'r cyfle i wneud cais am unrhyw wybodaeth ychwanegol a fyddai'n berthnasol i'r asesiad yn eu barn nhw. Bydd yr asesiad wrth ddesg yn

eu galluogi i ddatblygu meysydd i'w hystyried er mwyn iddynt ganolbwyntio arnynt yn ystod eu hymweliad â'r safle.

Byddai'r ymweliad â'r safle fel arfer yn para tua 4 diwrnod dros ddim hirach na phythefnos, ac mewn wythnos yn ddelfrydol. Mae'r ymweliad â'r safle yn gyfle i'r panel asesu gwestiynu a thrafod meysydd yng nghwmpas yr asesiad ag aelodau etholedig, swyddogion a rhanddeiliaid eraill yr Awdurdod sy'n cynnal.

Ar ddiwedd pob diwrnod, byddai aelodau'r panel yn dod ynghyd i drafod eu canfyddiadau ac ystyried a oes unrhyw faterion eraill y dylid eu hystyried neu unrhyw unigolion neu randdeiliaid y byddai'n ddefnyddiol cwrdd â nhw.

Ar ddiwedd yr ymweliad â'r safle bydd y panel asesu yn cyflwyno'i ganfyddiadau i'r Arweinwyr a'r Prif Weithredwr. Gall yr Awdurdod Lleol ddymuno ystyried a ddylid gwahodd eraill i glywed canfyddiadau'r asesiad (er enghraifft, y Weithrediaeth gyfan, yr uwch dîm rheoli, y Cabinet llawn). Mae'r cyflwyniad hwn yn gyfle i'r panel asesiadau gan gymheiriaid nodi'i brif ganfyddiadau, a'r meysydd y byddai'n fwyaf buddiol i'r Awdurdod ganolbwyntio arnynt yn ei farn ef. Mae hefyd yn gyfle i'r Awdurdod sy'n cynnal egluro ei ddealltwriaeth o'r materion a godwyd

Ar ôl yr asesiad

Ar ôl yr ymweliad safle a'r cyflwyniad bydd y panel asesu'n llunio adroddiad mwy manwl i'r Awdurdod ei ystyried yn fanylach. Nid bwriad yr adroddiad yw cynnwys popeth, ond dylai gynnwys digon o fanylion fel bod modd ei ddarllen a'i ddeall fel dogfen ar wahân, gan y bydd yr adroddiad maes o law yn cael ei gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod Lleol. Byddem yn disgwyl i'r Awdurdod Lleol gael yr adroddiad cyn pen pythefnos o'r ymweliad â'r safle. Mae hyn yn sicrhau bod y materion a nodwyd yn ystod yr asesiad ac unrhyw argymhellion yn parhau'n berthnasol. Fel rhan o'r adroddiad, byddem yn disgwyl i'r panel asesu argymhell pryd y dylid cynnal yr asesiadau nesaf gan gymheiriaid. Mae'n rhaid cynnal asesiadau gan gymheiriaid ddim llai nag unwaith ym mhob cylch etholiad (h.y. 5 mlynedd o 2023) ond gall fod yn dda eu cynnal yn fwy aml, er enghraifft, yn ystod cyfnodau o newid sefydliadol sylweddol.

Bydd yn ofynnol i'r Awdurdod Lleol ymateb i ganfyddiadau'r asesiad. Er y gall rai Awdurdodau Lleol ddewis llunio cynllun gweithredu o ganlyniad i'r asesiad, bydd eraill yn bwydo'r camau y maent yn bwriadu'u cymryd o ganlyniad i ganfyddiadau'r asesiad i mewn i ddogfennau eraill, er enghraifft, strategaethau recriwtio a chadw neu'r cynllun corfforaethol. Dylai'r Awdurdod Lleol ymateb cyn pen 4 wythnos o lunio'r adroddiad er mwyn sicrhau bod modd gweithredu'n gynnar.

Bydd angen i'r Awdurdod Lleol fod yn glir ynghylch pa gamau y mae'n eu cymryd o ganlyniad i'r asesiadau gan gymheiriaid a bydd yn ofynnol i'r camau arfaethedig gael eu hystyried gan y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio. Byddem yn annog y prif asesydd i ddychwelyd i'r Awdurdod sy'n cynnal cyn pen 3-6 mis yn dilyn yr adolygiad i gefnogi'r Awdurdod i ddatblygu'i drefniadau gwella.

Gall yr Awdurdod Lleol ddewis mynd at aelodau o'r panel asesiadau gan gymheiriaid, neu'r prif asesydd i sefydlu perthynas 'fentora' tymor hwy i roi cymorth parhaus gan gymheiriaid i'r Awdurdod sy'n cynnal.

Amserlen

Gweithgarwch	Cwmpas yr asesiad yn ogystal â nodi aelodau'r panel asesu	Adolygiad		Llunio'r Adroddiad	Cyhoeddi'r Adroddiad	Ymateb i'r canfyddiadau a ddatblygwyd gan yr Awdurdod Lleol
		Adolygiad wrth ddesg ac ymchwil gan y panel asesu	Ymweld â'r Safle			
Cyfnodau amser	8 wythnos	3 wythnos	1 wythnos	2 wythnos		4 wythnos

Atodiad B: Cwestiynau Ymgynghori

Byddai Llywodraeth Cymru yn hoffi clywed eich barn ar y Bil Drafft, y Memorandwm Esboniadol Drafft, yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol Drafft a'r materion a godwyd yn y Papur Ymgynghori hwn. Byddem yn hoffi cael eich barn ar roi ar waith y darpariaethau yn y Bil Drafft yn ymarferol.

Y bwriad fyddai cyflwyno'r Bil i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn dilyn etholiadau'r Cynulliad yn 2016, ac rydym am sicrhau ein bod wedi mynd i'r afael â chymaint o faterion â phosibl cyn gwneud hynny. Bydd eich ymatebion yn helpu i lywio'r Bil i'w gyflwyno.

Rhowch wybod i ni eich ymatebion a'ch sylwadau am y cwestiynau a nodir yn yr Atodiad hwn, yn seiliedig ar y gyfres o ddogfennau sy'n rhan o'r ymgynghoriad hwn.

RHAN 1

Cwestiwn 1.1: A oes gennych sylwadau am unrhyw un o'r darpariaethau yn Rhan 1 o'r Bil Drafft?

Cwestiwn 1.2: Beth yw eich barn ar yr opsiynau ar gyfer cael 2 neu 3 Sir yn y Gogledd, fel y nodwyd yn Atodlen 1 i'r Bil Drafft?

Cwestiwn 1.3: Beth yw eich barn ar y patrwm arfaethedig ar gyfer ardaloedd Llywodraeth Leol yng Nghymru?

Cwestiwn 1.4: A oes angen i Weinidogion Cymru geisio unrhyw bwerau pellach i gefnogi'r gwaith o integreiddio Bwrdd Iechyd Powys a Chyngor Sir Powys?

Cwestiwn 1.5: Beth yw eich barn ar y weithdrefn ar gyfer enwi'r Siroedd newydd?

Cwestiwn 1.6: Beth yw eich barn ar y newidiadau arfaethedig i amserlen etholiadau Llywodraeth Leol?

Cwestiwn 1.7: A oes gennych unrhyw sylwadau cyffredinol am y darpariaethau yn adran 16 ac Atodlen 3 y Bil Drafft sy'n ymwneud â chyllid Llywodraeth Leol?

Cwestiwn 1.8: Sut y gallai Llywodraeth Cymru fesur y nifer sy'n osgoi talu Ardrethi Annomestig ar hyn o bryd?

Cwestiwn 1.9: A oes gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau ynghylch sut y gallai deddfwriaeth yn y dyfodol helpu i leihau'r nifer sy'n osgoi talu Ardrethi Annomestig?

Cwestiwn 1.10: Ym mha ffyrdd eraill y gallai Llywodraeth Cymru alluogi Llywodraeth Leol i leihau'r nifer sy'n osgoi talu ac sy'n twyllo'r system Ardrethu Annomestig?

Cwestiwn 1.11: A ydych chi'n cytuno y dylid diddymu'r siroedd wedi eu cadw a gwneud diwygiadau canlyniadol er mwyn penodi arglwydd raglawiaid ac uchel siryfion mewn perthynas â'r siroedd fydd yn bodoli ar ôl 1 Ebrill 2020?

Cwestiwn 1.12: A oes materion eraill o natur dechnegol y dylid hefyd eu hystyried?

RHAN 2

Cwestiwn 1.1: A oes gennych sylwadau am unrhyw un o'r darpariaethau yn Rhan 2 o'r Bil Drafft?

Cwestiwn 2.2: A oes gennych unrhyw sylwadau am ein cynigion sy'n ymwneud â Chynghorau Cymuned â chymhwysedd?

RHAN 3

Cwestiwn 3.1: A oes gennych sylwadau am unrhyw un o'r darpariaethau yn Rhan 3 o'r Bil Drafft?

Cwestiwn 3.2: A oes gennych unrhyw sylwadau am y ddyletswydd arfaethedig ynghylch cyfranogiad y cyhoedd a'r gofyniad i ymgynghori ar y gyllideb flynyddol?

Cwestiwn 3.3: Sut y dylid ceisio a dewis cynrychiolwyr cymunedol i fod ar bwllgorau ardaloedd cymunedol?

Cwestiwn 3.4: A ydych chi'n cytuno y dylai Cynghorau Sir allu dirprwyo swyddogaethau i bwllgor ardal gymunedol? Os ydych, a oes unrhyw swyddogaethau y dylid neu na ddylid eu dirprwyo?

Cwestiwn 3.5: A oes gennych unrhyw farn ynghylch a oes angen rhoi trefniadau trosiannol ar waith ar gyfer pwyllgorau ardaloedd presennol, neu a yw cyfnod arweiniol da yn ddigonol?

Cwestiwn 3.6: A oes gennych unrhyw sylwadau am y darpariaethau diwygiedig ar gyfer 'ceisiadau ar gyfer gwella' neu ar y rhyngweithio rhwng y darpariaethau hyn a'r rheini sy'n ymwneud â'r ddyletswydd cyfranogiad y cyhoedd (Rhan 3, Pennod 2) a phwyllgorau ardaloedd cymunedol (Rhan 3, Pennod 3)?

Cwestiwn 3.7: A oes gennych sylwadau am unrhyw un o'n cynigion pellach sy'n ymwneud â mynediad i gyfarfodydd?

Cwestiwn 3.8: A oes gennych unrhyw sylwadau am ein cynigion i wella cyfranogiad gan blant a phobl ifanc trwy'r ddyletswydd cyfranogiad y cyhoedd?

RHAN 4

Cwestiwn 4.1: A oes gennych sylwadau am unrhyw un o'r darpariaethau yn Rhan 4 o'r Bil Drafft?

Cwestiwn 4.2: A oes gennych unrhyw sylwadau am y ddyletswydd arfaethedig ar arweinwyr grwpiau gwleidyddol neu ar rolau monitro ac adrodd y Pwyllgor Safonau?

Cwestiwn 4.3: A oes gennych unrhyw sylwadau am ein cynigion sy'n ymwneud ag Awdurdodau Lleol yn dirprwyo swyddogaethau?

Cwestiwn 4.4: A oes gennych unrhyw sylwadau am ein cynnig i roi pŵer i Weinidogion Cymru gyfarwyddo Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol i ystyried canllawiau wrth adolygu'r fframwaith cydnabyddiaeth ariannol ar gyfer Cynghorwyr?

Cwestiwn 4.5: A ydych chi'n cytuno y dylai'r darpariaethau sy'n ymwneud â mynychu cyfarfodydd o bell ym Mesur 2011 fod yn fwy hyblyg?

Cwestiwn 4.6: A oes gennych unrhyw sylwadau am ein cynnig y dylai fod yn ofynnol i Awdurdodau Cysgodol benodi Swyddogion Canlyniadau dros dro?

Cwestiwn 4.7: A oes gennych unrhyw sylwadau am fuddioldeb rhoi'r pŵer i Gynghorau ddiswyddo'r Prif Weithredwr, y Prif Swyddog Cyllid, y Swyddog Monitro a'r Pennaeth Gwasanaethau Democraidaidd trwy bleidlais?

Cwestiwn 4.8: A oes gennych unrhyw sylwadau am ein cynigion i newid y fframwaith a ddefnyddi gan Gynghorau a'u Gweithrediaeth i benderfynu sut i ddyrannu eu swyddogaethau?

Cwestiwn 4.9: A oes gennych unrhyw sylwadau am ein cynigion mewn perthynas â gwaredu a throsglwyddo asedau Awdurdodau Lleol?

RHAN 5

Cwestiwn 5.1: A oes gennych sylwadau am unrhyw un o'r darpariaethau yn Rhan 5 o'r Bil Drafft?

Cwestiwn 5.2: A oes gennych unrhyw sylwadau am ein cynnig i'w gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol ymgymryd â dyletswydd trefniadau llywodraethu?

Cwestiwn 5.3: A oes gennych unrhyw sylwadau am y dull gweithredu enghreifftiol tuag at asesiad gan gymheiriaid a nodir yn Atodiad A?

Cwestiwn 5.4: A oes gennych unrhyw sylwadau am rôl arfaethedig y Pwyllgorau Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio mewn perthynas ag ymateb yr Awdurdod Lleol i'r hunanasesiad, yr asesiad gan gymheiriaid, yr asesiad cyfun a'r adolygiad llywodraethu?

Cwestiwn 5.5: A oes gennych unrhyw sylwadau am ein cynnig i wrthod pwyllgorau cyfrifon cyhoeddus lleol?

Cwestiwn 5.6: Ai cyrff gwasanaethau cyhoeddus yw'r cyrff cywir i archwilio'r dewisiadau o ran polisi sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus lleol?

Cwestiwn 5.7: Os felly, a fydd pwerau cyfreithiol ychwanegol o fudd iddynt?

Cwestiwn 5.8: Pa fesurau deddfwriaethol allai gael eu hystyried i ganiatáu i Llywodraeth Leol ymgymryd â rôl cydwasanaethau ar draws y sector cyhoeddus?

RHAN 6

Cwestiwn 6.1: A oes gennych sylwadau am unrhyw un o'r darpariaethau yn Rhan 6 o'r Bil Drafft?

Cwestiwn 6.2: A ddylai fod yn ofynnol i'r Comisiwn Ffiniau gyflwyno'i adroddiadau drafft i Awdurdodau Cysgodol o fis Mai 2019 ymlaen?

Cwestiwn 6.3: A ddylai'r Cynghorau Sir newydd roi ar waith argymhellion y Comisiwn Ffiniau neu a ddylai hyn fod yn gyfrifoldeb i'r Comisiwn Ffiniau ei hun?

Cwestiwn 6.4: A oes gennych unrhyw sylwadau am ein cynigion sy'n ymwneud â hyfforddiant gorfodol ar gyfer Cynghorwyr Cymuned?

Cwestiwn 6.5: A oes gennych unrhyw sylwadau am ein cynnig i ymestyn tymor Cynghorwyr Cymuned sy'n cael eu hethol yn 2017 i chwe blynedd?

Cwestiwn 6.6: A oes gennych unrhyw sylwadau am ein cynnig y dylai fod yn ofynnol i Gynghorau Cymuned ystyried a chynllunio ar gyfer anghenion hyfforddi eu haelodau a'u gweithwyr eu hunain?

Cwestiwn 6.7: A oes gennych unrhyw sylwadau sy'n ymwneud â gosod amcanion ar gyfer clerc Cyngor Cymuned?

Cwestiwn 6.8: A oes gennych unrhyw sylwadau am ein cynnig i ddiddymu'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â phleidleisiau cymunedol ac yn hytrach ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol weithredu system e-ddeisebau?

RHAN 7

Cwestiwn 7.1: A oes gennych sylwadau am unrhyw un o'r darpariaethau yn Rhan 7 o'r Bil Drafft?

Cwestiwn 7.2: A oes gennych unrhyw sylwadau am a fyddai'n parhau'n ddymunol i sefydlu Comisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus statudol os byddai'n fwy cyfyngedig na Chomisiwn anstatudol o ran y materion y gallai roi canllawiau arnynt?

RHAN 8

Cwestiwn 8.1: A oes gennych sylwadau am unrhyw un o'r darpariaethau yn Rhan 8 o'r Bil Drafft neu am unrhyw un o'r Atodlenni?

CWESTIYNAU YCHWANEGOL

Cwestiwn 9.1: A ydych chi'n ymwybodol o unrhyw ddiwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth y bydd angen eu gwneud?

Cwestiwn 9.2: Rhowch adborth a fydd yn ddefnyddiol yn eich barn chi mewn perthynas â'r dogfennau ategol a gyhoeddir ochr yn ochr â'r Bil Drafft h.y. Memorandwm Esboniadol Drafft (gan gynnwys yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol) ac Asesiadau Effaith penodol.

Cwestiwn 9.3: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech godi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym ni wedi mynd i'r afael â nhw yn benodol, defnyddiwch y lle isod i'w nodi.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Draft Local Government (Wales) Bill Consultation Response

PART 1

Question 1.1: Do you have any comments on any of the provisions in Part 1 of the Draft Bill?

The Council's comments on Part 1 are set out in the responses below.

Question 1.2: What are your views on the options for 2 or 3 Counties in North Wales, as set out in Schedule 1 to the Draft Bill?

If mergers of local authorities are to proceed then the Council's view is that Denbighshire County Council should merge with Conwy County Borough Council. The Council had prepared a joint submission with Conwy in 2014, which set out the argument for a voluntary merger in detail. As far as we are aware no other pair or group of authorities, consistent with the proposed maps, have produced the detailed argument for merger that our two authorities have. The Council's position on this hasn't changed and we present no further arguments.

Question 1.3: What are your views on the proposed configuration of Local Government areas in Wales?

The Council's position regarding its preferred option for North Wales is set out in the response to 1.2 above. The Council does not have a strong view about the rest of Wales, other than an argument about proportionality: the six councils in North Wales is currently between a third and a quarter of all councils. The Council would not support a model that worsened the current ratio.

Question 1.4: Do the Welsh Ministers need to seek any further powers to support the integration of Powys Teaching Health Board and Powys County Council?

The Council has no comment to make on this point.

Question 1.5: What are your views on the procedure for naming the new Counties?

It would appear appropriate that the Shadow Authorities determine the names of the new authorities

Question 1.6: What are your views on the proposed changes to the Local Government election timetable?

The proposed changes to the election timetable appear to be sensible.

Question 1.7: Do you have any general comments on the provisions in section 16 and Schedule 3 of the Draft Bill relating to Local Government finance?

The Council has no comment to make.

Question 1.8: How could the Welsh Government measure the current level of avoidance of Non-Domestic Rates?

Avoidance is notoriously difficult to quantify. The values attached to such things are by definition hypothetical and will be based on a study in one area and results extrapolated. In other areas such as Housing Benefit fraud when actual instances were compared to studies, the results were much lower. The Council would be wary of introducing an overly bureaucratic and therefore costly administration process to address a problem that may or may not be significant. At the very least it considers that a Welsh (urban and rural) study or research project be commissioned to inform whether this may be an issue.

Question 1.9: Do you have any comments or suggestions on how future legislation could help to reduce instances of avoidance of Non-Domestic Rates?

The Council has no additional comment to make.

Question 1.10: In what other ways could the Welsh Government enable Local Government to reduce the level of avoidance and fraud within the Non-Domestic Rates system?

It could be that something as simple as designing forms to make positive responses mandatory (the example of having 'zero' as a response rather than leaving a box blank on returns etc.) would limit potential avoidance.

Question 1.11: Do you agree that the preserved counties be abolished and that consequential amendments are made so that the appointments of Lord-Lieutenants and High Sheriffs are made in respect of the Counties in existence after 1 April 2020?

This would appear to be a sensible proposal ensuring a consistent geographical area for all civic and administrative purposes.

Question 1.12: Are there other matters of a technical nature which should also be considered?

The Council has no comment to make.

PART 2

Question 2.1: Do you have any comments on any of the provisions in Part 2 of the Draft Bill?

The Council welcomes the introduction of the general power of competence. This power should not, however, be regarded as a panacea. The Draft Bill places constraints on the use of this power in that it will not allow Local Authorities to do

anything which they are currently prohibited from doing by existing or future legislation. There are already many such prohibitions and restrictions. Local Authorities will also be constrained by the public law principles which apply to the exercise of any of their functions. The Council does not see the need for any further constraint and encourages Welsh Ministers to use their powers to make regulations in respect of the exercise of the general power in such a way that they reduce rather than increase the barriers to its use.

Question 2.2: Do you have any comments on our proposals relating to Community Councils with competence?

The Council welcomes the removal of the requirement for County Councils to monitor the competence of Community Councils and the £200k turnover test.

The test of competence set out in the Draft Bill would appear relatively meaningless for the following reasons.

The Community Council only has to meet the requirement at a given snapshot in time. It may then continue to exercise the power in respect of new activity, even though it is no longer “competent”, for up to five years.

In respect of activity undertaken whilst it was “competent”, (which includes any period within the five years that it did not meet the competency requirement) a Community Council may continue to exercise the power for what appears to be an indefinite period.

The Council’s comments are similar to those made in response to the White Paper. It would seem sensible to create Community Councils of an appropriate size, impose minimum governance standards and then grant the same powers and responsibilities to them all.

The Council previously commented that the requirement to have a Clerk with a relevant professional qualification could impose a significant financial burden on some Community Councils given the level of salary that may be needed to attract and retain such staff. In the absence of any detail as to the exact nature of the required qualification it is difficult to comment further. One question that arises is what will be the position of existing Clerks who do not meet this requirement? If this is to be introduced then it would seem sensible that it be implemented after the review of Community Councils has taken place.

PART 3

Question 3.1: Do you have any comments on any of the provisions in Part 3 of the Draft Bill?

The Council is very concerned about the bureaucratic burden that will be imposed on Councils by the establishment of Community Area Committees as proposed in the Draft Bill. In particular the requirement that these be full public committees under the terms of the Local Government Act 1972 with all of the consequential costs of

servicing and support that this entails. If these committees are to be truly connected to their local areas it is assumed that their meetings will take place in those areas. If they are also to be subject to the requirement to be broadcast live then there will be additional capital costs of installing the necessary equipment in additional buildings as well as the revenue costs of additional capacity, as suppliers price webcasting services on the amount of hours broadcast.

- (2) Ni chaniateir ethol aelod o weithrediaeth cyngor sir, neu gynorthwydd i'r weithrediaeth, yn gadeirydd y cyngor.
- (3) Mae'r cadeirydd, oni bai bod y cadeirydd yn ymddiswyddo neu'n dod yn anghymwys, yn parhau yn y swydd hyd nes y bydd olynnydd â'r hawl i weithredu fel cadeirydd.
- (4) Mae'r cadeirydd yn parhau i fod yn aelod o'r cyngor yn ystod cyfnod y cadeirydd mewn swydd, er gwaethaf darpariaethau'r Ddeddf hon a Deddf 1972 mewn perthynas ag ymddeoliad cynghorwyr.
- (5) Mae gan gadeirydd y cyngor sir flaenoriaeth yn ardal y cyngor hwnnw, ond nid i'r graddau bod hynny'n cael effaith andwyol ar uchelfraint Ei Mawrhydi.
- (6) Mae is-adran (5) yn cael effaith mewn perthynas â chynghor sir sy'n gweithredu trefniadau gweithrediaeth sy'n cynnwys gweithrediaeth maer a chabinet fel pe bai'n darparu bod maer etholedig y cyngor yn cael blaenoriaeth yn ardal y cyngor hwnnw.
- (7) Nid yw is-adran (6) yn gymwys os yw trefniadau gweithrediaeth y cyngor sir yn darparu iddi beidio â bod yn gymwys.

4 Ethol y cadeirydd

- (1) Rhaid mai ethol y cadeirydd yw'r busnes cyntaf â drafodir yng nghyfarfod blynyddol cyngor sir.
- (2) Pe bai'r person sy'n llywyddu'r cyfarfod wedi peidio â bod yn aelod o'r cyngor heblaw am adran 3(4) neu 5(3), nid oes gan y person hwnnw yr hawl i bleidleisio yn yr etholiad ac eithrio yn unol ag is-adran (3).
- (3) Yn achos pleidlais gyfartal rhaid i'r person sy'n llywyddu'r cyfarfod roi pleidlais fwrw yn ychwanegol at unrhyw bleidlais arall a allai fod ganddo.

5 Is-gadeirydd cyngor sir

- (1) Rhaid i gyngor sir benodi aelod o'r cyngor i fod yn is-gadeirydd y cyngor.
- (2) Ni chaniateir penodi aelod o weithrediaeth cyngor sir, neu gynorthwydd i'r weithrediaeth, yn is-gadeirydd y cyngor.

(3) Mae is-gadeirydd, oni bai bod yr is-gadeirydd yn ymddiswyddo neu'n dod yn anghymwys, yn dal y swydd hyd yn union ar ôl ethol cadeirydd yng nghyfarfod blynyddol cyntaf y cyngor yn dilyn y cyfarfod blynyddol pan benodwyd yr is-gadeirydd; a hyd nes y bydd yr is-gadeirydd yn peidio â dal y swydd, mae'r is-gadeirydd yn parhau i fod yn aelod o'r cyngor er gwaethaf darpariaethau'r Ddeddf hon a Deddf 1972 mewn perthynas ag ymddeoliad cynghorwyr.

(4) Yn ddarostyngedig i unrhyw reolau sefydlog a wneir gan y cyngor, caniateir i unrhyw beth yr awdurdodir ei wneud, neu y mae'n ofynnol ei wneud, gan y cadeirydd, i'r cadeirydd neu gerbron y cadeirydd, gael ei wneud gan yr is-gadeirydd, i'r is-gadeirydd neu gerbron yr is-gadeirydd.

6 Cadeirydd â'r hawl i'r teitl "maer"

(1) Caiff cyngor sir benderfynu bod ei gadeirydd i gael y teitl "maer".

(2) Os yw cyngor sir yn gwneud penderfyniad o'r fath, mae ei is-gadeirydd i gael y teitl "dirprwy faer".

(3) Nid yw'r adran hon yn gymwys pan fo cyngor sir yn gweithredu trefniadau gweithrediaeth sy'n cynnwys gweithrediaeth maer a chabinet.

7 Aelod llywyddol

(1) Caiff cyngor sir benderfynu cael aelod llywyddol.

(2) Etholir aelod llywyddol gan y cyngor sir o blith y cynghorwyr.

(3) Ni chaniateir ethol aelod o weithrediaeth cyngor sir, neu gynorthwyydd i'r weithrediaeth, yn aelod llywyddol iddo.

(4) Caiff y cyngor sir benderfynu –

(a) swyddogaethau'r aelod llywyddol, a

(b) cyfnod swydd yr aelod (yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau yn is-adran (6)).

(5) Caiff swyddogaethau'r aelod llywyddol gynnwys, yn benodol, unrhyw un neu ragor o swyddogaethau cadeirydd y cyngor sir mewn perthynas â'i gyfarfodydd a'i drafodion.

(6) Mae aelod llywyddol yn parhau yn ei swydd hyd nes –

(a) y bydd yr aelod llywyddol yn ymddiswyddo neu'n dod yn anghymwys,

(b) y bydd olynydd â'r hawl i weithredu fel aelod llywyddol,

(c) y bydd y cyngor sir yn penderfynu peidio â chael swydd aelod llywyddol, neu

(d) y cynhelir etholiad cyngor cyffredin o dan adran 10.

8 Dirprwy aelod llywyddol

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo cyngor sir wedi penderfynu cael aelod llywyddol.

(2) Rhaid i'r cyngor sir benodi aelod o'r cyngor i weithredu fel dirprwy i'r aelod llywyddol ("y dirprwy aelod llywyddol").

(3) Ni chaniateir penodi aelod o weithrediaeth cyngor sir, neu gynorthwyydd i'r weithrediaeth, yn ddirprwy aelod llywyddol.

(4) Yn ddarostyngedig i unrhyw reolau sefydlog a wneir gan y cyngor, caniateir i unrhyw beth yr awdurdodir ei wneud, neu y mae'n ofynnol ei wneud, gan yr aelod llywyddol, i'r aelod llywyddol neu gerbron yr aelod llywyddol, gael ei wneud gan y dirprwy aelod llywyddol, i'r dirprwy aelod llywyddol neu gerbron y dirprwy aelod llywyddol.

- 5 (5) Mae dirprwy aelod llywyddol yn parhau yn ei swydd hyd nes –
- (a) y bydd y dirprwy aelod llywyddol yn ymddiswyddo neu'n dod yn anghymwys,
 - (b) y bydd olynnydd â'r hawl i weithredu fel dirprwy aelod llywyddol,
 - (c) y bydd y cyngor yn penderfynu peidio â chael swydd aelod llywyddol, neu
 - (d) y cynhelir etholiad cyngor cyffredin o dan adran 10.

10 9 Teitl cadeirydd etc. pan fo cyngor wedi penderfynu cael aelod llywyddol

- (1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo cyngor sir wedi penderfynu cael aelod llywyddol o dan adran 7.
- (2) Rhaid i gadeirydd y cyngor –
- (a) cael y teitl "maer" (os nad yw'r cadeirydd eisoes wedi cael y teitl hwnnw), neu
 - 15 (b) cael y teitl "cadeirydd dinesig".
- (3) Rhaid i ddirprwy gadeirydd y cyngor –
- (a) cael y teitl "dirprwy faer" (os nad yw'r dirprwy gadeirydd eisoes wedi cael y teitl hwnnw), neu
 - (b) cael y teitl "dirprwy gadeirydd dinesig".
- 20 (4) Nid yw is-adrannau (2)(a) a (3)(a) yn gymwys pan fo'r cyngor sir yn gweithredu trefniadau gweithrediaeth sy'n cynnwys gweithrediaeth maer a chabinet.

10 Etholiadau cyffredin cyngorwyr a chyfnod mewn swydd

- (1) Mae cyngorwyr cyngor ar gyfer sir i'w hethol gan yr etholwyr llywodraeth leol ar gyfer y sir yn unol â'r Ddeddf hon, Deddf 1972 a Rhan 1 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (p.2).
- 25 (2) Cynhelir etholiadau cyffredin cyngorwyr ar gyfer cyngorau sir yn 2023 ac ym mhob pumed flwyddyn ar ôl 2023.
- (3) Cyfnod swydd pob cyngorydd o'r fath yw pum mlynedd.
- (4) Ar y pedwerydd diwrnod ar ôl etholiad cyffredin cyngorwyr ar gyfer cyngor sir –
- 30 (a) mae'r personau a oedd yn gyngorwyr yn union cyn yr etholiad yn ymddeol, a
 - (b) mae'r aelodau a etholwyd o'r newydd yn cymryd eu swyddi.
- (5) Yn yr adran hon ystyr "etholwr llywodraeth leol" yw person a gofrestrwyd fel etholwr llywodraeth leol yn y gofrestr o etholwyr yn unol â darpariaethau Deddfau Cynrychiolaeth y Bobl.

35 11 Wardiau etholiadol

- (1) Ystyr "ward etholiadol" yw ardal mewn sir yr etholir aelodau i'r cyngor sir ar ei chyfer.

(2) Mae pob ward etholiadol yn dychwelyd y nifer hwnnw o gynghorwyr y darperir ar ei gyfer o dan, neu yn rhinwedd, Rhan 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 (dccc 4), adran 22 neu 23 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2015 neu Ran 4 o Ddeddf 1972.

(3) Rhaid cynnal etholiad ar wahân ar gyfer pob ward etholiadol.

12 Newid enw sir gan gyngor sir

(1) Caiff cyngor sir newid, drwy basio cynnig, enw'r sir y mae'n gyngor ar ei chyfer.

(2) Rhaid i gynnig o dan is-adran (1) gael ei basio gan ddim llai na dwy ran o dair o aelodau'r cyngor sy'n pleidleisio ar y newid enw mewn cyfarfod o'r cyngor sy'n cael ei gynnwll yn arbennig at y diben hwnnw, gyda'r aelodau'n cael eu hysbysu ymlaen llaw am ddiben y cyfarfod.

(3) Rhaid i hysbysiad am unrhyw newid enw a wneir yn rhinwedd yr adran hon –

(a) cael ei anfon gan y cyngor sir at –

(i) Gweinidogion Cymru,

(ii) Cyfarwyddwr Cyffredinol yr Arolwg Ordnans,

(iii) Cofrestrydd Cyffredinol Cymru a Lloegr, a

(iv) Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru, a

(b) os bydd Gweinidogion Cymru'n rhoi cyfarwyddyd ynglŷn â'r modd y dylid cyhoeddi hysbysiad, cael ei gyhoeddi gan y cyngor yn y modd hwnnw.

(4) Nid yw newid enw a wneir yn rhinwedd yr adran hon yn effeithio ar unrhyw hawliau neu rwymedigaethau sy'n perthyn i unrhyw gyngor sir, awdurdod neu berson arall, nac yn gwneud unrhyw achos cyfreithiol yn ddiffygiol; a chaniateir cychwyn unrhyw achos cyfreithiol, neu barhau ag ef, fel pe na bai unrhyw newid enw wedi digwydd.

PENNOD 3

SEFYDLU'R CYNGHORAU AR GYFER Y SIROEDD NEWYDD

Dehongli

13 "Siroedd newydd" a "cynghorau newydd"

Yn y Rhan hon –

ystyr "cyngor newydd" ("*new council*") yw'r cyngor ar gyfer sir newydd;

ystyr "sir newydd" ("*new county*") yw sir a nodir yn y tabl yn Atodlen 1, ac eithrio sir Powys.

Etholiadau cyffredin cyntaf cynghorwyr

14 Etholiadau cyffredin cyntaf cynghorwyr ar gyfer y cynghorau newydd

(1) Mae etholiadau cyffredin cyntaf cynghorwyr ar gyfer y cynghorau newydd i'w cynnal ar 2 Mai 2019.

- (2) Mae Atodlen 2 yn gwneud darpariaeth bellach ynghylch etholiadau cyffredin cyntaf cynghorwyr ar gyfer y cynghorau newydd.

Swyddogaethau cynghorau newydd

15 Cynghorau newydd: awdurdodau cysgodol

- 5 (1) Ar ôl etholiadau cyffredin cyntaf cynghorwyr ar gyfer y cynghorau newydd, mae pob cyngor newydd yn awdurdod cysgodol mewn perthynas â'r sir y bydd yn gyngor ar ei chyfer o 1 Ebrill 2020.
- (2) Mae cyngor newydd yn awdurdod cysgodol mewn perthynas â sir newydd hyd 1 Ebrill 2020 (ar ôl hynny bydd y cyngor newydd yn ysgwyddo holl swyddogaethau cyngor sir).
- 10 (3) Mae gan awdurdodau cysgodol y swyddogaethau hynny, ac maent yn ddarostyngedig i'r trefniadau cyllido hynny, a bennir mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru (ac mae adran 2(3) i'w darllen yn unol â hynny).
- (4) Nid yw is-adran (3) yn cyfyngu ar bŵer Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau o dan adran 19 (darpariaeth ganlyniadol, gysylltiedig, drosiannol etc.) o ran awdurdodau cysgodol, nac unrhyw awdurdod arall neu berson arall.
- 15 (5) Caiff Gweinidogion Cymru ddyroddi canllawiau mewn perthynas ag arfer swyddogaethau gan awdurdodau cysgodol; a rhaid i awdurdodau cysgodol roi sylw i ganllawiau a ddyroddir o dan yr is-adran hon wrth arfer eu swyddogaethau.
- 20 (6) Mae Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2015 yn cynnwys darpariaeth bellach mewn perthynas ag awdurdodau cysgodol (gweler adrannau 13, 25 i 30 a 38 o'r Ddeddf honno).

16 Cynghorau newydd: cyllid

Mae Atodlen 3 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â'r cynghorau newydd o ran—

- (a) y dreth gyngor ac ardrethu annomestig,
- (b) rhestrau prisio,
- 25 (c) rhestrau ardrethu annomestig lleol, a
- (d) cronfeydd cynghorau.

17 Trosglwyddo swyddogaethau: cymhwyso deddfwriaeth arall mewn perthynas â chynghorau newydd

- 30 (1) Mae'r adran hon yn cael effaith at ddiben addasu darpariaethau deddfwriaethol perthnasol; yn benodol at ddiben darparu bod y swyddogaethau a roddir gan ddarpariaethau deddfwriaethol perthnasol i'w harfer gan y cynghorau newydd, ac mewn perthynas â hwy.
- (2) At ddibenion yr adran hon, ystyr "darpariaeth ddeddfwriaethol berthnasol" yw—
- (a) darpariaeth mewn unrhyw ddeddfwriaeth sylfaenol a gafodd y Cydsyniad Brenhinol neu a gafodd gymeradwyaeth Ei Mawrhydi ar y diwrnod, neu cyn y diwrnod, y cafodd y Ddeddf hon y Cydsyniad Brenhinol;
- 35 (b) offeryn—
- (i) a wnaed o dan ddeddfwriaeth sylfaenol ar y diwrnod, neu cyn y diwrnod, y cafodd y Ddeddf hon y Cydsyniad Brenhinol, a

(ii) sydd o gymeriad deddfwriaethol ond nad ydyw o natur deddfiad lleol.

- (3) Mae'r adran hon yn ddarostyngedig i ddarpariaethau eraill y Rhan hon, ac i unrhyw ddarpariaeth a gynhwysir mewn rheoliadau a wneir o dan y Rhan hon.
- (4) Mewn unrhyw ddarpariaeth ddeddfwriaethol berthnasol mae –
- 5 (a) unrhyw gyfeiriad at ardal sy'n ardal cyngor sir neu'n ardal cyngor bwrdeistref sirol, a
- (b) unrhyw gyfeiriad sydd i'w ddehongli fel cyfeiriad at ardal o'r fath, i'w ddarllen, ar ac ar ôl 1 Ebrill 2020, fel cyfeiriad at ardal cyngor newydd.
- (5) Mewn unrhyw ddarpariaeth ddeddfwriaethol berthnasol mae –
- 10 (a) unrhyw gyfeiriad at gyngor ar gyfer sir neu fwrdeistref sirol, a
- (b) unrhyw gyfeiriad sydd i'w ddehongli fel cyfeiriad at gyngor o'r fath, i'w ddarllen, ar ac ar ôl 1 Ebrill 2020, fel cyfeiriad at gyngor newydd.
- (6) Yn yr adran hon, ystyr "deddfwriaeth sylfaenol" yw –
- (a) Deddf Seneddol;
- 15 (b) Deddf neu Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Darpariaeth drosiannol

18 Trosglwyddo staff, eiddo a rhwymedigaethau, a darpariaeth drosiannol arall

Mae Atodlen 4 –

- 20 (a) yn gwneud darpariaeth drosiannol etc. amrywiol mewn perthynas â'r cynghorau newydd a'r cynghorau a ddiddymir, a
- (b) yn darparu ar gyfer trosglwyddo staff, eiddo, rhwymedigaethau etc. o gynghorau a ddiddymir.

PENNOD 4

DARPARIAETH AMRYWIOL

25 **19 Pŵer Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth ganlyniadol, atodol etc.**

- (1) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth atodol, gysylltiedig, ganlyniadol neu drosiannol, neu ddarpariaeth arbed, at ddibenion cyffredinol y Rhan hon, neu at unrhyw ddiben penodol ynnddi, neu o ganlyniad i unrhyw un neu ragor o'i darpariaethau neu er mwyn rhoi effaith lawn iddi.
- 30 (2) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1) wneud darpariaeth, yn benodol –
- (a) i alluogi unrhyw berson i gymryd unrhyw gamau sy'n angenrheidiol fel rhagbaratoad ar gyfer arfer unrhyw bwerau y bydd y person yn cael eu harfer yn rhinwedd unrhyw ddarpariaeth a wneir gan y Ddeddf hon neu oddi tani;
- 35 (b) i drefniadau gael eu gwneud cyn unrhyw ddyddiad a bennir gan y Ddeddf hon neu oddi tani er mwyn sicrhau y gweithredir yn foddhaol o'r dyddiad hwnnw unrhyw ddarpariaeth a wneir gan y Ddeddf hon neu oddi tani;

- (c) ynglŷn â pha berson neu bersonau sydd i ysgwyddo cost unrhyw drefniadau (pa un a wneir hwy yn rhinwedd yr adran hon ai peidio) er mwyn sicrhau y gweithredir yn foddhaol unrhyw ddarpariaeth a wneir gan y Ddeddf hon neu oddi tani;
- 5 (d) ar gyfer trosglwyddo swyddogaethau ac eiddo, hawliau a rhwymedigaethau (gan gynnwys rhwymedigaethau troseddol) o gyngor a ddiddymir i gyngor newydd neu gorff cyhoeddus arall, neu mewn cysylltiad â hynny;
- (e) ar gyfer trosglwyddo staff, ar gyfer digolledu am golli swydd, ac mewn perthynas â phensiynau a materion staffio eraill, neu mewn cysylltiad â hynny;
- 10 (f) ynglŷn â rheoli neu gadw eiddo (boed dirol neu bersonol) a drosglwyddir i gyngor newydd;
- (g) ynglŷn ag ymddiriedolwyr siarter;
- (h) ynglŷn ag ardaloedd iechyd porthladd ac awdurdodau iechyd porthladd;
- (i) mewn perthynas â siroedd wedi eu cadw (o fewn yr ystyr a roddir gan adran 15 270(1) o Ddeddf 1972).
- (3) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1) wneud darpariaeth ynglŷn ag –
- (a) sefydlu cyrff cyhoeddus neu aelodaeth cyrff o’r fath ac ethol neu benodi aelodau’r cyrff cyhoeddus;
- (b) diddymu neu sefydlu neu gyfyngu neu estyn awdurdodaeth unrhyw gorff 20 cyhoeddus.
- (4) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1) hefyd wneud darpariaeth –
- (a) sy’n cymhwyso (gydag addasiadau neu hebddynt), yn diwygio, yn diddymu neu’n dirymu (gydag arbedion neu hebddynt) unrhyw ddeddfiad;
- (b) ar gyfer gwneud arbedion rhag effaith unrhyw ddiddymiad neu ddirymiad a 25 wneir o dan y Ddeddf hon.
- (5) Yn is-adran (4)(a) mae “deddfiad” yn cynnwys siarter, pa bryd bynnag y’i rhoddir.
- (6) Caiff darpariaeth o dan is-adran (2)(d) wneud darpariaeth, ymysg pethau eraill, sy’n datgymhwyso paragraff 6 neu 7 o Atodlen 4 mewn perthynas â throsglwyddiad a bennir mewn rheoliadau a wneir o dan yr adran hon.
- 30 (7) Caiff darpariaeth o dan is-adran (2)(e), ymysg pethau eraill –
- (a) datgymhwyso paragraff 5 o Atodlen 4 mewn perthynas â throsglwyddiad a bennir mewn rheoliadau a wneir o dan yr adran hon;
- (b) darparu bod aelodau o staff cyngor a ddiddymir i’w trosglwyddo i gyflogaeth cyngor newydd gwahanol i’r cyngor newydd ar gyfer yr ardal sy’n cynnwys ardal 35 y cyngor a ddiddymir.

20 Diwygiadau i’r dyddiadau a bennir mewn Deddfau penodol

- (1) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddiwygio –
- (a) unrhyw ddarpariaeth yn y Rhan hon neu ym Mhennod 1 o Ran 6 (adolygiadau o gynghorau cymuned) sy’n pennu dyddiad, a
- 40 (b) adrannau 2(8) a 39(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2015,

drwy roi dyddiad diweddarach yn lle'r dyddiad a nodir yn y ddarpariaeth honno ar y pryd.

- (2) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1) wneud diwygiadau canlyniadol i ddarpariaethau eraill y Rhan hon.

5 **21 Cymhwysiad Deddf 1972 i'r cynghorau sir yn Atodlen 1**

- (1) Yn adran 270(1) o Ddeddf 1972 (diffiniadau) –

(a) yn y diffiniad o "county" –

(i) ar ôl "means" mewnosoder " –

(a)", a

10 (ii) ar ôl "non-metropolitan county only" mewnosoder ", and –

(b) in relation to Wales, a county set out in Schedule 1 to the Local Government (Wales) Act 2017";

(b) yn y diffiniad o "local authority", hepgorer ", county borough council";

15 (c) yn y diffiniad o "local government area", ym mharagraff (b) hepgorer ", county borough";

(d) yn y diffiniad o "new" ar ôl "the Local Government (Wales) Act 1994" mewnosoder "or the Local Government (Wales) Act 2017";

(e) yn y diffiniad o "principal area", hepgorer "or county borough".

- (2) Yn Atodlen 5 i'r Ddeddf hon –

20 (a) mae Rhan 1 yn cynnwys diwygiadau pellach i Ddeddf 1972, a

(b) mae Rhan 2 yn gwneud darpariaeth drosiannol mewn perthynas â diddymu adran 26 o'r Ddeddf honno (amseriad etholiadau a chyfnodau swyddi), gan gynnwys darpariaeth ar gyfer etholiad cyffredin cynghorwyr ar gyfer cyngor sir Powys yn 2020.

25 **22 Dehongli'r Rhan**

Yn y Rhan hon –

ystyr "aelod" ("*member*"), mewn perthynas â chyngor sir sy'n gweithredu trefniadau gweithrediaeth sy'n cynnwys gweithrediaeth maer a chabinet, yw –

(a) maer etholedig y cyngor;

30 (b) cadeirydd y cyngor;

(c) un o gynghorwyr y cyngor;

ystyr "ardal llywodraeth leol" ("*local government area*") yw sir neu gymuned;

mae i "cynorthwydd i'r weithrediaeth" yr un ystyr ag a roddir i "assistant to the executive" yn Atodlen 1 i Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (p.22) (gweler paragraff 3A o'r Atodlen honno);

35

ystyr "cyngor a ddiddymir" ("*abolished council*") yw cyngor sir neu fwrdeistref sirol a ddiddymir o dan y Ddeddf hon;

mae i “cyngor newydd” (“*new council*”) a “sir newydd” (“*new county*”) yr ystyron a roddir yn adran 13.

RHAN 2

PŴER CYMHWYSEDD CYFFREDINOL

5

PENNOD 1

Y PŴER CYFFREDINOL

23 Pŵer cymhwysedd cyffredinol awdurdod lleol

- 10 (1) Mae gan awdurdod lleol cymwys bŵer i wneud unrhyw beth y caiff unigolion yn gyffredinol ei wneud, hyd yn oed os yw hynny, o ran ei natur neu ei raddfa neu fel arall—
- (a) yn wahanol i unrhyw beth y caiff awdurdod lleol cymwys ei wneud ar wahân i’r adran hon;
- (b) yn wahanol i unrhyw beth y caiff cyrff cyhoeddus eraill ei wneud.
- 15 (2) Pan fo is-adran (1) yn rhoi pŵer i awdurdod wneud rhywbeth, mae’n rhoi pŵer iddo ei wneud mewn unrhyw ffordd a fynno, gan gynnwys—
- (a) pŵer i’w wneud yn unrhyw le yng Nghymru neu yn rhywle arall;
- (b) pŵer i’w wneud at ddiben masnachol neu fel arall am ffi, neu heb fod am ffi;
- (c) pŵer i’w wneud er budd yr awdurdod, ei ardal neu bersonau sy’n preswyllo neu’n bresennol yn ei ardal, neu fel arall.
- 20 (3) Nid yw cyffredinolrwydd y pŵer a roddir gan is-adran (1) i awdurdod lleol cymwys wedi ei gyfyngu gan fodolaeth unrhyw bŵer arall sydd gan yr awdurdod; ac nid yw unrhyw bŵer arall sydd gan yr awdurdod wedi ei gyfyngu gan fodolaeth y pŵer cyffredinol.
- (4) At ddibenion y Bennod hon, mae pob un o’r canlynol yn awdurdod lleol cymwys—
- 25 (a) cyngor sir;
- (b) cyngor cymuned â chymhwysedd (gweler Pennod 2).
- (5) Yn yr adran hon, ystyr “unigolyn” yw unigolyn sy’n meddu ar alluedd meddyliol llawn.
- (6) Mae cyfeiriadau yn y Rhan hon at y pŵer cyffredinol yn gyfeiriadau at y pŵer a roddir gan is-adran (1).
- 30 (7) Mae’r adran hon yn ddarostyngedig i adrannau 24 i 26 ac i unrhyw ddarpariaeth a wneir o dan adran 27(3) neu (4).

24 Terfynau’r pŵer cyffredinol

- (1) Nid yw’r pŵer cyffredinol yn galluogi awdurdod lleol cymwys i wneud unrhyw beth nad yw’r awdurdod yn gallu ei wneud yn rhinwedd cyfyngiad cyn cychwyn.

(2) Nid yw'r pŵer cyffredinol ychwaith yn galluogi awdurdod lleol cymwys i wneud unrhyw beth nad yw'r awdurdod yn gallu ei wneud yn rhinwedd cyfyngiad ar ôl cychwyn y mynegir ei fod yn gymwys –

(a) i'r pŵer cyffredinol,

(b) i holl bwerau'r awdurdod, neu

(c) i holl bwerau'r awdurdod ond gydag eithriadau nad ydynt yn cynnwys y pŵer cyffredinol.

(3) Nid yw'r pŵer cyffredinol yn rhoi pŵer i wneud nac i addasu –

(a) trefniadau o fath a wneir, neu y caniateir eu gwneud, gan neu o dan Ran 6 o Ddeddf 1972 (cyflawni swyddogaethau gan awdurdodau lleol);

(b) trefniadau o fath a wneir, neu y caniateir eu gwneud, gan neu o dan Ran 2 o Ddeddf 2000 (trefniadau ynglŷn â gweithrediaethau etc.);

(c) trefniadau contractio allan, neu unrhyw drefniadau eraill nad ydynt yn drefniadau o fewn paragraff (a) neu (b), sy'n awdurdodi person i arfer swyddogaeth awdurdod lleol cymwys.

(4) Yn yr adran hon –

ystyr "cyfyngiad ar ôl cychwyn" ("*post-commencement limitation*") yw gwaharddiad neu gyfyngiad arall a osodir yn benodol gan unrhyw ddarpariaeth statudol sy'n dod i rym ar ôl y flwyddyn Gynulliad y paswyd y Ddeddf hon ynddi;

ystyr "cyfyngiad cyn cychwyn" ("*pre-commencement limitation*") yw gwaharddiad neu gyfyngiad arall a osodir yn benodol gan unrhyw ddarpariaeth statudol sy'n dod i rym cyn neu yn ystod yr un flwyddyn Gynulliad â'r flwyddyn Gynulliad y paswyd y Ddeddf hon ynddi.

(5) At ddibenion is-adran (1), mae adran 111(3) o Ddeddf 1972 (nid yw pwerau atodol awdurdodau lleol i gynnwys y pŵer i godi arian) i'w diystyru.

25 Cyfyngiadau ar godi ffi wrth arfer pŵer cyffredinol

(1) Nid yw'r pŵer cyffredinol yn rhoi pŵer i awdurdod lleol cymwys godi ffi am ddarparu gwasanaeth i berson oni fo'r amodau a ganlyn wedi eu bodloni.

(2) Yr amod cyntaf yw nad yw'r gwasanaeth yn un y mae darpariaeth statudol yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod ei ddarparu.

(3) Yr ail amod yw bod y person wedi cytuno i'r gwasanaeth gael ei ddarparu.

(4) Ac eithrio mewn perthynas â gwasanaeth a ddarperir at ddiben masnachol, i'r graddau y mae'r pŵer cyffredinol yn rhoi pŵer i awdurdod lleol cymwys godi ffi am ddarparu gwasanaeth, mae'r pŵer yn ddarostyngedig i ddyletswydd i sicrhau nad yw'r incwm o ffioedd a osodir oddi tano, o gymryd un flwyddyn ariannol gyda'r llall, yn uwch na chostau darparu'r gwasanaeth.

(5) Mae'r ddyletswydd o dan is-adran (4) yn gymwys ar wahân mewn perthynas â phob math o wasanaeth.

(6) Yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd o dan is-adran (4), wrth arfer y pŵer a roddir gan y pŵer cyffredinol i godi ffi am ddarparu gwasanaeth, caiff awdurdod lleol cymwys bennu ei ffioedd fel y gwêl yn dda, ac ymysg pethau eraill caiff –

(a) codi ffi ar rai personau yn unig am ddarparu gwasanaeth;

(b) codi symiau gwahanol am ddarparu gwasanaeth ar bersonau gwahanol, neu ar ddisgrifiadau gwahanol o bersonau.

26 Cyfyngiad ar wneud pethau at ddiben masnachol wrth arfer pŵer cyffredinol

(1) Nid yw'r pŵer cyffredinol yn rhoi pŵer i awdurdod lleol cymwys wneud pethau at ddiben masnachol oni bai eu bod yn bethau y caiff yr awdurdod, wrth arfer y pŵer cyffredinol, eu gwneud at ddiben heblaw diben masnachol.

(2) Pan fo awdurdod, wrth arfer y pŵer cyffredinol, yn gwneud pethau at ddiben masnachol, rhaid i'r awdurdod eu gwneud drwy gwmni.

(3) Ni chaiff awdurdod lleol cymwys, wrth arfer y pŵer cyffredinol, wneud pethau at ddiben masnachol mewn perthynas â pherson os yw darpariaeth statudol yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod wneud y pethau hynny mewn perthynas â'r person.

(4) Yn yr adran hon, ystyr "cwmni" yw –

(a) cwmni o fewn yr ystyr a roddir gan adran 1(1) o Ddeddf Cwmnïau 2006 (p.46), neu

(b) cymdeithas gofrestredig o fewn ystyr Deddf Cymdeithasau Cydweithredol a Budd Cymunedol 2014 (p.14) neu gymdeithas a gofrestrwyd neu sydd i'w thrin fel petai wedi ei chofrestru o dan Ddeddf Cymdeithasau Diwydiannol a Darbodus (Gogledd Iwerddon) 1969 (p.24 (GI)).

27 Pŵer i wneud darpariaeth atodol

(1) Os yw Gweinidogion Cymru o'r farn bod darpariaeth statudol (pa bryd bynnag y'i pasiwyd neu y'i gwnaed) yn atal awdurdodau lleol cymwys rhag arfer y pŵer cyffredinol, neu'n eu rhwystro wrth iddynt arfer y pŵer cyffredinol, caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ddiwygio, ddiddymu, ddirymu neu ddatgymhwyso'r ddarpariaeth statudol honno.

(2) Os yw Gweinidogion Cymru o'r farn bod unrhyw bŵer arall yn gorgyffwrdd (i unrhyw raddau) â'r pŵer cyffredinol, yna, at ddiben lleihau neu ddileu'r gorgyffwrdd hwnnw, caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ddiwygio, ddiddymu, ddirymu neu ddatgymhwyso unrhyw ddarpariaeth statudol (pa bryd bynnag y'i pasiwyd neu y'i gwnaed).

(3) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth sy'n atal awdurdodau lleol cymwys, wrth iddynt arfer y pŵer cyffredinol, rhag gwneud unrhyw beth sydd wedi ei bennu yn y rheoliadau, neu sydd o ddisgrifiad sydd wedi ei bennu yn y rheoliadau.

(4) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddarparu bod arfer y pŵer cyffredinol yn ddarostyngedig i amodau, naill ai'n gyffredinol neu o ran gwneud unrhyw beth sydd wedi ei bennu yn y rheoliadau, neu sydd o ddisgrifiad sydd wedi ei bennu yn y rheoliadau.

- (5) Caniateir arfer y pŵer o dan is-adran (1), (2), (3) neu (4) mewn perthynas ag –
- (a) pob awdurdod lleol cymwys,
 - (b) awdurdod penodol sy'n awdurdod lleol cymwys, neu
 - (c) disgrifiadau penodol o awdurdodau lleol sy'n awdurdodau lleol cymwys.
- 5 (6) Ac eithrio fel y darperir yn is-adran (7), cyn gwneud rheoliadau o dan is-adran (1), (2), (3) neu (4) rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r canlynol –
- (a) pa bynnag awdurdodau lleol cymwys (os oes rhai) y maent yn ystyried ei bod yn briodol ymgynghori â hwy,
 - 10 (b) pa bynnag bersonau cynrychiadol (os oes rhai) y maent yn ystyried ei bod yn briodol ymgynghori â hwy, ac
 - (c) pa bynnag bersonau eraill (os oes rhai) y maent yn ystyried ei bod yn briodol ymgynghori â hwy.
- (7) Nid yw'r ddyletsywydd a osodir gan is-adran (6) yn gymwys yn achos rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru at ddiben diwygio rheoliadau cynharach yn unig –
- 15 (a) er mwyn ehangu'r rheoliadau cynharach, neu unrhyw ddarpariaeth yn y rheoliadau cynharach, i awdurdod penodol neu i awdurdodau o ddisgrifiad penodol, neu
 - (b) fel bod y rheoliadau cynharach, neu unrhyw ddarpariaeth yn y rheoliadau cynharach, yn peidio â bod yn gymwys i awdurdod penodol neu i awdurdodau o ddisgrifiad penodol.
 - 20
- (8) Personau cynrychiadol, at ddibenion is-adran (6), yw personau yr ymddengys i Weinidogion Cymru eu bod yn gynrychiadol o lywodraeth leol yng Nghymru.
- (9) Nid yw'r adran hon yn rhoi pŵer i wneud darpariaeth –
- 25 (a) sy'n diwygio, yn diddymu, yn dirymu neu'n datgymhwyso darpariaeth statudol sydd wedi ei chynnwys yn y Ddeddf hon;
 - (b) ar gyfer dirprwyo neu drosglwyddo unrhyw swyddogaethau deddfu drwy orchymyn, drwy reolau, drwy reoliadau neu drwy is-offeryn arall.

28 Pŵer cymhwysedd cyffredinol: diddymu pwerau awdurdod lleol o ran hybu llesiant

- (1) Mae Deddf 2000 wedi ei diwygio fel a ganlyn.
- 30 (2) Yn adran 1 (ystyr "local authority"), yn is-adran (1), hepgorer paragraff (b).
- (3) Hepgorer adrannau 2 a 3.
- (4) Hepgorer adran 5.
- (5) Yn adran 6 (pŵer i addasu deddfiadau sy'n ymwneud â phlantiau etc) –
- 35 (a) yn is-adran (1), hepgorer "so far as that enactment has effect in relation to England";
- (b) yn is-adran (2), hepgorer "in England" ym mhob man y digwydd y geiriau hynny.
- (6) Hepgorer adran 7.
- (7) Yn adran 9 (gweithdrefn ar gyfer gorchmynion) –
- (a) yn is-adran (1), hepgorer "5 or";

- (b) hepgorer is-adran (2);
- (c) yn is-adran (3) –
 - (i) yn lle “the preceding provisions of this section” rhodder “subsection (1)”;
 - (ii) hepgorer “5 or”;
 - (iii) hepgorer paragraff (d) (a’r gair “and” yn union o’i flaen);
- (d) yn is-adrannau (4) a (6) i (8) hepgorer “5 or” ym mhob man y digwydd.

(8) Hepgorer adran 9A.

(9) Yn adran 105 (gorchmynion a rheoliadau) –

(a) yn is-adran (6), hepgorer “5,”;

(b) yn is-adran (6A), hepgorer “, 5”.

(10) Yn Neddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 (dccc 2), yn Atodlen 4 (byrddau gwasanaethau cyhoeddus: diwygiadau canlyniadol a diddymu), hepgorer paragraffau 3 a 4.

29 Pŵer cymhwysedd cyffredinol: mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol eraill

(1) Yn Neddf 1972, mae adran 137 (pŵer awdurdodau lleol i wario at ddibenion penodol nas awdurdodwyd fel arall) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn is-adran (9) –

(a) ar ôl “Subject” mewnosoder “(in relation to England)”;

(b) ym mharagraff (b), ar ôl “council” mewnosoder “that is not a community council with competence for the purposes of Part 2 of the Local Government (Wales) Act 2017 (general power of competence)”.

(3) Yn is-adran (10), yn lle’r geiriau o ““local authority”” hyd ddiwedd yr is-adran, rhodder “, in its application to England, “local authority” means a county council, a district council, a London borough council, the Common Council or a parish council.”

(4) Yn Neddf Llywodraeth Leol 2003 (p.26), yn adran 93 (pŵer i godi ffi am wasanaethau dewisol), yn is-adran (9), ym mharagraff (d), ar ôl “council” mewnosoder “that is not a community council with competence for the purposes of Part 2 of the Local Government (Wales) Act 2017”.

(5) Yn adran 95 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 (p.26) (pŵer i fasnachu drwy gwmni mewn gweithgareddau sy’n gysylltiedig â swyddogaeth) –

(a) yn is-adran (4), ar ôl “section” mewnosoder “made by the Secretary of State”;

(b) ar ôl is-adran (4), mewnosoder –

“(4A) Power conferred by an order under this section made by the Welsh Ministers is only exercisable through a company within the meaning given in section 26 of the Local Government (Wales) Act 2017.”;

(c) yn is-adran (7), yn y diffiniad o “relevant authority”, ym mharagraff (d), ar ôl “council” mewnosoder “that is not a community council with competence for the purposes of Part 2 of the Local Government (Wales) Act 2017”.

- (6) Yn Neddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd 2007, yn Atodlen 14 (diwygiadau canlyniadol sy'n ymwneud ag endidau a reolir etc gan awdurdodau lleol), ym mharagraff 5 (diwygiadau i adran 95 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003), yn is-baragraff (4)(c), ar ôl "company" mewnosoder ", for the purposes of subsection (4), "

5 **30 Dehongli**

Yn y Rhan hon –

mae i "awdurdod lleol cymwys" ("*qualifying local authority*") yr ystyr a roddir gan adran 23;

ystyr "darpariaeth statudol" ("*statutory provision*") yw darpariaeth mewn –

- 10 (a) Mesur neu Ddeddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru;
- (b) Deddf Seneddol;
- (c) offeryn a wneir o dan Fesur neu Ddeddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru, neu o dan Ddeddf Seneddol.

mae i "pŵer cyffredinol" ("*general power*") yr ystyr a roddir gan adran 23.

15

PENNOD 2

CYNGHORAU CYMUNED Â CHYMHWYSEDD

31 Cyngorau cymuned â chymhwysedd

- (1) Mae cyngor cymuned yn dod yn gyngor cymuned â chymhwysedd os yw'n pasio cynnig –

- 20 (a) ei fod yn cyflawni'r gofynion cymhwysedd, a
- (b) ei fod yn gyngor cymuned â chymhwysedd.

- (2) Y gofynion cymhwysedd yw –

- (a) bod o leiaf ddwy ran o dair o gyfanswm aelodau'r cyngor wedi eu datgan yn etholedig (mewn etholiad cyffredin neu mewn is-etholiad),
- 25 (b) bod clerch y cyngor yn dal cymhwyster proffesiynol perthnasol, ac
- (c) bod y cyngor yn bodloni'r amod archwilio.

- (3) Mae'r amod archwilio wedi ei fodloni –

- (a) os yw'r cyngor wedi cael barn Archwilydd ar gyfrifon y cyngor sy'n ddiamod am ddwy flynedd ariannol yn olynol, a
- 30 (b) bod y cyngor wedi cael un o'r ddwy farn honno o fewn y cyfnod o ddeuddeg mis sy'n dod i ben ar y diwrnod y mae'r cynnig yn cael ei basio.

- (4) Mae barn Archwilydd yn ddiamod os nad yw Archwilydd Cyffredinol Cymru, yn y farn, wedi datgan mewn unrhyw fodd nad yw'n fodlon mewn perthynas â'r materion a nodir yn adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (p.23).

- 35 (5) Yn y Rhan hon –

ystyr “barn Archwilydd” (“*Auditor’s opinion*”) yw barn a ddarperir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru o dan adran 23 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, ar ôl cynnal archwiliad o gyfrifon cyngor cymuned ar gyfer blwyddyn ariannol;

ystyr “cymhwyster proffesiynol perthnasol” (“*relevant professional qualification*”) yw unrhyw gymhwyster a ragnodir felly gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau.

32 Parhau i fod yn gyngor cymuned â chymhwysedd neu beidio â bod yn gyngor o’r fath

(1) Rhaid i gyngor cymuned â chymhwysedd basio cynnig ym mhob cyfarfod blynyddol perthnasol o’r cyngor –

(a) ei fod yn cyflawni’r gofynion cymhwysedd ac yn parhau i fod yn gyngor cymuned â chymhwysedd,

(b) ei fod yn cyflawni’r gofynion cymhwysedd ond yn peidio â bod yn gyngor cymuned â chymhwysedd, neu

(c) nad yw’n cyflawni’r gofynion cymhwysedd a’i fod yn peidio â bod yn gyngor cymuned â chymhwysedd.

(2) Caiff cyngor cymuned â chymhwysedd basio cynnig mewn unrhyw gyfarfod o’r cyngor ei fod yn peidio â bod yn gyngor cymuned â chymhwysedd.

(3) Mae cyngor cymuned sy’n pasio cynnig o’r math a grybwyllir yn is-adran (1)(b) neu (c) neu (2) yn peidio â bod yn gyngor cymuned â chymhwysedd ar y diwrnod y mae’r cynnig yn cael ei basio.

(4) Mae cyngor cymuned sy’n methu â phasio cynnig o dan is-adran (1) yn peidio â bod yn gyngor cymuned â chymhwysedd ar ddiwrnod y cyfarfod blynyddol perthnasol y mae’n methu â phasio’r cynnig ynddo.

(5) At ddibenion y Rhan hon, ystyr “cyfarfod blynyddol perthnasol” yw cyfarfod o’r cyngor cymuned a gynhelir o dan baragraff 23 o Atodlen 12 i Ddeddf 1972 mewn blwyddyn pan fo etholiadau cyffredin cynghorwyr cymuned ar gyfer y cyngor yn digwydd.

33 Cyngorau cymuned sy’n peidio â bod yn gyngorau cymuned â chymhwysedd

Caiff cyngor cymuned sy’n peidio â bod yn gyngor cymuned â chymhwysedd barhau i arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol mewn perthynas ag unrhyw weithgaredd yr ymgwymerodd â hi pan ydoedd yn gyngor cymuned â chymhwysedd.

34 Pŵer i ddiwygio’r Rhan hon

(1) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddiwygio’r Rhan hon at ddibenion –

(a) ychwanegu gofyniad cymhwysedd,

(b) tynnu ymaith ofyniad cymhwysedd,

(c) newid unrhyw un neu ragor o’r gofynion cymhwysedd, neu

(d) gwneud darpariaeth i gyngor cymuned beidio â bod yn gyngor cymuned â chymhwysedd o dan amgylchiadau ac eithrio’r rheini a bennir yn adran 32 os oes unrhyw un neu ragor o’r gofynion cymhwysedd yn peidio â chael ei gyflawni neu’n peidio â chael eu cyflawni.

- (2) Cyn gwneud rheoliadau o dan baragraffau (a) i (c) o is-adran (1), rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unrhyw gyrff sy'n cynrychioli buddiannau cynghorau cymuned y maent yn ystyried ei bod yn briodol ymgynghori â hwy.

35 Canllawiau

- 5 Rhaid i gyngor cymuned roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru ynglŷn â'r modd y dylid arfer swyddogaethau o dan y Rhan hon.

RHAN 3

HYBU MYNEDIAD I LYWODRAETH LEOL

PENNOD 1

10

TROSOLWG O'R RHAN

36 Trosolwg

Yn y Rhan hon—

(a) Mae Pennod 2—

15

(i) yn ei gwneud yn ofynnol i gyngor sir annog pobl leol i gyfranogi wrth i'r cyngor wneud penderfyniadau, ac wrth i awdurdodau lleol eraill yn ardal y cyngor wneud penderfyniadau;

(ii) yn darparu bod cyngor yn llunio ac yn cyhoeddi strategaeth yn nodi sut y bydd yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i annog cyfranogi wrth wneud penderfyniadau;

20

(iii) yn ei gwneud yn ofynnol i gyngor sir ymgynghori wrth amcangyfrif gwariant at ddiben cyfrifo'r gyllideb sy'n ofynnol ganddo ar gyfer blwyddyn ariannol;

25

(b) Mae Pennod 3 yn darparu ar gyfer sefydlu pwyllgorau ardaloedd cymunedol i weithredu yn ardal cyngor sir at ddiben sicrhau bod y cyngor yn ystyried buddiannau a blaenoriaethau'r gymuned wrth arfer ei swyddogaethau;

(c) Mae Pennod 4 yn ei gwneud yn ofynnol i gyngor sir ac unrhyw awdurdod a ragnodir drwy reoliadau gynnal trafodaethau, o dan amgylchiadau penodol, â chyrrff eraill at ddiben gwella canlyniadau lleol;

30

(d) Mae Pennod 5 yn gwneud darpariaeth ar gyfer—

(i) cynnal cyfarfodydd ble y caiff aelodau'r cyhoedd graffu ar y modd y mae cynghorau sydd â threfniadau gweithrediaeth yn arfer eu swyddogaethau;

(ii) darlledu trafodion cyfarfodydd cynghorau sir ac awdurdodau lleol eraill sy'n agored i'r cyhoedd;

35

(iii) rhoi cyfle i aelodau'r cyhoedd siarad yng nghyfarfodydd cynghorau cymuned sy'n agored i'r cyhoedd;

(e) Mae Pennod 6 yn ei gwneud yn ofynnol i gyngor sir—

- (i) cyhoeddi canllaw i gyd-fynd â'i gyfansoddiad a sicrhau bod copïau o'r canllaw ar gael os gofynnir amdano;
- (ii) cyhoeddi cyfeiriad electronig a chyfeiriad post ar gyfer pob un o'i aelodau.

PENNOD 2

CYFRANOGIAD Y CYHOEDD MEWN LLYWODRAETH LEOL

Dyletswydd i annog cyfranogiad wrth wneud penderfyniadau

37 Dyletswydd i annog pobl leol i gyfranogi mewn llywodraeth leol

- (1) Rhaid i gyngor sir annog pobl leol i gyfranogi wrth i'r cyngor wneud penderfyniadau (gan gynnwys penderfyniadau a wneir mewn partneriaeth neu ar y cyd ag unrhyw berson arall).
- (2) Rhaid i gyngor sir hefyd annog pobl leol i gyfranogi wrth i awdurdodau sy'n gysylltiedig â'r cyngor wneud penderfyniadau (gan gynnwys penderfyniadau a wneir mewn partneriaeth neu ar y cyd ag unrhyw berson arall).
- (3) At ddibenion is-adran (2) mae pob un o'r awdurdodau a ganlyn yn awdurdod sy'n gysylltiedig â chyngor sir –
 - (a) cyngor cymuned ar gyfer ardal yn ardal y cyngor sir;
 - (b) awdurdod tân ac achub ar gyfer ardal y cyngor sir;
 - (c) awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol y mae unrhyw ran ohono yn ardal y cyngor sir.
- (4) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddiwygio is-adran (3) at ddiben –
 - (a) ychwanegu cyfeiriad at unrhyw gorff neu berson arall, neu ddisgrifiad o gorff neu berson, sydd â swyddogaethau o natur gyhoeddus fel awdurdod sy'n gysylltiedig â chyngor sir;
 - (b) tynnu ymaith gyfeiriad at unrhyw gorff neu berson arall, neu ddisgrifiad o gorff neu berson, o'r is-adran honno.
- (5) Yn yr adran hon, mae cyfeiriad at wneud penderfyniadau yn cynnwys cyfeiriad at benderfyniadau a wneir gan berson mewn perthynas ag arfer swyddogaeth a ddirprwywyd i'r person hwnnw gan gyngor sir neu awdurdod sy'n gysylltiedig â chyngor.

38 Strategaeth ar annog cyfranogiad

- (1) Rhaid i gyngor sir lunio a chyhoeddi strategaeth ("strategaeth cyfranogiad y cyhoedd") sy'n pennu sut y mae'n bwriadu cydymffurfio â'r ddyletswydd yn adran 37(1) a (2).
- (2) Rhaid i strategaeth cyfranogiad y cyhoedd ymdrin â'r canlynol yn benodol –
 - (a) dulliau o hybu ymwybyddiaeth ymhlith pobl leol am swyddogaethau'r cyngor sir a swyddogaethau awdurdodau sy'n gysylltiedig â'r cyngor;
 - (b) dulliau o hybu ymwybyddiaeth ymhlith pobl leol ynglŷn â sut i ddod yn aelod o'r cyngor sir neu o awdurdod sy'n gysylltiedig â'r cyngor, a'r hyn y mae aelodaeth yn ei olygu;

- (c) dulliau o'i gwneud yn fwy hwylus i bobl leol gael gwybodaeth am benderfyniadau a wnaed, neu sydd i'w gwneud, gan y cyngor sir neu gan awdurdodau sy'n gysylltiedig â'r cyngor;
- 5 (d) dulliau o hybu a hwyluso prosesau i alluogi pobl leol wneud sylwadau i'r cyngor sir, neu i awdurdodau sy'n gysylltiedig â'r cyngor, am benderfyniad cyn iddo gael ei wneud, ac wedi hynny;
- (e) trefniadau a wnaed, neu sydd i'w gwneud, at ddiben y ddyletswydd ar y cyngor yn adran 62 o Fesur 2011 (dwyn safbwyntiau'r cyhoedd i sylw pwyllgorau trosolwg a chraffu);
- 10 (f) dulliau o hybu ymwybyddiaeth ymysg aelodau o'r cyngor sir, ac aelodau o awdurdodau sy'n gysylltiedig â'r cyngor, am fanteision defnyddio cyfryngau cymdeithasol i gyfathrebu â phobl leol.
- (3) Caiff strategaeth cyfranogiad y cyhoedd ymdrin â sut y mae cyngor sir yn bwriadu cydymffurfio â dyletswydd a osodir gan ddeddfiad arall, gan gynnwys deddfiad a gynhwysir mewn unrhyw ddarpariaeth arall yn y Ddeddf hon, neu oddi tani.
- 15 (4) Yn achos cyngor sir sy'n gweithredu trefniadau gweithrediaeth sy'n cynnwys gweithrediaeth maer a chabinet, mae cyfeiriad yn is-adran (2) at aelod o gyngor sir yn cynnwys cyfeiriad at faer etholedig y cyngor.

39 Strategaeth cyfranogiad y cyhoedd: ymgynghori ac adolygu

- 20 (1) Rhaid i strategaeth cyfranogiad y cyhoedd gyntaf cyngor sir gael ei chyhoeddi cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i adran 38 ddod i rym, ac wrth lunio'r strategaeth honno rhaid i'r cyngor ymgynghori â'r canlynol –
- (a) pobl leol, a
- (b) unrhyw bersonau eraill y mae'n ystyried ei bod yn briodol ymgynghori â hwy.
- 25 (2) Mewn perthynas â chyngor sir –
- (a) rhaid iddo adolygu ei strategaeth cyfranogiad y cyhoedd cyn gynted ag y bo'n ymarferol yn dilyn pob etholiad cyffredin cynghorwyr ar gyfer y cyngor, a
- (b) caiff adolygu ei strategaeth ar unrhyw adeg arall.
- (3) Wrth gynnal adolygiad o strategaeth cyfranogiad y cyhoedd o dan is-adran (2)(a) rhaid i
- 30 gyngor sir ymgynghori â'r canlynol –
- (a) pobl leol, a
- (b) unrhyw bersonau eraill y mae'n ystyried ei bod yn briodol ymgynghori â hwy.
- (4) Yn dilyn adolygiad o dan is-adran (2) caiff cyngor sir ddiwygio ei strategaeth cyfranogiad y cyhoedd, neu roi strategaeth newydd yn ei lle.
- 35 (5) Ond ni chaiff cyngor sir ddiwygio ei strategaeth cyfranogiad y cyhoedd neu roi un newydd yn ei lle yn dilyn adolygiad o dan is-adran (2)(b) heb ymgynghori â'r canlynol yn gyntaf –
- (a) pobl leol, a
- (b) unrhyw bersonau eraill y mae'n ystyried ei bod yn briodol ymgynghori â hwy.

- (6) Os yw cyngor sir yn diwygio strategaeth cyfranogiad y cyhoedd neu'n rhoi un newydd yn ei lle, rhaid iddo gyhoeddi'r strategaeth ddiwygiedig neu'r strategaeth newydd cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

Cyfrifiadau cyllideb cyngorau sir o dan Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992

5 **40 Ymgynghori gan gyngorau sir mewn cysylltiad â gofynion cyllideb**

- (1) Rhaid i gyngor sir gymryd camau rhesymol i ymgynghori â'r personau a restrir yn is-adran (2) mewn perthynas â'r amcangyfrif o wariant sydd i'w wneud ganddo ar gyfer blwyddyn ariannol o dan adran 32(2)(a) o Ddeddf 1992 (amcangyfrif o wariant yr eir iddo wrth gyflawni swyddogaethau).
- 10 (2) Y personau yw –
- (a) pobl leol;
 - (b) personau sy'n gweithredu busnes yn ardal y cyngor;
 - (c) cynrychiolwyr busnesau yn ardal y cyngor;
 - (d) personau sy'n darparu gwasanaethau i bobl leol ar ran y cyngor;
 - 15 (e) personau sy'n cynnal gweithgareddau yn ardal y cyngor er budd pobl leol, y mae'r cyngor yn darparu cymorth ariannol ar eu cyfer;
 - (f) cyrff gwirfoddol sy'n cynnal gweithgareddau yn ardal y cyngor;
 - (g) pob undeb llafur a gydnabyddir (o fewn ystyr Deddf Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992 (p.52)) gan y cyngor;
 - 20 (h) unrhyw bersonau eraill y mae'r cyngor yn ystyried ei bod yn briodol ymgynghori â hwy.
- (3) Nid yw cyfrifiadau a wneir o dan adran 32 o Ddeddf 1992 yn annilys ond oherwydd methiant i gydymffurfio ag is-adran (1).
- 25 (4) Yn is-adran (1) nid yw'r cyfeiriad at gyfrifiadau yn cynnwys cyfrifiadau sy'n cymryd lle cyfrifiadau eraill, a wneir yn rhinwedd adran 37 o Ddeddf 1992.

Cyffredinol

41 Canllawiau ynghylch arfer swyddogaethau o dan y Bennod hon

- (1) Caiff Gweinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i gyngor sir ynglŷn ag arfer, gan y cyngor, ei swyddogaethau o dan y Bennod hon.
- 30 (2) Wrth arfer y swyddogaethau hynny rhaid i gyngor sir roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir iddo o dan is-adran (1).

42 Ystyr "pobl leol"

Yn y Bennod hon, ystyr "pobl leol", mewn perthynas â chyngor sir, yw pobl sy'n byw, yn gweithio neu'n astudio yn ardal y cyngor.

PENNOD 3

PWYLLGORAU ARDALOEDD CYMUNEDOL

*Penodi ac aelodaeth***43 Dyletswydd ar gyngor sir i benodi pwyllgorau ardaloedd cymunedol**

- 5 (1) Rhaid i gyngor sir benodi pwyllgor, a elwir yn bwyllgor ardal gymunedol, ar gyfer pob ardal gymunedol yn ardal y cyngor.
- (2) Mae aelodau pwyllgor ardal gymunedol i'w penodi yn unol ag adrannau 44 i 46.
- (3) Mae pwyllgor ardal gymunedol i arfer y swyddogaethau a roddir iddo gan neu o dan –
- 10 (a) y Bennod hon, a
- (b) Rhan 2 o Ddeddf 2000 (trefniadau gweithrediaeth).
- (4) Yn is-adran (1), ystyr "ardal gymunedol" yw ardal gymunedol a bennir o dan adran 37(5) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (dccc 2).

44 Aelodau cyngor sir o bwyllgorau

15 Rhaid i bwyllgor ardal gymunedol gynnwys pob aelod o'r cyngor sir a etholwyd ar gyfer ward etholiadol sy'n gyfan gwbl neu'n rhannol yn ardal y pwyllgor (yr "aelodau cyngor sir" ar y pwyllgor).

45 Aelodau cyngor cymuned o bwyllgorau

- (1) Rhaid i gyngor sir wahodd pob cyngor cymuned perthnasol i enwebu person i'w benodi'n aelod o bwyllgor ardal gymunedol.
- 20 (2) Ystyr "cyngor cymuned perthnasol", mewn perthynas â phwyllgor ardal gymunedol, yw cyngor ar gyfer cymuned sy'n gyfan gwbl neu'n rhannol yn ardal y pwyllgor.
- (3) Mewn ymateb i wahoddiad, rhaid i gyngor cymuned perthnasol naill ai –
- (a) enwebu un o'i aelodau i'w benodi i'r pwyllgor ardal gymunedol, neu
- (b) ymuno â chyngor cymuned perthnasol arall i enwebu un o aelodau'r cyngor
- 25 hwnnw i'w benodi.
- (4) Os yw cymuned wedi ei rhannu'n wardiau cymuned, rhaid i aelod o'r cyngor ar gyfer y gymuned honno a enwebir i'w benodi i bwyllgor ardal gymunedol gynrychioli ward sy'n gyfan gwbl neu'n rhannol yn ardal y pwyllgor.
- 30 (5) Caiff cyngor sir benodi pobl a enwebir o dan yr adran hon i fod yn aelodau cyngor cymuned o bwyllgor ardal gymunedol.

46 Aelodau enwebedig o'r gymuned o bwyllgorau

- (1) Rhaid i gyngor sir wahodd o leiaf un corff ym mhob un o'r categorïau a ganlyn i enwebu person i'w benodi'n aelod o bwyllgor ardal gymunedol –
- 35 (a) cyrff ac eithrio cynghorau cymuned sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus mewn perthynas ag ardal gyfan y pwyllgor neu unrhyw ran ohoni (pa un a ydynt hefyd yn arfer swyddogaethau mewn perthynas ag unrhyw ardal arall ai peidio);

(b) cyrff gwirfoddol sy'n gwneud gweithgareddau sydd o fudd uniongyrchol neu anuniongyrchol i ardal gyfan y pwyllgor neu unrhyw ran ohoni (pa un a ydynt hefyd o fudd i unrhyw ardal arall ai peidio).

- 5 (2) Caiff cyngor sir hefyd wahodd unrhyw gorff arall sydd â chysylltiad ag ardal pwyllgor ardal gymunedol i enwebu person i'w benodi'n aelod o'r pwyllgor.
- (3) Caiff cyngor sir benodi pobl a enwebir mewn ymateb i wahoddiadau o dan yr adran hon i fod yn aelodau enwebedig o'r gymuned o bwyllgor ardal gymunedol.
- (4) Ni chaiff yr aelodau enwebedig o'r gymuned o bwyllgor ardal gymunedol gynnwys mwy nag un person a enwebir i'w benodi gan unrhyw gorff penodol.
- 10 (5) Ni chaiff aelod o gyngor sir fod yn aelod enwebedig o'r gymuned o bwyllgor ardal gymunedol y cyngor.
- (6) Yn is-adran (5), mae'r cyfeiriad at aelod o gyngor sir yn cynnwys maer etholedig neu aelod etholedig o weithrediaeth y cyngor.

47 Polisi ar gyfer penodiadau i bwyllgorau ardaloedd cymunedol

- 15 (1) Rhaid i gyngor sir lunio a chyhoeddi datganiad sy'n nodi sut y mae'n bwriadu arfer ei swyddogaethau o dan adrannau 45 a 46.
- (2) Rhaid i'r datganiad, yn benodol, bennu niferoedd yr aelodau cyngor cymuned a'r aelodau enwebedig o'r gymuned y mae'r cyngor yn dymuno eu penodi i bob un o'i bwyllgorau ardaloedd cymunedol.
- 20 (3) Rhaid i gyngor sir arfer ei swyddogaethau o dan adrannau 45 a 46 gyda golwg ar benodi i bob un o'i bwyllgorau ardaloedd cymunedol niferoedd yr aelodau cyngor cymuned a'r aelodau enwebedig o'r gymuned a bennir yn y datganiad.
- (4) Ond nid yw pwyllgor ardal gymunedol wedi ei gyfansoddi'n amhriodol ond am nad yw'n cynnwys niferoedd yr aelodau cyngor cymuned a'r aelodau enwebedig o'r gymuned a bennir yn y datganiad.
- 25

48 Cyfnod mewn swydd a therfynu aelodaeth

- (1) Mae cyfnod swydd aelod cyngor cymuned neu aelod enwebedig o'r gymuned o bwyllgor ardal gymunedol i'w benderfynu gan y cyngor sir.
- 30 (2) Os yw person sy'n aelod cyngor sir o bwyllgor ardal gymuned yn peidio â bod yn aelod o'r cyngor sir ar gyfer ward etholiadol sy'n gyfan gwbl neu'n rhannol yn ardal y pwyllgor, mae'r person hefyd yn peidio â bod yn aelod o'r pwyllgor.
- (3) Ond nid yw is-adran (2) yn gymwys i berson—
- (a) sy'n peidio â bod yn aelod o'r cyngor sir oherwydd ei ymddeoliad, a
- (b) sydd, yn ddim hwyrach na diwrnod ei ymddeoliad, yn cael ei ailethol yn aelod o'r cyngor ar gyfer ward etholiadol sy'n gyfan gwbl neu'n rhannol yn ardal y pwyllgor.
- 35

Trafodion a chyhoedduswydd

49 Trafodion pwyllgorau ardaloedd cymunedol

- (1) Rhaid i bwyllgor ardal gymunedol benodi un o'i aelodau i gadeirio'r pwyllgor.

- (2) Ni chaiff y person a benodir i gadeirio pwyllgor ardal gymunedol fod yn aelod o weithrediaeth y cyngor sir (oni bai bod holl aelodau'r pwyllgor yn aelodau o'r weithrediaeth).
- (3) Caiff pwyllgor ardal gymunedol benodi is-bwyllgorau.
- 5 (4) Caiff holl aelodau pwyllgor ardal gymunedol bleidleisio ar unrhyw gwestiwn y mae'r pwyllgor i benderfynu arno.
- (5) Caiff holl aelodau is-bwyllgor o bwyllgor ardal gymunedol bleidleisio ar unrhyw gwestiwn sydd i'w benderfynu gan yr is-bwyllgor.

50 Cyfarfodydd pwyllgorau ardaloedd cymunedol: mynediad i gyfarfodydd a mynychu cyfarfodydd

- 10 (1) Rhaid i gyfarfodydd pwyllgor ardal gymunedol, neu is-bwyllgor o bwyllgor ardal gymunedol gael eu cynnal, yn ardal y pwyllgor.
- (2) Nid yw methiant i gydymffurfio ag is-adran (1) yn effeithio ar ddilysrwydd unrhyw beth a wneir gan y pwyllgor ardal gymunedol neu gan is-bwyllgor.
- 15 (3) Caiff pwyllgor ardal gymunedol, neu is-bwyllgor o bwyllgor ardal gymunedol –
- (a) ei gwneud yn ofynnol i swyddogion o'r cyngor sir ddod ger ei fron i ateb cwestiynau, a
- (b) gwahodd pobl eraill i ddod i gyfarfodydd y pwyllgor neu is-bwyllgor.
- (4) Rhaid i swyddog cyngor sir gydymffurfio ag unrhyw ofyniad a osodir o dan is-adran (3)
- 20 (a).
- (5) Nid yw is-adran (4) yn ei gwneud yn ofynnol i berson ateb unrhyw gwestiwn y byddai ganddo'r hawl i wrthod ei ateb mewn achos llys yng Nghymru a Lloegr, neu at ddibenion achos o'r fath.
- (6) Mae pwyllgor ardal gymunedol, neu is-bwyllgor o bwyllgor ardal gymunedol, yn
- 25 bwyllgor neu'n is-bwyllgor o brif gyngor at ddibenion Rhan 5A o Ddeddf 1972 (mynediad i gyfarfodydd ac at dogfennau awdurdodau, pwyllgorau ac is-bwyllgorau penodol).

51 Trefniadau ar gyfer cyfranogiad y cyhoedd

- 30 (1) Rhaid i bwyllgor ardal gymunedol wneud trefniadau i hysbysu pobl leol am y pwyllgor ac ynglŷn ag arfer ei swyddogaethau.
- (2) Rhaid i gyngor sir wneud trefniadau mewn perthynas â phob un o'i bwyllgorau ardaloedd cymunedol sy'n galluogi pobl leol i ddwyn i sylw'r pwyllgor eu safbwyntiau am unrhyw fater y mae'r pwyllgor yn arfer swyddogaeth mewn cysylltiad ag ef.
- 35 (3) Rhaid i bwyllgor ardal gymunedol, pan fo'n arfer swyddogaeth, ystyried unrhyw safbwyntiau a gaiff eu dwyn i'w sylw yn unol â threfniadau o dan is-adran (2).

Swyddogaethau

52 Dyletswydd ar bwyllgor ardal gymunedol i lunio datganiad o flaenoriaethau ac amcanion

- (1) Rhaid i bwyllgor ardal gymunedol, yn ddim hwyrach na 6 mis ar ôl dyddiad pob etholiad cyffredin aelodau ar gyfer y cyngor sir, gyflwyno datganiad o flaenoriaethau ac amcanion i'r cyngor.
- 5 (2) Rhaid i'r datganiad nodi'r hyn y mae'r pwyllgor ardal gymunedol yn ystyried ddylai fod yn flaenoriaethau ac yn amcanion i'r cyngor sir wrth arfer ei swyddogaethau mewn perthynas ag ardal y pwyllgor.
- (3) Caiff y datganiad hefyd gynnwys argymhellion o ran y camau y mae'r pwyllgor yn ystyried y dylai'r cyngor eu cymryd mewn cysylltiad â'r blaenoriaethau a'r amcanion hynny.
- 10 (4) Rhaid i bwyllgor ardal gymunedol adolygu ei ddatganiad o flaenoriaethau ac amcanion cyn diwedd –
 - (a) y cyfnod o 12 mis sy'n dechrau â'r dyddiad y cyflwynodd y datganiad i'r cyngor sir, a
 - 15 (b) pob cyfnod o 12 mis sy'n dechrau â'r dyddiad y cwblhawyd yr adolygiad blaenorol.
- (5) Caiff pwyllgor ardal gymunedol adolygu ei ddatganiad o flaenoriaethau ac amcanion ar unrhyw adeg, a rhaid iddo gyflwyno'r datganiad diwygiedig i'r cyngor sir.
- (6) Rhaid i bwyllgor ardal gymunedol drefnu i'w ddatganiad o flaenoriaethau ac amcanion gael ei gyhoeddi.
- 20 (7) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth bellach ynglŷn â ffurf a chynnwys datganiad o flaenoriaethau ac amcanion.

53 Darpariaeth bellach ynglŷn â llunio datganiad o flaenoriaethau ac amcanion

- 25 (1) Wrth lunio ac adolygu datganiad o flaenoriaethau ac amcanion, rhaid i bwyllgor ardal gymunedol roi sylw i'r asesiad diweddaraf a gyhoeddwyd o dan adran 37 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (dccc 2) (asesiadau llesiant lleol) ar gyfer ardal y cyngor sir.
- (2) Cyn cyflwyno'r datganiad i'r cyngor sir, rhaid i'r pwyllgor ardal gymunedol ymgynghori â'r canlynol ar ddrafft o'r datganiad –
 - 30 (a) y bobl leol hynny, neu'r sefydliadau hynny sy'n cynrychioli pobl leol, y mae'r pwyllgor yn ystyried ei bod yn briodol ymgynghori â hwy;
 - (b) y cyrff gwirfoddol hynny sy'n gwneud gweithgareddau sydd o fudd uniongyrchol neu anuniongyrchol i ardal gyfan y pwyllgor neu unrhyw ran ohoni, neu'r sefydliadau hynny sy'n cynrychioli cyrff o'r fath, y mae'r pwyllgor yn ystyried ei bod yn briodol ymgynghori â hwy;
 - 35 (c) y personau eraill hynny y mae'r pwyllgor yn ystyried ei bod yn briodol ymgynghori â hwy.
- (3) Rhaid i'r datganiad y mae'r pwyllgor yn ei gyflwyno i'r cyngor gynnwys –
 - (a) disgrifiad o'r ymgynghoriad a gynhaliwyd o dan is-adran (2), a
 - (b) crynodeb o'r safbwyntiau a fynegwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad.

40 54 Pŵer i roi swyddogaethau cynghori atodol i bwyllgor ardal gymunedol

Caiff cyngor sir roi i un neu ragor o bwyllgorau ardaloedd cymunedol y cyngor y swyddogaeth o wneud adroddiadau neu argymhellion i'r cyngor neu ei weithrediaeth ar unrhyw fater sy'n ymwneud ag ardal y pwyllgor.

55 Dirprwyo swyddogaethau cyngor sir i bwyllgor ardal gymunedol

- 5 (1) Caiff cyngor sir drefnu i un neu ragor o bwyllgorau ardaloedd cymunedol y cyngor arfer unrhyw un neu ragor o swyddogaethau'r cyngor y mae'r adran hon yn gymwys iddo.
- (2) Mae'r adran hon yn gymwys i un o swyddogaethau'r cyngor –
- 10 (a) os nad yw'r swyddogaeth yn gyfrifoldeb i weithrediaeth y cyngor, a
- (b) os yw adran 101(1)(a) o Ddeddf 1972 (pŵer i drefnu bod swyddogaethau'n cael eu cyflawni gan bwyllgorau, is-bwyllgorau neu swyddogion) yn gymwys i'r swyddogaeth.
- (3) O ran trefniadau a wneir gan gyngor sir o dan yr adran hon –
- (a) ni chânt ddarparu bod pwyllgor ardal gymunedol yn arfer swyddogaeth ac eithrio mewn perthynas ag ardal y pwyllgor;
- 15 (b) nid ydynt yn rhwystro'r cyngor rhag arfer swyddogaeth.
- (4) Yn yr adran hon, mae cyfeiriad at arfer swyddogaeth yn cynnwys gwneud unrhyw beth y bwriedir iddo hwyluso arfer y swyddogaeth, neu sy'n ffafriol i'w harfer neu'n gysylltiedig â'u harfer.
- (5) Mae adrannau 14 a 15 o Ddeddf 2000 (cyflawni swyddogaethau o dan drefniadau gweithrediaeth) yn gwneud darpariaeth i bwyllgor ardal gymunedol, yn rhinwedd yr adrannau hynny, arfer swyddogaeth sy'n gyfrifoldeb i weithrediaeth y cyngor sir.
- 20

56 Cais i ddirprwyo swyddogaethau i bwyllgor ardal gymunedol

- (1) Caiff pwyllgor ardal gymunedol –
- 25 (a) gofyn i'r cyngor sir wneud trefniadau o dan adran 55 i'r pwyllgor arfer un neu ragor o swyddogaethau'r cyngor;
- (b) gofyn i weithrediaeth y cyngor sir, neu aelod neu bwyllgor o'r weithrediaeth, wneud trefniadau o dan adran 14 neu 15 o Ddeddf 2000 i'r pwyllgor ardal gymunedol arfer swyddogaeth.
- (2) Rhaid i'r sawl sy'n cael y cais hysbysu'r pwyllgor ardal gymunedol am ei benderfyniad pa un a yw am wneud y trefniadau y gwnaed cais amdanynt ai peidio.
- 30 (3) Os yw'r sawl sy'n cael y cais yn penderfynu peidio â gwneud y trefniadau y gwnaed cais amdanynt, rhaid i'r hysbysiad gynnwys y rhesymau dros y penderfyniad.

57 Pŵer i'w gwneud yn ofynnol dirprwyo swyddogaethau i bwyllgor ardal gymunedol neu i gyfyngu ar hynny

- 35 (1) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau –
- (a) ei gwneud yn ofynnol i drefniadau o fewn is-adran (2) gael eu gwneud mewn perthynas ag un neu ragor o swyddogaethau cyngor sir;
- (b) darparu na chaiff swyddogaeth fod yn ddarostyngedig i'r trefniadau hynny;
- (c) cyfyngu ar bŵer i wneud y trefniadau hynny mewn perthynas â swyddogaeth;

(d) gwneud darpariaeth ynglŷn â'r modd y mae'n rhaid gwneud y trefniadau hynny.

(2) Y trefniadau yw –

(a) trefniadau o dan adran 55;

(b) trefniadau o dan adran 14 neu 15 o Ddeddf 2000 i swyddogaeth gael ei harfer gan bwyllgor ardal gymunedol.

58 Dirprwyo swyddogaethau gan bwyllgor ardal gymunedol

(1) Caiff pwyllgor ardal gymunedol drefnu i unrhyw swyddogaeth sy'n arferadwy gan y pwyllgor o dan y Bennod hon gael ei harfer gan is-bwyllgor o'r pwyllgor neu gan un o swyddogion y cyngor sir.

(2) Pan fo swyddogaeth yn arferadwy gan is-bwyllgor o bwyllgor ardal gymunedol yn rhinwedd is-adran (1), caiff yr is-bwyllgor drefnu i'r swyddogaeth gael ei harfer gan un o swyddogion y cyngor.

(3) Caiff cyngor sir sy'n trefnu i swyddogaeth gael ei harfer gan bwyllgor ardal gymunedol o dan adran 55 gyfarwyddo nad yw is-adran (1) neu (2) i fod yn gymwys i'r swyddogaeth neu nad yw i fod yn gymwys iddi mewn achosion penodol neu o dan amgylchiadau penodol.

(4) Caiff pwyllgor ardal gymunedol sy'n trefnu i swyddogaeth gael ei harfer gan is-bwyllgor o dan is-adran (1) gyfarwyddo nad yw is-adran (2) i fod yn gymwys i'r swyddogaeth neu nad yw i fod yn gymwys iddi mewn achosion penodol neu o dan amgylchiadau penodol.

(5) Nid yw trefniadau a wneir o dan yr adran hon ar gyfer arfer swyddogaeth yn atal ei harfer gan unrhyw berson y mae'n arferadwy ganddo yn absenoldeb trefniadau o'r fath.

Cyffredinol

59 Canllawiau

Wrth arfer swyddogaethau o dan y Bennod hon, rhaid i bob un o'r canlynol roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir iddo gan Weinidogion Cymru –

(a) cyngor sir;

(b) gweithrediaeth cyngor sir;

(c) aelod neu bwyllgor o'r weithrediaeth;

(d) pwyllgor ardal gymunedol;

(e) is-bwyllgor o bwyllgor ardal gymunedol;

(f) cyngor cymuned.

60 Swyddogaethau cyngorau sir o dan y Bennod hon

Nid yw'r swyddogaethau a roddir i gyngor sir gan y Bennod hon –

(a) i fod yn gyfrifoldeb i weithrediaeth y cyngor o dan drefniadau gweithrediaeth;

(b) yn swyddogaethau y mae adran 101 o Ddeddf 1972 (trefniadau ar gyfer cyflawni swyddogaethau gan awdurdodau lleol) yn gymwys iddynt.

61 Pŵer i gymhwyso deddfiadau i bwyllgorau ardaloedd cymunedol

- (1) Caiff Gweinidogion Cymru ddarparu, drwy reoliadau, at ddibenion deddfiad a bennir yn y rheoliadau –
- (a) bod pwyllgor ardal gymunedol i'w drin fel pe bai'n bwyllgor a benodwyd gan gyngor sir o dan adran 102 o Ddeddf 1972;
 - (b) bod is-bwyllgor o bwyllgor ardal gymunedol i'w drin fel pe bai'n is-bwyllgor a benodwyd o dan yr adran honno;
 - (c) bod trefniadau o dan adran 55 i'w trin fel pe baent yn drefniadau o dan adran 101(1)(a) o Ddeddf 1972;
 - (d) bod trefniadau o dan adran 58 i'w trin fel pe baent yn drefniadau o dan adran 101(2) o'r Ddeddf honno.
- (2) Caiff y rheoliadau gynnwys darpariaeth sy'n addasu'r modd y cymhwysir deddfiad.
- (3) Yn yr adran hon, ystyr "deddfiad" yw darpariaeth a gynhwysir yn unrhyw un o'r canlynol –
- (a) Deddf Seneddol;
 - (b) Deddf neu Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru;
 - (c) is-ddeddfwriaeth o fewn ystyr Deddf Dehongli 1978 (p.30) (gan gynnwys is-ddeddfwriaeth a wnaed o dan Ddeddf Seneddol neu Ddeddf neu Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru).

62 Dehongli'r Bennod hon

- (1) Yn y Bennod hon –
- ystyr "aelod cyngor cymuned" ("*community council member*") yw aelod o bwyllgor ardal gymunedol a benodir o dan adran 45;
- mae i "aelod cyngor sir" ("*county council member*") yr ystyr a roddir gan adran 44;
- ystyr "aelod enwebedig o'r gymuned" ("*community nominee member*") yw aelod o bwyllgor ardal gymunedol a benodir o dan adran 46;
- ystyr "datganiad o flaenoriaethau ac amcanion" ("*statement of priorities and objectives*") yw datganiad a gyflwynir o dan adran 52(1);
- ystyr "pobl leol" ("*local people*"), mewn perthynas â phwyllgor ardal gymunedol, yw pobl sy'n byw, yn gweithio neu'n astudio yn ardal y pwyllgor.
- (2) Yn y Bennod hon –
- (a) mae cyfeiriad at y cyngor sir, mewn perthynas â phwyllgor ardal gymunedol, yn gyfeiriad at y cyngor sir a benododd y pwyllgor;
 - (b) mae cyfeiriad at swyddogaeth sy'n gyfrifoldeb i weithrediaeth cyngor sir i'w ddehongli yn unol ag adran 13 o Ddeddf 2000.

63 Diwygiadau a diddymiadau pellach

Mae Atodlen 8 yn cynnwys diwygiadau a diddymiadau pellach sy'n gysylltiedig â'r Bennod hon.

PENNOD 4**CEISIADAU GWELLA***Ceisiadau i drafod sut y gellid gwella canlyniadau***64 Diffiniadau**

- 5 (1) Mae'r adran hon yn diffinio termau amrywiol a ddefnyddir yn y Bennod hon.
- (2) Ystyr "cais gwella" yw cais a wneir gan gorff sydd â diddordeb, am ganiatâd i gynnal trafodaethau ag awdurdod perthnasol gyda golwg ar wella canlyniad neu ganlyniadau yn ardal yr awdurdod.
- (3) Ystyr "corff sydd â diddordeb" yw –
- 10 (a) corff, ac eithrio corff sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus, sy'n gwneud gweithgareddau yn bennaf er budd ardal awdurdod perthnasol, rhan o ardal awdurdod perthnasol, neu unrhyw grŵp o bersonau o fewn ardal awdurdod perthnasol;
- (b) corff gwirfoddol;
- 15 (c) corff o bersonau neu ymddiriedolaeth a sefydlir at ddibenion elusennol yn unig;
- (d) cyngor cymuned ar gyfer ardal sydd o fewn ardal awdurdod perthnasol;
- (e) unrhyw berson neu gorff arall a bennir mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru.
- (4) Ystyr "canlyniad", mewn perthynas ag ardal awdurdod perthnasol, yw canlyniad –
- 20 (a) sy'n deillio o ddarparu gwasanaeth cyhoeddus gan yr awdurdod, neu ar ei ran, neu y mae darpariaeth o'r fath yn cyfrannu ato, neu
- (b) y gellid ei wella drwy ddarparu gwasanaeth cyhoeddus gan yr awdurdod, neu ar ran yr awdurdod.
- (5) Ystyr "gwasanaeth cyhoeddus", mewn perthynas ag awdurdod perthnasol, yw gwasanaeth a ddarperir, neu y gellid ei ddarparu, i'r cyhoedd gan yr awdurdod neu ar ei ran.
- 25 (6) Ystyr "awdurdod perthnasol" yw –
- (a) cyngor sir, neu
- (b) unrhyw berson neu gorff arall sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus a bennir mewn rheoliadau gan Weinidogion Cymru.
- 30 (7) Ystyr "corff gwirfoddol" yw corff, ac eithrio corff sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus, nad yw ei weithgareddau'n cael eu cyflawni er elw.
- (8) At ddibenion is-adran (7), nid yw'r ffaith bod gweithgareddau corff yn creu gwarged yn ei rwystro rhag bod yn gorff gwirfoddol cyn belled ag y bo'r gwarged yn cael ei ddefnyddio at ddibenion ei weithgareddau neu'n cael ei fuddsoddi o fewn ardal awdurdod perthnasol.
- 35

65 Ceisiadau gwella

Rhaid i awdurdod perthnasol ystyried cais gwella –

- (a) os yw corff sydd â diddordeb yn ei gyflwyno i'r awdurdod yn ysgrifenedig,
- (b) os yw'n cydymffurfio â'r gofynion a bennir yn adran 66, ac
- (c) os yw'n cydymffurfio ag unrhyw ofynion eraill ynglŷn â cheisiadau gwella a bennir mewn rheoliadau gan Weinidogion Cymru.

5 **66 Gofynion ar gyfer ceisiadau gwella**

- (1) Rhaid i gais gwella –
- (a) pennu'r canlyniad y gellid ei wella,
 - (b) egluro sut y gellid gwella'r canlyniad,
 - (c) darparu manylion ynghylch unrhyw wybodaeth, arbenigedd neu brofiad sydd gan y corff sydd â diddordeb sy'n gwneud y cais mewn perthynas â'r canlyniad, a
 - (d) nodi'r rhesymau pam y mae'r corff sydd â diddordeb yn ystyried y dylai gynnal trafodaethau â'r awdurdod perthnasol gyda golwg ar wella'r canlyniad.
- (2) Caiff dau neu fwy o gyrff sydd â diddordeb wneud cais gwella ar y cyd.
- (3) Caiff cais gwella gynnwys cais bod un awdurdod perthnasol neu ragor ac eithrio'r awdurdod y gwneir y cais iddo yn cymryd rhan mewn trafodaethau ynghyd â'r awdurdod y gwneir y cais iddo.

Penderfyniadau ynghylch ceisiadau gwella

67 **Penderfynu pa un ai i gytuno i gais gwella ai peidio**

- (1) Rhaid i awdurdod perthnasol gytuno i gais gwella oni bai –
- (a) bod seiliau rhesymol dros wrthod y cais, neu
 - (b) bod is-adran (2) yn gymwys.
- (2) Mae'r is-adran hon yn gymwys –
- (a) pan gyflwynir cais gwella ("cais newydd") i awdurdod perthnasol,
 - (b) pan fo'r cais newydd yn ymwneud â materion sydd yr un fath â materion a gynhwyswyd mewn cais gwella blaenorol ("cais blaenorol"), neu sy'n sylweddol debyg iddynt, ac
 - (c) pan gyflwynir y cais newydd i'r awdurdod cyn diwedd y cyfnod o ddwy flynedd sy'n dechrau â'r dyddiad y cyflwynwyd y cais blaenorol.
- (3) At ddibenion is-adran (2) –
- (a) nid yw cais newydd yn ymwneud â materion sydd yr un fath â materion a gynhwyswyd mewn cais blaenorol, neu sy'n sylweddol debyg iddynt, onid yw'r ddau gais yn ymwneud â gwella'r un canlyniad, neu ganlyniad sy'n sylweddol debyg;
 - (b) nid yw'n berthnasol pa un a yw'r corff sy'n gwneud cais newydd yr un corff ag a wnaeth y cais blaenorol ai peidio.

68 **Hysbysu cyrff sydd â diddordeb a yw awdurdod wedi cytuno i gais gwella**

- (1) Rhaid i awdurdod perthnasol, cyn diwedd y cyfnod a nodir yn is-adran (2), roi hysbysiad i gorff sydd â diddordeb sydd wedi gwneud cais gwella, sy'n nodi –
- (a) a yw wedi penderfynu cytuno i'r cais neu ei wrthod, a
 - (b) os yw wedi penderfynu gwrthod y cais, y rhesymau dros y penderfyniad.
- 5 (2) Y cyfnod yw –
- (a) 45 o ddiwrnodau yn dechrau â'r diwrnod y cafodd yr awdurdod perthnasol y cais gwella, neu
 - (b) unrhyw gyfnod hirach y cytunir arno rhwng yr awdurdod a'r corff sydd â diddordeb.

10 69 Cynnal trafodaethau â'r corff sydd â diddordeb

- (1) Rhaid i awdurdod perthnasol sy'n cytuno i gais gwella, cyn diwedd y cyfnod o 45 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y rhoddir yr hysbysiad o dan adran 68(1), gynnal trafodaethau â'r corff sydd â diddordeb ynglŷn â'r cais.
- 15 (2) Rhaid i awdurdod perthnasol gyhoeddi unrhyw wybodaeth o ddisgrifiad a bennir mewn rheoliadau gan Weinidogion Cymru ynglŷn â phenderfyniadau pa un ai i gynnal trafodaethau â chyrrff sydd â diddordeb o dan y Bennod hon ai peidio.

Cwynion

70 Cwynion

- 20 (1) Rhaid i awdurdod perthnasol sefydlu gweithdrefn i ymdrin â chwynion sy'n ymwneud â cheisiadau gwella.
- (2) Caiff Gweinidogion Cymru wneud darpariaeth drwy reoliadau ynglŷn â materion y mae'n rhaid i'r weithdrefn gwynion ymdrin â hwy.

Adrodd

71 Adrodd ar ganlyniad ceisiadau gwella

- 25 (1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo –
- (a) corff sydd â diddordeb wedi cyflwyno cais gwella,
 - (b) yr awdurdod perthnasol wedi cynnal trafodaethau â'r corff sydd â diddordeb o ganlyniad i'r cais hwnnw, ac
 - (c) y trafodaethau hynny wedi dod i ben.
- 30 (2) Rhaid i'r awdurdod perthnasol, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i'r trafodaethau ddod i ben, gyhoeddi adroddiad –
- (a) sy'n crynhoi pwnc y trafodaethau,
 - (b) sy'n cofnodi canlyniad y trafodaethau (gan gynnwys unrhyw benderfyniadau a wnaed), ac
 - (c) sy'n egluro sut y mae'r awdurdod yn bwriadu hysbysu'r corff sydd â diddordeb am unrhyw gamau pellach a gymerir o ganlyniad i'r trafodaethau.
- 35 (3) Wrth lunio'r adroddiad, rhaid i'r awdurdod perthnasol geisio safbwyntiau –

- (a) unrhyw gorff sydd â diddordeb a gymerodd ran yn y trafodaethau, a
 - (b) unrhyw berson arall y mae'n ystyried ei bod yn briodol ymgynghori ag ef.
- (4) Rhaid i'r awdurdod perthnasol gyhoeddi'r adroddiad a grybwyllir yn is-adran (2) ar ei wefan ac ar unrhyw ffurf arall y mae'n ystyried ei bod yn briodol.

5 **72 Adroddiadau blynyddol**

- (1) Rhaid i awdurdod perthnasol gyhoeddi adroddiad blynyddol ar geisiadau gwella ar gyfer pob blwyddyn ariannol.
- (2) Adroddiad yw adroddiad blynyddol ar geisiadau gwella sy'n nodi, mewn cysylltiad â'r flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi—
- 10 (a) nifer y ceisiadau gwella a dderbyniodd yr awdurdod,
 - (b) nifer y ceisiadau o'r fath y mae'r awdurdod—
 - (i) wedi cytuno iddynt, a
 - (ii) wedi eu gwrthod,
 - (c) nifer y ceisiadau o'r fath a arweiniodd at newid i wasanaeth cyhoeddus, a
 - 15 (d) unrhyw gamau a gymerwyd gan yr awdurdod—
 - (i) i hybu'r defnydd o geisiadau gwella, neu
 - (ii) i gefnogi cyrff wrth iddynt wneud ceisiadau gwella.
- (3) Rhaid i adroddiad blynyddol ar geisiadau gwella gael ei gyhoeddi yn ddim hwyrach na 30 Mehefin yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi.

20 *Cyffredinol*

73 Canllawiau

Rhaid i awdurdod perthnasol roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru ynglŷn â sut y dylai gyflawni ei swyddogaethau o dan y Bennod hon.

25 **74 Rheoliadau**

- (1) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth bellach ynglŷn â cheisiadau gwella.
- (2) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1), yn benodol, wneud darpariaeth ynghylch—
- (a) ym mha fodd y mae'n rhaid gwneud ceisiadau;
 - 30 (b) y weithdrefn y mae awdurdodau perthnasol i'w dilyn mewn perthynas â cheisiadau;
 - (c) gwybodaeth y mae'n rhaid ei darparu i awdurdodau perthnasol mewn cysylltiad â cheisiadau gwella (yn ogystal â'r hyn sy'n ofynnol gan adran 66);
 - (d) y weithdrefn sydd i'w dilyn gan awdurdodau perthnasol mewn perthynas â cheisiadau sy'n cynnwys cais o'r math a grybwyllir yn adran 66(3);
 - 35 (e) gwybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys mewn adroddiadau (yn ogystal â'r hyn sy'n ofynnol gan adrannau 71 a 72);

- (f) y dulliau y mae awdurdodau perthnasol i'w defnyddio i hybu'r defnydd o geisiadau gwella;
- (g) cymorth y mae'n rhaid i awdurdodau perthnasol sicrhau ei fod ar gael i gyrff sydd â diddordeb i'w galluogi i wneud ceisiadau gwella ac i gyfranogi mewn trafodaethau ag awdurdodau perthnasol;
- (h) cymorth ychwanegol y mae'n rhaid iddo fod ar gael i bersonau neu grwpiau o bersonau er mwyn eu cynorthwyo i ffurfio gyrff sydd â diddordeb, i wneud ceisiadau gwella ac i gyfranogi mewn trafodaethau ag awdurdodau perthnasol.
- (3) Caiff Gweinidogion Cymru wneud y canlynol drwy reoliadau –
- (a) diwygio neu ddiddymu unrhyw un neu ragor o baragraffau (a) i (d) o adran 64(3);
- (b) diwygio neu ddiddymu adran 64(7) neu (8);
- (c) gwneud unrhyw ddiwygiadau i'r Bennod hon (gan gynnwys diwygiadau i unrhyw bŵer i wneud rheoliadau) o ganlyniad i ddarpariaeth a wneir o dan adran 64(3)(e) neu (6)(b), neu o dan baragraff (a) neu (b) o'r is-adran hon.

PENNOD 5

MYNEDIAD I GYFARFODYDD ETC. AWDURDODAU LLEOL

75 Dyletswydd ar feiri etholedig ac arweinwyr gweithrediaeth i fynychu cyfarfodydd cyhoeddus

Yn Neddf 2000, yn y man priodol mewnosoder yr adran a ganlyn –

“15B Public meetings in relation to discharge of functions

- (1) The standing orders of a local authority operating executive arrangements must include provision for requiring the elected mayor, or as the case may be, executive leader of the authority to attend at least one meeting per calendar year at which local people are given an opportunity to put questions to the elected mayor or executive leader about the discharge of functions which, under executive arrangements, are the responsibility of the executive.
- (2) “Local people”, in relation to a local authority, means people who live, work or study in the authority's area.”

76 Darllediadau electronig o gyfarfodydd awdurdodau lleol penodol

- (1) Rhaid i gyngor sir roi trefniadau yn eu lle er mwyn sicrhau –
- (a) bod darllediad o drafodion cyfarfod y mae is-adran (2) yn gymwys iddo ar gael ar ffurf electronig fel bod aelodau o'r cyhoedd nad ydynt yn bresennol yn y cyfarfod yn gallu gweld a chlywed y trafodion wrth iddynt gael eu cynnal;
- (b) bod y darllediad ar gael ar ffurf electronig am gyfnod rhesymol ar ôl y cyfarfod.
- (2) Mae'r is-adran hon yn gymwys i drafodion cyfarfod, neu unrhyw ran o gyfarfod, cyngor sir neu bwyllgor neu is-bwyllgor i gyngor sir sy'n agored i'r cyhoedd.

- (3) Mae'r cyfeiriad at gyngor sir yn is-adran (2), mewn perthynas â chyngor sydd â gweithrediaeth (o fewn ystyr Rhan 2 o Ddeddf 2000), yn cynnwys cyfeiriad at y weithrediaeth.
- (4) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, bennu trafodion nad yw is-adran (2) yn gymwys iddynt.
- (5) Rhaid i gyngor sir sy'n rhoi unrhyw drefniadau yn eu lle sy'n ofynnol gan is-adran (1) roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru.
- (6) Nid yw argaeledd darllediad (boed hynny wrth i'r trafodion gael eu cynnal neu wedi hynny) yn effeithio ar ddilysrwydd unrhyw drafodion y mae is-adran (2) yn gymwys iddynt.
- (7) Caiff Gweinidogion Cymru wneud darpariaeth drwy reoliadau er mwyn sicrhau bod trafodion cyfarfod awdurdod a restrir yn is-adran (8), neu gyfarfod pwyllgor neu is-bwyllgor i awdurdod o'r fath, yn cael eu darlledu ar ffurf electronig, ac mewn cysylltiad â hynny.
- (8) Yr awdurdodau yw –
- (a) awdurdod tân ac achub ar gyfer ardal yng Nghymru;
 - (b) awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol yng Nghymru.
- (9) Caiff rheoliadau o dan is-adran (7) ddiwygio neu ddiddymu unrhyw ddarpariaeth yn –
- (a) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960 (p.67);
 - (b) Rhan 5A o Ddeddf 1972 (mynediad i gyfarfodydd ac at ddogfennau awdurdodau lleol).
- (10) Mae cyfeiriad yn yr adran hon at bwyllgor neu is-bwyllgor yn cynnwys cyfeiriad at gyd-bwyllgor, neu is-bwyllgor i gyd-bwyllgor.

77 Mynediad y cyhoedd i gyfarfodydd awdurdodau lleol penodol

- (1) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth er mwyn caniatáu i bersonau, ac mewn cysylltiad â chaniatáu i bersonau –
- (a) ffilmio trafodion, neu dynnu lluniau neu wneud recordiadau sain o drafodion, yng nghyfarfod awdurdod y mae'r adran hon yn gymwys iddo, neu yng nghyfarfod pwyllgor neu is-bwyllgor awdurdod o'r fath;
 - (b) defnyddio dulliau eraill i alluogi personau nad ydynt yn bresennol mewn cyfarfod o'r fath i weld neu glywed trafodion y cyfarfod, wrth iddynt gael eu cynnal neu'n ddiweddarach;
 - (c) adrodd neu sylwebu ar drafodion cyfarfod o'r fath, ar lafar neu'n ysgrifenedig, fel bod yr adroddiad neu'r sylwebaeth ar gael, wrth i'r cyfarfod gael ei gynnal neu'n ddiweddarach, i bersonau nad ydynt yn bresennol yn y cyfarfod.
- (2) Caiff y rheoliadau wneud darpariaeth, yn benodol –
- (a) i ganiatáu i bersonau beri bod pethau a gynhyrchir o ganlyniad i weithgareddau o fewn is-adran (1) ar gael i'r cyhoedd neu gyfran o'r cyhoedd gan ddefnyddio unrhyw gyfrwng (gan gynnwys y rhyngwrwyd);
 - (b) am y cyfleusterau y mae awdurdodau y mae'r rheoliadau hyn yn gymwys iddynt i beri eu bod ar gael i alluogi personau i gynnal gweithgareddau o'r fath;

- (c) am y camau y mae personau i'w cymryd cyn cynnal gweithgareddau o'r fath;
- (d) am yr amgylchiadau pan na chaiff personau gynnal gweithgareddau o'r fath, gan gynnwys ar gyfer galluogi person a bennir yn y rheoliadau i'w rhwystro rhag gwneud hynny o dan yr amgylchiadau a bennir yn y rheoliadau.
- 5 (3) Caiff y rheoliadau ddiwygio neu ddiddymu unrhyw ddarpariaeth yn—
- (a) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960 (p.67);
- (b) Rhan 5A o Ddeddf 1972 (mynediad i gyfarfodydd ac i ddogfennau awdurdodau lleol a phwyllgorau awdurdodau o'r fath).
- (4) Mae'r adran hon yn gymwys i—
- 10 (a) cyngor sir;
- (b) cyngor cymuned;
- (c) awdurdod tân ac achub ar gyfer ardal yng Nghymru;
- (d) awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol yng Nghymru.
- (5) Yn is-adran (1) mae cyfeiriad at bwylgor neu is-bwylgor awdurdod yn cynnwys cyfeiriad at gyd-bwylgor, neu is-bwylgor i gyd-bwylgor.
- 15 (6) Mae'r cyfeiriad at "cyngor sir" yn is-adran (4)(a), mewn perthynas â chyngor sydd â gweithrediaeth (o fewn ystyr Rhan 2 o Ddeddf 2000), yn cynnwys cyfeiriad at y weithrediaeth.

78 Cyfranogi yng nghyfarfodydd cynghorau cymuned

20 Yn Rhan 4 o Atodlen 12 i Ddeddf 1972 (cyfarfodydd a thrafodion cynghorau cymuned), ar ôl paragraff 27 mewnosoder—

"27A

- (1) This paragraph applies in respect of a meeting or part of a meeting of a community council which is open to the public.
- 25 (2) The person presiding over the meeting must give members of the public in attendance a reasonable opportunity to make representations about any business to be transacted at the meeting, unless that person considers that doing so is likely to prejudice the effective conduct of the meeting.
- 30 (3) In complying with sub-paragraph (2), the person presiding over the meeting must have regard to any guidance issued by the Welsh Ministers."

PENNOD 6

DYLETSWYDDAU PELLACH AR GYNGHORAU SIR

35 79 Dyletswydd i gyhoeddi canllaw i'r cyfansoddiad

- (1) Mae adran 37 o Ddeddf 2000 (cyfansoddiad awdurdod lleol) wedi ei diwygio fel a ganlyn.
- (2) Ar ôl is-adran (1) mewnosoder—

“(1A) A local authority must prepare and keep up to date a document (referred to in this section as their constitution guide) which explains, in ordinary language, the content of their constitution.”

(3) Yn is-adran (2) –

(a) ar ôl y gair “must” mewnosoder “ –

(a) publish their constitution and their constitution guide on their website, and

(b) “;

(b) ar ôl “copies of their constitution” mewnosoder “and their constitution guide”.

(4) Yn is-adran (3) –

(a) ar ôl “constitution” mewnosoder “or, as the case may be, their constitution guide”;

(b) yn lle’r geiriau “who requests” hyd at ddiwedd yr is-adran, rhodder “on request, either free of charge or at a charge representing no more than the cost of providing the copy”.

80 Dyletswydd ar gynghorau sir i gyhoeddi cyfeiriadau swyddogol

Rhaid i gyngor sir gyhoeddi ar ei wefan, ac mewn unrhyw fodd arall y mae’n ystyried ei fod yn briodol, gyfeiriad electronig a chyfeiriad post swyddogol ar gyfer pob aelod o’r cyngor, y gellir anfon gohebiaeth ar gyfer yr aelod iddo.

RHAN 4

SWYDDOGAETHAU CYNGHORAU SIR A’U HAELODAU

PENNOD 1

TROSOLWG O’R RHAN

81 Trosolwg

Yn y Rhan hon –

(a) Mae Penodau 2 i 4 yn gosod dyletswyddau yn ymwneud â’u perfformiad ar aelodau cyngor sir, ac yn gwneud darpariaeth gysylltiedig, gan gynnwys ar gyfer gorfodi’r dyletswyddau hynny;

(b) Mae Pennod 5 yn gwneud darpariaeth –

(i) ar gyfer pennu amcanion sy’n ymwneud â pherfformiad gweithrediaeth cyngor sydd â threfniadau gweithrediaeth;

(ii) i ymgeiswyr ar gyfer eu hethol yn arweinydd gweithrediaeth cyngor lunio manifestos ysgrifenedig;

(iii) ar gyfer penodi cynorthwywyr i weithrediaethau pan fo gan gyngor drefniadau gweithrediaeth;

(iv) ar gyfer dyroddi canllawiau ar gydraddoldeb ac amrywiaeth i feiri etholedig ac arweinwyr gweithrediaeth;

- (c) Mae Pennod 6 yn gwneud darpariaeth –
- (i) sy'n dileu'r gofyniad i gyngor sir ddynodi pennaeth gwasanaeth cyflogedig ac yn ei gwneud yn ofynnol, yn hytrach, bod prif weithredwr yn cael ei benodi ar gyfer y cyngor, y bydd ei swyddogaethau yn cynnwys dyletswyddau a osodir o dan y Bennod honno;
 - (ii) sy'n ymwneud â phenodi pennaeth gwasanaethau democrataidd cyngor sir, a pholisi tâl cyngor fel y mae'n berthnasol i'r swydd honno;
- (d) Mae Pennod 7 yn gwneud darpariaeth –
- (i) mewn perthynas â chyfarfodydd a swyddogaethau pwyllgorau trosolwg a chraffu;
 - (ii) sy'n ei gwneud yn ofynnol i bwyllgorau safonau lunio adroddiadau blynyddol ar y modd y maent yn arfer eu swyddogaethau;
- (e) Mae Pennod 8 yn gwneud mân ddiwygiadau i Ddeddf 2000 a Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 (dccc 4).

PENNOD 2

DYLETSWYDDAU AR AELODAU O GYNGHORAU SIR

Dyletswyddau perfformiad

82 Aelodau o gyngorau sir i fynychu cyfarfodydd

- (1) Rhaid i aelod o gyngor sir fynychu pob cyfarfod perthnasol.
- (2) Ond nid yw aelod yn torri'r ddyletswydd o dan is-adran (1) os oes gan yr aelod reswm da dros beidio â chydymffurfio â'r ddyletswydd.
- (3) At ddibenion is-adran (1), mae pob un o'r canlynol yn gyfarfod perthnasol –
 - (a) cyfarfod o'r cyngor sir y mae'r person yn aelod ohono;
 - (b) cyfarfod o bwyllgor neu is-bwyllgor i'r cyngor sir, os yw'r person yn aelod o'r pwyllgor neu'r is-bwyllgor hwnnw;
 - (c) cyfarfod o unrhyw gyd-bwyllgor, cyd-fwrdd neu gorff arall y mae'r person yn aelod ohono, os yw'r pwyllgor, y bwrdd neu'r corff hwnnw yn cyflawni unrhyw un neu ragor o swyddogaethau'r cyngor sir, neu wedi ei benodi i gynghori'r cyngor ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig â chyflawni ei swyddogaethau;
 - (d) os yw cyngor sir yn gweithredu trefniadau gweithrediaeth a bod y person yn aelod o'r weithrediaeth, cyfarfod o'r weithrediaeth neu o bwyllgor i'r weithrediaeth y mae'r person yn aelod ohono;
 - (e) unrhyw gyfarfod arall y byddai disgwyliad rhesymol ar y person i fod yn bresennol ynddo wrth arfer ei swyddogaethau fel aelod o'r cyngor sir.
- (4) Nid yw is-adran (1) yn gymwys i aelod o gyngor sir sy'n arfer hawl i absenoldeb teuluol o dan Ran 2 o Fesur 2011.
- (5) Nid oes unrhyw beth yn yr adran hon yn effeithio ar weithrediaeth adran 85 o Ddeddf 1972 (gadael swydd oherwydd methiant i fynychu cyfarfodydd am chwe mis).

83 Aelodau o gynghorau sir i gynnal cymorthfeydd

- (1) Rhaid i aelod o gyngor sir gynnal cymhorthfa o leiaf bedair gwaith ym mhob cyfnod perthnasol o 12 mis.
- (2) Ond nid yw aelod yn torri'r ddyletswydd o dan is-adran (1) os oes gan yr aelod reswm da dros beidio â chydymffurfio â'r ddyletswydd.
- (3) Mae aelod yn cynnal cymhorthfa os yw'r aelod yn sicrhau ei fod ar gael am o leiaf awr er mwyn cyfarfod ag aelodau o'r cyhoedd i drafod materion yn breifat.
- (4) Wrth gydymffurfio ag is-adran (1), rhaid i'r aelod sicrhau y cyhoeddir lleoliad, dyddiad ac amser y gymhorthfa ar wefan y cyngor ac mewn unrhyw fodd arall y mae'n ystyried ei fod yn briodol fwy na saith niwrnod cyn diwrnod y gymhorthfa.
- (5) At ddibenion yr adran hon, cyfnod perthnasol o 12 mis yw –
- (a) y cyfnod o 12 mis sy'n dechrau â'r diwrnod y mae'r aelod yn cymryd ei swydd fel aelod o'r cyngor, a
- (b) pob cyfnod dilynol o 12 mis.
- (6) At ddibenion is-adran (5), mae unrhyw gyfnod pan fo aelod yn arfer hawl i absenoldeb teuluol o dan Ran 2 o Fesur 2011 i'w ddiystyru; yn unol â hynny, mae'r ddau gyfnod a ganlyn i'w trin fel cyfnodau olynol –
- (a) unrhyw ran o gyfnod o 12 mis sy'n dod yn union cyn y cyfnod o absenoldeb teuluol, a
- (b) y cyfnod sy'n dechrau yn union ar ôl y cyfnod o absenoldeb teuluol.

84 Aelodau o gynghorau sir i ateb gohebiaeth

- (1) Rhaid i aelod o gyngor sir ymateb i bob gohebiaeth a anfonir i'w gyfeiriad swyddogol o fewn 14 o ddiwrnodau o'i derbyn.
- (2) Ond nid yw aelod yn torri'r ddyletswydd o dan is-adran (1) os oes gan yr aelod reswm da dros beidio â chydymffurfio â'r ddyletswydd.
- (3) "Cyfeiriad swyddogol" aelod yw unrhyw gyfeiriad (boed yn gyfeiriad post neu'n gyfeiriad electronig) a gyhoeddir gan y cyngor o dan adran 80.
- (4) Nid yw'r adran hon yn gymwys i aelod o gyngor sir sy'n arfer hawl i absenoldeb teuluol o dan Ran 2 o Fesur 2011.

85 Aelodau o gynghorau sir i gwblhau hyfforddiant

- (1) Rhaid i aelod o gyngor sir gwblhau pob hyfforddiant gorfodol.
- (2) Ond nid yw aelod yn torri'r ddyletswydd o dan is-adran (1) os oes gan yr aelod reswm da dros beidio â chydymffurfio â'r ddyletswydd.
- (3) Mae hyfforddiant yn orfodol os yw'r cyngor sir y mae person yn aelod ohono wedi hysbysu'r person bod rhaid iddo ei gwblhau.
- (4) Nid yw'r adran hon yn gymwys i aelod o gyngor sir sy'n arfer hawl i absenoldeb teuluol o dan Ran 2 o Fesur 2011.

*Dyletswydd i lunio adroddiad blynyddol***86 Aelodau o gynghorau sir i lunio adroddiadau blynyddol**

- (1) Rhaid i aelod o gyngor sir lunio adroddiad –
- (a) am ei weithgareddau fel aelod o'r cyngor yn ystod y cyfnod o 12 mis y mae'r adroddiad yn ymwneud ag ef;
- (b) sy'n nodi canlyniadau'r gweithgareddau hynny, os ydynt yn wybyddus i'r aelod,
- (2) Rhaid i aelod o gyngor sir gyflwyno'r adroddiad a lunnir ganddo o dan is-adran (1) ("adroddiad blynyddol") i bennaeth gwasanaethau democrataidd y cyngor sir yn unol â rheolau sefydlog y cyngor a wneir yn rhinwedd is-adran (3)(b).
- (3) Rhaid i gyngor sir bennu yn ei reolau sefydlog –
- (a) y cyfnod y mae'n rhaid i adroddiadau blynyddol ymwneud ag ef, a
- (b) pryd y mae'n rhaid cyflwyno adroddiadau blynyddol i'r pennaeth gwasanaethau democrataidd.
- (4) Ni chaiff rheolau sefydlog a wneir o dan is-adran (3)(b) ganiatáu cyflwyno adroddiad blynyddol ar ôl diwedd y cyfnod o dri mis sy'n dechrau â diwrnod cyfarfod blynyddol y cyngor sir sy'n dilyn y cyfnod y mae'r adroddiad blynyddol yn ymwneud ag ef.
- (5) Rhaid i gyngor sir gyhoeddi'r adroddiadau blynyddol a gyflwynir gan ei aelodau.

PENNOD 3**TORRI DYLETSWYDDAU O DAN BENNOD 2***Achos posibl o dorri dyletswyddau perfformiad***87 Cwynion am fethiant aelod i gydymffurfio â dyletswyddau**

- (1) Caiff person wneud cwyn am achos posibl o dorri dyletswydd a osodir gan adran 82, 83, 84 neu 85 gan aelod o gyngor sir i swyddog monitro'r cyngor hwnnw.
- (2) Rhaid i gwyn o dan is-adran (1) gael ei gwneud yn ysgrifenedig.

88 Penderfynu a ddylid ymchwilio i achos posibl o dorri dyletswydd perfformiad ai peidio

- (1) Os yw swyddog monitro cyngor sir –
- (a) yn cael cwyn o dan adran 87, neu
- (b) fel arall â rheswm i gredu bod aelod wedi torri dyletswydd o dan adran 82, 83, 84 neu 85,
- rhaid iddo gyfeirio'r mater at gadeirydd pwyllgor safonau'r cyngor sir.
- (2) Rhaid i'r swyddog monitro a chadeirydd y pwyllgor safonau ystyried gyda'i gilydd a ddylid ymchwilio i'r mater ai peidio.
- (3) Wrth ystyried a ddylid ymchwilio i fater ai peidio, rhaid i'r swyddog monitro a chadeirydd y pwyllgor safonau ystyried –
- (a) mewn achosion pan fo'r swyddog monitro wedi derbyn cwyn o dan adran 87 –

- (i) a yw'r gŵyn yn wacsaw neu'n flinderus, a
- (ii) a yw'r gŵyn yn ymwneud â'r un ffeithiau â chwyn yr ymdriniwyd â hi eisoes, neu ffeithiau sy'n sylweddol debyg iddynt, a

(b) ym mhob achos, a yw'n briodol ymchwilio i'r mater.

- 5 (4) Os yw naill ai'r swyddog monitro neu gadeirydd y pwyllgor safonau yn ystyried y dylid ymchwilio i fater, rhaid i'r swyddog monitro ymchwilio i'r mater.
- (5) Os yw'r swyddog monitro a chadeirydd y pwyllgor safonau ill dau yn ystyried na ddylid ymchwilio i fater, ni chaniateir cynnal unrhyw ymchwiliad; ac, mewn achosion pan fo'r swyddog monitro wedi derbyn cwyn o dan adran 87, rhaid i'r swyddog monitro gymryd
- 10 camau rhesymol cyn gynted ag y bo'n ymarferol –
- (a) i hysbysu'r person a wnaeth y gŵyn na chynhelir ymchwiliad i'r mater, a
 - (b) i roi rhesymau dros y penderfyniad hwnnw.
- (6) Caiff y swyddog monitro a chadeirydd y pwyllgor safonau, at ddiben penderfynu a ddylid ymchwilio i fater, wneud yr ymholiadau hynny y maent yn ystyried sydd yn
- 15 angenrheidiol.

Achos i'w hysbysu o dorri dyletswydd i lunio adroddiad blynyddol

89 Penderfynu a ddylid ymchwilio i achos posibl o dorri dyletswydd i wneud adroddiad blynyddol ai peidio

- 20 (1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo'r pennaeth gwasanaethau democrataidd ar gyfer cyngor sir yn ystyried y gallai aelod o'r cyngor sir fod wedi torri'r ddyletswydd o dan adran 86.
- (2) Caiff y pennaeth gwasanaethau democrataidd –
- (a) hysbysu swyddog monitro'r cyngor, a gaiff ymchwilio i'r mater;
 - (b) os yw'r pennaeth gwasanaethau democrataidd yn swyddog monitro i'r cyngor yn
- 25 ogystal, ymchwilio i'r mater (gan arfer ei swyddogaethau fel swyddog monitro).
- (3) Wrth ystyried a ddylid cynnal ymchwiliad o dan yr adran hon, rhaid i'r swyddog monitro ymgynghori â chadeirydd pwyllgor safonau'r cyngor sir ynglŷn ag a yw'n briodol ymchwilio i'r mater.

Ymchwiliadau, adroddiadau a sancsiynau

90 Ymchwiliad gan swyddog monitro

- 30 (1) Mae'r adran hon yn gymwys os yw swyddog monitro cyngor sir yn ymchwilio i fater o dan adran 88 (achos posibl o dorri dyletswyddau perfformiad) neu 89 (achos posibl o dorri dyletswydd i lunio adroddiad blynyddol).
- (2) Rhaid i'r swyddog monitro roi cyfle i'r aelod sy'n destun yr ymchwiliad ymateb i'r mater yr ymchwilir iddo.
- 35 (3) Caiff y swyddog monitro –
- (a) gofyn i unrhyw berson am wybodaeth yn ymwneud â'r mater yr ymchwilir iddo, a

- (b) gofyn i unrhyw berson ei gynorthwyo i gynnal yr ymchwiliad.

91 Adroddiad y swyddog monitro

- (1) Ar ôl cynnal ymchwiliad o dan adran 88 neu 89, rhaid i swyddog monitro cyngor sir –
- (a) darparu adroddiad ar yr ymchwiliad i bwyllgor safonau'r cyngor sir,
 - (b) gwneud unrhyw argymhellion i'r pwyllgor safonau y mae'r swyddog monitro yn ystyried ei bod yn briodol eu gwneud,
 - (c) anfon copi o'r adroddiad, ac unrhyw argymhellion a wneir, at yr aelod o'r cyngor sir a oedd yn destun yr ymchwiliad, a
 - (d) os yw'r ymchwiliad yn deillio o gŵyn o dan adran 87, cymryd camau rhesymol i anfon copi o'r adroddiad, ac unrhyw argymhellion a wneir, at y person a wnaeth y gŵyn.
- (2) Rhaid i'r pwyllgor safonau ganiatáu i'r swyddog monitro ymddangos ger ei fron er mwyn cyflwyno'r adroddiad ac unrhyw argymhellion a wneir.
- (3) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth am y cyhoeddusrwydd sydd i'w roi i adroddiadau ac argymhellion a ddarperir o dan yr adran hon.

92 Ystyried mater gan bwyllgor safonau

- (1) Mae'r adran hon yn gymwys os yw pwyllgor safonau cyngor sir yn cael adroddiad gan swyddog monitro o dan adran 91.
- (2) Rhaid i'r pwyllgor safonau ddyfarnu a oes unrhyw dystiolaeth o dorri'r ddyletswydd o dan sylw ai peidio.
- (3) Os yw'r pwyllgor safonau yn dyfarnu nad oes unrhyw dystiolaeth o dorri'r ddyletswydd, rhaid iddo –
- (a) hysbysu'r aelod sy'n destun yr adroddiad, a
 - (b) os yw'r adroddiad yn deillio o gŵyn o dan adran 87, cymryd camau rhesymol i hysbysu'r person a wnaeth y gŵyn.
- (4) Os yw'r pwyllgor safonau yn dyfarnu bod tystiolaeth o dorri'r ddyletswydd, rhaid iddo roi hysbysiad ysgrifenedig i'r aelod sy'n destun yr adroddiad y caiff gyflwyno sylwadau i'r pwyllgor safonau, naill ai ar lafar neu yn ysgrifenedig, mewn cysylltiad â'r adroddiad.
- (5) Caiff y pwyllgor safonau, at ddibenion arfer ei swyddogaethau o dan yr adran hon –
- (a) gofyn i'r swyddog monitro ymddangos ger ei fron er mwyn ei gynorthwyo, a
 - (b) gofyn i unrhyw berson am wybodaeth, neu wahodd unrhyw berson i gyflwyno sylwadau iddo.
- (6) Ni chaiff y swyddog monitro wrthod, yn afresymol, gais a wneir o dan is-adran (5).
- (7) Rhaid i'r pwyllgor safonau bennu o fewn pa gyfnod y caiff aelod gyflwyno sylwadau o dan is-adran (4); ond ni chaiff y cyfnod fod yn llai na 28 o ddiwrnodau, yn dechrau â'r diwrnod y rhoddir hysbysiad i'r aelod o dan yr is-adran honno.

93 Dyfarniad y pwyllgor safonau

- (1) Wedi i'r cyfnod a bennir o dan adran 92(7) ar gyfer cyflwyno sylwadau ddod i ben, rhaid i'r pwyllgor safonau ddyfarnu a yw'r aelod sy'n destun yr adroddiad o dan adran 91 wedi torri'r ddyletswydd o dan sylw ai peidio.
- (2) Os yw'r pwyllgor safonau yn dyfarnu bod yr aelod wedi torri'r ddyletswydd, caiff benderfynu –
- (a) ceryddu'r aelod,
- (b) atal yr aelod neu ei atal yn rhannol rhag bod yn aelod o'r cyngor sir am gyfnod nad yw'n hirach na chwe mis, neu
- (c) peidio â chymryd unrhyw gamau pellach.
- (3) Rhaid i'r pwyllgor safonau –
- (a) hysbysu'r aelod am ei ddyfarniad o dan yr adran hon, ac am unrhyw gamau a fydd yn dilyn, a
- (b) os yw'r adroddiad yn deillio o gŵyn o dan adran 87, cymryd camau rhesymol i hysbysu'r person a wnaeth y gŵyn am y materion hynny.
- (4) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth am y cyhoeddusrwydd sydd i'w roi i unrhyw ddyfarniad o dan yr adran hon ac i unrhyw gamau a gymerir yn erbyn aelod.
- (5) Rhaid i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth sy'n rhoi'r hawl i aelodau cyngor sir apelio yn erbyn unrhyw ddyfarniad gan bwyllgor safonau o dan yr adran hon.

PENNOD 4

DARPARIAETH BELLACH YNGHYLCH DYLETSWYDDAU AR AELODAU

Rheoliadau a chanllawiau sy'n ymwneud â Phenodau 2 a 3

94 Rheoliadau

- (1) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth bellach am y modd y mae'n rhaid ymdrin â methiant posibl i gydymffurfio â dyletswydd a osodir gan Bennod 2.
- (2) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1) wneud darpariaeth, yn benodol –
- (a) am faterion sydd i'w hystyried wrth ystyried a ddylid ymchwilio i achos posibl o dorri dyletswydd;
- (b) am faterion sydd i'w hystyried wrth benderfynu a yw aelod wedi torri dyletswydd;
- (c) sy'n galluogi swyddog monitro neu bwyllgor safonau i gyfeirio achos posibl o dorri dyletswydd, neu unrhyw fater arall sy'n dod i sylw'r swyddog monitro neu'r pwyllgor safonau yn ystod ymchwiliad, at swyddog monitro neu bwyllgor safonau awdurdod perthnasol arall;
- (d) am weithdrefnau sydd i'w dilyn gan swyddog monitro neu bwyllgor safonau;
- (e) am ddatgelu gwybodaeth;
- (f) sy'n galluogi talu symiau i bersonau ar ffurf treuliau a lwfansau neu gostau;

(g) am sut y mae apelau i'w gwneud a'u hystyried, a sut y penderfynir arnynt.

(3) At ddibenion is-adran (2)(c), ystyr "awdurdod perthnasol" yw –

(a) cyngor sir;

(b) awdurdod tân ac achub;

(c) awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol.

95 Canllawiau

Rhaid i berson sy'n arfer swyddogaethau o dan Bennod 2 neu 3 roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru.

Diwygiadau cysylltiedig

96 Pwyllgorau safonau i ddarparu hyfforddiant

Yn adran 54 o Ddeddf 2000 (swyddogaethau pwyllgorau safonau), cyn is-adran (3) mewnosoder –

“(2B) A standards committee of a county council in Wales also has the specific function of advising, training or arranging to train members of the council on matters relating to the duties imposed by sections 82 to 86 of the Local Government (Wales) Act 2017 (duties to attend meetings, hold surgeries, answer correspondence, complete training and make annual reports).”

97 Diwygiadau i Fesur 2011

(1) Mae Mesur 2011 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Mae adran 5 wedi ei diddymu.

(3) Yn adran 7, ar ôl is-adran (1), mewnosoder –

“(1A) Rhaid i awdurdod lleol –

(a) ystyried a ddylai fod yn orfodol i'w aelodau gwblhau unrhyw hyfforddiant o dan adran 85 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2017, a

(b) wrth arfer ei swyddogaethau o dan is-adran (1), sicrhau y darperir unrhyw hyfforddiant y mae'n orfodol i aelod ei gwblhau o dan adran 85 o'r Ddeddf honno.”

Rôl arweinyddion grwpiau gwleidyddol ar gynghorau sir

98 Dyletswyddau ar arweinyddion grwpiau gwleidyddol mewn perthynas â safonau ymddygiad

(1) Mae Deddf 2000 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ar ôl adran 52 mewnosoder –

“52A County councils: duties of leaders of political groups in relation to standards of conduct

- (1) A leader of a political group consisting of members of a county council in Wales –
- (a) must take reasonable steps to promote and maintain high standards of conduct by the members of the group, and
 - (b) must co-operate with the council's standards committee (and any sub-committee of the committee) in the exercise of the standards committee's functions.
- (2) In complying with subsection (1), a leader of a political group must have regard to any guidance issued by the Welsh Ministers.
- (3) The Welsh Ministers may by regulations make provision for the purposes of this section about the circumstances in which –
- (a) members of a county council in Wales are to be treated as constituting a political group;
 - (b) a member of a political group is to be treated as a leader of the group.
- (4) Before making regulations under subsection (3), the Welsh Ministers must consult such persons as they consider appropriate."
- (3) Yn adran 54 (swyddogaethau pwyllgorau safonau), ar ôl is-adran (2) mewnosoder –
- "(2A) A standards committee of a county council in Wales also has the specific functions of –
- (a) monitoring compliance by leaders of political groups on the council with their duties under section 52A(1), and
 - (b) advising, training or arranging to train leaders of political groups on the council about matters relating to those duties."

PENNOD 5

GWEITHREDIAETHAU CYNGHORAU SIR

99 Amcanion i'w cyflawni gan weithrediaethau cyngorau

Yn Neddf 2000, yn y man priodol mewnosoder yr adran a ganlyn –

"15A Duty to set objectives etc. in relation to discharge of functions

- (1) As soon as practicable after an elected mayor or, as the case may be, executive leader of a local authority is elected, he or she must set objectives to be met by the executive in the discharge of functions which, under executive arrangements, are the responsibility of the executive.
- (2) An elected mayor or executive leader must keep objectives set under this section under review, and may revise the objectives at any time.

(3) As soon as is reasonably practicable after 31 March in each year, the elected mayor or the executive leader of a local authority must prepare a report on the extent to which objectives set under this section have been achieved.

(4) An elected mayor or executive leader must arrange for the publication of—

(a) objectives set under this section, and

(b) reports prepared under subsection (3)."

100 **Maniffestos: ethol arweinydd gweithrediaeth**

(4) Ym mharagraff 2 o Atodlen 1 (gweithrediaethau arweinydd a chabinet, Cymru) i Ddeddf 2000—

(a) mewnosoder—

"(1A) The executive arrangements—

(a) must include provision requiring a candidate for election as the executive leader to prepare a written manifesto, and provision for ensuring that copies of the manifesto are made available before the election to the other members of the authority;

(b) may include other provision with respect to the election of the executive leader.";

(b) yn is-baragraff (2)—

(i) ar ôl "may" mewnosoder "also", a

(ii) ym mharagraff (a) hepgorer "election and".

(5) Ar ôl paragraff 2 o Atodlen 1 mewnosoder—

"2A The standing orders of a local authority operating executive arrangements which involve a leader and cabinet executive (Wales) must include provision for the purpose of ensuring that a candidate for election as the executive leader is given the opportunity to promote his or her written manifesto at a meeting of the authority held before the election."

101 **Penodi cynorthwywyr i weithrediaeth**

(1) Mae Atodlen 1 i Ddeddf 2000 (trefniadau gweithrediaeth yng Nghymru: darpariaeth bellach) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Cyn paragraff 4 mewnosoder—

"Assistants to the executive

3A (1) Executive arrangements by a local authority may make provision for councillors of the authority to be appointed to assist the executive in discharging functions which are the responsibility of the executive.

(2) Such a councillor is referred to in this Schedule as an assistant to the executive of the authority.

- (3) Assistants to the executive of an authority are to be appointed –
- (a) in the case of an authority operating a mayor and cabinet executive, by the elected mayor;
 - (b) in the case of an authority operating a leader and cabinet executive (Wales), by the executive leader or the authority.
- (4) Executive arrangements which make provision for the appointment of assistants to an executive may include provision about –
- (a) the number of assistants that may be appointed,
 - (b) their term of office, and
 - (c) their responsibilities.
- (5) The assistants to the executive of a local authority may not include –
- (a) the chairman and vice-chairman of the authority;
 - (b) the presiding member and deputy presiding member of the authority (if the authority has a presiding member).
- (6) An assistant to the executive of an authority is not a member of the executive of the authority.
- (7) Section 101 of the Local Government Act 1972 (arrangements for discharge of functions by local authorities) does not apply to a local authority's function of making appointments under sub-paragraph (3)(b)."

(3) Ym mharagraff 5 –

(a) ar y dechrau mewnosoder –

"(1) An assistant to the executive of a local authority is entitled to attend, and speak at, any meeting of the executive or of a committee of the executive.

(2) “;

(b) yn lle “not a member of the authority's executive” rhodder “neither a member of the authority's executive nor an assistant to the executive”.

(4) Mae Atodlen 6 yn cynnwys diwygiadau pellach sy'n ymwneud â chynorthwyr i weithrediaethau awdurdodau lleol.

102 Canllawiau

(1) Mae adran 38 o Ddeddf 2000 (canllawiau) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn is-adran (1), ar ôl “local authority” mewnosoder “, an elected mayor or an executive leader”.

(3) Ar ôl is-adran (1) mewnosoder –

“(1A) The guidance may, among other things, include provision designed to encourage good practice in relation to equality and diversity (within the meaning of section 8(2) of the Equality Act 2006).”

PENNOD 6

PENODI PRIF WEITHREDWYR PENODOL ETC.

103 Penodi prif weithredwr ac adroddiadau ganddo

- (1) Rhaid i gyngor sir benodi prif weithredwr.
- 5 (2) Rhaid i brif weithredwr cyngor sir –
 - (a) cadw pob un o'r materion a bennir yn is-adran (3) o dan adolygiad, a
 - (b) pan fo'n ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny, llunio adroddiad i'r cyngor yn nodi ei gynigion mewn perthynas ag unrhyw un neu ragor o'r materion hynny.
- (3) Y materion yw –
 - 10 (a) y modd y cydlynir sut y mae'r cyngor yn arfer ei wahanol swyddogaethau;
 - (b) nifer a graddau'r staff sy'n ofynnol gan y cyngor i arfer ei swyddogaethau;
 - (c) trefniadaeth staff y cyngor;
 - (d) penodi staff y cyngor;
 - 15 (e) y trefniadau ar gyfer rheoli staff y cyngor (gan gynnwys trefniadau ar gyfer hyfforddi a datblygu).
- (4) Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl llunio adroddiad o dan is-adran (2)(b), rhaid i brif weithredwr cyngor sir drefnu bod copi o'r adroddiad yn cael ei anfon at holl aelodau'r cyngor.
- 20 (5) Rhaid i gyngor sir ystyried adroddiad a baratowyd o dan is-adran (2)(b) mewn cyfarfod a gynhelir yn ddim hwyrach na thri mis wedi i gopïau o'r adroddiad gael eu hanfon at aelodau'r cyngor am y tro cyntaf; ac nid yw adran 101 o Ddeddf 1972 yn gymwys i'r ddyletswydd a osodir gan yr is-adran hon.
- (6) Rhaid i gyngor sir ddarparu i'w brif weithredwr y staff, yr adeiladau a'r adnoddau eraill hynny sydd, ym marn y prif weithredwr, yn ddigonol i alluogi i ddyletswyddau'r prif weithredwr o dan yr adran hon gael eu cyflawni.
- 25 (7) Mae Atodlen 7 yn gwneud diwygiadau i ddeddfwriaeth arall o ganlyniad i'r adran hon.

104 Arweinyddion cyngorau i osod amcanion ar gyfer prif weithredwyr etc.

- (1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo cyngor sir yn gweithredu trefniadau gweithrediaeth.
- 30 (2) Rhaid i brif aelod gweithrediaeth y cyngor, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i berson gael ei benodi'n brif weithredwr y cyngor, osod amcanion sydd i'w cyflawni gan y prif weithredwr.
- (3) Rhaid i brif aelod gweithrediaeth y cyngor wneud y canlynol yn flynyddol –
 - (a) adolygu i ba raddau y mae'r prif weithredwr wedi bodloni'r amcanion a osodwyd o dan yr adran hon, a
 - 35 (b) adolygu ac, os yw'r prif aelod gweithredol yn ystyried bod hynny'n briodol, diwygio'r amcanion.
- (4) Rhaid i brif aelod gweithrediaeth y cyngor drefnu i'r amcanion a osodir o dan yr adran hon gael eu cyhoeddi.

- (5) Rhaid i brif aelod gweithrediaeth y cyngor –
- (a) llunio adroddiad ar bob adolygiad o dan is-adran (3)(a),
 - (b) trefnu i'r adroddiad gael ei gyhoeddi, ac
 - (c) trefnu i gopi o'r adroddiad gael ei anfon at bob aelod o'r cyngor.
- 5 (6) Rhaid i'r cyngor ystyried adroddiad ar adolygiad o dan is-adran (3)(a) mewn cyfarfod a gynhelir yn ddim hwyrach na thri mis ar ôl y dyddiad y cyhoeddir yr adroddiad; ac nid yw adran 101 o Ddeddf 1972 yn gymwys i'r ddyletswydd a osodir gan yr is-adran hon.
- (7) Ni chaiff prif aelod gweithrediaeth y cyngor wneud unrhyw beth a grybwyllir yn is-adran (2), (3), (4) neu (5) heb ymgynghori â'i brif weithredwr.
- 10 (8) Caiff Gweinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i –
- (a) prif aelod gweithrediaeth cyngor sir;
 - (b) cyngor sir,
- ynglŷn ag arfer swyddogaethau o dan yr adran hon, a rhaid i'r person y dyroddir unrhyw ganllawiau iddo roi sylw iddynt.
- 15 (9) Yn yr adran hon ystyr "prif aelod gweithrediaeth" yw –
- (a) yn achos cyngor sy'n gweithredu gweithrediaeth arweinydd a chabinet, arweinydd y weithrediaeth;
 - (b) yn achos cyngor sy'n gweithredu gweithrediaeth sy'n cynnwys gweithrediaeth maer a chabinet, y maer etholedig.
- 20 (10) Yn is-adran (9) –
- mae i "arweinydd gweithrediaeth" yr ystyr sydd i "executive leader" yn adran 11(3)(a) o Ddeddf 2000;
- ystyr "gweithrediaeth arweinydd a chabinet" yw gweithrediaeth arweinydd a chabinet o fewn ystyr "leader and cabinet executive (Wales)" yn adran 11(3) o
- 25 Ddeddf 2000.

105 Pennaeth gwasanaethau democrataidd

- (1) Yn adran 8(4) o Fesur 2011 –
- (a) hepgorer paragraff (b), a
 - (b) ym mharagraff (c), yn lle "yr adran honno" rhodder "adran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989".
- 30 (2) Yn adran 43(2) o Ddeddf Lleoliaeth 2011 (p.20) (ystyr "chief officer" at ddibenion datganiadau polisi tâl), ar ôl paragraff (e) mewnosoder –
- "(f) its head of democratic services designated under section 8(1) of the Local Government (Wales) Measure 2011 (designation by
- 35 council of a county or country borough in Wales)."

PENNOD 7

PWYLLGORAU TROSOLWG A CHRAFFU A PHWYLLGORAU SAFONAU

106 Hawliau pleidleisio aelodau cyfetholedig o bwyllgorau trosolwg a chraffu

(1) Mae Deddf 2000 wedi ei diwygio yn unol ag is-adrannau (2) a (3).

(2) Yn Atodlen 1 (darpariaeth bellach ynghylch trefniadau gweithrediaeth), ar y diwedd, mewnosoder –

“Overview and scrutiny committees: voting rights of co-opted members

(1) A local authority may –

(a) permit a co-opted member of an overview and scrutiny committee of the authority to vote at meetings of the committee;

(b) permit a co-opted member of a sub-committee of an overview and scrutiny committee of the authority to vote at meetings of the sub-committee.

(2) Permission to vote at meetings of an overview and scrutiny committee may include permission to vote at meetings of its sub-committees (including sub-committees it may appoint in the future).

(3) Permission under this paragraph may only be given with the agreement of the overview and scrutiny committee.

(4) Permission must relate to a specific co-opted member.

(5) Permission may be given subject to limitations.

(6) A limitation may, in particular, relate to –

(a) the questions on which the co-opted member is entitled to vote;

(b) the duration of the co-opted member’s entitlement to vote.

(7) The Welsh Ministers may by regulations make provision about the exercise of the functions of local authorities and overview and scrutiny committees under this paragraph.

(8) Regulations under sub-paragraph (7) may, in particular, include –

(a) provision for a maximum or minimum number of co-opted members of an overview and scrutiny committee or sub-committee that may be permitted to vote at meetings;

(b) provision about the procedure for giving permission.

(9) Section 101 of the Local Government Act 1972 (c. 70) (arrangements for discharge of functions by local authorities) does not apply to the functions of a local authority under this paragraph.

(10) In this paragraph, “co-opted member”, in relation to an overview and scrutiny committee of a local authority or a sub-committee of such a committee, means a member of the committee or sub-committee who

is not a member of the authority.”

- (3) Yn adran 21(10) (aelodau cyfetholedig o bwyllgorau trosolwg a chraffu), ar ôl “that meeting” mewnosoder “unless permitted to do so under paragraph 15 of Schedule 1”.
- (4) Yn adran 58(3)(c)(i) o Fesur 2011 (darpariaethau y gellir eu cymhwyso i gyd-bwyllgorau trosolwg a chraffu), ar ôl “adran 21 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000” mewnosoder “, neu baragraffau 8 i 15 o Atodlen 1 iddi.”
- (5) Yn adran 185(3)(b)(i) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (p.42) (darpariaethau y gellir eu cymhwyso i gyd-bwyllgorau trosolwg a chraffu gyda swyddogaethau sy’n ymwneud â’r gwasanaeth iechyd), ar ôl “(6) to (17) of” mewnosoder “, and paragraph 15 of Schedule 1 to,”.

107 Sicrhau bod gwybodaeth ar gael i bwyllgorau trosolwg a chraffu

Yn adran 22(10) o Ddeddf 2000 (pŵer i’w gwneud yn ofynnol bod gwybodaeth am benderfyniadau ar gael), yn lle “or members of the authority” rhodder “, members of the authority, an overview and scrutiny committee of the authority or a sub-committee of such a committee”.

108 Pŵer i’w gwneud yn ofynnol i awdurdodau benodi cyd-bwyllgorau trosolwg a chraffu

- (1) Mae adran 58 o Fesur 2011 (y cyd-bwyllgorau trosolwg a chraffu) wedi ei diwygio fel a ganlyn.
- (2) Yn is-adran (1), ar ôl “i ganiatáu” mewnosoder “neu i’w gwneud yn ofynnol”.
- (3) Yn is-adran (3), yn lle paragraff (a) rhodder –
- “(a) darpariaeth ynghylch amgylchiadau y caniateir gwneud trefniadau oddi tanynt;
- (aa) darpariaeth sy’n rhagnodi amgylchiadau y mae’n rhaid gwneud trefniadau oddi tanynt;
- (ab) darpariaeth ar gyfer gwneud trefniadau yn ddarostyngedig i amodau neu gyfyngiadau rhagnodedig;”.

109 Dyletswydd ar bwyllgor safonau i lunio adroddiad blynyddol

Yn Rhan 3 o Ddeddf 2000, ar ddiwedd Pennod 1 mewnosoder –

“56B Annual reports by standards committees

- (1) As soon as reasonably practicable after the end of each financial year, a standards committee of a relevant authority must make an annual report to the authority in respect of that year.
- (2) The annual report must describe how the committee’s functions have been discharged during the financial year.
- (3) In particular, it must include a summary of –
- (a) what has been done to discharge the general and specific functions conferred on the committee by section 54 or 56;

- (b) reports and recommendations made or referred to the committee under Chapter 3 of this Part;
- (c) action taken by the committee following its consideration of such reports and recommendations;
- 5 (d) notices given to the committee under Chapter 4 of this Part.
- (4) An annual report by a standards committee of a county council in Wales must include –
- (a) the committee’s assessment of the extent to which leaders of political groups on the council have complied with their duties under section 52A(1) during the financial year;
- 10 (b) a summary of –
- (i) matters referred to the chair of the committee under section 88 (possible breach of performance duties by members) of the Local Government (Wales) Act 2017, and
- 15 (ii) matters considered under section 92 of that Act (consideration by standards committee of possible breaches of duties), and determinations made under section 93 of that Act (standards committee’s determination in relation to possible breaches of duties).
- 20 (5) An annual report by a standards committee of a relevant authority may include recommendations to the authority about any matter in respect of which the committee has functions.
- (6) A relevant authority must consider each annual report made by its standards committee before the end of 3 months beginning with the day on which the authority receives the report.
- 25 (7) The function of considering the report may be discharged only by the relevant authority (and is accordingly not a function to which section 101 of the Local Government Act 1972 applies).
- 30 (8) In this section “financial year” means a period of 12 months ending with 31 March.”

PENNOD 8

MÂN DDIWYGIADAU I DDEDDFWRIAETH ARALL

110 Mân ddiwygiadau i ddeddfwriaeth arall

- 35 (1) Mae adran 106 o Ddeddf 2000 (gorchmynion a rheoliadau) wedi eu diwygio yn unol ag is-adrannau (2) a (3).
- (2) Hepgorer is-adran (5).
- (3) Yn is-adran (6) –
- (a) ar ôl “made under” mewnosoder “section 52A(3),”;
- 40 (b) ar ôl “54(5)” mewnosoder “or under paragraph 15(7) of Schedule 1”.

- (4) Yn Neddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 (dccc 4), hepgorer adran 68(4)(a).

RHAN 5

CYNGHORAU SIR: LLYWODRAETHU YN WELL

5

PENNOD 1

DYLETSWYDD I WNEUD TREFNIADAU I SICRHAU LLYWODRAETHU DA ETC.

111 Trefniadau llywodraethu

- (1) Rhaid i gyngor sir, mewn perthynas ag arfer ei swyddogaethau, wneud, gweithredu a chydymffurfio â threfniadau (“trefniadau llywodraethu”) at ddiben sicrhau –
- 10 (a) llywodraethu da;
- (b) atebolrwydd;
- (c) bod ei adnoddau yn cael eu defnyddio mewn modd darbodus, effeithlon ac effeithiol.
- (2) Wrth wneud trefniadau llywodraethu, rhaid i gyngor sir gydymffurfio â’r egwyddorion, y prosesau a’r arferion a nodir neu a ragnodir fel arall gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau a wneir o dan is-adrannau (3) a (4).
- 15 (3) Rhaid i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth ynghylch egwyddorion, prosesau ac arferion sy’n gysylltiedig â llywodraethu da, a chânt wneud hynny drwy ragnodi unrhyw god ymarfer neu ganllawiau (boed wedi ei ddyroddi neu eu dyroddi gan Weinidogion Cymru ai peidio) yn y rheoliadau.
- 20 (4) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth ynghylch egwyddorion, prosesau ac arferion sy’n ymwneud ag atebolrwydd a darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd cyngor sir o ran y modd y mae’n defnyddio adnoddau, a chânt wneud hynny drwy ragnodi unrhyw god ymarfer neu ganllawiau (boed wedi ei ddyroddi neu eu dyroddi gan Weinidogion Cymru ai peidio).
- 25 (5) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth bellach ynghylch trefniadau llywodraethu.

PENNOD 2

CYNLLUNIAU CORFFORAETHOL

30

Llunio, cyhoeddi ac adolygu cynlluniau corfforaethol

112 Dyletswydd cyngorau sir i lunio a chyhoeddi cynllun corfforaethol

- (1) Rhaid i gyngor sir lunio a chyhoeddi cynllun corfforaethol yn unol â’r adran hon.
- (2) Rhaid i’r cynllun gynnwys datganiad o flaenoriaethau’r cyngor o ran arfer ei swyddogaethau (gan gynnwys ei flaenoriaethau o ran ei berfformiad yn y tymor byr, y tymor canolig a’r hirdymor).
- 35

- (3) Rhaid i'r cynllun gynnwys datganiad sy'n nodi materion y mae'r cyngor yn rhagweld y bydd yn gwneud penderfyniadau o arwyddocâd penodol yn eu cylch.
- (4) Rhaid i'r cynllun nodi gwybodaeth am strategaethau'r cyngor mewn perthynas ag—
- (a) y gweithlu a chynllunio'r gweithlu;
 - (b) materion ariannol a chynllunio ariannol;
 - (c) ymdrin â chwynion;
 - (d) rheoli risg;
 - (e) trosolwg a chraffu;
 - (f) rheoli asedau;
 - (g) cyfranogiad y cyhoedd (gweler adran 38 ynglŷn â hynny).
- (5) Rhaid i'r cynllun, pan gaiff ei gyhoeddi gyntaf, gynnwys—
- (a) y dogfennau a grybwyllir yn is-adran (6) fel y'u cyhoeddwyd yn fwyaf diweddar, neu
 - (b) gwybodaeth ynghylch sut i gael gafael ar y dogfennau hynny (gan gynnwys cael gafael arnynt ar ffurf electronig).
- (6) Dyma'r dogfennau—
- (a) yr adroddiad hunanasesu a gyhoeddwyd gan y cyngor sir o dan adran 117,
 - (b) yr amcanion llesiant, a'r datganiad sy'n berthnasol iddynt, a gyhoeddwyd gan y cyngor sir yn unol ag adrannau 3 a 7 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (dccc 2),
 - (c) yr adroddiad blynyddol a gyhoeddwyd gan y cyngor sir o dan adran 13 o'r Ddeddf honno, a
 - (d) yr asesiad o lesiant lleol a gyhoeddwyd gan y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer y sir o dan adran 37 o'r Ddeddf honno.
- (7) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth bellach ynghylch yr hyn y mae'n rhaid ei gynnwys mewn cynllun corfforaethol.

113 Pryd y mae'r cynllun corfforaethol i'w gyhoeddi

- (1) Rhaid i gyngor sir gyhoeddi ei gynllun corfforaethol cyntaf yn ddim hwyrach na thri mis ar ôl dyddiad yr etholiad cyffredin cyntaf ar gyfer cynghorwyr y cyngor ar ôl i'r adran hon ddod i rym.
- (2) Yn dilyn hynny, rhaid i gyngor sir gyhoeddi cynlluniau corfforaethol yn ddim hwyrach na thri mis ar ôl dyddiad pob etholiad cyffredin ar gyfer cynghorwyr y cyngor.
- (3) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud—
- (a) darpariaeth ynghylch sut y mae cynllun corfforaethol i'w gyhoeddi, a
 - (b) darpariaeth bellach ynghylch pryd y mae'n rhaid cyhoeddi cynllun corfforaethol, gan gynnwys darpariaeth sy'n diwygio is-adran (1) neu (2) at ddiben newid erbyn pa ddyddiad y mae'n rhaid ei gyhoeddi.

114 Adolygu a diwygio cynllun corfforaethol

- (1) Rhaid i gyngor sir adolygu ei gynllun corfforaethol o bryd i'w gilydd (ond heb fod yn llai aml nag unwaith ymhob cyfnod o flwyddyn).
- (2) Fel rhan o bob adolygiad, rhaid i'r cyngor asesu ei gynnydd o ran y blaenoriaethau a nodir yn y datganiad a gynhwysir yn y cynllun o dan adran 112(2).
- 5 (3) Wedi cwblhau'r adolygiad, rhaid i'r cyngor gyhoeddi cynllun corfforaethol diwygiedig sy'n cynnwys adroddiad ar yr asesiad o dan is-adran (2).
- (4) Rhaid i'r cyngor sicrhau bod y cynllun diwygiedig yn cynnwys –
 - (a) y dogfennau a grybwyllir yn adran 112(6), fel y'u cyhoeddwyd yn fwyaf diweddar, neu
 - 10 (b) gwybodaeth ynghylch sut i gael gafael ar y dogfennau hynny (gan gynnwys cael gafael arnynt ar ffurf electronig).
- (5) Rhaid i'r cyngor hefyd gyhoeddi cynllun diwygiedig os yw'n ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny am unrhyw reswm arall.

115 Ymgynghori ar gynllun corfforaethol

15 Cyn llunio neu ddiwygio ei gynllun corfforaethol, rhaid i gyngor sir ymgynghori â'r canlynol –

- (a) pob Bwrdd Iechyd Lleol ar gyfer ardal y mae unrhyw ran ohoni yn ardal y cyngor,
- (b) y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer ardal y cyngor, ac
- 20 (c) unrhyw bersonau eraill y mae'r cyngor yn ystyried ei bod yn briodol ymgynghori â hwy.

PENNOD 3

ASESU TREFNIADAU LLYWODRAETHU

Hunanasesu

116 Dyletswydd ar gyngor sir i gynnal hunanasesiad

- 25 (1) Rhaid i gyngor sir gynnal hunanasesiad o bryd i'w gilydd (ond heb fod yn llai aml nag unwaith ymhob cyfnod o flwyddyn).
- (2) Hunanasesiad yw asesiad gan y cyngor o'i gydymffurfiaeth â'i ddyletswyddau o dan adran 111.

117 Adroddiad hunanasesu

- 30 (1) Rhaid i gyngor sir lunio adroddiad ar bob hunanasesiad a gynhelir ganddo ("adroddiad hunanasesu").
- (2) Rhaid i adroddiad hunanasesu –
 - (a) nodi asesiad y cyngor o'i gydymffurfiaeth â'i ddyletswyddau o dan adran 111, a
 - 35 (b) nodi pa gamau (os oes rhai) y mae'r cyngor yn bwriadu eu cymryd yng ngoleuni'r asesiad hwnnw.
- (3) Rhaid i'r cyngor sir sicrhau bod fersiwn ddrafft o'r adroddiad hunanasesu ar gael i'w bwyllgor llywodraethu corfforaethol ac archwilio.

- (4) Rhaid i'r pwyllgor llywodraethu corfforaethol ac archwilio adolygu'r fersiwn ddrafft o'r adroddiad hunanasesu a chaiff argymell newidiadau i'r fersiwn ddrafft.
- (5) Wrth lunio fersiwn derfynol yr adroddiad hunanasesu, rhaid i'r cyngor sir –
- (a) rhoi sylw i unrhyw newidiadau sy'n cael eu hargymell gan y pwyllgor llywodraethu corfforaethol ac archwilio, a
- (b) os nad yw'n gwneud newid sy'n cael ei argymell gan y pwyllgor, nodi'r argymhelliad yn yr adroddiad hunanasesu, ynghyd â'r rhesymau pam na wnaeth y newid hwnnw.
- (6) Rhaid i'r cyngor sir gyhoeddi'r adroddiad hunanasesu terfynol.
- (7) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth ynghylch –
- (a) ffurf a chynnwys adroddiad hunanasesu;
- (b) pryd a sut y mae'n rhaid ei gyhoeddi.

Asesu gan gymheiriaid

118 Dyletswydd ar gyngor sir i drefnu asesiadau gan gymheiriaid

- (1) Rhaid i gyngor sir drefnu bod asesiadau gan gymheiriaid yn cael eu cynnal.
- (2) Aseiad gan gymheiriaid yw aseiad gan banel a benodwyd gan y cyngor sir o gydymffurfiaeth y cyngor â'i ddyletswyddau o dan adran 111.
- (3) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth ynghylch penodi paneli i gynnal asesiadau gan gymheiriaid.
- (4) Caiff y rheoliadau, yn benodol, gynnwys darpariaeth ynghylch –
- (a) nifer y bobl y gellir eu penodi ar banel neu y mae'n rhaid eu penodi ar banel;
- (b) disgrifiadau o bobl y caniateir eu penodi ar banel neu y mae'n rhaid eu penodi ar banel;
- (c) amgylchiadau na chaniateir penodi person ar banel oddi tanynt.

119 Pa mor aml y cynhelir asesiadau gan gymheiriaid

- (1) Rhaid i drefniadau a wneir gan gyngor sir o dan adran 118 sicrhau bod aseiad gan gymheiriaid yn cael ei gynnal mewn perthynas â'r cyngor –
- (a) heb fod yn hwyrach na 31 Mawrth 2023, a
- (b) o leiaf unwaith yn ystod pob cylch etholiadol ar ôl y dyddiad hwnnw.
- (2) Yn is-adran (1)(b), ystyr "cylch etholiadol" yw cyfnod –
- (a) sy'n dechrau ag etholiad cyffredin ar gyfer aelodau cyngor sir, a
- (b) sy'n dod i ben â'r etholiad cyffredin nesaf ar gyfer aelodau'r cyngor.
- (3) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddiwygio is-adrannau (1) a (2) at ddiben newid pryd a pha mor aml y mae'n rhaid cynnal aseiad gan gymheiriaid.

120 Adroddiad ar aseiad gan gymheiriaid

- (1) Rhaid i'r trefniadau y bydd cyngor sir yn eu gwneud o dan adran 118 ei gwneud yn ofynnol i banel sy'n cynnal aseiad gan gymheiriaid mewn perthynas â'r cyngor –

- (a) llunio adroddiad ar yr asesiad (“ adroddiad ar asesiad gan gymheiriaid”), a
- (b) cyflwyno’r adroddiad i’r cyngor.

(2) O ran yr adroddiad ar asesiad gan gymheiriaid –

- (a) rhaid iddo nodi asesiad y panel o gydymffurfiaeth y cyngor â’i ddyletswyddau o dan adran 111, a
- (b) caiff argymell camau i’w cymryd gan y cyngor yng ngoleuni’r asesiad hwnnw.

(3) Rhaid i’r cyngor sir gyhoeddi’r adroddiad ar asesiad gan gymheiriaid.

121 Ymateb y cyngor i adroddiad ar asesiad gan gymheiriaid

(1) Rhaid i gyngor sir lunio ymateb i bob adroddiad ar asesiad gan gymheiriaid a gyflwynir iddo.

(2) Rhaid i’r ymateb –

- (a) datgan a yw’r cyngor yn derbyn yr asesiad a’r argymhellion (os oes rhai) a nodir yn yr adroddiad, a
- (b) nodi pa gamau (os oes rhai) y mae’r cyngor yn bwriadu eu cymryd yng ngoleuni’r adroddiad.

(3) Rhaid i’r cyngor sir sicrhau bod fersiwn ddrafft o’r ymateb i’r adroddiad ar asesiad gan gymheiriaid ar gael i’w bwyllgor llywodraethu corfforaethol ac archwilio.

(4) Rhaid i’r pwyllgor llywodraethu corfforaethol ac archwilio adolygu’r fersiwn ddrafft o’r ymateb i’r adroddiad ar asesiad gan gymheiriaid a chaiff argymell newidiadau i’r fersiwn ddrafft.

(5) Wrth lunio fersiwn derfynol yr ymateb i’r adroddiad ar asesiad gan gymheiriaid, rhaid i’r cyngor sir –

- (a) rhoi sylw i unrhyw newidiadau sy’n cael eu hargymell gan y pwyllgor llywodraethu corfforaethol ac archwilio, a
- (b) os nad yw’n gwneud newid sy’n cael ei argymell gan y pwyllgor, nodi’r argymhelliad yn yr ymateb, ynghyd â’r rhesymau pam na wnaeth y newid hwnnw.

(6) Rhaid i’r cyngor sir gyhoeddi’r ymateb terfynol i’r adroddiad ar asesiad gan gymheiriaid.

122 Darpariaeth bellach ynghylch adroddiad ar asesiad gan gymheiriaid a’r ymateb iddo

Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth ynghylch –

- (a) ffurf a chynnwys adroddiad ar asesiad gan gymheiriaid a’r ymateb iddo;
- (b) pryd a sut y mae’n rhaid cyhoeddi’r adroddiad a’r ymateb iddo.

Asesiad cyfun y rheoleiddwyr

123 Diffiniadau o “rheoleiddiwr perthnasol” a “swyddogaethau perthnasol”

(1) Yn y Rhan hon –

- (a) ystyr “rheoleiddiwr perthnasol” yw person a restrir yn is-adran (2);

(b) ystyr “swyddogaethau perthnasol” rheoleiddiwr perthnasol yw’r swyddogaethau a bennir mewn perthynas â’r rheoleiddiwr yn yr is-adran honno.

(2) Y rheoleiddwyr perthnasol a’u swyddogaethau perthnasol yw –

(a) Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn arfer swyddogaethau o dan adran 38 o Ddeddf Addysg 1997 (p.44);

(b) Gweinidogion Cymru yn arfer swyddogaethau o dan adrannau 149A a 149B o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (dccc 4);

(c) Archwilydd Cyffredinol Cymru –

(i) yn archwilio cyfrifon cyngor sir o dan Bennod 1 o Ran 2 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (p.23),

(ii) yn cynnal astudiaethau o dan Bennod 2 o Ran 2 o’r Ddeddf honno mewn perthynas â chyngor sir, neu

(iii) yn cynnal ymchwiliadau o gyngor sir o dan adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 (dccc 2).

(3) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddiwygio is-adran (2) drwy –

(a) ychwanegu neu dynnu person neu swyddogaeth ymaith, neu

(b) amrywio’r disgrifiad o berson neu swyddogaeth.

124 Dyletswydd i gynnal asesiad cyfun o drefniadau llywodraethu cyngor sir

(1) Rhaid i’r rheoleiddwyr perthnasol, ar ba bynnag ysbeidiau y maent yn ystyried eu bod yn briodol, gynnal asesiad cyfun mewn perthynas â phob cyngor sir.

(2) Aseiad cyfun yw asesiad o gydymffurfiaeth y cyngor sir â’i ddyletswyddau o dan adran 111, sy’n cael ei gynnal ar y cyd gan y rheoleiddwyr perthnasol, ar sail adolygiad gan y rheoleiddwyr perthnasol o’r canlynol –

(a) adroddiadau sy’n ymwneud â’r cyngor gan bob un o’r rheoleiddwyr perthnasol wrth iddynt arfer eu swyddogaethau perthnasol,

(b) gwybodaeth sydd ar gael i’r rheoleiddwyr perthnasol o ganlyniad i arfer eu swyddogaethau perthnasol mewn perthynas â’r cyngor, ac

(c) dogfennau a gyhoeddwyd mewn perthynas â’r cyngor o dan y Rhan hon.

(3) Caiff rheoleiddiwr perthnasol rannu adroddiadau a gwybodaeth o fewn is-adran (2)(a) a (b) â’r rheoleiddwyr perthnasol eraill at ddibenion asesiad cyfun.

(4) Wrth gynnal asesiad cyfun, caiff y rheoleiddwyr perthnasol ymgynghori ag unrhyw berson arall sy’n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus mewn perthynas â’r cyngor.

125 Adroddiad ar asesiad cyfun

(1) Rhaid i’r rheoleiddwyr perthnasol lunio adroddiad ar bob asesiad cyfun (“adroddiad ar asesiad cyfun”).

(2) Rhaid i’r adroddiad ar asesiad cyfun nodi asesiad y rheoleiddwyr perthnasol o gydymffurfiaeth y cyngor sir â’i ddyletswyddau o dan adran 111.

(3) Caiff yr adroddiad ar asesiad cyfun hefyd gynnwys –

- (a) argymhellion i'r cyngor ynghylch y camau y dylai eu cymryd yng ngoleuni'r asesiad hwnnw;
 - (b) argymhellion i Weinidogion Cymru ynghylch arfer eu swyddogaethau o dan y Rhan hon mewn perthynas â'r cyngor.
- 5 (4) Rhaid i'r rheoleiddwyr perthnasol geisio dod i gytundeb ynghylch y materion sydd i'w nodi yn yr adroddiad ar asesiad cyfun, ond os nad ydynt yn gallu gwneud hynny, caiff yr adroddiad nodi barn pob un ohonynt ar wahân.
- (5) Rhaid i'r rheoleiddwyr perthnasol anfon copi o'r adroddiad ar asesiad cyfun—
- (a) at y cyngor sir y mae'r asesiad cyfun yn berthnasol iddo, a
- 10 (b) os yw'r adroddiad yn cynnwys argymhellion i Weinidogion Cymru, at Weinidogion Cymru.
- (6) Rhaid i'r cyngor sir gyhoeddi'r adroddiad ar asesiad cyfun.

126 Ymateb y cyngor i'r adroddiad ar asesiad cyfun

- (1) Rhaid i gyngor sir sy'n cael adroddiad ar asesiad cyfun lunio ymateb i'r adroddiad.
- 15 (2) Rhaid i'r ymateb—
- (a) datgan a yw'r cyngor yn derbyn yr asesiad a'r argymhellion (os oes rhai) a nodir yn yr adroddiad, a
 - (b) nodi pa gamau (os oes rhai) y mae'r cyngor yn bwriadu eu cymryd yng ngoleuni'r adroddiad.
- 20 (3) Rhaid i'r cyngor sir sicrhau bod fersiwn ddrafft o'r ymateb i'r adroddiad ar asesiad cyfun ar gael i'w bwyllgor llywodraethu corfforaethol ac archwilio.
- (4) Rhaid i'r pwyllgor llywodraethu corfforaethol ac archwilio adolygu'r fersiwn ddrafft o'r ymateb i'r adroddiad ar asesiad cyfun a chaiff argymhell newidiadau i'r fersiwn ddrafft.
- (5) Wrth lunio fersiwn derfynol yr ymateb i'r adroddiad ar asesiad cyfun, rhaid i'r cyngor
- 25 sir —
- (a) rhoi sylw i unrhyw newidiadau sy'n cael eu hargymhell gan y pwyllgor llywodraethu corfforaethol ac archwilio, a
 - (b) os nad yw'n gwneud newid y mae'r pwyllgor yn ei argymhell, nodi'r argymhelliad yn ei ymateb, ynghyd â'r rhesymau pam na wnaeth y newid hwnnw.
- 30 (6) Rhaid i'r cyngor sir anfon copi o'r ymateb terfynol i'r adroddiad ar asesiad cyfun—
- (a) at y rheoleiddwyr perthnasol, a
 - (b) os yw'r adroddiad ar asesiad cyfun yn cynnwys argymhellion i Weinidogion Cymru, at Weinidogion Cymru.
- (7) Rhaid i'r cyngor sir gyhoeddi'r ymateb i'r adroddiad ar asesiad cyfun.

35 127 Darpariaeth bellach ynghylch asesiadau cyfun

Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth ynghylch—

- (a) pryd y mae'n rhaid cynnal asesiad cyfun;
- (b) ffurf a chynnwys adroddiad ar asesiad cyfun a'r ymateb iddo;

- (c) pryd a sut y mae'n rhaid cyhoeddi'r adroddiad a'r ymateb iddo.

PENNOD 4

ADOLYGIADAU LLYWODRAETHU AC YMYRIADAU

Adolygiadau llywodraethu

- 5 **128 Pŵer Gweinidogion Cymru i drefnu adolygiad llywodraethu**
- (1) Os yw Gweinidogion Cymru yn ystyried bod cyngor sir yn methu â chydymffurfio ag unrhyw un neu ragor o'i ddyletswyddau o dan adran 111, neu'n ystyried y gallai fod yn gwneud hynny, cânt drefnu bod adolygiad llywodraethu yn cael ei gynnal mewn perthynas â'r cyngor.
- 10 (2) Adolygiad llywodraethu yw adolygiad o gydymffurfiaeth y cyngor sir â'i ddyletswyddau o dan adran 111, gyda golwg ar nodi unrhyw gamau y dylid eu cymryd er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r dyletswyddau hynny.
- (3) Rhaid i drefniadau a wneir gan Weinidogion Cymru i adolygiad llywodraethu gael ei gynnal –
- 15 (a) disgrifio cwmpas yr adolygiad,
- (b) nodi'r person sydd i gynnal yr adolygiad (yr "adolygydd"), ac
- (c) nodi o fewn pa gyfnod y mae'r adolygydd i anfon adroddiad at Weinidogion Cymru o dan adran 133(4).
- (4) Caiff y trefniadau gynnwys unrhyw ddarpariaeth arall y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn briodol.
- 20
- 129 Ymgynghori cyn gwneud trefniadau ar gyfer cynnal adolygiad llywodraethu**
- Cyn gwneud trefniadau ar gyfer cynnal adolygiad llywodraethu mewn perthynas â chyngor sir, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r canlynol –
- (a) y cyngor, a
- 25 (b) pa bynnag bersonau eraill (os oes rhai) y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn briodol ymgynghori â hwy.
- 130 Dyletswydd i hysbysu cyngor am drefniadau ar gyfer adolygiad llywodraethu**
- (1) Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl gwneud trefniadau ar gyfer adolygiad llywodraethu, rhaid i Weinidogion Cymru hysbysu'r cyngor o dan sylw am y trefniadau, a'r rhesymau dros wneud y trefniadau.
- 30 (2) Rhaid i'r hysbysiad –
- (a) disgrifio cwmpas yr adolygiad,
- (b) nodi'r adolygydd, ac
- (c) datgan y cyfnod a bennir o dan adran 128(3)(c).
- 35 **131 Dyletswydd ar gyngor i gydweithredu gydag adolygydd llywodraethu**

Rhaid i gyngor sir sy'n destun adolygiad llywodraethu ddarparu i'r adolygydd ba bynnag gyfleusterau a chymorth y mae'r adolygydd yn gofyn yn rhesymol amdanynt neu amdano at ddiben cynnal yr adolygiad gan gynnwys, ymysg pethau eraill, drwy ddarparu dogfennau, cofnodion a gwybodaeth arall.

5 **132 Darparu gwybodaeth gan bersonau eraill**

- (1) Caiff adolygydd sy'n cynnal adolygiad llywodraethu mewn perthynas â chyngor sir ei gwneud yn ofynnol i berson o fewn is-adran (3) ddarparu i'r adolygydd ba bynnag gyfleusterau a chymorth y mae'n rhesymol i'r adolygydd ofyn amdanynt at ddiben cynnal yr adolygiad gan gynnwys, ymysg pethau eraill, drwy ddarparu dogfennau, cofnodion a gwybodaeth arall.
- (2) Rhaid i'r person hwnnw gymryd pob cam rhesymol i gydymffurfio â'r gofyniad.
- (3) Y personau yw –
- (a) y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer ardal y cyngor sir;
 - (b) y Bwrdd Iechyd Lleol ar gyfer ardal y mae unrhyw ran ohoni yn ardal y cyngor sir;
 - (c) cyngor cymuned yn ardal y cyngor sir;
 - (d) Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru;
 - (e) Archwilydd Cyffredinol Cymru.
- (4) Nid yw'r adran hon yn ei gwneud ofynnol i berson ddarparu dogfennau, cofnodion na gwybodaeth arall os oes unrhyw ddeddfiad neu reol gyfreithiol arall yn gwahardd y person rhag eu darparu.
- (5) Mae'r pŵer yn is-adran (1) yn cynnwys pŵer i'w gwneud yn ofynnol bod dogfennau neu gofnodion yn cael eu darparu ar ffurf sy'n ddarllenadwy ac yn gludadwy.
- (6) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddiwygio is-adran (3) drwy –
- (a) ychwanegu person neu ddileu cyfeiriad at berson, neu
 - (b) amrywio'r disgrifiad o berson.

133 **Dyletswydd ar adolygydd i lunio adroddiad**

- (1) Pan fo adolygiad llywodraethu mewn perthynas â chyngor sir wedi ei gynnal, rhaid i'r adolygydd lunio adroddiad ar yr adolygiad (“adroddiad ar adolygiad llywodraethu”).
- (2) Rhaid i'r adroddiad ar adolygiad llywodraethu –
- (a) nodi asesiad yr adolygydd o'r graddau y mae'r cyngor yn cydymffurfio â'i ddyletswyddau o dan adran 111,
 - (b) nodi unrhyw gamau y mae'r adolygydd yn argymhell y dylid eu cymryd er mwyn sicrhau bod y cyngor yn cydymffurfio â'r dyletswyddau hynny,
 - (c) nodi'r person y mae'r adolygydd yn ystyried ddylai gymryd y camau,
 - (d) nodi o fewn pa gyfnod y mae'r adolygydd yn ystyried y dylid cymryd y camau, ac
 - (e) nodi a yw'r adolygydd yn ystyried bod y camau yn debygol o gael eu cymryd o fewn y cyfnod hwnnw.

- (3) Rhaid i'r adroddiad hefyd gynnwys unrhyw wybodaeth arall am yr adolygiad, neu am drefniadau llywodraethu'r cyngor, y bydd Gweinidogion Cymru yn gofyn amdani.
- (4) Rhaid i'r adolygydd anfon copi o'r adroddiad ar adolygiad llywodraethu at—
- (a) y cyngor sir, a
 - (b) Gweinidogion Cymru.
- (5) Rhaid i'r cyngor sir gyhoeddi'r adroddiad o fewn y cyfnod o 14 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r dyddiad yr anfonir copi ohono at y cyngor sir o dan is-adran (4).

134 Ymateb y cyngor i adroddiad ar adolygiad llywodraethu

- (1) Rhaid i gyngor sir lunio ymateb i unrhyw adroddiad ar adolygiad llywodraethu a anfonir ato o dan adran 133(4).
- (2) Rhaid i'r ymateb nodi pa gamau (os oes rhai) y mae'r cyngor yn bwriadu eu cymryd yng ngoleuni'r adroddiad.
- (3) Rhaid i'r cyngor sir sicrhau bod fersiwn ddrafft o'r ymateb i'r adroddiad ar adolygiad llywodraethu ar gael i'w bwyllgor llywodraethu corfforaethol ac archwilio.
- (4) Rhaid i'r pwyllgor llywodraethu corfforaethol ac archwilio adolygu'r fersiwn ddrafft o'r ymateb i'r adroddiad ar adolygiad llywodraethu a chaiff argymell newidiadau i'r fersiwn ddrafft.
- (5) Wrth lunio fersiwn derfynol yr ymateb i'r adroddiad ar adolygiad llywodraethu, rhaid i'r cyngor sir—
- (a) rhoi sylw i unrhyw newidiadau sy'n cael eu hargymell gan y pwyllgor llywodraethu corfforaethol ac archwilio, a
 - (b) os nad yw'n gwneud newid sy'n cael ei argymell gan y pwyllgor, nodi'r argymhelliad yn yr ymateb, ynghyd â'r rhesymau pam na wnaeth y newid hwnnw.
- (6) Rhaid i'r cyngor sir—
- (a) anfon yr ymateb terfynol i'r adroddiad ar adolygiad llywodraethu at Weinidogion Cymru cyn diwedd y cyfnod o 31 o ddiwrnodau yn dechrau â'r dyddiad yr anfonir copi o'r adroddiad at y cyngor o dan adran 133(4), a
 - (b) cyhoeddi'r ymateb.
- (7) Caiff Gweinidogion Cymru estyn y cyfnod yn is-adran (6)(a) mewn unrhyw achos penodol os yw'n fodlon fod yr estyniad yn rhesymol er mwyn caniatáu i'r cyngor gyflawni ei ddyletswyddau o dan yr adran hon.
- (8) Caniateir estyn cyfnod o dan adran (7) fwy nag unwaith.

Cyfarwyddydau ymyrryd

135 Pŵer Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddydau ymyrryd

- (1) Caiff Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddyd ymyrryd i gyngor sir—
- (a) os ydynt wedi derbyn copi o adroddiad ar adolygiad llywodraethu mewn perthynas â'r cyngor, ynghyd ag ymateb y cyngor i'r adroddiad, a

(b) os ydynt yn ystyried bod rhoi cyfarwyddyd ymyrryd yn angenrheidiol neu'n briodol er mwyn sicrhau bod y cyngor yn cydymffurfio â'i ddyletswyddau o dan adran 111.

(2) Cyfarwyddyd o fewn adran 136, 137 neu 138 yw cyfarwyddyd ymyrryd.

5 **136 Cyfarwyddyd i gael gwasanaethau cymorth**

(1) Cyfarwyddyd o fewn yr adran hon yw cyfarwyddyd i gyngor sir ymrwymo i gontract neu drefniant arall gyda pherson penodedig, neu gyda pherson o ddisgrifiad penodedig, er mwyn darparu gwasanaethau cymorth penodedig i'r cyngor.

10 (2) "Gwasanaethau cymorth" yw gwasanaethau y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn darparu gwybodaeth, cyngor, hyfforddiant, neu gymorth arall.

(3) Caiff cyfarwyddyd o fewn yr adran hon ei gwneud yn ofynnol i'r contract neu'r trefniant arall gynnwys telerau ac amodau penodedig.

137 Cyfarwyddyd i gymryd camau penodedig

15 Cyfarwyddyd o fewn yr adran hon yw cyfarwyddyd i gyngor sir gymryd camau penodedig, o fewn cyfnod penodedig.

138 Cyfarwyddyd bod swyddogaethau i'w cyflawni gan Weinidogion Cymru neu eu henwebai

(1) Cyfarwyddyd o fewn yr adran hon yw cyfarwyddyd bod swyddogaethau penodedig cyngor sir i'w harfer gan Weinidogion Cymru neu gan berson a enwebir ganddynt.

20 (2) Os yw cyfarwyddyd o fewn yr adran hon mewn grym –

(a) rhaid i'r cyngor y mae'n berthnasol iddo gydymffurfio â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru neu eu henwebai o ran arfer y swyddogaethau, a

(b) mae swyddogaethau'r cyngor sy'n berthnasol iddo i'w trin at bob diben fel rhai sy'n arferadwy gan Weinidogion Cymru neu eu henwebai.

25 (3) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth sy'n diwygio, yn diddymu, yn dirymu neu'n cymhwyso unrhyw ddarpariaeth statudol (pryd bynnag y'i pasiwyd neu y'i gwnaed, gan gynnwys darpariaeth statudol sydd wedi ei chynnwys yn y Ddeddf hon neu wedi ei gwneud oddi tani), at ddibenion ei chymhwysiad mewn perthynas â swyddogaethau sy'n arferadwy gan Weinidogion Cymru neu eu henwebai
30 yn rhinwedd cyfarwyddyd o fewn yr adran hon.

(4) Yn yr adran hon, ystyr "darpariaeth statudol" yw darpariaeth mewn –

(a) Mesur neu Ddeddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

(b) Deddf Seneddol;

35 (c) offeryn a wnaed o dan Fesur neu Ddeddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru, neu o dan Ddeddf Seneddol.

139 Darpariaeth gyffredinol ynghylch cyfarwyddydau ymyrryd

(1) Rhaid i gyngor sir gydymffurfio â chyfarwyddyd ymyrryd a roddir iddo.

(2) O ran cyfarwyddyd ymyrryd –

- (a) rhaid iddo fod mewn ysgrifen;
- (b) caniateir ei amrywio neu ei ddiryimu drwy gyfarwyddyd diweddarach.

140 Dyletswydd i gydweithredu

- (1) Rhaid i gyngor sir ddarparu i berson o fewn is-adran (2) ba bynnag gyfleusterau a chymorth y mae'n rhesymol i'r person ofyn amdanynt neu amdano mewn cysylltiad ag arfer swyddogaethau yn rhinwedd cyfarwyddyd ymyrryd gan gynnwys, ymysg pethau eraill, drwy ddarparu dogfennau, cofnodion a gwybodaeth arall.
- (2) Y personau yw –
- (a) Gweinidogion Cymru;
 - (b) unrhyw berson a awdurdoddir gan Weinidogion Cymru at ddibenion yr adran hon;
 - (c) unrhyw berson sy'n gweithredu o dan gyfarwyddyd ymyrryd;
 - (d) unrhyw berson sy'n cynorthwyo –
 - (i) Gweinidogion Cymru, neu
 - (ii) person a grybwyllir ym mharagraff (b) neu (c).

141 Pwerau mynediad ac archwilio

- (1) Mae gan berson sydd o fewn is-adran (2), ar bob adeg resymol –
- (a) hawl i gael mynediad i adeiladau'r cyngor sir o dan sylw;
 - (b) hawl i archwilio, a chymryd copïau, o unrhyw gofnodion neu ddogfennau eraill a gedwir gan y cyngor hwnnw, ac unrhyw ddogfennau sy'n cynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â'r cyngor hwnnw, y mae'r person yn ystyried eu bod yn berthnasol i arfer swyddogaethau'r person o dan neu yn rhinwedd y Bennod hon.
- (2) Mae'r personau a ganlyn o fewn yr is-adran hon –
- (a) person a bennir mewn cyfarwyddyd o fewn adran 136 a roddir i gyngor sir neu, pan fo cyfarwyddyd o fewn adran 136 a roddir i gyngor sir yn pennu disgrifiad o bersonau, y person y mae'r cyngor sir yn ymrwymo ag ef i'r contract neu'r trefniant arall sy'n ofynnol gan y cyfarwyddyd;
 - (b) Gweinidogion Cymru, pan fyddant wedi rhoi cyfarwyddyd i gyngor sir o fewn adran 138 bod swyddogaethau penodedig y cyngor i gael eu harfer gan Weinidogion Cymru;
 - (c) person a enwebir gan gyfarwyddyd o fewn adran 138 a roddir i gyngor sir.
- (3) Wrth arfer yr hawl o dan is-adran (1)(b) i archwilio cofnodion neu ddogfennau eraill –
- (a) mae gan berson ("P") hawl i gael mynediad i unrhyw gyfrifiadur ac unrhyw gyfarpar neu ddeunydd cysylltiedig a ddefnyddir neu a ddefnyddiwyd mewn cysylltiad â'r cofnodion neu'r dogfennau eraill o dan sylw, ac i'w harchwilio a gwirio eu gweithrediad, a
 - (b) gall P ei gwneud yn ofynnol i'r personau a ganlyn ddarparu unrhyw gymorth y gall P ofyn yn rhesymol amdano (gan gynnwys, ymysg pethau eraill, sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'w harchwilio neu i'w chopïo ar ffurf ddarllenadwy) –

- (i) person sydd yn neu sydd wedi defnyddio'r cyfrifiadur, neu y defnyddir neu y defnyddiwyd y cyfrifiadur ar ei ran;
- (ii) person sy'n gyfrifol am y cyfrifiadur, y cyfarpar neu'r deunydd, neu sydd fel arall yn ymwneud â'i weithredu.

5 (4) Mae unrhyw gyfeiriad yn yr adran hon at berson sy'n dod o fewn is-adran (2) yn cynnwys cyfeiriad at unrhyw berson sy'n cynorthwyo'r person hwnnw.

142 Dehongli'r Bennod

- (1) Yn y Bennod hon, ystyr "pennu", mewn perthynas â chyfarwyddyd, yw wedi ei bennu yn y cyfarwyddyd.
- 10 (2) Mae cyfeiriadau yn y Bennod hon at "dogfennau" a "cofnodion" ill dau yn cynnwys gwybodaeth a gofnodwyd ar unrhyw ffurf.

PENNOD 5

CYDLYNU RHWNG RHEOLEIDDWYR

143 Cydlynu swyddogaethau perthnasol rheoleiddwyr perthnasol

- 15 (1) Rhaid i'r rheoleiddwyr perthnasol roi sylw i'r angen am gydlynu wrth arfer swyddogaethau perthnasol.
- (2) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth bellach ar gyfer cydlynu'r modd y mae rheoleiddwyr perthnasol yn arfer swyddogaethau perthnasol, ac mewn cysylltiad â hynny.
- 20 (3) Caiff rheoliadau a wneir o dan is-adran (2), ymysg pethau eraill, wneud darpariaeth ar gyfer –
 - (a) llunio a chyhoeddi amserlen ar gyfer arfer swyddogaethau perthnasol;
 - (b) ei gwneud yn ofynnol i reoleiddwyr perthnasol gadw at yr amserlen;
 - (c) rhannu gwybodaeth rhwng rheoleiddwyr perthnasol mewn cysylltiad ag arfer
 - 25 (d) rheoleiddwyr perthnasol i ymgynghori â'i gilydd mewn perthynas ag arfer swyddogaethau perthnasol.

PENNOD 6

DARPARIAETH AMRYWIOL YNGHYLCH PENODAU 1 I 5

30 144 Canllawiau

Rhaid i berson sy'n arfer swyddogaethau o dan y Rhan hon roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru.

145 Arfer swyddogaethau o dan y Rhan hon

- 35 (1) Caniateir i'r swyddogaethau a roddir i gyngor sir gan y Rhan hon (ac eithrio swyddogaethau a roddir yn benodol i bwyllgor o gyngor) gael eu harfer gan y cyngor neu gan ei weithrediaeth, yn unol â phenderfyniad y cyngor.

- (2) Nid yw adran 101 o Ddeddf 1972 (trefniadau ar gyfer cyflawni swyddogaethau gan awdurdodau lleol) yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw un neu ragor o swyddogaethau cyngor sir o dan y Rhan hon (gan gynnwys y swyddogaeth yn is-adran (1)).
- 5 (3) Os yw cyngor sir yn penderfynu bod unrhyw swyddogaeth o dan y Rhan hon i'w harfer gan ei weithrediaeth, nid yw adran 14 na (yn ôl y digwydd) 15 o Ddeddf 2000 (cyflawni swyddogaethau gan weithrediaethau) yn gymwys mewn perthynas â'r swyddogaeth honno.

146 Dehongli'r Rhan

10 Yn y Rhan hon—

mae i “adolygiad llywodraethu” (“*governance review*”) yr ystyr a roddir yn adran 128 ac mae i “adroddiad ar adolygiad llywodraethu” (“*governance review report*”) yr ystyr a roddir yn adran 133;

mae i “adolygydd” (“*reviewer*”) yr ystyr a roddir yn adran 128(3)(b);

15 mae i “asesiad cyfun” (“*combined assessment*”) yr ystyr a roddir yn adran 124 ac mae i “adroddiad ar asesiad cyfun” (“*combined assessment report*”) yr ystyr a roddir yn adran 125;

20 mae i “asesiad gan gymheiriaid” (“*peer assessment*”) yr ystyr a roddir yn adran 118 ac mae i “adroddiad ar asesiad gan gymheiriaid” (“*peer assessment report*”) yr ystyr a roddir yn adran 120;

mae i “bwrdd gwasanaethau cyhoeddus” (“*public services board*”) yr un ystyr ag yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (dccc 2);

mae i “cyfarwyddyd ymyrryd” (“*intervention direction*”) yr ystyr a roddir yn adran 135;

25 mae “cynllun corfforaethol” (“*corporate plan*”) i'w ddehongli yn unol ag adran 112;

mae i “hunanasesiad” (“*self assessment*”) yr ystyr a roddir yn adran 116 ac mae i “adroddiad hunanasesu” (“*self assessment report*”) yr ystyr a roddir yn adran 117;

mae i “rheoleiddiwr perthnasol” (“*relevant regulator*”) a “swyddogaethau perthnasol” (“*relevant functions*”) yr ystyr a roddir yn adran 123;

30 mae i “trefniadau llywodraethu” (“*governance arrangements*”) yr ystyr a roddir yn adran 111.

147 Diwygio Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009

(1) Ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (mccc 2), yn adran 1 (ystyr “awdurdod gwella Cymreig”), hepgorer paragraff (a).

35 (2) O ganlyniad i'r diwygiad yn is-adran (1), yn Rhan 1 o'r Mesur hwnnw—

(a) yn adran 4 (agweddau ar wella), hepgorer is-adran (3)(a);

(b) yn adran 11 (ystyr “pwerau cydlafurio”), hepgorer is-adrannau (1)(b) a (2);

(c) yn adran 16 (ystyr “rheoleiddwyr perthnasol” a “swyddogaethau perthnasol”), hepgorer is-adran (2)(a) a (b);

40 (d) yn adran 22 (adroddiadau am arolygiadau arbennig), hepgorer is-adran (5).

PENNOD 7

PWYLLGORAU LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL AC ARCHWILIO

148 Ailenwi pwyllgorau archwilio

- (1) Yn adran 81 o Fesur 2011 (awdurdodau lleol i benodi pwyllgorau archwilio), yn is-adran (1), yn lle “(“pwyllgor archwilio”)” rhodder “(“pwyllgor llywodraethu corfforaethol ac archwilio”)”.
- (2) Mae Atodlen 9 yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Fesur 2011 sy’n ymwneud ag ailenwi pwyllgorau archwilio.

149 Swyddogaethau pwyllgor llywodraethu corfforaethol ac archwilio

- (1) Ar ôl adran 81 o Fesur 2011 mewnosoder—

“81A Darpariaeth bellach ynghylch swyddogaethau pwyllgorau

- (1) Wrth arfer ei swyddogaethau o dan adran 81(1) rhaid i bwyllgor llywodraethu corfforaethol ac archwilio awdurdod lleol asesu, yn benodol—

(a) gallu’r awdurdod i gydymffurfio â’i ddyletswyddau o dan adran 111 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2017;

(b) gallu’r awdurdod i wneud cynnydd o ran y blaenoriaethau a nodir yn y datganiad sydd wedi ei gynnwys yn ei gynllun corfforaethol o dan adran 112(2) o’r Ddeddf honno;

(c) y trefniadau a wnaed gan yr awdurdod—

(i) o ran hunanasesiadau o dan adran 116 o’r Ddeddf honno;

(ii) o dan adran 118 o’r Ddeddf honno (asesiadau gan gymheiriaid), a

(d) gallu’r awdurdod lleol i ymdrin yn effeithiol â chwynion.

- (2) Rhaid i’r pwyllgor llywodraethu corfforaethol ac archwilio adrodd i’r awdurdod lleol ar asesiad o dan is-adran (1).

- (3) Mae gan bwyllgor llywodraethu corfforaethol ac archwilio hefyd swyddogaethau o dan—

(a) adran 117 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2017 (adroddiadau hunanasesu);

(b) adran 121 o’r Ddeddf honno (ymatebion i adroddiadau ar asesiadau gan gymheiriaid);

(c) adran 126 o’r Ddeddf honno (ymatebion i adroddiadau ar asesiadau cyfun);

(d) adran 134 o’r Ddeddf honno (ymatebion i adroddiadau ar adolygiad llywodraethu).”

150 Aelodaeth pwyllgor llywodraethu corfforaethol ac archwilio

(1) Mae adran 82 o Fesur 2011 (aelodaeth) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn is-adran (2) –

(a) ym mharagraff (a) hepgorer y geiriau “o leiaf”;

(b) yn lle paragraff (b) rhodder –

“(b) bod un rhan o dair o aelodau’r pwyllgor hwnnw yn bersonau lleyg;”.

(3) Ar ôl is-adran (5) mewnosoder –

“(5A) Mae pwyllgor llywodraethu corfforaethol ac archwilio i benodi –

(a) aelod o’r pwyllgor yn gadeirydd arno (“cadeirydd y pwyllgor”), a

(b) aelod o’r pwyllgor yn ddirprwy i gadeirydd y pwyllgor (“yr is-gadeirydd”).

(5B) Rhaid i’r aelod a benodir yn gadeirydd y pwyllgor fod yn berson lleyg.

(5C) Ni chaiff yr aelod a benodir yn is-gadeirydd fod yn aelod o weithrediaeth yr awdurdod lleol.”

(4) Hepgorer is-adran (6).

151 Ystyr person lleyg

Yn adran 87 o Fesur 2011 (dehongli), hepgorer y diffiniad o “aelod lleyg” a mewnosoder –

“ystyr “person lleyg” (“lay person”) yw person –

(a) nad yw’n aelod nac yn swyddog o unrhyw awdurdod lleol,

(b) nad yw, ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod o ddeuddeg mis sy’n dod i ben â’r dyddiad y penodir y person hwnnw, wedi bod yn aelod nac yn swyddog o unrhyw awdurdod lleol, ac

(c) nad yw’n briod nac yn bartner sifil i aelod na swyddog o unrhyw awdurdod lleol.”.

152 Trafodion etc.

(1) Mae adran 83 o Fesur 2011 (trafodion) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn lle is-adrannau (1) a (2) rhodder –

“(1) Mae cyfarfod o bwyllgor llywodraethu corfforaethol ac archwilio i’w gadeirio –

(a) gan gadeirydd y pwyllgor, neu

(b) os yw cadeirydd y pwyllgor yn absennol, gan yr is-gadeirydd.

(2) Os yw cadeirydd y pwyllgor a’r is-gadeirydd ill dau yn absennol caiff y pwyllgor benodi aelod arall o’r pwyllgor (na chaiff fod yn aelod o weithrediaeth yr awdurdod lleol) i gadeirio’r cyfarfod.”

- (3) Hepgorer is-adran (8).

RHAN 6

CYNGHORAU CYMUNED

PENNOD 1

5 ADOLYGIAD O DREFNIADAU CYNGHORAU CYMUNED

153 Dyletswydd i adolygu trefniadau cyngorau cymuned

- (1) Rhaid i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (“y Comisiwn”) gynnal adolygiad o gynghorau cymuned mewn perthynas â phob un o siroedd Cymru, fel a nodir yn Atodlen 1 (ond caiff y Comisiwn ddechrau cynnal yr adolygiadau ar unrhyw adeg cyn 1 Ebrill 2020).
- (2) Yn y Bennod hon, ystyr “adolygiad o gynghorau cymuned”, mewn perthynas â sir, yw adolygiad o’r cymunedau yn ardal y sir a gynhelir at y diben o argymhell bod y cyngor ar gyfer y sir yn gwneud newidiadau mewn cysylltiad ag—
- (a) cynghorau ar gyfer cymunedau a chynghorau cymuned cyffredin yn ardal y sir, a
- (b) y trefniadau etholiadol ar gyfer cymunedau yn ardal y sir.
- (3) At ddibenion is-adran (2)(a), caiff y Comisiwn argymhell y dylai’r cyngor ar gyfer sir sy’n destun adolygiad, mewn perthynas â chymunedau yn ardal y sir a’u cynghorau—
- (a) sefydlu cyngor ar wahân ar gyfer cymuned;
- (b) diddymu cyngor ar wahân ar gyfer cymuned;
- (c) grwpio dwy gymuned neu ragor ynghyd o dan gyngor cymuned cyffredin newydd;
- (d) ychwanegu un gymuned neu ragor at grŵp o gymunedau y ceir cyngor cymuned cyffredin ar ei gyfer;
- (e) gwahanu un gymuned neu ragor oddi wrth grŵp o gymunedau;
- (f) diddymu grŵp o gymunedau a’i gyngor cymuned cyffredin;
- (g) rhoi enw i gyngor newydd ar gyfer cymuned neu gyngor cymuned cyffredin newydd, neu newid enw cyngor presennol ar gyfer cymuned neu gyngor cymuned cyffredin presennol.
- (4) Yn is-adran (2)(b) ystyr “trefniadau etholiadol”, mewn perthynas â chymuned, yw—
- (a) nifer yr aelodau o gyngor ar gyfer y gymuned neu gyngor cymuned cyffredin ar gyfer grŵp sy’n cynnwys y gymuned;
- (b) rhaniad y gymuned yn wardiau cymuned at ddiben ethol aelodau i gyngor ar gyfer y gymuned neu gyngor cymuned cyffredin ar gyfer grŵp sy’n cynnwys y gymuned;
- (c) dosrannu aelodau o gyngor ar gyfer y gymuned, neu o gyngor cymuned cyffredin ar gyfer grŵp sy’n cynnwys y gymuned, ymhlith wardiau cymuned;

(d) nifer, math a ffiniau unrhyw wardiau cymuned y mae'r gymuned i gael ei rhannu iddynt at ddiben ethol aelodau i gyngor ar gyfer y gymuned neu gyngor cymuned cyffredin ar gyfer grŵp sy'n cynnwys y gymuned;

(e) nifer yr aelodau sydd i'w hethol ar gyfer ward gymuned;

(f) enw ward gymuned.

(5) Yn is-adran (4)(d) mae'r cyfeiriad at y math o ward gymuned yn gyfeiriad at ba un a yw'r ward gymuned yn ward un aelod neu'n ward amlaelod; ac at y diben hwn –

ystyr "ward amlaelod" ("*multiple member ward*") yw ward y mae nifer penodedig (uwch nag un) o aelodau i'w hethol ar gyfer y ward;

ystyr "ward un aelod" ("*single member ward*") yw ward y mae un aelod yn unig i'w ethol ar ei chyfer.

(6) Caiff y Comisiwn, o ganlyniad i argymhellion a wneir ganddo mewn perthynas â materion a nodir yn is-adran (2)(a) a (b), argymhell y dylai cyngor sir –

(a) newid ffiniau cymunedau yn ardal y sir;

(b) cyfansoddi cymuned newydd o fewn ardal y sir (drwy uno cymunedau presennol yn eu cyfanrwydd neu yn rhannol, neu fel arall);

(c) diddymu cymuned bresennol yn ardal y sir,

a chaiff y Comisiwn hefyd wneud argymhellion o ran enw cymuned addasedig neu gymuned newydd.

154 Cynnal adolygiad o gynghorau cymuned

(1) Wrth gynnal adolygiad o gynghorau cymuned, rhaid i'r Comisiwn geisio sicrhau llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.

(2) Wrth ystyried mewn adolygiad o gynghorau cymuned a ddylid rhannu cymuned yn wardiau cymuned, rhaid i'r Comisiwn roi sylw i –

(a) a yw nifer neu ddsbarthiad yr etholwyr llywodraeth leol ar gyfer y gymuned yn gwneud un etholiad ar gyfer cynghorwyr cymuned yn anymarferol neu'n anghyfleus, a

(b) a yw'n ddymunol i unrhyw ardal o'r gymuned gael cynrychiolaeth ar wahân ar y cyngor cymuned.

(3) Pan benderfynir, mewn adolygiad o gynghorau cymuned, y dylid rhannu cymuned yn wardiau cymuned, neu y dylid gwneud newidiadau i unrhyw wardiau presennol mewn cymuned, wrth ystyried maint a ffiniau'r wardiau ac wrth bennu nifer y cynghorwyr cymuned sydd i'w hethol ar gyfer pob ward rhaid i'r Comisiwn roi sylw i –

(a) unrhyw newid yn nifer neu ddsbarthiad yr etholwyr llywodraeth leol ar gyfer y gymuned sy'n debygol o ddigwydd o fewn y cyfnod o bum mlynedd yn union ar ôl gwneud unrhyw argymhelliad,

(b) dymunoldeb pennu ffiniau sy'n hawdd eu hadnabod ac a fyddant yn parhau felly, ac

(c) unrhyw glymau lleol a fydd yn cael eu datod wrth bennu unrhyw ffiniau penodol.

(4) Pan benderfynir, mewn adolygiad o gynghorau cymuned, na ddylai cymuned a rennir yn wardiau gael ei rhannu yn wardiau mwyach, neu y dylid newid nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol ar gyfer cymuned nad yw wedi ei rhannu yn wardiau, wrth bennu nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol ar gyfer pob cymuned rhaid i'r Comisiwn roi sylw i—

- 5 (a) nifer a dosbarthiad yr etholwyr llywodraeth leol ar gyfer y gymuned, a
 (b) unrhyw newid yn nifer neu ddsbarthiad yr etholwyr llywodraeth leol ar gyfer y gymuned sy'n debygol o ddigwydd o fewn y cyfnod o bum mlynedd yn union ar ôl pennu nifer y cynghorwyr cymuned.

10 (5) At ddibenion is-adrannau (2) i (4) mae sylw i'w roi i unrhyw anghysondeb rhwng nifer yr etholwyr llywodraeth leol a nifer y personau sy'n gymwys i fod yn etholwyr llywodraeth leol (fel a welir mewn ystadegau swyddogol perthnasol).

(6) Yn yr adran hon—

15 ystyr "etholwr llywodraeth leol" ("*local government elector*") yw person sydd wedi ei gofrestru'n etholwr llywodraeth leol yn y gofrestr etholwyr yn unol â darpariaethau Deddfau Cynrychiolaeth y Bobl;

ystyr "ystadegau swyddogol perthnasol" yw'r ystadegau swyddogol o fewn yr ystyr a roddir i "relevant official statistics" yn adran 6 o Ddeddf y Gwasanaeth Ystadegau a Chofrestru 2007 (p.18) y mae'r Comisiwn yn ystyried eu bod yn briodol.

20 155 Hysbysu cyn cynnal adolygiad

Cyn cynnal adolygiad o gynghorau cymuned, rhaid i'r Comisiwn gymryd y camau y mae'n ystyried eu bod yn briodol er mwyn dwyn yr adolygiad i sylw—

- 25 (a) pob cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol a sefydlwyd o dan adran 20 o Ddeddf 1972 y mae ei ardal o fewn ardal y sir y cynhelir yr adolygiad mewn perthynas â hi;
- (b) y cynghorau ar gyfer cymunedau a'r chynghorau cymuned cyffredin yn ardal y sir;
- (c) yr etholwyr llywodraeth leol ar gyfer cymuned yn ardal y sir nad oes ganddi gyngor ar wahân ac nad yw wedi ei grwpio o dan gyngor cymuned cyffredin;
- 30 (d) pob sefydliad sy'n cynrychioli cyngor ar gyfer cymuned neu gyngor cymuned cyffredin yn ardal y sir ac sydd wedi gofyn i'r Comisiwn ymgynghori ag ef;
- (e) pob undeb llafur a gydnabyddir (o fewn ystyr Deddf Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992 (p.52)) gan gyngor ar gyfer cymuned neu gyngor cymuned cyffredin yn ardal y sir;
- 35 (f) unrhyw bersonau eraill y mae'n ystyried ei bod yn debygol bod ganddynt ddiddordeb yn yr adolygiad.

156 Ymgynghori, ymchwilio ac adrodd

(1) Wrth gynnal adolygiad o gynghorau cymuned, rhaid i'r Comisiwn—

- (a) ymgynghori â—

- (i) pob cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol a sefydlwyd o dan adran 20 o Ddeddf 1972 y mae ei ardal o fewn ardal y sir y cynhelir yr adolygiad mewn perthynas â hi,
- (ii) y cyngor ar gyfer y sir y cynhelir yr adolygiad mewn perthynas â hi (ar ôl etholiadau cyffredin cyngorwyr ar gyfer y sir honno a gynhelir ar 2 Mai 2019 o dan adran 14),
- (iii) ymgynghoreion yr adolygiad, a
- (iv) unrhyw bersonau eraill y mae'n ystyried ei bod yn briodol ymgynghori â hwy, a
- (b) cynnal yr ymchwiliadau y mae'n ystyried eu bod yn briodol.
- (2) Yn y Bennod hon ystyr "ymgynghoreion yr adolygiad", mewn perthynas â sir, yw –
- (a) y cyngorau ar gyfer cymunedau a'r cyngorau cymuned cyffredin yn ardal y sir;
- (b) yr etholwyr llywodraeth leol ar gyfer cymuned yn ardal y sir nad oes ganddi gyngor ar wahân ac nad yw wedi ei grwpio o dan gyngor cymuned cyffredin;
- (c) pob sefydliad sy'n cynrychioli cyngor ar gyfer cymuned neu gyngor cymuned cyffredin yn ardal y sir ac sydd wedi gofyn i'r Comisiwn ymgynghori ag ef;
- (d) pob undeb llafur a gydnabyddir (o fewn ystyr Deddf Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhai) 1992 (p.52)) gan gyngor ar gyfer cymuned neu gyngor cymuned cyffredin yn ardal y sir.
- (3) Rhaid i bob cyngor ar gyfer cymuned a chyngor cymuned cyffredin ddarparu i'r Comisiwn yr wybodaeth honno y bydd y Comisiwn yn gofyn yn rhesymol amdani mewn cysylltiad ag adolygiad o gyngor cymuned.
- (4) Ar ôl cynnal adolygiad o gyngorau cymuned, rhaid i'r Comisiwn lunio adroddiad sy'n cynnwys –
- (a) unrhyw argymhellion ar gyfer newid mewn cysylltiad â'r materion yn adran 153(2) y mae'n ystyried eu bod yn briodol neu, os nad yw'n ystyried bod unrhyw newid yn briodol, argymhelliad i'r perwyl hwnnw, a
- (b) manylion yr adolygiad a gynhaliwyd ganddo.
- (5) Rhaid i'r Comisiwn, ar 1 Ebrill 2020 neu wedi hynny –
- (a) anfon yr adroddiad at –
- (i) y cyngor ar gyfer y sir y mae'r adolygiad yn ymwneud â hi,
- (ii) y cyngorau ar gyfer cymunedau a'r cyngorau cymuned cyffredin yn ardal y sir, a
- (iii) Gweinidogion Cymru,
- (b) cyhoeddi'r adroddiad ar wefan,
- (c) sicrhau bod yr adroddiad ar gael i edrych arno (yn ddi-dâl) yn ystod y cyfnod ar gyfer sylwadau yn ei swyddfeydd ac yn swyddfeydd y cyngor ar gyfer y sir y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi,
- (d) sicrhau bod yr adroddiad ar gael i edrych arno (yn ddi-dâl) yn ystod y cyfnod ar gyfer sylwadau mewn lleoliad ym mhob un o'r cymunedau yn ardal y sir y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi,

- (e) hysbysu'r personau a ganlyn sut i gael copi o'r adroddiad –
- (i) ymgynghoreion yr adolygiad (ac eithrio'r rheini a grybwyllir ym mharagraff (a)(ii),
 - (ii) unrhyw berson arall yr ymgynghorodd ag ef o dan is-adran (1)(a)(iv), a
 - (iii) unrhyw berson arall a gyflwynodd dystiolaeth iddo yn ystod yr adolygiad (ac eithrio cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol sy'n peidio â bodoli ar 1 Ebrill 2020),
- (f) gwahodd sylwadau ar yr argymhellion yn yr adroddiad, ac
- (g) hysbysu'r personau a ganlyn am y cyfnod ar gyfer sylwadau –
- (i) y cyngor ar gyfer y sir y cynhelir yr adolygiad mewn perthynas â hi,
 - (ii) ymgynghoreion yr adolygiad,
 - (iii) unrhyw berson arall yr ymgynghorodd ag ef o dan is-adran 156(1)(a)(iv),
 - (iv) unrhyw berson arall a gyflwynodd dystiolaeth iddo yn ystod yr adolygiad (ac eithrio cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol sy'n peidio â bodoli ar 1 Ebrill 2020),
 - (v) Gweinidogion Cymru, a
 - (vi) unrhyw berson arall y mae'n ystyried ei bod yn briodol ei hysbysu.
- (6) At ddibenion is-adran (5), "y cyfnod ar gyfer sylwadau" yw cyfnod nad yw'n llai na 6 wythnos, nac yn hwy na 12 wythnos, (fel a benderfynir gan y Comisiwn) sy'n dechrau'n ddim cynharach nag wythnos ar ôl rhoi hysbysiad am y cyfnod o dan baragraff (g).

157 Adroddiad terfynol ar adolygiad

- (1) Ar ôl i'r cyfnod ar gyfer sylwadau o dan adran 156(5) ddod i ben, rhaid i'r Comisiwn ystyried ei argymhellion gan roi sylw i unrhyw sylwadau a gafwyd ganddo yn ystod y cyfnod hwnnw.
- (2) Wedi hynny rhaid i'r Comisiwn lunio adroddiad pellach sy'n cynnwys –
- (a) unrhyw argymhellion ar gyfer newid mewn cysylltiad â'r materion yn adran 153(2) y mae'n ystyried eu bod yn briodol neu, os nad yw'n ystyried bod unrhyw newid yn briodol, argymhelliad i'r perwyl hwnnw,
 - (b) manylion yr adolygiad a'r ymgynghoriad a gynhaliwyd mewn cysylltiad â'r argymhellion, ac
 - (c) manylion unrhyw newidiadau i'r argymhellion a wnaed yng ngoleuni'r sylwadau a gafwyd, ac esboniad paham y gwnaed y newidiadau hynny.
- (3) Rhaid i'r Comisiwn –
- (a) cyflwyno'r adroddiad i'r cyngor ar gyfer y sir y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi yn ddim hwyrach na'r dyddiad a bennir gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau,
 - (b) cyhoeddi'r adroddiad ar wefan,

- (c) sicrhau bod yr adroddiad ar gael i edrych arno (yn ddi-dâl) yn ei swyddfeydd ac yn swyddfeydd y cyngor ar gyfer y sir y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi, am gyfnod o 6 wythnos o leiaf gan ddechrau â'r dyddiad y cyflwynir yr adroddiad i'r cyngor,
- 5 (d) sicrhau bod yr adroddiad ar gael i edrych arno (yn ddi-dâl) mewn lleoliad ym mhob un o'r cymunedau yn ardal y sir y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi am gyfnod o 6 wythnos o leiaf gan ddechrau â'r dyddiad y cyflwynir yr adroddiad i'r cyngor,
- (e) anfon copi o'r adroddiad at—
- 10 (i) y cynghorau ar gyfer cymunedau a'r cynghorau cymuned cyffredin yn ardal y sir, a
- (ii) Gweinidogion Cymru, ac
- (f) hysbysu'r personau a ganlyn sut i gael copi o'r adroddiad—
- 15 (i) ymgynghoreion yr adolygiad (ac eithrio'r rheini a grybwyllir ym mharagraff (e)(i)),
- (ii) unrhyw berson arall yr ymgynghorodd ag ef o dan adran 156(1)(a)(iv), a
- (iii) unrhyw berson arall a gyflwynodd dystiolaeth iddo yn ystod yr adolygiad (ac eithrio cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol sy'n peidio â bodoli ar 1 Ebrill 2020).

20 **158 Gweithredu argymhellion y Comisiwn gan gyngor sir**

- (1) Rhaid i'r cyngor ar gyfer y sir y mae adroddiad pellach a lunnir gan y Comisiwn o dan adran 157 yn ymwneud â hi, pan fo'r adroddiad yn gwneud argymhellion ar gyfer newid, wneud y canlynol drwy orchymyn—
- 25 (a) gweithredu'r argymhellion hynny heb eu haddasu, neu
- (b) gweithredu'r argymhellion hynny ynghyd ag unrhyw addasiadau y cytunir arnynt gyda'r Comisiwn.
- (2) Ni chaiff y cyngor sir wneud gorchymyn o dan is-adran (1)—
- (a) cyn diwedd y cyfnod o 6 wythnos sy'n dechrau â'r dyddiad y cyflwynodd y Comisiwn ei adroddiad pellach o dan adran 157 i'r cyngor, a
- 30 (b) ar ôl diwedd y cyfnod o 6 mis sy'n dechrau â'r dyddiad hwnnw.
- (3) Rhaid i orchymyn o dan is-adran (1) ddod i rym cyn y dyddiad a bennir gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau.
- (4) Rhaid i'r cyngor sir, ar y diwrnod y mae'n gwneud y gorchymyn—
- 35 (a) anfon copi o'r gorchymyn at y Comisiwn ac at bob cyngor ar gyfer cymuned a chyngor cymuned cyffredin y mae'r gorchymyn yn effeithio arno, a
- (b) cyhoeddi'r gorchymyn ar wefan.

159 Gorchymyn trefniadau cynghorau cymuned os nad yw'r Comisiwn yn cyflwyno adroddiad

- (1) Os nad yw'r Comisiwn wedi cyflwyno adroddiad terfynol o dan adran 157 i'r cyngor ar gyfer y sir y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi cyn y dyddiad a bennir gan Weinidogion Cymru o dan adran 157(3) caiff Gweinidogion Cymru wneud gorchymyn o dan is-adran (2).
- 5 (2) Caiff Gweinidogion Cymru wneud darpariaeth drwy orchymyn—
- (a) ar gyfer unrhyw un neu ragor o'r pethau a nodir yn adran 153(3), mewn perthynas â'r sir y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi;
- (b) yn newid y trefniadau etholiadol ar gyfer cymunedau yn y sir honno.
- (3) Caiff gorchymyn o dan is-adran (2) hefyd wneud darpariaeth ganlyniadol berthnasol mewn perthynas â'r sir o dan sylw.
- 10 (4) Rhaid i'r Comisiwn ddarparu i Weinidogion Cymru yr wybodaeth honno y bydd Gweinidogion Cymru'n gofyn yn rhesymol amdani mewn perthynas ag unrhyw faterion sydd wedi dod i'w sylw o ganlyniad i—
- (a) unrhyw ymgynghoriad o dan adran 156,
- 15 (b) unrhyw ymchwiliadau o dan yr adran honno,
- (c) llunio adroddiad o dan adran 156 neu 157, neu
- (d) unrhyw beth arall a wnaed wrth gynnal adolygiad o gynghorau cymuned.
- (5) Rhaid i Weinidogion Cymru, ar y diwrnod y maent yn gwneud gorchymyn o dan is-adran (2)—
- 20 (a) anfon copi o'r gorchymyn at y Comisiwn, y cyngor sir a phob cyngor ar gyfer cymuned a chyngor cymuned cyffredin y mae'r gorchymyn yn effeithio arno, a
- (b) cyhoeddi'r gorchymyn ar wefan.
- (6) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, amrywio neu ddirymu gorchymyn o dan is-adran (2) (neu'r is-adran hon).
- 25 (7) Yn yr adran hon—
- ystyr "darpariaeth ganlyniadol berthnasol" ("*relevant consequential provision*") yw darpariaeth sy'n gwneud unrhyw beth y gallai'r Comisiwn ei argymhell o dan adran 153(6), ac
- mae i "trefniadau etholiadol" ("*electoral arrangements*") yr ystyr a roddir yn adran 153(4).
- 30

160 Gweithredu gan Weinidogion Cymru os nad yw'r cyngor sir yn gweithredu

- (1) Os nad yw cyngor sir wedi gwneud gorchymyn o dan adran 158 cyn diwedd y cyfnod o 6 mis sy'n dechrau â'r dyddiad y cyflwynodd y Comisiwn ei adroddiad pellach o dan adran 157 i'r cyngor, caiff Gweinidogion Cymru wneud y canlynol drwy orchymyn—
- 35 (a) gweithredu'r argymhellion ar gyfer newid a gynhwysir yn yr adroddiad heb addasiadau, neu
- (b) gweithredu'r argymhellion hynny ar gyfer newid ynghyd ag unrhyw addasiadau y cytunir arnynt gyda'r Comisiwn.
- (2) Rhaid i'r Comisiwn ddarparu i Weinidogion Cymru unrhyw wybodaeth bellach mewn perthynas â'i argymhellion y bydd Gweinidogion Cymru'n gofyn yn rhesymol amdani.
- 40

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru, ar y diwrnod y maent yn gwneud gorchymyn o dan is-adran (1) –

(a) anfon copi o'r gorchymyn at y Comisiwn, y cyngor sir a phob cyngor ar gyfer cymuned a chyngor cymuned cyffredin y mae'r gorchymyn yn effeithio arno, a

(b) cyhoeddi'r gorchymyn ar wefan.

161 Gorchmynion gweithredu: darpariaeth drosiannol, ganlyniadol etc.

(1) Caiff gorchymyn a wneir o dan adran 158, 159 neu 160 wneud unrhyw ddarpariaeth gysylltiedig, ganlyniadol, atodol neu drosiannol y mae'r awdurdod gweithredu yn ystyried ei bod yn angenrheidiol neu'n hwylus.

(2) Caiff gorchymyn o'r fath wneud darpariaeth yn benodol ynghylch –

(a) neilltuo aelodau presennol o gyngor ar gyfer cymuned neu gyngor cymuned cyffredin i wardiau cymuned newydd neu wardiau cymuned sydd wedi eu newid;

(b) yr etholiad cyntaf ar gyfer aelodau o gyngor ar gyfer cymuned neu gyngor cymuned cyffredin dros unrhyw ward gymuned newydd neu ward gymuned sydd wedi ei newid;

(c) cynnal etholiad newydd ar gyfer aelodau dros yr holl wardiau cymuned yn y gymuned o dan sylw;

(d) y drefn ar gyfer ymddeoliad aelodau dros ward gymuned;

(e) cyfansoddiad unrhyw gorff cyhoeddus mewn unrhyw ardal neu ward gymuned y mae'r gorchymyn yn effeithio arni, etholiadau iddo ac aelodaeth ohono;

(f) unrhyw un neu ragor o'r materion yn adran 163(2).

(3) Yn yr adran hon –

ystyr "awdurdod gweithredu" ("*implementing authority*") yw –

(a) yn achos gorchymyn o dan adran 158, y cyngor sir a wnaeth y gorchymyn;

(b) yn achos gorchymyn o dan adran 159 neu 160, Gweinidogion Cymru.

mae "corff cyhoeddus" ("*public body*") yn cynnwys –

(a) cyngor sir, cyngor ar gyfer cymuned a chyngor cymuned cyffredin;

(b) unrhyw ymddiriedolwyr, comisiynwyr neu bersonau eraill sydd, at ddibenion cyhoeddus ac nid er eu budd eu hunain, yn gweithredu o dan unrhyw ddeddfiad neu offeryn er mwyn gwella unrhyw fan, i gyflenwi dŵr i unrhyw fan, neu i ddarparu neu i gynnal mynwent neu farchnad mewn unrhyw fan;

(c) unrhyw awdurdod arall sydd â phwerau i godi neu ddyroddi praesept ar gyfer unrhyw ardoll at ddibenion cyhoeddus.

162 Amrywio a dirymu gorchmynion gweithredu

(1) Ac eithrio fel y darperir gan yr adran hon, ni chaniateir i orchmynion a wneir o dan yr adran hon neu adran 158 neu 160 gael eu hamrywio na'u dirymu.

- (2) Caiff awdurdod gweithredu, drwy orchymyn, amrywio neu ddirymu unrhyw ddarpariaeth—
- (a) a gynhwysir mewn gorchymyn a wneir o dan yr adran hon neu adran 158 neu 160, a
- (b) sydd o fath a ddisgrifir yn adran 161(2).
- (3) Cyn gwneud gorchymyn o dan is-adran (2) rhaid i'r awdurdod gweithredu gydymffurfio ag is-adrannau (4) a (5).
- (4) Rhaid i'r awdurdod gweithredu—
- (a) anfon copi o fersiwn ddrafft o'r gorchymyn at unrhyw gorff cyhoeddus y mae'n ystyried bod y gorchymyn yn debygol o effeithio arno,
- (b) cyhoeddi'r gorchymyn drafft ar wefan ac mewn unrhyw fodd arall y mae'n ystyried ei bod yn debygol o ddwyn y gorchymyn i sylw personau a allai fod â diddordeb ynddo,
- (c) sicrhau bod copi o'r gorchymyn drafft ar gael i bersonau sydd â diddordeb edrych arno (yn ddi-dâl) yn y manau hynny y mae'r awdurdod gweithredu'n ystyried eu bod yn briodol, a
- (d) gwahodd sylwadau mewn perthynas â'r gorchymyn drafft sydd i'w gwneud o fewn y cyfnod o 2 fis sy'n dechrau ar y dyddiad y'i cyhoeddir ar wefan o dan baragraff (b).
- (5) Rhaid i'r awdurdod gweithredu ystyried unrhyw sylwadau sy'n dod i law o fewn y cyfnod o 2 fis, a chaiff addasu'r gorchymyn yng ngoleuni'r sylwadau hynny.
- (6) Pan fo awdurdod gweithredu wedi ei fodloni bod camgymeriad wedi digwydd wrth lunio gorchymyn y mae wedi ei wneud o dan yr adran hon neu adran 158 neu 160 caiff, drwy orchymyn, wneud unrhyw ddarpariaeth y mae'n ystyried ei bod yn briodol neu'n hwylus er mwyn cywiro'r camgymeriad.
- (7) Yn is-adran (6), mae "camgymeriad", mewn perthynas â gorchymyn, yn cynnwys darpariaeth a gynhwysir yn y gorchymyn, neu a hepgorir o'r gorchymyn, gan ddibynnu ar wybodaeth anghywir neu anghyflawn a ddarparwyd gan unrhyw gorff cyhoeddus.
- (8) Rhaid i awdurdod gweithredu, ar y diwrnod y mae'n gwneud gorchymyn o dan yr adran hon—
- (a) anfon copi o'r gorchymyn—
- (i) at y Comisiwn,
- (ii) at bob cyngor ar gyfer cymuned a chyngor cymuned cyffredin y mae'r gorchymyn yn effeithio arno,
- (iii) os Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod gweithredu, at y cyngor ar gyfer y sir y mae'r gorchymyn yn ymwneud â hi, a
- (iv) os cyngor sir yw'r awdurdod gweithredu, at Weinidogion Cymru, a
- (b) cyhoeddi'r gorchymyn ar wefan.
- (9) Yn yr adran hon—
- ystyr "awdurdod gweithredu" ("*implementing authority*")—

(a) yn achos gorchymyn o dan adran 158, ac yn ddarostyngedig i is-adran (10)(a), yw'r cyngor sir a wnaeth y gorchymyn;

(b) yn achos gorchymyn o dan adran 160, yw Gweinidogion Cymru;

mae i "corff cyhoeddus" ("*public body*") yr ystyr a roddir yn adran 161.

5 (10) Pan wnaed gorchymyn o dan yr adran hon neu adran 158 gan gyngor sir nad yw'n bodoli mwyach ("yr hen gyngor") –

(a) ystyr "awdurdod gweithredu" yw cyngor sir sy'n olynydd i'r hen gyngor, ond ni chaiff gorchymyn a wneir gan gyngor sir sy'n olynydd ond amrywio neu ddirymu darpariaeth yn y gorchymyn o dan adran 158 i'r graddau y mae'n ymwneud ag ardal y cyngor sir sy'n olynydd;

(b) mae is-adran (6) i'w darllen fel pe bai'n galluogi'r cyngor sir sy'n olynydd i wneud gorchymyn sy'n cywiro camgymeriad wrth lunio gorchymyn a wnaed gan yr hen gyngor, ond dim ond i'r graddau y mae'r camgymeriad yn ymwneud ag ardal y cyngor sir sy'n olynydd.

15 **163 Darpariaeth ganlyniadol, drosiannol etc. gyffredinol**

(1) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud unrhyw ddarpariaeth gysylltiedig, ganlyniadol, atodol neu drosiannol y maent yn ystyried ei bod yn angenrheidiol neu'n hwylus at ddibenion rhoi effaith lawn i orchmynion a wneir o dan adran 158, 159 neu 160, neu mewn cysylltiad â hynny.

20 (2) Caiff rheoliadau o dan yr adran hon wneud darpariaeth yn benodol –

(a) ynglŷn â swyddogaethau, ardal neu awdurdodaeth mewn neu dros ardal (neu ran o ardal), unrhyw gorff cyhoeddus neu swydd gyhoeddus o fewn ardal (neu ward gymuned) y mae gorchymyn a wneir o dan y Bennod hon yn effeithio arno neu arni;

25 (b) ynglŷn â chostau a threuliau corff cyhoeddus neu swydd gyhoeddus y mae gorchymyn o'r fath yn effeithio arno neu arni;

(c) ar gyfer trosglwyddo staff unrhyw gorff cyhoeddus neu swydd gyhoeddus o'r fath;

30 (d) ar gyfer trosglwyddo, rheoli neu gadw eiddo (boed dirol neu bersonol) a throsglwyddo hawliau a rhwymedigaethau (gan gynnwys rhwymedigaethau troseddol);

(e) ar gyfer trosglwyddo achosion sifil neu droseddol;

(f) mewn cysylltiad ag ymddiriedolwyr siarter.

35 (3) Caiff rheoliadau o dan yr adran hon gymhwyso (gydag addasiadau neu hebddynt), ddiwygio, ddiddymu neu ddirymu siarter pa bryd bynnag y'i gwnaed neu y'i rhoddwyd, neu unrhyw ddeddfiad.

(4) Yn yr adran hon, mae i "corff cyhoeddus" yr un ystyr ag yn adran 161.

164 Trosglwyddo staff

- (1) Mae'r adran hon yn gymwys i drosglwyddiad staff y darperir ar ei gyfer gan orchymyn neu reoliadau a wneir o dan y Bennod hon.
- (2) Mae Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006 (O.S. 2006/246) ("Rheoliadau TUPE") yn gymwys i drosglwyddiad staff y mae'r adran hon yn gymwys iddo (pa un a yw'r trosglwyddiad yn drosglwyddiad perthnasol at ddibenion Rheoliadau TUPE ai peidio), yn ddarostyngedig i is-adran (3).
- (3) Nid yw'r rheoliadau a ganlyn yn Rheoliadau TUPE yn gymwys i drosglwyddiad staff y mae'r adran hon yn gymwys iddo –
- (a) rheoliad 4(6) (rhwymedigaeth droseddol), a
- (b) rheoliad 10 (pensiynau).

165 Cyfarwyddydau a chanllawiau

- (1) Caiff Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddydau i'r Comisiwn mewn perthynas ag arfer ei swyddogaethau o dan y Bennod hon.
- (2) Cyn rhoi cyfarwyddyd o dan yr adran hon, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Comisiwn a'r cyrff hynny sy'n cynrychioli buddiannau cynghorau sir (a chyn 1 Ebrill 2020, cynghorau bwrdeistref sirol), cynghorau ar gyfer cymunedau a chynghorau cymuned cyffredin y maent yn ystyried ei bod yn briodol ymgynghori â hwy.
- (3) Wrth arfer unrhyw swyddogaeth o dan y Bennod hon, rhaid i'r Comisiwn a phob cyngor sir (a chyn 1 Ebrill 2020, pob cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol a sefydlwyd o dan adran 20 o Ddeddf 1972) roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru.

166 Addasu a diwygio adran 30 o Ddeddf 1972

- (1) Yn adran 30 o Ddeddf 1972 (cyfyngu ar geisiadau gan gymunedau yn ystod ac ar ôl adolygiadau), mae is-adran (1) i'w darllen fel pe bai'r canlynol wedi ei fewnosod ar ôl paragraff (ba) –
- “(bb) during the period of two years beginning with the coming into force of an order relating to the community made under section 158, 159 or 160 of the Local Government (Wales) Act 2017; or”.
- (2) Mae adran 30 o Ddeddf 1972 i'w darllen fel pe bai'r canlynol wedi ei roi yn lle is-adran (3) –
- “(3) The Welsh Ministers may direct that no community applications may be made until the Welsh Ministers further direct.”.
- (3) Caiff Gweinidogion Cymru ddiddymu is-adran (2) drwy reoliadau.
- (4) Yn adran 30 o Ddeddf 1972, yn is-adran (3) yn lle “or Part 3” rhodder “under Part 3”.

PENNOD 2

AELODAU O GYNGHORAU CYMUNED I GWBLHAU HYFFORDDIANT

*Hyfforddiant i aelodau o gynghorau cymuned*5 **167 Cynghorau sir i ystyried anghenion hyfforddiant cynghorwyr cymuned a darparu hyfforddiant**

(1) Rhaid i gyngor sir –

(a) ystyried a ddylai fod yn orfodol i aelodau o gynghorau cymuned yn ardal y sir gwblhau unrhyw hyfforddiant (gweler adran 168), a

10 (b) sicrhau y darperir unrhyw hyfforddiant y mae'n orfodol i aelodau o'r cynghorau hynny ei gwblhau.

(2) Wrth arfer ei swyddogaethau o dan yr adran hon rhaid i gyngor sir roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru.

*Dyletswydd i gwblhau hyfforddiant*15 **168 Aelodau o gynghorau cymuned i gwblhau hyfforddiant**

(1) Rhaid i aelod o gyngor cymuned gwblhau'r holl hyfforddiant gorfodol.

(2) Ond nid yw aelod yn torri'r ddyletswydd o dan is-adran (1) os oes gan yr aelod reswm da dros beidio â chydymffurfio â'r ddyletswydd.

(3) Mae hyfforddiant yn orfodol –

20 (a) os hysbyswyd y cyngor cymuned yn ysgrifenedig gan y cyngor sir y mae ardal y cyngor cymuned o fewn ei ardal ei bod yn orfodol i'r aelod gwblhau'r hyfforddiant, a

(b) os yw'r cyngor cymuned wedi hysbysu'r aelod yn ysgrifenedig bod rhaid iddo gwblhau'r hyfforddiant.

25 (4) Os yw cyngor sir yn hysbysu cyngor cymuned ei bod yn orfodol i aelod gwblhau hyfforddiant a bennir yn yr hysbysiad, rhaid i'r cyngor cymuned hysbysu'r aelod fod yn rhaid iddo gwblhau'r hyfforddiant hwnnw.

30 **169 Cwynion am fethiant aelod i gwblhau hyfforddiant**

(1) Caiff person wneud cwyn am achos posibl o dorri'r ddyletswydd a osodir gan adran 168 gan aelod o gyngor cymuned i glerc y cyngor hwnnw.

(2) Rhaid i gwyn o dan is-adran (1) gael ei gwneud yn ysgrifenedig.

35 **170 Hysbysu'r cyngor cymuned fod aelod wedi methu â chwblhau hyfforddiant**

(1) Os yw clerc cyngor cymuned –

(a) yn cael cwyn bod aelod o'r cyngor cymuned wedi torri'r ddyletswydd o dan adran 168, neu

35 (b) fel arall â rheswm i gredu bod aelod wedi torri'r ddyletswydd honno,

rhaid i'r clerc roi hysbysiad ysgrifenedig i'r aelod y caiff gyflwyno sylwadau iddo, naill ai ar lafar neu yn ysgrifenedig, mewn cysylltiad â'r tor dyletswydd honedig.

- (2) Rhaid i'r clerc bennu o fewn pa gyfnod y caiff aelod gyflwyno sylwadau o dan is-adran (1); ond ni chaiff y cyfnod fod yn llai na 28 o ddiwrnodau yn dechrau â'r dyddiad y rhoddir hysbysiad i'r aelod o dan yr is-adran honno.
- (3) Wedi i'r cyfnod a bennir o dan is-adran (2) ar gyfer cyflwyno sylwadau ddod i ben, rhaid i'r clerc ddyfarnu a yw'r aelod wedi torri'r ddyletswydd, ar ôl—
- (a) ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynwyd iddo, a
- (b) mewn achosion pan nad yw'r aelod o dan sylw yn gadeirydd ar y cyngor cymuned, ymgynghori â chadeirydd y cyngor cymuned.
- (4) Os yw'r clerc yn dyfarnu bod yr aelod wedi torri'r ddyletswydd, rhaid i'r clerc hysbysu'r cyngor cymuned am y dyfarniad hwnnw mewn cyfarfod o'r cyngor.

PENNOD 3

171 Newid dyddiad etholiadau cynghorau cymuned ac estyn cyfnod swydd

- (1) Mae is-adrannau (2) a (3) yn dod i rym ar ddyddiad a bennir gan Weinidogion Cymru drwy orchymyn o dan adran 183, y mae'n rhaid iddo fod ar ôl y dyddiad yn 2017 y cynhelir yr etholiadau cyffredin ar gyfer cynghorwyr cymuned.
- (2) Yn Neddf 1972, yn is-adran (2) o adran 35 (blynyddoedd etholiadau)—
- (a) yn lle "2017" rhodder "2023", a
- (b) yn lle "fourth" rhodder "fifth".
- (3) Yn Neddf 1972, yn is-adran (2A) o adran 35 (cyfnodau swyddi cynghorwyr cymuned) yn lle "four years" rhodder "five years".
- (4) Yn ystod y cyfnod sy'n dechrau pan fo is-adrannau (2) a (3) yn dod i rym ac sy'n dod i ben gyda'r etholiadau cyffredin ar gyfer cynghorwyr cymuned yn 2023, mae is-adran (2A) o adran 35 o Ddeddf 1972 i'w darllen fel pe bai "six years" wedi ei roi yn lle "five years".

RHAN 7

MATERION Y GWEITHLU

PENNOD 1

CANLLAWIAU I GYRFF CYHOEDDUS AR FATERION Y GWEITHLU

172 Canllawiau Gweinidogol i gyrff cyhoeddus ar faterion y gweithlu

- (1) Caiff Gweinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i gyrff cyhoeddus ynglŷn â materion y gweithlu.
- (2) Rhaid i gorff cyhoeddus y dyroddir canllawiau iddo roi sylw iddynt.
- (3) Caniateir i ganllawiau o dan yr adran hon gael eu dyroddi i gorff cyhoeddus penodol, i gyrff cyhoeddus o ddisgrifiad penodol neu i gyrff cyhoeddus yn gyffredinol.

- (4) Cyn dyroddi, diwygio neu dynnu'n ôl ganllawiau o dan yr adran hon, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r canlynol –
- (a) pob corff cyhoeddus y mae'r canllawiau'n ymwneud ag ef,
 - (b) unrhyw undeb llafur a gydnabyddir (o fewn yr ystyr a roddir gan Ddeddf Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992 (p.52)) gan gorff cyhoeddus y mae'r canllawiau'n ymwneud ag ef, ac
 - (c) unrhyw bersonau eraill y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn briodol ymgynghori â hwy.
- (5) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi unrhyw ganllawiau a ddyroddir o dan yr adran hon (gan gynnwys canllawiau diwygiedig) ar wefan ac ar unrhyw ffurf arall sy'n briodol yn eu barn hwy.

173 Ystyr "materion y gweithlu"

Yn y Rhan hon ystyr "materion y gweithlu" yw –

- (a) cynllunio gan gyrff cyhoeddus mewn perthynas â maint a chyfansoddiad eu gweithluoedd;
- (b) recriwtio a chadw staff cyrff cyhoeddus;
- (c) rheoli a threfnu staff cyrff cyhoeddus, a chydnabyddiaeth ariannol iddynt;
- (d) hyfforddi a datblygu staff cyrff cyhoeddus;
- (e) darparu gwybodaeth i staff cyrff cyhoeddus (gan gynnwys undebau llafur sy'n cynrychioli staff) am benderfyniadau sy'n effeithio ar eu gwaith ac am gyfleoedd i gyfrannu at y penderfyniadau hynny;
- (f) trefniadau am unrhyw un neu ragor o'r materion a grybwyllir ym mharagraffau (a) i (e) pan fo dau gorff cyhoeddus neu ragor yn cydlafurio wrth arfer eu swyddogaethau;
- (g) rhannu gwybodaeth at ddiben hwyluso unrhyw un neu ragor o'r materion a grybwyllir ym mharagraffau (a) i (f).

174 Ystyr "corff cyhoeddus"

(1) Yn y Rhan hon ystyr "corff cyhoeddus" yw –

- (a) cyngor sir;
- (b) cyngor cymuned;
- (c) awdurdod tân ac achub;
- (d) corff llywodraethu ysgol a gynhelir neu ffederasiwn;
- (e) Bwrdd Iechyd Lleol;
- (f) ymddiriedolaeth y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a sefydlwyd o dan adran 18 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (p.42);
- (g) awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol yng Nghymru;
- (h) Cyngor Celfyddydau Cymru;
- (i) Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru;

- (j) Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru;
- (k) Llyfrgell Genedlaethol Cymru;
- (l) Amgueddfa Genedlaethol Cymru;
- (m) Corff Adnoddau Naturiol Cymru;
- 5 (n) Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru;
- (o) Gofal Cymdeithasol Cymru;
- (p) Cyngor Chwaraeon Cymru.
- (2) Mae'r cyfeiriad at gyngor sir yn is-adran (1)(a) yn cynnwys cyfeiriad at awdurdod cysgodol ar gyfer sir a nodir yn Atodlen 1 (gweler adran 15 ynglŷn â hynny).
- 10 (3) Yn is-adran (1)(d) –
- ystyr “ffederasiwn” (“*federation*”) yw grŵp o ysgolion a gynhelir sy'n ffederal yn rhinwedd adran 24 o Ddeddf Addysg 2002 (p.32) neu Bennod 1 o Ran 2 o Fesur Addysg (Cymru) 2011 (mccc 7);
- 15 ystyr “ysgol a gynhelir” (“*maintained school*”) yw ysgol yng Nghymru sy'n ysgol gymunedol, sefydledig neu wirfoddol, yn ysgol arbennig gymunedol neu sefydledig neu'n ysgol feithrin a gynhelir.

175 Pŵer i ddiwygio'r diffiniad o “corff cyhoeddus”

- (1) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddiwygio'r diffiniad o “corff cyhoeddus” yn adran 174.
- 20 (2) Cyn gwneud rheoliadau o dan is-adran (1) sy'n ychwanegu person at y diffiniad neu'n tynnu person ymaith ohono rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r canlynol –
- (a) y person sydd i'w ychwanegu neu ei dynnu ymaith;
- (b) unrhyw undeb llafur a gydnabyddir (o fewn yr ystyr a roddir gan Ddeddf Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992 (p.52)) gan berson o'r fath;
- 25 (c) unrhyw bersonau eraill y maent yn ystyried ei bod yn briodol ymgynghori â hwy.
- (3) Ni chaiff rheoliadau o dan is-adran (1) ychwanegu person at y diffiniad onid yw'r person yn arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus –
- 30 (a) sydd wedi eu rhoi gan Ddeddf neu Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru, neu oddi tanynt, neu
- (b) y gellid eu rhoi gan Ddeddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

PENNOD 2

COMISIWN STAFF Y GWASANAETHAU CYHOEDDUS

176 Comisiwn staff y gwasanaethau cyhoeddus

- 35 (1) Bydd comisiwn staff y gwasanaethau cyhoeddus (y cyfeirir ato fel “y Comisiwn” yn y Rhan hon).
- (2) Mae'r Comisiwn i gynnwys dim mwy na 7 o aelodau a benodir gan Weinidogion Cymru.

- (3) Rhaid i Weinidogion Cymru benodi un o'r aelodau i gadeirio'r Comisiwn.
- (4) Mae person a benodir i'r Comisiwn yn dal ac yn gadael ei swydd yn ddarostyngedig i delerau ei benodiad.
- (5) Caiff Gweinidogion Cymru dalu treuliau, tâl cydnabyddiaeth a lwfansau mewn cysylltiad ag aelod o'r Comisiwn.
- (6) Rhaid i Weinidogion Cymru ddarparu i'r Comisiwn y staff, yr adeiladau a'r adnoddau eraill hynny y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn angenrheidiol i'r Comisiwn gyflawni'r swyddogaethau a roddir iddo gan adran 177.

177 Swyddogaethau etc. y Comisiwn

- (1) Rhaid i'r Comisiwn ddarparu unrhyw gyngor ar faterion y gweithlu y bydd Gweinidogion Cymru'n gofyn amdano.
- (2) Caiff y Comisiwn, at ddiben llunio unrhyw gyngor, ofyn i gorff cyhoeddus am yr wybodaeth honno y mae'r Comisiwn yn ystyried ei bod yn angenrheidiol neu'n briodol.
- (3) Rhaid i gorff cyhoeddus y gwneir cais am wybodaeth iddo o dan is-adran (2) gydymffurfio â'r cais oni bai bod y corff yn ystyried y byddai gwneud hynny –
- yn anghydnaws â'i ddyletswyddau ei hun, neu
 - yn cael effaith andwyol fel arall ar arfer ei swyddogaethau.
- (4) Rhaid i gorff cyhoeddus sy'n penderfynu peidio â chydymffurfio â chais am wybodaeth a wneir o dan is-adran (2) hysbysu'r Comisiwn yn ysgrifenedig am y rhesymau dros y penderfyniad.
- (5) Cyn 30 Medi ym mhob blwyddyn ariannol rhaid i'r Comisiwn anfon adroddiad ("adroddiad blynyddol") at Weinidogion Cymru ynglŷn ag arfer ei swyddogaethau yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol.
- (6) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi copi o bob adroddiad blynyddol a anfonir atynt gan y Comisiwn ar wefan ac ar unrhyw ffurf arall sy'n briodol yn eu barn hwy.

178 Diddymu'r Bennod hon

- (1) Diddymir is-adrannau (1) i (4) o adran 177 ar 1 Ebrill 2021.
- (2) Diddymir adran 176 ac is-adrannau (5) a (6) o adran 177 ar 1 Hydref 2021.
- (3) Diddymir yr adran hon ar ddiwedd y cyfnod o flwyddyn sy'n dechrau â'r dyddiad y mae'r diddymiad yn is-adran (1) yn cael effaith.
- (4) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, roi dyddiad gwahanol yn lle'r dyddiad a bennir am y tro yn is-adran (1), ond ni chaiff y dyddiad newydd fod yn ddyddiad sy'n hwyrach nag 1 Ebrill 2023.
- (5) Caiff rheoliadau o dan is-adran (4) hefyd roi dyddiad gwahanol yn lle'r dyddiad a bennir am y tro yn is-adran (2).

RHAN 8

CYFFREDINOL

179 Dehongli

Yn y Ddeddf hon –

- 5 ystyr “awdurdod tân ac achub” (“*fire and rescue authority*”) yw awdurdod tân ac achub ar gyfer ardal yng Nghymru a gyfansoddwyd gan gynllun o dan adran 2 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p.21), neu gynllun y mae adran 4 o’r Ddeddf honno yn gymwys iddo;
- 10 ystyr “blwyddyn ariannol” (“*financial year*”) yw cyfnod o 12 mis sy’n dod i ben ar 31 Mawrth;
- ystyr “corff gwirfoddol” (“*voluntary body*”), ac eithrio yn adran 64, yw corff, ac eithrio corff sy’n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus, nad yw ei weithgareddau’n cael eu cyflawni er elw;
- 15 ystyr “Deddf 1972” (“*the 1972 Act*”) yw Deddf Llywodraeth Leol 1972 (p.70);
- ystyr “Deddf 2000” (“*the 2000 Act*”) yw Deddf Llywodraeth Leol 2000 (p.22);
- mae i “gweithrediaeth” yr un ystyr ag a roddir i “executive” yn adran 11 o Ddeddf 2000;
- mae i “gweithrediaeth maer a chabinet” (“*mayor and cabinet executive*”) yr un ystyr ag yn adran 11(2) o Ddeddf 2000;
- 20 mae i “maer etholedig” yr un ystyr ag a roddir i “elected mayor” yn adran 39(1) o Ddeddf 2000;
- ystyr “Mesur 2011” (“*the 2011 Measure*”) yw Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (mccc 4);
- 25 mae i “trefniadau gweithrediaeth” yr un ystyr ag a roddir i “executive arrangements” yn adran 10 o Ddeddf 2000.

180 Cymhwysiad y Ddeddf mewn perthynas â siroedd a bwrdeistrefi sirol hyd 1 Ebrill 2020

- (1) Hyd 1 Ebrill 2020 mae’r Ddeddf hon, ac eithrio Rhan 1 a Phennod 1 o Ran 6, i’w darllen yn unol â’r adran hon.
- 30 (2) Mae unrhyw gyfeiriad at sir i’w ddarllen fel cyfeiriad at sir neu fwrdeistref sirol a sefydlwyd o dan adran 20 o Ddeddf 1972.
- (3) Mae unrhyw gyfeiriad at gyngor sir i’w ddarllen fel cyfeiriad at gyngor ar gyfer sir neu gyngor bwrdeistref sirol a sefydlwyd o dan yr adran honno.

181 Pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol a throsiannol etc.

- 35 (1) Os yw Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn angenrheidiol neu’n hwylus at ddiben rhoi effaith lawn i unrhyw ddarpariaeth yn Rhannau 2 i 7 (ac eithrio Pennod 1 o Ran 6) o’r Ddeddf hon, neu o ganlyniad i unrhyw ddarpariaeth o’r fath, cânt wneud y canlynol drwy reoliadau –

- (a) unrhyw ddarpariaeth atodol, gysylltiedig neu ganlyniadol;
 - (b) unrhyw ddarpariaeth ddarfodol neu drosiannol neu unrhyw ddarpariaeth arbed.
- (2) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1) ddiwygio, addasu, ddiddymu neu ddirymu unrhyw ddeddfiad.

5 **182 Rheoliadau a gorchmynion o dan y Ddeddf hon**

- (1) Mae pŵer Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau neu orchmynion o dan y Ddeddf hon—

- (a) yn arferadwy drwy offeryn statudol;
- (b) yn cynnwys pŵer i wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol ac ar gyfer ardaloedd gwahanol.

- (2) Ni chaniateir gwneud offeryn statudol y mae'r is-adran hon yn gymwys iddo oni bai bod drafft o'r offeryn wedi ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac wedi ei gymeradwyo drwy benderfyniad ganddo.

- (3) Mae is-adran (2) yn gymwys i offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau o dan unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau a ganlyn—

- (a) adran 20(1) (pŵer i ddiwygio dyddiadau penodol a bennir mewn deddfwriaeth);
- (b) adran 27(1) neu (2), pan fo'r rheoliadau'n diwygio, yn diddymu neu'n datgymhwyso darpariaeth mewn Deddf Seneddol neu Fesur neu Ddeddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru, oni bai bod y rheoliadau'n cael eu gwneud at ddiben a ddisgrifir yn is-adran (7) o'r adran honno yn unig;
- (c) adran 27(3) neu (4), oni bai bod y rheoliadau'n cael eu gwneud at ddiben a ddisgrifir yn is-adran (7) o'r adran honno yn unig;
- (d) adran 34(1) (cyngorau cymuned â chymhwysedd: gofynion cymhwysedd);
- (e) adran 37(4) (dyletswydd cyfranogiad y cyhoedd: ystyr awdurdodau sy'n gysylltiedig â chyngor sir);
- (f) adran 64(6)(b) (ceisiadau gwella: rhagnodi "awdurdod perthnasol");
- (g) adran 74(3) (ceisiadau gwella: darpariaeth bellach);
- (h) adran 111(3) (egwyddorion etc. sy'n gysylltiedig â llywodraethu da);
- (i) adran 178(4) (newid y dyddiad pan fo diddymiad Pennod 2 o Ran 7 yn cael effaith).

- (4) Mae is-adran (2) hefyd yn gymwys i unrhyw offeryn statudol arall sy'n cynnwys rheoliadau o dan y Ddeddf hon, ac eithrio rheoliadau a wneir o dan adran 175 neu baragraff 2 o Atodlen 1, sy'n diwygio, yn addasu, yn datgymhwyso neu'n diddymu darpariaeth—

- (a) mewn Deddf neu Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru, neu
- (b) mewn Deddf Seneddol.

- (5) Mae offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau o dan y Ddeddf hon nad yw is-adran (2) yn gymwys iddynt, ac eithrio rheoliadau a wneir o dan baragraff 2 o Atodlen 1, yn ddarostyngedig i'w ddirymu yn unol â phenderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

183 Dod i rym

- (1) Daw'r Rhan hon i rym ar y diwrnod y mae'r Ddeddf hon yn cael y Cydsyniad Brenhinol.
- (2) Daw'r darpariaethau a ganlyn i rym 2 fis ar ôl cael y Cydsyniad Brenhinol—
- 5 (a) Penodau 1, 3 a 4 o Ran 1 (ardaloedd llywodraeth leol a chynghorau sir), ac eithrio adran 21;
- (b) Rhan 2 (pŵer cymhwysedd cyffredinol);
- (c) Pennod 4 o Ran 3 (hybu mynediad i lywodraeth leol: ceisiadau gwella);
- (d) Pennod 1 o Ran 6 (adolygiad o drefniadau cynghorau cymuned gan y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol).
- 10 (3) Daw darpariaethau eraill y Ddeddf hon i rym ar ddiwrnod a bennir gan Weinidogion Cymru mewn gorchymyn a wneir drwy offeryn statudol.
- (4) Caiff gorchymyn o dan is-adran (3)—
- (a) gwneud darpariaeth drosiannol neu ddarfodol neu ddarpariaeth arbed;
- 15 (b) pennu diwrnodau gwahanol at ddibenion gwahanol neu ar gyfer ardaloedd gwahanol.

184 Enw byr

Enw byr y Ddeddf hon yw Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2017.

ATODLEN 1
(a gyflwynir gan adran 1)

SIROEDD YNG NGHYMRU

1 Mae Tablau 1 a 2 isod yn nodi cynigion gwahanol ar gyfer cyfansoddiad siroedd yng
5 Nghymru ar ôl 1 Ebrill 2020 –

TABL 1

Enw	Ardal (a bennir drwy gyfeirio at yr ardaloedd a oedd yn siroedd ac yn fwrdeistrefi sirol yn union cyn 1 Ebrill 2020)
Sir 1	Siroedd Ynys Môn a Gwynedd, a bwrdeistref sirol Conwy
Sir 2	Siroedd Dinbych a'r Fflint a bwrdeistref sirol Wrecsam
Sir 3	Siroedd Ceredigion, Penfro a Chaerfyrddin
Sir 4	Sir Abertawe a bwrdeistref sirol Castell-nedd Port Talbot
Sir 5	Bwrdeistrefi sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful
Sir 6	Bwrdeistrefi sirol Caerdydd a Bro Morgannwg
Sir 7	Sir Fynwy a bwrdeistrefi sirol Blaenau Gwent, Caerffili, Torfaen a Chasnewydd
Powys	Sir Powys

NEU

TABL 2

Enw	Ardal (a bennir drwy gyfeirio at yr ardaloedd a oedd yn siroedd ac yn fwrdeistrefi sirol yn union cyn 1 Ebrill 2020)
Sir 1	Siroedd Ynys Môn a Gwynedd
Sir 2	Bwrdeistref sirol Conwy a sir Ddinbych
Sir 3	Sir y Fflint a bwrdeistref sirol Wrecsam
Sir 4	Siroedd Ceredigion, Penfro a Chaerfyrddin
Sir 5	Sir Abertawe a bwrdeistref sirol Castell-nedd Port Talbot
Sir 6	Bwrdeistrefi sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful
Sir 7	Bwrdeistrefi sirol Caerdydd a Bro Morgannwg
Sir 8	Sir Fynwy a bwrdeistrefi sirol Blaenau Gwent, Caerffili, Torfaen a Chasnewydd
Powys	Sir Powys

- 2 (1) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddiwygio'r eitemau yn y golofn gyntaf (enw'r sir) ym mhob un o'r Tablau uchod, ac eithrio'r eitemau ar gyfer sir Powys.
- (2) Caiff rheoliadau o dan is-baragraff (1) wneud diwygiadau canlyniadol i ddarpariaethau eraill y Rhan hon.

ATODLEN 2
(a gyflwynir gan adran 14)

CYNGHORAU NEWYDD: ETHOLIADAU CYFFREDIN A CHYFARFODYDD CYNTAF

Swyddogion canlyniadau yn yr etholiadau cyffredin cyntaf

- 5 1 (1) Yn etholiadau cyffredin cyntaf cynghorwyr ar gyfer pob cyngor newydd, mae'r swyddog canlyniadau i'w benodi gan y cyngor sir neu'r cyngor bwrdeistref sirol a gyfarwyddir gan Weinidogion Cymru i wneud y penodiad (yn ddarostyngedig i is-baragraff (3)); ac o ganlyniad nid yw adran 35(1A) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (p.2) (gofyniad i benodi un o swyddogion y cyngor) yn gymwys.
- 10 (2) Rhaid i gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol y rhodddwyd cyfarwyddyd iddo o dan is-baragraff (1) benodi un o'i swyddogion.
- (3) Ni chaiff Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddyd i gyngor o dan is-baragraff (1) onid yw –
- (a) y cyngor i'w ddiddymu gan y Ddeddf hon, a
- 15 (b) y cyngor yn gyngor ar gyfer ardal a fydd yn rhan o'r sir newydd y mae'r etholiad yn ymwneud â hi.
- (4) Nid yw adran 36(4) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 yn gymwys i etholiadau cyffredin cyntaf cynghorwyr ar gyfer pob cyngor newydd (ad-dalu gwariant).
- 20 (5) Rhaid i'r holl wariant yr aiff swyddog canlyniadau neu swyddog arall iddo yn briodol mewn perthynas â chynnal etholiadau cyffredin cyntaf cynghorwyr ar gyfer cyngor newydd gael ei dalu gan y cyngor a benododd y swyddog canlyniadau; a chaiff y cyngor hwnnw adennill rhan o'r gwariant hwnnw neu'r holl wariant gan y cynghorau yn ardal y sir newydd –
- (a) yn ôl y cyfrannau hynny y byddant yn cytuno arnynt, neu
- 25 (b) os na allant gytuno, yn ôl y cyfrannau hynny y mae Gweinidogion Cymru yn penderfynu arnynt.
- (6) Yn Rhannau 2 a 3 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, fel y maent yn gymwys mewn perthynas ag etholiadau cyffredin cyntaf cynghorwyr ar gyfer cyngor newydd, mae cyfeiriadau at "the appropriate officer" i'w darllen fel cyfeiriadau at y swyddog canlyniadau a benodir o dan y paragraff hwn (o ganlyniad, nid yw'r diffiniad o "appropriate officer" yn adran 67(7) o'r Ddeddf honno yn gymwys).
- 30

Datganiadau derbyn swydd

- 2 At ddibenion cymryd a derbyn i law ddatganiadau derbyn swydd cynghorydd ar gyfer unrhyw gyngor newydd cyn cyfarfod cyntaf y cyngor hwnnw –
- 35 (a) mae prif weithredwr cyngor dynodedig i'w drin fel swyddog priodol y cyngor newydd, a
- (b) rhaid i brif weithredwr cyngor dynodedig drosglwyddo unrhyw ddatganiad a ddaeth i'w law i ofal swyddog priodol y cyngor newydd pan benodir y swyddog priodol hwnnw.

Cyfarfodydd cyntaf cyngorau newydd

- 3 (1) Rhaid cynnal cyfarfod cyntaf pob cyngor newydd (a fydd, o dan adran 15, yn awdurdod
cysgodol pan gynhelir y cyfarfod) cyn diwedd y cyfnod o 14 o ddiwrnodau sy'n dechrau
5 â diwrnod yr etholiad a gynhelir o dan adran 14; mae'r cyfarfod hwn i'w drin fel cyfarfod
blynyddol y cyngor newydd ar gyfer y flwyddyn y'i cynhelir.
- (2) Rhaid i'r cyfarfod gael ei gynnull gan brif weithredwr cyngor dynodedig ("y prif
weithredwr dynodedig"), a rhaid ei gynnal yn y man a bennir gan y prif weithredwr
hwnnw.
- 10 (3) Rhaid i'r hysbysiad am y cyfarfod sy'n ofynnol gan baragraff 4(2) o Atodlen 12 i Ddeddf
1972 gael ei gyhoeddi yn y man lle mae'r cyfarfod i gael ei gynnal, a rhaid i'r wŷs i fod yn
bresennol yn y cyfarfod gael ei llofnodi gan y prif weithredwr dynodedig (ac mae
paragraff 4 o Atodlen 12 i Ddeddf 1972 i'w ddarllen yn unol â hynny).
- (4) Os yw aelod o gyngor newydd yn darparu cyfeiriad e-bost i'r prif weithredwr dynodedig
15 cyn i'r wŷs i fynychu'r cyfarfod gael ei hanfon, caiff y prif weithredwr dynodedig anfon
yr wŷs at yr aelod drwy ei hanfon i'r cyfeiriad e-bost a ddarparwyd.
- 4 (1) Hyd nes yr etholir cadeirydd yng nghyfarfod cyntaf cyngor newydd, mae'r personau a
ddynodir gan y pwyllgor pontio perthnasol i arfer swyddogaethau cadeirydd ac is-
gadeirydd y cyngor.
- 20 (2) Ni chaiff unrhyw berson a ddynodir gan y pwyllgor pontio perthnasol o dan is-baragraff
(1) bleidleisio yn y lle cyntaf yn yr etholiad ar gyfer cadeirydd, oni bai bod y person
hwnnw yn gynghorydd ar gyfer y sir newydd (ond caiff roi pleidlais fwrw yn unol ag
adran 23(3) o Ddeddf 1972).
- 25 (3) Yng nghyfarfod cyntaf cyngor newydd rhaid i'r prif weithredwr dynodedig arfer
unrhyw swyddogaethau sy'n perthyn i swyddog priodol y cyngor newydd mewn
perthynas â'r cyfarfod.
- (4) Yng nghyfarfod cyntaf cyngor newydd, mae rheolau sefydlog y cyngor dynodedig yn
gymwys.

Cymhwyso ar gyfer aelodaeth o gyngor newydd

- 5 At ddibenion adran 79 o Ddeddf 1972 (cymhwyso ar gyfer etholiad a dal swydd), o ran ei
30 gymhwyso i ymgeisydd ar gyfer aelodaeth o gyngor newydd, mae'r siroedd newydd i'w
trin fel pe baent wedi eu sefydlu yn ddim llai na 12 mis cyn y diwrnod yr enwebwyd yr
ymgeisydd.

Dehongli

- 6 Yn yr Atodlen hon—
- 35 ystyr "cyngor dynodedig" ("*designated council*"), mewn perthynas â chyngor
newydd, yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol sydd i'w ddiddymu gan y
Ddeddf hon, ac sy'n gyngor ar gyfer ardal a fydd yn rhan o'r sir newydd, a
ddynodir gan y pwyllgor pontio perthnasol (a chaiff y pwyllgor pontio perthnasol
ddynodi cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol gwahanol at ddibenion
40 gwahanol o dan yr Atodlen hon);

ystyr “prif weithredwr” (*“chief executive”*), mewn perthynas â chyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol, yw’r person a benodir yn brif weithredwr o dan adran 103;

5 ystyr “y pwyllgor pontio perthnasol” (*“the relevant transition committee”*), mewn perthynas â chyngor newydd, yw’r pwyllgor a sefydlir yn rhinwedd adran 11 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2015 gan y cynghorau a ddiddymir gan y Ddeddf hon y bydd eu hardaloedd yn ffurfio ardal y cyngor newydd;

10 ystyr “swyddog priodol y cyngor newydd” (*“proper officer of the new council”*), mewn perthynas â diben neu swyddogaeth a bennir yn yr Atodlen hon, yw un o swyddogion y cyngor newydd a benodir at y diben hwnnw neu, yn ôl y digwydd, i arfer y swyddogaeth honno.

ATODLEN 3
(a gyflwynir gan adran 16)

CYNGHORAU NEWYDD: CYLLID

Y dreth gyngor ac ardrethu annomestig

- 5 1 (1) Mae'r cynghorau newydd yn awdurdodau bilio mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2020 ac mewn perthynas â blynyddoedd ariannol dilynol.
- (2) Yn yr Atodlen hon, ystyr "awdurdod bilio" yw awdurdod sy'n awdurdod bilio at ddibenion—
- (a) Rhan 1 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (p.14) (y dreth gyngor), a
- 10 (b) Rhan 3 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 (p.41) (ardrethu annomestig).
- (3) O 1 Ebrill 2020 ymlaen mae gan y cynghorau newydd yr un swyddogaethau mewn perthynas â'r dreth gyngor ac ardrethu annomestig ag a oedd gan y cynghorau a ddiddymir mewn perthynas ag unrhyw flwyddyn ariannol sy'n dechrau cyn 1 Ebrill 2020.

15 *Rhestrau prisio*

- 2 Ar ôl adran 22B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (p.14) mewnosoder—

"22C Amalgamated valuation lists for new Welsh billing authorities

- 20 (1) Every new listing officer must, on 1 April 2020, compile a list ("the amalgamated list") for the new billing authority for which the officer is appointed, based on the information provided to the officer under this section.
- (2) The amalgamated list must contain all relevant information which was included in the current valuation lists compiled for the old billing authorities.
- 25 (3) The amalgamated list must also include all relevant information which was included in any current valuation list by way of an alteration.
- (4) A new listing officer's amalgamated list—
- 30 (a) is to be treated for the purposes of this Act as the valuation list for the officer's new billing authority,
- (b) is deemed to have come into force on—
- (i) 1 April 2005, or
- (ii) if an order made under section 22B(3) specified a date which is before 1 April 2020, the date specified in the order, and
- 35 (c) remains in force until a new list is compiled under section 22B.

- (5) An amalgamated list must be maintained for so long as is necessary for the purposes of this Part, and the duty to maintain the list is not affected by the list ceasing to be in force.
- (6) Section 22B(4) does not apply in relation to an amalgamated list.
- 5 (7) Where an amalgamated list contains information which is derived from any alteration made to any valuation list or lists from which it is derived, the amalgamated list is to be treated as having been varied on the date on which the alteration was made.
- (8) Every old listing officer must –
- 10 (a) on or before 15 November 2019, provide the appropriate new listing officer with all relevant information recorded in the old listing officer's valuation list as at 31 October 2019, and
- (b) on the day before 1 April 2020, provide the appropriate new listing officer with all relevant information recorded in the old listing officer's valuation list as at that date.
- 15 (9) A new listing officer receiving any information under subsection (8)(a) must send a copy of it to his or her new billing authority as soon as is reasonably practicable.
- (10) As soon as is reasonably practicable after compiling the amalgamated list, a new listing officer must send a copy of it to his or her new billing authority.
- 20 (11) A new billing authority receiving a copy of an amalgamated list under subsection (10) must, as soon as is reasonably practicable, deposit it at its principal office.
- (12) For the purposes of this section –
- 25 (a) references to an old listing officer's valuation list are references to the valuation list maintained by him or her under this Act,
- (b) a new listing officer's area is the area of the new billing authority for which he or she is appointed,
- 30 (c) the appropriate new listing officer, in relation to any information which relates to a dwelling, is the new listing officer for the new billing authority in whose area the dwelling is situated, and
- (d) information is relevant in relation to a new listing officer, or the officer's area, if it relates to a dwelling which is in the officer's area.
- 35 (13) In this section –
- 40 "current valuation list" means a valuation list that was compiled on 1 April 2005 (see section 22B(2)(b)), unless an order has been made under section 22B(3) specifying a date before 1 April 2020; in which case, it means a valuation list compiled on the date specified in the order;

“old listing officer” means a listing officer for an old billing authority;

“new billing authority” means a billing authority which is a new council;

“new council” has the same meaning as in the Local Government (Wales) Act 2017 (see section 13 of that Act);

“new listing officer” means a listing officer for a new billing authority;

“old billing authority” means a billing authority which is a council for a county or county borough abolished by the Local Government (Wales) Act 2017.”

Rhestrau ardrethu annomestig lleol

3 Ar ôl adran 41A o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 (p.41) mewnosoder –

“41B Local non-domestic rating lists for new Welsh billing authorities

- 15 (1) Every new valuation officer must, on 1 April 2020, compile a list (“the amalgamated list”) for the new billing authority for which the officer is appointed, based on the information provided to the officer under this section.
- 20 (2) The amalgamated list must contain all relevant information which was included in the current local non-domestic rating lists.
- (3) The amalgamated list must also include all relevant information which was included in any current local non-domestic rating list by way of an alteration.
- 25 (4) A new valuation officer's amalgamated list –
- (a) is to be treated for the purposes of this Act as the local non-domestic rating list for the officer’s new billing authority,
- (b) is deemed to have come into force on –
- (i) 1 April 2017, or
- (ii) if another date is specified in an order made under section 54A, that date, and
- 30 (c) remains in force until the next list is compiled under section 41.
- (5) Where an amalgamated list contains information which is derived from any alteration made to any list or lists from which it is derived, the amalgamated list is to be treated as having been varied on the date on which the alteration was made.
- 35 (6) Subsections (2) to (6B) of section 41 do not apply in relation to an amalgamated list.
- (7) Every old valuation officer must –

- (a) on or before 15 October 2019, provide the appropriate new valuation officer with all relevant information recorded in the old valuation officer's local non-domestic rating list as at 30 September 2019, and
- 5 (b) on the day before 1 April 2020, provide the appropriate new valuation officer with all relevant information recorded in the old valuation officer's local non-domestic rating list as at that date.
- 10 (8) A new valuation officer receiving any information under subsection (7)(a) must send a copy of it to his or her new billing authority as soon as is reasonably practicable.
- (9) As soon as is reasonably practicable after compiling an amalgamated list, a new valuation officer must send a copy of it to his or her new billing authority.
- 15 (10) A new billing authority receiving a copy of an amalgamated list under subsection (9) must deposit it at its principal office as soon as is reasonably practicable.
- (11) For the purposes of this section –
- 20 (a) references to an old valuation officer's local non-domestic rating list are references to the local non-domestic rating list maintained by him or her under this Act,
- (b) a new valuation officer's area is the area of the new billing authority for which he or she is appointed,
- 25 (c) the appropriate new valuation officer, in relation to any information which relates to any hereditament is the new valuation officer for the new billing authority in whose area the hereditament is situated, and
- (d) information is relevant in relation to a new valuation officer, or the officer's area, if it relates to a hereditament which is in the officer's area.
- 30 (12) In this section –
- 35 "current local non-domestic rating list" means a local non-domestic rating list compiled on 1 April 2017, unless another date is specified in an order made under section 54A, in which case it means a valuation list compiled on the date specified in the order;
- "old valuation officer" means a valuation officer for an old billing authority;
- 40 "new billing authority" means a billing authority which is a new council;
- "new council" has the same meaning as in the Local Government (Wales) Act 2017 (see section 13 of that Act);

“new valuation officer” means a valuation officer for a new billing authority;

“old billing authority” means a billing authority which is a council for a county or county borough abolished by the Local Government (Wales) Act 2017.”

Cronfeydd cynghorau

- 4 (1) Rhaid i bob cyngor newydd, ar 1 Ebrill 2020, sefydlu cronfa a elwir ei gronfa gyngor.
- (2) Rhaid i bob cyngor newydd gynnal ei gronfa gyngor.
- 10 (3) Rhaid i unrhyw symiau a dderbynnir gan gyngor newydd gael eu talu i’w gronfa gyngor.
- (4) Rhaid i’r holl daliadau gan gyngor newydd gael eu gwneud o’i gronfa gyngor.
- (5) Nid yw is-baragraffau (3) a (4) yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw symiau sydd i’w talu i gronfa ymddiriedolaeth, na thaliadau sydd i’w gwneud ohoni.
- 15 (6) Nid yw adran 101(1)(b) o Ddeddf 1972 (dirprwyo) yn gymwys o ran swyddogaethau cyngor newydd mewn perthynas â’i gronfa gyngor.
- (7) Rhaid i bob cyngor newydd gadw cyfrifon o’r symiau a delir i’w gronfa gyngor, a’r taliadau a wneir ohono.
- (8) Mae unrhyw gyfrif a gedwir mewn perthynas â threuliau cyffredinol cyngor newydd yn unig i’w alw yn gyfrif cyffredinol y cyngor ac mae unrhyw gyfrif a gedwir mewn perthynas ag unrhyw ddsbarth o dreuliau arbennig y cyngor yn unig (gweler adran 35 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (p.14)) i’w alw yn gyfrif arbennig.
- 20 (9) Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau –
- (a) sy’n ei gwneud yn ofynnol i asedau o ddisgrifiad a bennir yn y rheoliadau sy’n dod o fewn cronfa gyngor gael eu dal mewn cronfa ar wahân o fewn y gronfa gyngor;
- 25 (b) sy’n ei gwneud yn ofynnol i unrhyw gronfa (ac eithrio cronfa ymddiriedolaeth) o ddisgrifiad a bennir yn y rheoliadau a sefydlir gan gyngor newydd gael ei chynnal fel cronfa ar wahân o fewn ei chronfa gyngor.
- (10) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth mewn perthynas â’r rhwymedigaeth ar gynghorau newydd i wneud taliadau o’u cronfeydd cyngor mewn perthynas â phraeseptau a ddyroddir o dan Bennod 4 o Ran 1 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (p.14).
- 30 (11) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth ar gyfer rhannu ymhlith cyngor newydd a phrif awdurdodau praeseptio, yn unol â rheolau a bennir yn y rheoliadau, swm sy’n gyfwerth â’r cyfan neu ran o unrhyw ddidyniad sydd, yn unol â darpariaeth o dan baragraff 4(4A) o Atodlen 8 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 (p.41) (cadw ardrethi yn lleol), i fod i gael ei wneud wrth gyfrifo cyfraniad ardrethu annomestig y cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol.
- 35 (12) Caiff rheoliadau o dan is-baragraff (10) neu (11), yn benodol, gynnwys darpariaeth –
- (a) bod rhaid i unrhyw beth sydd i fod i gael ei dalu gael ei dalu –
- (i) o fewn cyfnod a bennir yn y rheoliadau, a
- 40

- (ii) mewn rhandaliadau o'r symiau hynny, ac ar yr adegau hynny, a bennir gan yr awdurdod bilio yn unol â rheolau a bennir yn y rheoliadau;
- (b) bod rhaid i'r awdurdod bilio hysbysu unrhyw awdurdodau praeseptio pryd y caiff rhandaliadau eu talu a sut y maent i'w cyfrifo;
- 5 (c) os na chaiff rhandaliad ei dalu i awdurdod praeseptio yn unol â'r rheoliadau, y bydd ganddo'r hawl i log ar swm y rhandaliad;
- (d) o ran yr amgylchiadau pan fo'r awdurdod bilio i'w drin fel pe bai wedi cyflawni'r rhwymedigaeth a grybwyllir yn is-baragraff (10) neu unrhyw rwymedigaeth sy'n codi o dan is-baragraff (11);
- 10 (e) o ran adennill (drwy ddidyniad neu fel arall) unrhyw swm dros ben a dalwyd gan yr awdurdod bilio i unrhyw awdurdod praeseptio wrth geisio cyflawni'r rhwymedigaeth i wneud taliadau a grybwyllir yn is-baragraff (10) neu unrhyw rwymedigaeth sy'n codi o dan is-baragraff (11).
- (13) Yn y paragraff hwn –
- 15 ystyr "awdurdod praeseptio" ("*precepting authority*") yw prif awdurdod praeseptio neu awdurdod praeseptio lleol (y mae iddo'r ystyr a roddir i "local precepting authority" gan adran 39(2) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (p.14));
- 20 mae i "prif awdurdod praeseptio" yr ystyr a roddir i "major precepting authority" gan adran 39(1) o'r Ddeddf honno.

ATODLEN 4
(a gyflwynir gan adran 18)

DARPARIAETH DROSIANNOL ETC.

RHAN 1

5

DARPARIAETH DROSIANNOL AMRYWIOL

Gohirio etholiadau cynghorwyr ar gyfer cynghorau sydd i'w diddymu gan y Ddeddf hon

- 1 (1) Nid oes etholiad cynghorwyr ar gyfer cyngor sydd i'w diddymu gan y Ddeddf hon i'w gynnal ar ôl 31 Rhagfyr 2018 ("y dyddiad gohirio") ac eithrio –
- 10 (a) i lenwi lle gwag achlysurol o ran swydd cynghorydd ar gyfer y cyngor hwnnw pan fo, cyn y dyddiad gohirio –
- (i) y swydd wedi ei chyhoeddi fel un wag, neu
- (ii) hysbysiad am y lle gwag wedi ei roi o dan adran 89(1) o Ddeddf 1972, neu
- (b) pan fo nifer y lleoedd gwag achlysurol o ran swydd cynghorydd ar gyfer y cyngor sy'n codi ar ôl y dyddiad gohirio yn fwy na hanner cyfanswm y swyddi hynny.
- 15 (2) Rhaid i unrhyw gynghorydd ar gyfer cyngor sydd i'w diddymu gan y Ddeddf hon sy'n dal swydd yn union cyn y dyddiad gohirio, neu a etholir ar ôl y dyddiad hwnnw i lenwi lle gwag achlysurol, oni bai ei fod yn ymddiswyddo o'i swydd neu bod y swydd yn dod yn wag fel arall, barhau i ddal y swydd hyd 1 Ebrill 2020.
- 20 (3) Nid oes gofyniad i lenwi unrhyw le gwag achlysurol o ran swydd cynghorydd ar gyfer cyngor sydd i'w diddymu gan y Ddeddf hon sy'n codi ar ôl y dyddiad gohirio; mae adran 89 o Ddeddf 1972 i'w darllen yn unol â hynny.
- (4) Nid oes gofyniad i lenwi unrhyw le gwag achlysurol sy'n codi yn ystod mis Mawrth 2020 o ran swydd cadeirydd neu is-gadeirydd cyngor sydd i'w diddymu gan y Ddeddf hon.

Ardaloedd llywodraeth leol presennol a newydd gyda'r un enw

- 25 2 (1) Pan fo gan sir newydd yr un enw ag ardal llywodraeth leol sy'n bodoli ar unrhyw adeg cyn 1 Ebrill 2020, nid yw cyfeiriadau mewn unrhyw ddeddfiad a basiwyd cyn y Ddeddf hon at yr ardal llywodraeth leol wrth ei henw i'w darllen fel cyfeiriadau at y sir newydd.
- (2) Mae'r adran hon yn ddarostyngedig i unrhyw ddarpariaeth i'r gwrthwyneb a wneir gan y Ddeddf hon neu oddi tani.

30 *Awdurdodau tân ac achub*

- 3 Nid yw'n ofynnol i Weinidogion Cymru achosi i ymchwiliad gael ei gynnal o dan is-adran (6) o adran 4 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (awdurdodau cyfunol) mewn perthynas â gorchymyn o dan is-adran (4) o'r adran honno a wneir o ganlyniad i newidiadau i ardaloedd llywodraeth leol a wneir gan Ran 1 o'r Ddeddf hon neu oddi tani.
- 35

RHAN 2

TROSGLWYDDO STAFF, EIDDO, HAWLIAU A RHWYMEDIGAETHAU

“Cyngor newydd perthnasol”

4 Yn y Rhan hon o’r Atodlen hon ystyr “cyngor newydd perthnasol”, mewn perthynas â
 5 chyngor a ddiddymir, yw’r cyngor newydd ar gyfer yr ardal sy’n cynnwys yr ardal a
 oedd yn ardal i’r cyngor a ddiddymir.

Trosglwyddo staff cyngorau a ddiddymir

5 (1) Ar 1 Ebrill 2020, trosglwyddir aelodau staff cyngor a ddiddymir i gyflogaeth y cyngor
 newydd perthnasol.

10 (2) Mae Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006 (O.S. 2006/246)
 (“Rheoliadau TUPE”) yn gymwys i drosglwyddiad o dan is-baragraff (1) neu reoliadau o
 dan adran 19 (pa un a yw’r trosglwyddiad yn drosglwyddiad perthnasol at ddibenion
 Rheoliadau TUPE ai peidio), yn ddarostyngedig i is-baragraff (3).

15 (3) Nid yw’r rheoliadau a ganlyn o Reoliadau TUPE yn gymwys i drosglwyddiad o dan is-
 baragraff (1) nac i reoliadau o dan adran 19—

- (a) rheoliad 4(6) (rhwymedigaeth droseddol), a
- (b) rheoliad 10 (pensiynau).

Trosglwyddo eiddo, hawliau a rhwymedigaethau

6 (1) Ar 1 Ebrill 2020, mae’r eiddo, yr hawliau a’r rhwymedigaethau (gan gynnwys
 20 rhwymedigaethau troseddol) yr oedd gan gyngor a ddiddymir yr hawl iddynt, neu yr
 oedd yn ddarostyngedig iddynt, yn cael eu trosglwyddo i’r cyngor newydd perthnasol ac
 yn cael eu breinio ynddo.

(2) Caiff unrhyw beth (gan gynnwys achos sifil neu droseddol)—

25 (a) sy’n ymwneud ag unrhyw eiddo, hawliau neu rhwymedigaethau a drosglwyddir o
 dan is-baragraff (1) neu reoliadau o dan adran 19, a

(b) sydd yn y broses o gael ei wneud gan gyngor a ddiddymir, neu mewn perthynas â
 chyngor a ddiddymir, yn union cyn 1 Ebrill 2020,

gael ei barhau ar y diwrnod hwnnw ac ar ôl hynny gan y cyngor newydd perthnasol neu
 mewn perthynas ag ef.

30 (3) Mae unrhyw beth a wnaed gan gyngor a ddiddymir neu mewn perthynas ag ef—

(a) at ddibenion unrhyw eiddo, hawliau neu rhwymedigaethau a drosglwyddir o dan
 is-baragraff (1) neu reoliadau o dan adran 19, neu mewn cysylltiad â hwy, a

(b) sydd mewn effaith yn union cyn 1 Ebrill 2020,

35 yn cael effaith ar y diwrnod hwnnw ac ar ôl hynny fel pe bai wedi ei wneud gan y cyngor
 newydd perthnasol, neu mewn perthynas ag ef.

(4) Mewn unrhyw offerynnau, contractau neu achosion sifil neu droseddol—

(a) sy’n ymwneud ag unrhyw eiddo, hawliau neu rhwymedigaethau a drosglwyddir o
 dan is-adran (1) neu reoliadau o dan adran 19, a

(b) sy'n cael eu gwneud neu eu cychwyn cyn 1 Ebrill 2020, mae cyfeiriad at gyngor a ddiddymir i'w drin ar y diwrnod hwnnw ac ar ôl hynny fel pe bai'n gyfeiriad, neu fel pe bai'n cynnwys cyfeiriad, at y cyngor newydd perthnasol.

- 5 (5) Nid yw'r paragraff hwn yn gymwys mewn perthynas â hawliau a rhwymedigaethau o dan gontract cyflogaeth a drosglwyddir i gyngor newydd perthnasol o dan baragraff 5 neu reoliadau o dan adran 19.
- 7 (1) Mae tystysgrif a ddyroddir gan Weinidogion Cymru bod eiddo wedi ei drosglwyddo o dan baragraff 6(1) neu reoliadau o dan adran 19 yn dystiolaeth derfynol o'r trosglwyddiad.
- 10 (2) Mae paragraff 6, a rheoliadau o dan adran 19, yn cael effaith mewn perthynas ag eiddo, hawliau neu rwymedigaethau y maent yn gymwys iddynt er gwaethaf unrhyw ddarpariaeth (o ba natur bynnag) a fyddai fel arall yn rhwystro, yn cosbi neu yn cyfyngu ar drosglwyddo'r eiddo, yr hawliau neu'r rhwymedigaethau.

ATODLEN 5
(a gyflwynir gan adran 21)

DEDDF 1972: DIWYGIADAU A DARPARIAETH DROSIANNOL

RHAN 1

MÂN DDIWYGIADAU A DIWYGIADAU CANLYNIADOL

5

1 Mae Deddf 1972 wedi ei diwygio yn unol â'r Rhan hon o'r Atodlen hon.

2 Yn adran 2 (cyfansoddiad prif gynghorau yn Lloegr) hepgorer is-adran (2B).

3 (1) Mae adran 20 (prif ardaloedd llywodraeth leol newydd yng Nghymru) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

10 (2) Cyn is-adran (1) mewnosoder –

“(A1) Section 1 of the Local Government (Wales) Act 2017 makes provision about –

15

(a) the local government areas in Wales (which are the counties set out in the table in Schedule 1 to that Act, and the communities originally established under this section subject to any subsequent changes to those communities), and

(b) councils for the counties set out in the table in Schedule 1 to that Act.”

(3) Hepgorer is-adrannau (1) i (7).

20

(4) Yn lle is-adrannau (9) a (10) rhodder –

“(9) The Welsh Ministers may by regulations change the name by which any of the preserved counties is for the time being known.

(10) A statutory instrument containing regulations under subsection (9) is subject to annulment in pursuance of a resolution of the National Assembly for Wales.”

25

(5) Hepgorer is-adran (11).

(6) Yn lle teitl adran 20, rhodder “Local government areas and preserved counties in Wales”.

(7) Yn unol â hynny, yn lle'r croes-bennawd sy'n dod o flaen adran 20 rhodder “Local government areas and preserved counties after 1 April 2020”.

30

4 (1) Mae Atodlen 4 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Hepgorer Rhannau 1 a 2.

(3) Yn lle teitl yr Atodlen honno rhodder “PRESERVED COUNTIES”.

5 Mae adrannau 21 i 26 (cynghorau a'u haelodau) wedi eu diddymu (gweler Rhan 2 o'r Atodlen hon am ddarpariaeth bellach ynglŷn â diddymu adran 26 (etholiadau)).

35

6 (1) Mae adran 74 (newid enw sir) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn is-adran (1), hepgorer “, county borough” o'r ddau le y mae'n ymddangos.

(3) Hepgorer is-adran (2A).

(4) Yn is-adran (3), yn lle “the relevant Minister”, yn y ddau le y mae’n ymddangos, rhodder “the Secretary of State”.

(5) Hepgorer is-adran (3A).

(6) Yn is-adran (4) hepgorer “, county borough”.

5 (7) Hepgorer is-adrannau (7) ac (8).

(8) Yn y teitl, yn lle “county, district” rhodder “county or district in England”.

7 Mae adran 245A (cais gan gyngor sir i Ei Mawrhydi i roi siarter sy’n rhoi statws bwrdeistref sirol) wedi ei diddymu.

8 Yn adran 270(1) o Ddeddf 1972 (diffiniadau) ar ôl y diffiniad o “mayor and cabinet
10 executive” mewnosoder –

““ member”, in relation to a principal council which is operating executive arrangements which involve a mayor and cabinet executive, means –

(a) the elected mayor of the council;

15 (b) the chair of the council;

(c) a councillor of the council;”.

RHAN 2

DARPARIAETH SY’N GYSYLLTIEDIG Â DIDDYMU ADRAN 26 O DDEDDF 1972 (ETHOLIADAU)

Etholiadau cyffredin cynghorwyr ar gyfer cyngor sir Powys yn 2020

20 9 (1) Bydd etholiad cyffredin cynghorwyr ar gyfer cyngor sir Powys yn 2020 (a chynhelir etholiad cyffredin dilynol ar gyfer cynghorwyr o’r fath yn 2023, yn unol ag adran 10).

(2) Hyd etholiadau cyffredin cynghorwyr ar gyfer cynghorau sir yn 2023, mae adran 10(3) yn gymwys mewn perthynas â chynghorwyr ar gyfer cyngor sir Powys fel petai “tair blynedd” wedi ei roi yn lle “pum mlynedd”.

25 *Cyfnodau swyddi cynghorwyr*

10 (1) Mae is-baragraff (2) yn gymwys yn ystod y cyfnod sy’n dechrau pan ddaw adran 10 i rym ac sy’n dod i ben gydag etholiadau cyffredin cynghorwyr ar gyfer y cynghorau sir yn 2023.

30 (2) Mae adran 10(3) yn gymwys mewn perthynas â chynghorwyr ar gyfer y cynghorau o’r disgrifiadau a nodir yng ngholofn gyntaf tabl 1 fel pe bai’r geiriau a nodir yn ail golofn tabl 3 wedi eu rhoi yn lle “pum mlynedd” –

TABL 3

Disgrifiad o’r cyngor	Cyfnod o flynyddoedd
cynghorau newydd (sydd i’w hethol ar 2 Mai 2019)	“pedair blynedd”
cynghorau sydd i’w diddymu gan y Ddeddf hon	“tair blynedd”

35

Diwygiadau canlyniadol i Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (p.22)

11 (1) Mae Deddf Llywodraeth Leol 2000 (p.22) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 85 (opsiynau ar gyfer etholiadau) –

(a) yn is-adran (1) ar ôl “Part” mewnosoder “as it applies in relation to a principal council for an area in England,”,

(b) yn yr is-adran honno, cyn “a principal council” mewnosoder “such”, ac

(c) yn y teitl, ar ôl “election” mewnosoder “: England”.

(3) Yn adran 86 (pŵer i bennu cynllun ar gyfer etholiadau), hepgorer is-adran (1).

5

ATODLEN 6
(a gyflwynir gan adran 101)

CYNORTHWYWYR I WEITHREDIAETHAU AWDURDODAU LLEOL: DIWYGIADAU
PELLACH

5 *Deddf Llywodraeth Leol 1972 (p.70)*

- 1 (1) Mae Deddf 1972 wedi ei diwygio fel a ganlyn.
- (2) Ym mhob un o adrannau 22(1A), 24(1A), 24A(5) a 24B(3), ar ôl “principal council” mewnosoder “, or an assistant to the executive,”.
- 10 (3) Yn adran 80(1)(a), yn lle “or member of the executive” rhodder “, member of the executive or assistant to the executive”.
- (4) Yn adran 116, yn lle “or member of the executive” rhodder “, member of the executive or assistant to the executive”.
- (5) Yn adran 270(1), ar ôl y diffiniad o “appropriate Minister” mewnosoder –
- 15 ““assistant to the executive”, in relation to a principal council in Wales, has the same meaning as in Schedule 1 to the Local Government Act 2000 (see paragraph 3A of that Schedule);”.
- (6) Yn Atodlen 12, ym mharagraff 5(4), ar ôl “principal council” mewnosoder “, or an assistant to the executive,”.

Deddf Llywio 1987 (p.21)

- 20 2 Yn adran 3 o Ddeddf Llywio 1987 –
- (a) yn is-adran (9A)(a), ar ôl “local authority” mewnosoder “, or an assistant to the executive,”;
- (b) yn is-adran (10), ar ôl y geiriau agoriadol mewnosoder –
- 25 ““assistant to the executive” has the same meaning as in Schedule 1 to the Local Government Act 2000 (see paragraph 3A of that Schedule);”.

Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (p.14)

- 3 Yn adran 106(2A) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, ar ôl “to whom this section applies” mewnosoder “, and no assistant to the executive (within the meaning of
- 30 paragraph 3A of Schedule 1 to the Local Government Act 2000) to whom this section applies,”.

Deddf Llywodraeth Leol 2000 (p.22)

- 4 Yn adran 21(9) o Ddeddf 2000 (nid yw pwyllgor trosolwg a chraffu i gynnwys aelodau o’r weithrediaeth), ar ôl “executive” mewnosoder “or any assistant to the executive
- 35 (within the meaning of paragraph 3A of Schedule 1)”.

Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (mccc 4)

- 5 (1) Ym mhob un o'r darpariaethau a ganlyn o Fesur 2011, ar ôl "weithrediaeth yr awdurdod"
neu "weithrediaeth yr awdurdod lleol" (yn ôl y digwydd) mewnosoder "neu'n
gynorthwydd i'w weithrediaeth" –
- 5 (a) adran 12(2)(b);
(b) adran 14(2);
(c) yn adran 82, is-adrannau (2)(c);
(d) adran 83(2).
- 10 (2) Yn adran 82(3), ar ôl "weithrediaeth yr awdurdod" mewnosoder "neu gynorthwydd i'w
weithrediaeth".

ATODLEN 7
(a gyflwynir gan adran 105)

DIWYGIADAU CANLYNIADOL: PRIF WEITHREDWYR

Deddf Llywodraeth Leol 1972 (p.70)

- 5 1 Yn adran 112(2A) o Ddeddf 1972 (penodi staff), yn lle “heads of paid service” rhodder “chief executives”.

Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 (p.41)

- 2 Mae Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 wedi ei diwygio fel a ganlyn.
- 3 Yn adran 114(3A) (ymgyngori gan brif swyddog cyllid wrth lunio adroddiadau), ar
10 ddiwedd paragraff (a) mewnosoder “or, in the case of a council of a county or county borough in Wales, its chief executive”.
- 4 Yn adran 114A(3) (ymgyngori gan brif swyddog cyllid awdurdod sy’n gweithredu trefniadau gweithrediaeth), ar ddiwedd paragraff (a) mewnosoder “or, in the case of a council of a county or county borough in Wales, its chief executive”.

15 *Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (p.42)*

- 5 Mae Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 wedi ei diwygio fel a ganlyn.
- 6 Yn adran 2 (swyddi sydd â chyfyngiadau gwleidyddol), ar ddiwedd paragraff (a) mewnosoder “or, in the case of a council of a county or county borough in Wales, the person appointed as its chief executive under section 103 of the Local Government
20 (Wales) Act 2017”.
- 7 Yn adran 4(6) (diffiniad o “relevant authority”) –
(a) ym mharagraff (a), hepgorer “and Wales”;
(b) hepgorer yr “and” ar ôl paragraff (a);
(c) ar ôl y paragraff hwnnw mewnosoder –
25 “(aa) in relation to Wales, means an elected local policing body; and”.
- 8 Yn adran 5 (dynodi swyddog monitro ac adroddiadau ganddo) –
(a) yn is-adran (1), hepgorer y geiriau ar ôl paragraff (b) (a rhodder atalnod llawn yn lle’r hanner colon ar y diwedd);
30 (b) ar ôl is-adran (1) mewnosoder –
“(1ZA) But a relevant authority may not designate its chief finance officer as the monitoring officer.
(1ZB) In the case of a relevant authority which is a council of a county or county borough in Wales, the officer designated under subsection (1) above may not be the authority’s chief executive.”;
35 (c) yn is-adran (1B) –
(i) hepgorer “and Wales”, a

(ii) hepgorer paragraff (b);

(d) yn is-adran (3)(a), ar ôl “above” mewnosoder “or, in the case of a council of a county or county borough in Wales, its chief executive,”.

9 Yn adran 5A(5)(a) (ymgyngori gan swyddog monitro ar adroddiadau: trefniadau
5 gweithrediaeth), ar ôl “above” mewnosoder “or, in the case of a council of a county or county borough in Wales, its chief executive,”.

Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (mccc 4)

10 Mae Mesur 2011 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

11 Yn adran 8(4) (swyddogion na chaniateir eu dynodi'n bennaeth gwasanaethau
10 democrataidd), yn lle paragraff (a) rhodder –

“(a) prif weithredwr yr awdurdod a benodir o dan adran 103 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2017;”.

12 Yn adran 9(4) (swyddogaethau pennaeth gwasanaethau democrataidd), yn lle'r geiriau o
15 “pennaeth gwasanaeth cyflogedig” hyd y diwedd rhodder “prif weithredwr yn adran 103(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2017”.

13 Yn adran 143A (swyddogaethau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol
mewn perthynas â chyflogau prif weithredwr) –

(a) yn is-adran (1)(a) a (b), yn lle “pennaeth gwasanaeth cyflogedig” rhodder “prif weithredwr”;

20 (b) yn is-adran (3), yn lle “pennaeth ei wasanaeth cyflogedig” rhodder “ei brif weithredwr”;

(c) yn is-adran (3B), yn lle “bennaeth gwasanaeth cyflogedig” rhodder “brif weithredwr”;

25 (d) yn is-adran (5A), yn lle “bennaeth gwasanaeth cyflogedig” rhodder “brif weithredwr”;

(e) yn is-adran (7) –

(i) hepgorer y diffiniad o “pennaeth gwasanaeth cyflogedig”, a

(ii) yn y diffiniad o “cyflog”, yn lle “pennaeth gwasanaeth cyflogedig” rhodder
30 “prif weithredwr”, ac yn lle “i bennaeth y gwasanaeth cyflogedig” rhodder “i'r prif weithredwr”;

(f) yn unol â hynny, mae'r pennawd yn newid i “Swyddogaethau sy'n ymwneud â chyflogau prif weithredwr”.

Deddf Lleoliaeth 2011 (p.20)

14 Yn adran 43(2) o Ddeddf Lleoliaeth 2011 (diffiniad o “chief officer”: datganiadau polisi
35 tâl), ar ddiwedd paragraff (a) mewnosoder “or, in the case of a council of a county or county borough in Wales, its chief executive”.

Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddau a Phlismaona 2014 (p.12)

15 Yn adran 77 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddau a Phlismaona 2014 (cyfnod hysbysiadau sy'n gwahardd mynediad i fangreoedd penodol), yn lle is-adran (6) rhodder –

- 5 “(6) In this section “chief executive officer” means –
- (a) in relation to a local authority in England, the authority’s head of paid service designated under section 4 of the Local Government and Housing Act 1989;
 - 10 (b) in relation to a local authority in Wales, the authority’s chief executive appointed under section 103 of the Local Government (Wales) Act 2017.”

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (dccc 2)

16 Yn ail golofn y tabl ym mharagraff 7 o Atodlen 3 i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (cynrychiolaeth yng nghyfarfodydd byrddau gwasanaethau cyhoeddus), yn lle “pennaeth gwasanaeth taledig yr awdurdod a ddynodir o dan adran 4 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (p.42)” rhodder “phrif weithredwr yr awdurdod (gweler adran 103 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2017)”.

Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2015

17 Mae Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2015 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

20 18 Yn adran 1(2)(a) (trosolwg o'r Ddeddf), yn lle “penaethiaid gwasanaethau cyflogedig” rhodder “prif weithredwr”.

19 Yn adran 29(4) (cyfyngu ar benodi prif swyddogion drwy gyfarwyddyd), yn lle paragraff (a) rhodder –

25 “(a) ei brif weithredwr a benodir o dan adran 103o Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2017;”.

20 Yn adran 39 (estyn dros dro swyddogaethau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnyddiaeth Ariannol) –

(a) yn is-adran (1) –

30 (i) yn lle “penaethiaid gwasanaethau cyflogedig” rhodder “prif weithredwr”, a

(ii) yn lle “bennaeth gwasanaeth cyflogedig” rhodder “brif weithredwr” ac yn lle “pennaeth gwasanaeth cyflogedig” rhodder “prif weithredwr”;

(b) yn is-adran (2), yn lle “mae i “pennaeth gwasanaeth cyflogedig” (“head of paid service”) a “cyflog” (“salary”) yr ystyron” rhodder “mae i “cyflog” (“salary”) yr ystyr”;

35 (c) yn y pennawd, yn lle “penaethiaid gwasanaethau cyflogedig” rhodder “phrif weithredwr”.

ATODLEN 8
(a gyflwynir gan adran 63)

PWYLLGORAU ARDALOEDD CYMUNEDOL: DIWYGIADAU A DIDDYMIADAU
PELLACH

5 *Deddf Llywodraeth Leol 1972 (p.70)*

1 (1) Mae Deddf 1972 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 101, ar ôl is-adran (6A) mewnosoder –

“(6B) A principal council in Wales may not make arrangements under this section for a function of the council to be discharged by a community area committee appointed under section 43 of the Local Government (Wales) Act 2017 or by a sub-committee of such a committee (but see sections 55, 58 and 61 of that Act).”

(3) Yn adran 102(1A), hepgorer “or under regulations made under section 18 of that Act”.

Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (p.42)

15 2 Yn adran 9 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 –

(a) yn is-adran (8A), yn lle “18” rhodder “17”;

(b) yn lle is-adran (8B) rhodder –

“(8B) A community area committee appointed by a relevant authority in Wales under section 43 of the Local Government (Wales) Act 2017 shall not exercise any power under –

(a) section 58 of that Act (delegation of functions by community area committee), or

(b) section 14 or 15 of the Local Government Act 2000 (discharge of functions under executive arrangements),

so as to arrange for the discharge of any of the authority’s functions by any person who holds a post under the authority to which the person was appointed in pursuance of this section.”;

(c) yn is-adran (11), hepgorer y diffiniad o “community area committee”.

Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 (p.19)

30 3 (1) Mae Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Mae adrannau 27 i 31 wedi eu diddymu.

(3) Yn adran 64(1), hepgorer y diffiniad o “decentralisation scheme”.

Deddf Llywodraeth Leol 2000 (p.22)

4 (1) Mae Deddf 2000 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

35 (2) Yn adran 14 –

- (a) yn is-adran (1), yn lle "18, 19 or 20," rhodder "19 or 20, or under section 57 of the Local Government (Wales) Act 2017,";
- (b) yn is-adran (2)(b), hepgorer yr "or" ar ôl is-baragraff (iii) a mewnoer –
 "(iia) by a community area committee of the authority, or";
- 5 (c) yn is-adran (3), hepgorer yr "or" ar ôl paragraff (a) a mewnosoder –
 "(aa) by a community area committee of the authority, or";
- (d) yn is-adran (4), ar ôl "those functions" mewnosoder –
 " –
 (a) by a community area committee of the authority, or
 10 (b) ";
- (e) yn is-adran (5), ar ôl "those functions" mewnosoder –
 " –
 (a) by a community area committee of the authority, or
 (b) ";
- 15 (f) ar ôl is-adran (5) mewnosoder –
 "(5A) Where by virtue of this section any functions may be discharged by a
 community area committee of a local authority, then, unless the
 elected mayor otherwise directs, the committee may arrange for the
 discharge of any of those functions –
 20 (a) by a sub-committee of the community area committee, or
 (b) by an officer of the authority.
 (5B) Arrangements under this section may not provide for a community
 area committee of a local authority to discharge functions otherwise
 than in relation to the area of the committee."

25 (3) Yn adran 15 –

- (a) yn is-adran (1), yn lle "18, 19 or 20," rhodder "19 or 20, or under section 57 of the Local Government (Wales) Act 2017,";
- (b) yn is-adran (4)(b), hepgorer yr "or" ar ôl is-baragraff (iii) a mewnosoder –
 "(iia) by a community area committee of the authority, or";
- 30 (c) yn is-adran (5), hepgorer yr "or" ar ôl paragraff (a) a mewnosoder –
 "(aa) by a community area committee of the authority, or";
- (d) yn is-adran (6), ar ôl "those functions" mewnosoder –
 " –
 (a) by a community area committee of the authority, or
 35 (b) ";
- (e) yn is-adran (7), ar ôl "those functions" mewnosoder –
 " –
 (a) by a community area committee of the authority, or

(b) “;

(f) ar ôl is-adran (7) mewnosoder –

“(7A) Where by virtue of this section any functions may be discharged by a community area committee of a local authority, the committee may arrange for the discharge of any of those functions –

(a) by a sub-committee of the community area committee, or

(b) by an officer of the authority.

(7B) Arrangements under this section may not provide for a community area committee of a local authority to discharge functions otherwise than in relation to the area of the committee.”;

(g) yn is-adran (8) –

(i) yn lle “or (iii)” rhodder “, (iii) or (iiia)”;

(ii) yn lle “or (7)” rhodder “, (7) or (7A)”.

(4) Yn adran 17(4), hepgorer “18,”.

(5) Mae adran 18 wedi ei diddymu.

(6) Yn adran 21 –

(a) yn is-adran (13), ar ôl paragraff (a) mewnosoder –

“(aza) may require any member of a community area committee of the authority to attend before it to answer questions relating to any function which is exercisable by the community area committee by virtue of –

(i) section 14 or 15, or

(ii) section 55 of the Local Government (Wales) Act 2017,”;

(b) yn is-adran (14), ar ôl “(a)” mewnosoder “, (aza)”.

(7) Yn adran 48(1), yn y man priodol mewnosoder –

““community area committee” means a committee appointed under section 43 of the Local Government (Wales) Act 2017,”.

Deddf Lleoliaeth 2011 (p.20)

Yn Atodlen 3 i Ddeddf Lleoliaeth 2011 –

(a) hepgorer paragraff 4(b);

(b) hepgorer paragraff 16.

Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (mccc 4)

Mae adran 55 o Fesur 2011 wedi ei diddymu.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (dccc 2)

Yn adran 38(3) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ar ôl paragraff (ga) mewnosoder –

“(gb) y datganiad diweddaraf o flaenoriaethau ac amcanion a gyflwynwyd i’r awdurdod lleol gan bob un o’i bwyllgorau ardaloedd cymunedol o dan adran 52 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2017;”.

ATODLEN 9
(a gyflwynir gan adran 148)

AILENWI PWYLLGORAU ARCHWILIO CYNGHORAU SIR

- 1 Mae Mesur 2011 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.
- 5 2 Ym mhennawd Pennod 2 o Ran 6, ar ôl "PWYLLGORAU" mewnosoder "LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL AC".
- 3 Yn adran 81 (awdurdodau lleol i benodi pwyllgorau archwilio) –
- (a) yn y pennawd, ar ôl "pwyllgorau" mewnosoder "llywodraethu corfforaethol ac";
 - (b) yn is-adran (2), ar ôl "bwyllgor" yn y man cyntaf y mae'n ymddangos mewnosoder "llywodraethu corfforaethol ac";
 - 10 (c) yn is-adran (3), ar ôl "pwyllgor" mewnosoder "llywodraethu corfforaethol ac".
- 4 Yn adran 82 (aelodaeth) –
- (a) yn is-adran (1), ar ôl "bwyllgor" mewnosoder "llywodraethu corfforaethol ac";
 - (b) yn is-adran (2) –
 - 15 (i) ym mharagraff (a) yn lle "aelodau ei bwyllgor archwilio'n" rhodder "aelodau'r pwyllgor hwnnw'n";
 - (ii) ym mharagraff (c) yn lle "aelodau ei bwyllgor archwilio'n" rhodder "aelodau'r pwyllgor hwnnw'n";
 - (iii) ym mharagraff (d) yn lle "o'i bwyllgor archwilio" rhodder "o'r pwyllgor
 - 20 hwnnw";
 - (c) yn is-adran (3), ar ôl "pwyllgor" mewnosoder "llywodraethu corfforaethol ac";
 - (d) yn is-adran (4), ar ôl "bwyllgor" mewnosoder "llywodraethu corfforaethol ac";
 - (e) yn is-adran (5), ar ôl "bwyllgor" yn y ddau fan y mae'n ymddangos mewnosoder "llywodraethu corfforaethol ac";
 - 25 (f) yn is-adran (7), ar ôl "pwyllgor" mewnosoder "llywodraethu corfforaethol ac".
- 5 Yn adran 83 (trafodion etc.) –
- (a) yn is-adran (3), ar ôl "pwyllgor" yn y man cyntaf y mae'n ymddangos mewnosoder "llywodraethu corfforaethol ac";
 - (b) yn is-adran (4), ar ôl "pwyllgor" mewnosoder "llywodraethu corfforaethol ac";
 - 30 (c) yn is-adran (7), ar ôl "pwyllgor" mewnosoder "llywodraethu corfforaethol ac".
- 6 Yn adran 84 (cynnal cyfarfodydd: pa mor aml) –
- (a) yn is-adran (1), ar ôl "bwyllgor" mewnosoder "llywodraethu corfforaethol ac";
 - (b) yn is-adran (2), ar ôl "bwyllgor" mewnosoder "llywodraethu corfforaethol ac";
 - 35 (c) yn is-adran (3), ar ôl "pwyllgor" yn y man cyntaf y mae'n ymddangos mewnosoder "llywodraethu corfforaethol ac";
 - (d) yn is-adran (4), ar ôl "pwyllgor" mewnosoder "llywodraethu corfforaethol ac".
- 7 Yn adran 85 (canllawiau) –
- (a) yn is-adran (1) –

(i) ym mharagraff (a) ar ôl “pwyllgorau” mewnosoder “llywodraethu corfforaethol ac”;

(ii) ym mharagraff (b) yn lle “archwilio” rhodder “o’r fath”;

(b) yn is-adran (2), ar ôl “bwyllgor” mewnosoder “llywodraethu corfforaethol ac”.

5 8 Yn adran 86 (terfynu aelodaeth) –

(a) yn is-adran (1), ar ôl “bwyllgor” mewnosoder “llywodraethu corfforaethol ac”;

(b) yn is-adran (2), ar ôl “pwyllgor” mewnosoder “llywodraethu corfforaethol ac”;

(c) yn is-adran (4), ar ôl “pwyllgor” mewnosoder “llywodraethu corfforaethol ac”.

9 Yn adran 87 (dehongli etc.), yn is-adran (2) hepgorer y diffiniad o “pwyllgor archwilio”.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Bil Llywodraeth Leol (Cymru) Drafft

Memorandwm Esboniadol Drafft
Yn ymgorffori'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol
a'r Nodiadau Esboniadol

Tachwedd 2015

BIL LLYWODRAETH LEOL (CYMRU) DRAFFT

Memorandwm Esboniadol i'r Bil Llywodraeth Leol (Cymru) Drafft

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru ac fe'i cyhoeddir fel rhan o'r ymgynghoriad ar y Bil Drafft hwn.

Leighton Andrews AC

Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus

Cynnwys

RHAN 1 – MEMORANDWM ESBONIADOL

1. Disgrifiad
2. Y cefndir deddfwriaethol
3. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael
4. Ymgynghori
5. Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth

RHAN 2 – ASESIAID EFFAITH RHEOLEIDDIOL

6. Yr opsiynau, costau a manteision
7. Aseidiadau effaith penodol

ATODIAD A – Nodiadau Esboniadol

Disgrifiad

1. Bwriedir i ddarpariaethau'r Bil Llywodraeth Leol (Cymru) Drafft sefydlu Siroedd newydd a'u Cynghorau drwy uno dau neu ragor o Gynghorau Sir neu Gynghorau Bwrdeistref Sirol a sefydlu fframwaith deddfwriaethol newydd, diwygiedig ar gyfer democratiaeth, atebolrwydd, perfformiad a chyllid Llywodraeth Leol. Bydd darpariaethau'r Bil drafft hefyd yn sefydlu Comisiwn Staff statudol i'r Gwasanaethau Cyhoeddus.

2. Cefndir deddfwriaethol

2. Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (“y Cynulliad”) y cymhwysedd deddfwriaethol i wneud darpariaethau yn y Bil Llywodraeth Leol (Cymru) Drafft o dan Ran 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (Deddf 2006). Mae darpariaethau perthnasol Deddf 2006 wedi'u nodi yn adran 108 ac Atodlen 7.
3. Mae paragraffau 2, 3, 5, 6, 7, 9, 12, 14, 15, 16 a 19 o Ran 1 o Atodlen 7 i Ddeddf 2006 yn rhestru'r pynciau perthnasol sy'n rhoi cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad wneud y darpariaethau sydd yn y Bil hwn. Caiff y paragraffau perthnasol eu hatgynhyrchu isod:

Nid yw'r testun hwn ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi'i gwneud yn Gymraeg ydyw.

Ancient monuments and historic buildings

2 Archaeological remains. Ancient monuments. Buildings and places of historical or architectural interest. Historic wrecks.

Culture

3 Arts and crafts. Museums and galleries. Libraries. Archives and historical records. Cultural activities and projects.

Education and training

5 Education, vocational, social and physical training and the careers service. Promotion of advancement and application of knowledge.

Environment

6 Environmental protection, including pollution, nuisances and hazardous substances. Prevention, reduction, collection management, treatment and disposal of waste. Land drainage and land improvement. Countryside and open space. Nature conservation and sites of special scientific interest. Protection of natural habitats, coast and marine environment (including seabed). Biodiversity.

Fire and rescue services and fire safety

7 Fire and rescue services. Promotion of fire safety otherwise than by prohibition or regulation.

Health and health services

9 Promotion of health. Prevention, treatment, Provision of health services, including medical, dental, ophthalmic, pharmaceutical and ancillary services and facilities, Clinical governance and standards of health care, Organisation and funding of national health service.

Local Government

12 Constitution, structure and areas of local authorities. Electoral arrangements for local authorities. Powers and duties of local authorities and their members and officers. Local government finance.

“Local authorities” does not include police authorities.

Public Administration

14 Equal opportunities in relation to equal opportunity public authorities. Access to information held by open access public authorities.

Social welfare

15 Social welfare including social services. Protection and well-being of children (including adoption and fostering) and of young adults. Care of children, young adults, vulnerable persons and older persons, including care standards.

Sport and recreational activities

16 Sport and recreational activities.

Water and flood defences

19 Water supply, water resources management (including reservoirs), water quality and representation of consumers of water and sewerage services. Flood risk management and coastal protection.

4. Nid oes unrhyw un o ddarpariaethau'r Bil yn dod o dan unrhyw un o'r eithriadau a bennir yn Rhan 1 o Atodlen 7 i Ddeddf 2006, nac yn gymwys heblaw mewn perthynas â Chymru nac yn rhoi, gosod, addasu neu'n dileu (neu'n rhoi pŵer i roi, gosod, addasu neu ddileu) swyddogaethau sy'n arferadwy heblaw mewn perthynas â Chymru; nid ydynt ychwaith yn torri unrhyw gyfyngiadau yn Rhan 2 o Atodlen 7, gan ystyried unrhyw eithriad i'r cyfyngiadau hynny sydd wedi'u nodi yn Rhan 3 o'r Atodlen honno.

3. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Cefndir: Diwygio Llywodraeth Leol

5. Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn datgan beth yw Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer pedwerydd tymor y Cynulliad. Roedd Pennod 2 y Rhaglen Lywodraethu yn cyflwyno ymrwymadau sy'n ceisio cefnogi gwelliant parhaus mewn gwasanaethau cyhoeddus.
6. Un o'r ymrwymadau hyn oedd sefydlu'r Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus. Cylch gwaith y Comisiwn, a sefydlwyd ym mis Ebrill 2013, oedd cynhyrchu adroddiad annibynnol ar y ffordd y mae gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn cael eu llywodraethu a'u darparu ar hyn o bryd, sut y mae angen i hyn newid er mwyn bodloni anghenion pobl heddiw, a sut i greu sail gynaliadwy ar gyfer y dyfodol.
7. Roedd adroddiad y Comisiwn, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2014¹, yn cynnwys cyfres o argymhellion ar gyfer gweithredu. Roedd yn cyflwyno dadl gref dros newid radical i wella gallu gwasanaethau cyhoeddus i ymateb i heriau cynyddol. Cyflwynwyd yr argymhellion fel pecyn sy'n ymdrin ag ystod o feysydd, gan gynnwys camau i:
 - symleiddio trefniadau darparu a lleihau cymhlethdod;
 - sicrhau maint a gallu sy'n cynnal ac yn gwella gwasanaethau;
 - cryfhau'r drefn ar gyfer llywodraethu, darparu a chraffu ar wasanaethau;
 - datblygu'r arweinyddiaeth, y diwylliant a'r gwerthoedd cywir ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus; a
 - gwella perfformiad gwasanaethau a'r ffordd y caiff perfformiad ei reoli.
8. Daeth y Comisiwn i'r casgliad fod y sector cyhoeddus yng Nghymru yn orlawn a bod llawer o sefydliadau cyhoeddus yn rhy fach. Roedd o'r farn bod hyn yn golygu bod rhyngberthnasau yn rhy gymhleth, a bod hyn yn wir am strwythurau ffurfiol yn ogystal â phartneriaethau a threfniadau cydweithredol llai ffurfiol. Er bod rhai sefydliadau cyhoeddus bach yng Nghymru o bosibl yn perfformio'n dda (a rhai sefydliadau mawr o bosibl yn perfformio'n wael), roedd y rhai llai yn wynebu risgiau lluosog a difrifol i lywodraethu a darparu a oedd yn debygol o waethygu yn y tymor canolig. Ymhlith ei argymhellion, roedd y Comisiwn yn datgan y dylid cyfuno'r 22 o Gynghorau Sir neu Gynghorau Bwrdeistref Sirol drwy uno Cynghorau Sir neu Gynghorau Bwrdeistref Sirol sy'n bodoli eisoes i greu Cynghorau

¹<http://gov.wales/topics/improvingservices/public-service-governance-and-delivery/report/?skip=1&lang=cy>

newydd, nid drwy ail-lunio ffiniau. Cyflwynodd y Comisiwn bedwar opsiwn ar gyfer uno, sy'n creu 12, 11 neu 10 Cyngor newydd.

9. Ym mis Gorffennaf 2014, ymatebodd Llywodraeth Cymru i adroddiad y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus drwy gyhoeddi *Datganoli, Democratiaeth a Chyflawni: Gwella Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer Pobl Cymru*.² Roedd hwn yn derbyn argymhelliad y Comisiwn y dylid lleihau nifer y Cyngorau Sir neu Gyngorau Bwrdeistref Sirol yng Nghymru drwy broses uno.
10. Hefyd ym mis Gorffennaf 2014, cyhoeddodd Gweinidogion Cymru y Papur Gwyn *Datganoli, Democratiaeth a Chyflawni - Diwygio Llywodraeth Leol*.³ Roedd y Papur Gwyn yn datgan bwriad Gweinidogion Cymru i gyflwyno deddfwriaeth gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, i ddiwygio Llywodraeth Leol.
11. Roedd y Papur Gwyn yn dangos bod Llywodraeth Cymru yn ffafrio Opsiwn 1 o blith argymhellion y Comisiwn ar gyfer uno Cyngorau, h.y. lleihau nifer y Cyngorau Sir neu Gyngorau Bwrdeistref Sirol o 22 i 12.
12. Yn y Papur Gwyn, roedd Gweinidogion Cymru yn nodi dadl y Comisiwn ar yr egwyddorion ar gyfer uno: y dylai ffiniau Cyngorau Sir neu Gyngorau Bwrdeistref Sirol a gaiff eu huno gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau mewn modd integredig, a hynny drwy sicrhau bod ffiniau'n cyd-fynd â ffiniau Byrddau Iechyd Lleol a Heddluoedd, ac y dylai'r diwygiadau fod yn seiliedig ar uno - er mwyn osgoi'r ansefydlogrwydd a fyddai'n cael ei achosi wrth hollti Cyngorau Sir neu Gyngorau Bwrdeistref Sirol sy'n bodoli eisoes. Yn unol â'r egwyddorion hyn, datganodd Gweinidogion Cymru eu bwriad y dylai unrhyw Ardal Llywodraeth Leol newydd fod yn seiliedig ar uno dau neu ragor o Ardaloedd Llywodraeth leol cyfan.
13. Fodd bynnag, roedd y Papur Gwyn yn cydnabod bod rhai Cyngorau Sir neu Gyngorau Bwrdeistref Sirol wedi awgrymu y byddai'n well ganddynt drefniadau uno gwahanol. Mynegodd Gweinidogion Cymru eu bod yn barod i ystyried dewisiadau eraill posibl, ond y byddai angen tystiolaeth i gefnogi unrhyw gynnig gwahanol ac y byddai angen i bob Cyngor Sir neu Gyngor Bwrdeistref Sirol cyfredol y mae'n effeithio'n uniongyrchol ac yn anuniongyrchol arno gefnogi'r cynnig.
14. Yn ogystal ag amlinellu'r opsiwn yr oedd Gweinidogion Cymru yn ei ffafrio ar gyfer uno, roedd y Papur Gwyn yn rhoi manylion y cynllun ar gyfer cyflwyno rhaglen uno lawn.
15. Roedd y Papur Gwyn yn cydnabod bod lleihau nifer y Cyngorau drwy broses uno yn osgoi llawer o'r cymhlethdodau a'r heriau a fyddai'n

² <http://gov.wales/topics/improving-services/devolution-democracy-delivery/?skip=1&lang=cy>

³ <http://gov.wales/consultations/local-government/white-paper-reforming-local-government/?skip=1&lang=cy>

gysylltiedig ag ail-lunio ffiniau, ond ei bod serch hynny yn dasg sylweddol. Roedd Gweinidogion Cymru o'r farn nad oedd digon o amser i ddatblygu, cynllunio a deddfu ar gyfer rhaglen uno lawn cyn etholiadau nesaf y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Mai 2016. Felly, roedd y Papur Gwyn yn rhoi manylion bwriad Llywodraeth Cymru i gyhoeddi Bil Drafft (y Bil Drafft hwn) ar gyfer ymgynghoriad yn ystod hydref 2015. Byddai'r Bil Drafft yn amlinellu'r bwriadau o ran uno Cynghorau Sir neu Gynghorau Bwrdeistref Sirol a diwygio Llywodraeth Leol yn ehangach.

16. Roedd y Papur Gwyn hefyd yn amlinellu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gefnogi a hwyluso'r Cynghorau Sir neu Gynghorau Bwrdeistref Sirol a oedd yn dymuno cychwyn proses uno wirfoddol yn gynnar, a hynny drwy wneud darpariaeth ddeddfwriaethol benodol, sef Bil Llywodraeth Leol (Cymru) cyntaf.
17. Cyhoeddwyd y *Gwahoddiad i Brif Awdurdodau Lleol yng Nghymru Gyflwyno Cynigion ar gyfer Uno Gwirfoddol*⁴ ym mis Medi 2014. Roedd yn ailadrodd y ffaith mai'r opsiwn a ffafriwyd oedd Opsiwn 1 o blith argymhellion y Comisiwn ar gyfer uno Cynghorau Sir neu Gynghorau Bwrdeistref Sirol. Ond, roedd yn datgan y byddai Gweinidogion yn fodlon ystyried cynigion gwahanol gan Gynghorau i greu Cyngor newydd drwy geisio dod at ei gilydd mewn grwpiau mwy nag y sonnir amdanynt yn 'Opsiwn 1'.
18. Estynnwyd gwahoddiad i Gynghorau a oedd yn dymuno uno'n wirfoddol gyflwyno datganiadau manwl o ddiddordeb erbyn mis Tachwedd 2014 ac achosion dros uno, wedi'u datblygu'n llawn, erbyn mis Mehefin 2015. Cafwyd tri datganiad o ddiddordeb ac fe'u hystyriwyd yn erbyn meini prawf penodol. Ar 25 Ionawr 2015, cadarnhaodd y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus y penderfyniad i beidio â chanlyn unrhyw un o'r datganiadau o ddiddordeb. Hyd yma, ni chyflwynwyd rhagor o ddatganiadau o ddiddordeb neu achosion dros uno. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau o dan y Bil cyntaf yw 30 Tachwedd 2015.
19. Cyflwynwyd y Bil Llywodraeth Leol (Cymru) cyntaf gerbron y Cynulliad ar 26 Ionawr 2015, ac fe basiodd y Cynulliad y Bil ar 20 Hydref. Bydd y ddeddfwriaeth yn ei gwneud hi'n bosibl i baratoadau gael eu gwneud ar gyfer y rhaglen uno a diwygio Llywodraeth Leol. Mae'r ddeddfwriaeth yn gosod mesurau diogelu i annog yn erbyn ac atal unrhyw weithredoedd gan Gynghorau Sir neu Gynghorau Bwrdeistref Sirol cyfredol a allai achosi niwed i enw da neu sefyllfa ariannol unrhyw gyngor sir sy'n cael ei greu drwy uno yn y dyfodol. Mae hefyd yn diwygio'r darpariaethau ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 a Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 i sicrhau bod y mesurau hynny'n gweithredu'n effeithiol.
20. Roedd ail Bapur Gwyn a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2014 yn cyflwyno cynigion ar gyfer Comisiwn Staff i'r Gwasanaethau Cyhoeddus i ddatblygu

⁴<http://gov.wales/topics/localgovernment/publications/local-authorities-proposals-for-voluntary-mergers/?skip=1&lang=cy>

a rhannu arferion da o ran trefniadau gweithlu ar draws y gwasanaethau cyhoeddus.⁵ Sefydlwyd y Comisiwn Staff ar sail anstatudol ym mis Medi 2015.

21. Cyhoeddwyd y trydydd Papur Gwyn, sef *Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol*⁶ ym mis Chwefror 2015. Roedd yn canolbwyntio ar ail-ddylunio Cynghorau yn fewnol i ategu a chefnogi'r diwygio strwythurol a ddisgrifiwyd yn y Papur Gwyn cyntaf, sef *Diwygio Llywodraeth Leol*. Mae hyn yn cynnwys ystod o ddiwygiadau sylfaenol i sicrhau perfformiad cryf, democratiaeth gadarn, llywodraethu da a phrosesau darparu da i gymunedau.
22. Ar 17 Mehefin 2015, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru pa opsiwn yr oedd yn ei ffafrio o ran patrwm Llywodraeth Leol yng Nghymru yn y dyfodol.⁷ Cyhoeddwyd dau fap a oedd yn dangos yr opsiwn a ffeirid o ran y strwythur yn y De, y Canolbarth a'r Gorllewin yn y dyfodol, gyda dau opsiwn (dwy neu dair Ardal Llywodraeth Leol) yn y Gogledd.
23. Y cynigion hyn sy'n sail i'r ail Fil hwn, Bil Llywodraeth Leol (Cymru). Mae'r ymgynghoriad hwn yn rhoi'r cyfle i'r cyhoedd, y Cynghorau Sir neu Gyngorau Bwrdeistref Sirol cyfredol ac eraill gyflwyno sylwadau ar y cynigion. Bydd hyn yn rhoi'r cyfle i'r Llywodraeth a ddaw i rym yng Nghymru ar ôl mis Mai 2016 benderfynu'n gynnar sut y mae'n dymuno symud ymlaen, gyda'r fantais o gael cynnig deddfwriaethol wedi'i datblygu, a dealltwriaeth lawn o farn rhanddeiliaid yn gymorth iddi.

Diben y darpariaethau

24. Diben y Bil Drafft yw sefydlu Siroedd newydd drwy uno Siroedd a Bwrdeistrefi Sirol sy'n bodoli eisoes. Bydd hynny'n sefydlu fframwaith deddfwriaethol newydd a diwygiedig ar gyfer democratiaeth, atebolrwydd, perfformiad a chyllid Llywodraeth Leol ac yn sefydlu Comisiwn Staff statudol i'r Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae'r adrannau a ganlyn yn amlinellu'r newidiadau a wneir gan y Bil Drafft hwn. Yn yr adrannau hyn, mae unrhyw gyfeiriad at "y Papur Gwyn", yn gyfeiriad at y Papur Gwyn *Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol*, oni bai y nodir yn wahanol.

Yr effaith y bwriedir i'r darpariaethau ei chael

Rhan 1: Ardaloedd Llywodraeth Leol a Chynghorau Sir

(Cyfeiriadau allweddol yn y Bil Drafft: Rhan 1, Penodau 1 i 4 ac Atodlenni 1 i 5)

Ardaloedd Llywodraeth Leol (Pennod 1)

25. Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan pa opsiwn y mae'n ei ffafrio ar gyfer patrwm Llywodraeth Leol yng Nghymru yn y dyfodol. Mae Gweinidogion Cymru wedi datgan yn gyhoeddus mai eu hegwyddor arweiniol yw y bydd

⁵<http://gov.wales/consultations/improving/public-services-staff-commission-consultation/?skip=1&lang=cy>

⁶<http://gov.wales/consultations/localgovernment/power-to-local-people/?skip=1&lang=cy>

⁷<http://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/2015/lgfuture/?skip=1&lang=cy>

unrhyw Ardal Llywodraeth Leol yn seiliedig ar uno dwy neu ragor o Ardaloedd Llywodraeth Leol cyfan sy'n bodoli eisoes.⁸

26. Mae Adran 1 yn sefydlu'r Siroedd newydd yng Nghymru o 1 Ebrill 2020 ymlaen. Roedd y Papur Gwyn yn cynnig y dylid galw'r Ardaloedd Llywodraeth Leol newydd yn 'Siroedd' ac na ddylid defnyddio'r term 'Bwrdeistref Sirol' mwyach. Roedd chwe deg y cant o'r rhai a ymatebodd ar-lein i'r ymgynghoriad yn cytuno. Mae'r Bil yn darparu y bydd y Prif Ardaloedd Llywodraeth Leol yng Nghymru yn cael eu galw'n Siroedd o 1 Ebrill 2020 ymlaen.

27. Mae Atodlen 1 yn cyflwyno dau gynnig gwahanol ar gyfer y nifer o Siroedd. Mae un cynnig yn ystyried wyth o Siroedd; mae'r cynnig arall yn ystyried naw o Siroedd (gan gynnwys Powys yn y ddau achos). Disgrifir y rhain drwy gyfeirio at y Siroedd a'r Bwrdeistrefi Sirol cyfredol a fyddai'n eu ffurfio. Cynigir y dylai sir Powys a'i Chyngor barhau o fewn ei ffin cyfredol. Mae'r adran hon hefyd yn darparu y daw bodolaeth y Siroedd a'r Bwrdeistrefi Sirol cyfredol a'u Cynghorau (ac eithrio sir Powys a'i Chyngor) i ben ar 1 Ebrill 2020. Mae'r Ardaloedd Llywodraeth Leol ar gyfer cymunedau'n aros fel y maent.

28. Mae cyfansoddiad y Siroedd newydd arfaethedig yn destun ymgynghoriad.

Cynghorau Sir (Pennod 2)

29. Mae adran 2 yn darparu y bydd y Cynghorau ar gyfer y Siroedd newydd yn dwyn enw'r Sir newydd ynghyd â'r geiriau 'Cyngor Sir' neu 'Cyngor' (yn ôl disgrisiwn y Cynghorau).

30. Ac eithrio Powys, cyfeirir at y Siroedd newydd arfaethedig fel Sir 1 ac ati yn y Tablau a gyflwynir yn Atodlen 1 i'r Bil Drafft. Y bwriad yw y bydd Awdurdodau Cysgodol, sydd i'w hethol yn 2019, yn pennu enw eu Sir newydd (yn Gymraeg ac yn Saesneg). Bydd y pŵer gwneud rheoliadau ym mharagraff 2(1) o Atodlen 1 yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi grym cyfreithiol i'r enwau a bennir gan yr Awdurdodau Cysgodol.

31. Mae adrannau 3-12 yn ailddatgan, gyda rhai addasiadau, adrannau 22 i 26 ac adran 74 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ("Deddf 1972"). Mae'r rhain yn gwneud darpariaethau ar gyfer:

- ethol cadeirydd, is-gadeirydd, aelod llywyddol a dirprwy aelod llywyddol Cyngor Sir;
- etholiad "cyffredin" Cynghorwyr a'u cyfnod swydd (mae "etholiad cyffredin" yn derm a ddefnyddir mewn deddfwriaeth am ethol holl aelodau'r Cyngor ar adegau rheolaidd); a
- galluogi Cyngor Sir i newid enw'r Sir y mae'n Gyngor iddi.

32. Mae'r addasiadau'n cynnwys:

⁸Cyfeirir at y rhain fel "principal areas" yn Neddf Llywodraeth Leol 1972

- Mae gan gadeirydd Cyngor Bwrdeistref Sirol yr hawl i'r teitl "maer"; nid yw'r teitl hwn ar gael i gadeirydd Cyngor Sir ar hyn o bryd. Mae adran 6 yn darparu y caiff cyngor sir benderfynu bod y cadeirydd i gael y teitl "maer".
- Mae adran 8 yn darparu y bydd swyddogaethau dirprwy aelod llywyddol, yn ddarostyngedig i reolau sefydlog y Cyngor, yn gyson â swyddogaethau is-gadeirydd;
- Mae adran 9 yn darparu bod rhaid i gadeirydd y cyngor gael y teitl "maer" neu "cadeirydd dinesig" - yn unol â phenderfyniad y Cyngor, os yw Cyngor wedi penderfynu cael aelod llywyddol a dirprwy aelod llywyddol;
- Cynhelir yr etholiadau cyntaf ar gyfer y Cynghorau newydd a sefydlir gan y Bil Drafft ym mis Mai 2019 (gweler adran 14). Mae adran 10 yn darparu mai pum mlynedd fydd cylch etholiadau a chyfnod swydd Cynghorwyr o ddyddiad etholiadau cyffredin Cynghorwyr y Cynghorau newydd ym mis Mai 2023. Mae hyn er mwyn osgoi gwrthdaro ag etholiadau'r Cynulliad ac etholiadau Senedd y DU, sydd ill dau wedi symud i dymhorau pum mlynedd.

33. Mae'r ddarpariaeth yn adran 12 yn galluogi Cyngor Sir, ar unrhyw ddyddiad yn y dyfodol, i newid enw'r Sir drwy gynnig sy'n cael ei basio gan o leiaf dwy ran o dair o'r aelodau sy'n pleidleisio. Ni fydd y swyddogaeth hon yn cael ei throsglwyddo i'r Awdurdodau Cysgodol o ganlyniad i reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan y Bil ac, felly, ni fydd yn berthnasol wrth enwi'r Siroedd newydd am y tro cyntaf.

Sefydlu'r Cynghorau ar gyfer y Siroedd newydd (Pennod 3)

34. Mae'r Bil Drafft yn gwneud darpariaethau ar gyfer trefniadau pontio sy'n gysylltiedig â sefydlu'r Cynghorau Sir newydd (heb gynnwys Powys). Mae adran 14 yn darparu y bydd etholiadau cyffredin cyntaf Cynghorwyr ar gyfer y Cynghorau newydd yn cael eu cynnal ar 2 Mai 2019. Mae Atodlen 2 yn gwneud darpariaethau sy'n gysylltiedig ag etholiadau cyffredin cyntaf a chyfarfodydd cyntaf y Cynghorau newydd. Mae'r darpariaethau hyn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod etholiadau cyntaf a chyfarfodydd cyntaf y Cynghorau hyn yn gweithredu'n effeithiol i gyflawni'r newid o'r strwythur Llywodraeth Leol cyfredol i'r un newydd.

35. Mae Adran 15 yn darparu y bydd y Cynghorau Sir newydd a etholir yn yr etholiadau cyntaf yn Awdurdodau Cysgodol o fis Mai 2019 tan 1 Ebrill 2020. Ar 1 Ebrill 2020, bydd y Cynghorau Sir newydd yn gyfrifol am yr ystod lawn o swyddogaethau Llywodraeth Leol.

36. Bydd darpariaethau ar gyfer swyddogaethau'r Awdurdodau Cysgodol, a'u cyllido, yn ystod y cyfnod cysgodol yn cael eu gwneud o dan reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru. Bydd y swyddogaethau a fydd yn cael eu trosglwyddo yn eu galluogi i baratoi a chynllunio ar gyfer cymryd drosodd yr ystod lawn o swyddogaethau Llywodraeth Leol. Bydd yr Awdurdodau Cysgodol yn bodoli ac yn gweithio ochr yn ochr â'r Cynghorau y byddant yn eu disodli. Bydd y rheoliadau hyn yn cynnwys, er enghraifft, rôl hanfodol

pob Awdurdod Cysgodol mewn perthynas â chyllideb uniongyrchol a chynlluniau ariannol tymor canolig y Cyngor newydd, a sut y caiff y cynlluniau hynny eu cyllido. Bydd gan Weinidogion Cymru bwerau i roi canllawiau i'r Awdurdodau Cysgodol. Bydd y canllawiau hynny'n cynnwys materion megis disgwyliadau Gweinidogion Cymru o ran cynllunio ariannol. Byddwn yn disgwyl i'r gwaith paratoi pwysig hwn adeiladu ar y gwaith cynllunio a'r paratodau a gychwynnwyd gan Bwyllgorau Pontio. Bydd y Cyngorau Sir a'r Cyngorau Bwrdeistref Sirol sy'n bodoli eisoes yn parhau i fod yn gyfrifol am weithredu a darparu gwasanaethau o ddydd i ddydd yn eu hardaloedd tan 1 Ebrill 2020. Ceir rhagor o ddarpariaethau sy'n ymwneud â Phwyllgorau Pontio ac Awdurdodau Cysgodol yn y Bil Llywodraeth Leol (Cymru) cyntaf (adrannau 11 i 15, 25 i 30 a 38).

37. Mae Atodlen 3, a gyflwynir gan adran 16, yn cynnwys darpariaethau sy'n angenrheidiol i sicrhau bod swyddogaethau cyllid yn cael eu cyflawni gan y Cyngorau Sir newydd o 1 Ebrill 2020 ymlaen. Yn gyntaf, y Cyngorau newydd fydd yr "awdurdod bilio" at ddibenion codi refeniw trethi lleol gan eiddo domestig ac annomestig am y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2020. Bydd hyn yn galluogi Awdurdodau Cysgodol i ddechrau ar y gwaith paratoi angenrheidiol cyn y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2020. Mae hyn yn cynnwys galluogi Awdurdodau Cysgodol i osod y gofynion o ran y gyllideb a'r dreth gyngor yn barod ar gyfer y flwyddyn ariannol gyntaf (2020-21). O dan y gyfraith, bydd angen i hyn ddigwydd cyn 11 Mawrth 2020 i alluogi Awdurdodau Cysgodol i gyflwyno biliau i drethdalwyr domestig ac annomestig cyn dechrau'r flwyddyn ariannol.
38. I sicrhau newid esmwyth o ran gweithgareddau bilio ar gyfer yr ardaloedd newydd, mae'r Bil Drafft yn cynnig mai cyfuniad o restrau prisio cyfredol fydd y rhestrau prisio at ddibenion treth gyngor ac ardrethu annomestig y Cyngorau Sir newydd. Mae hyn yn unol â'r dull a ddilynwyd pan fu newidiadau i strwythur Llywodraeth Leol yn y gorffennol.
39. Gwneir rhagor o ddarpariaethau sy'n ymwneud â sefydlu cronfeydd cyngorau, cadw cyfrifon cyffredinol ac arbennig, a thaliadau i awdurdodau praeseptio.
40. Mae adran 17 yn cynnwys y darpariaethau angenrheidiol ar gyfer trosglwyddo swyddogaethau o'r Cyngorau Sir a'r Cyngorau Bwrdeistref Sirol a ddiddymir i'r Cyngorau Sir newydd.
41. Mae Atodlen 4, a gyflwynir gan adran 18, yn gwneud darpariaeth ar gyfer trosglwyddo staff, eiddo, rhwymedigaethau a gofynion trosiannol eraill. O ran trosglwyddo staff, bydd Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006 yn berthnasol i staff sy'n cael eu trosglwyddo o dan y Bil. Fodd bynnag, mae hyn yn ddarostyngedig i ddau eithriad sy'n ymwneud â rhwymedigaeth droseddol a phensiynau. Mae'r cyntaf er mwyn sicrhau bod unrhyw rwymedigaeth droseddol o ran contract cyflogaeth yn cael ei throsglwyddo i'r Cyngorau Sir newydd. Mae'r ail er mwyn sicrhau bod unrhyw rwymedigaethau neu hawliau cronedig o dan gynllun pensiwn

galwedigaethol yn cael eu trosglwyddo, fel nad yw staff sy'n trosglwyddo o dan anfantais.

Darpariaeth Amrywiol (Pennod 4)

42. Mae adran 19 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ganlyniadol, atodol, gysylltiedig neu drosiannol, neu ddarpariaeth arbed, drwy reoliadau. Gall hyn gynnwys rheoliadau sy'n ymwneud â throsglwyddo staff, eiddo, hawliau a rhwymedigaethau lle na fyddai darpariaethau arferol y Bil yn briodol. Mae'r rheoliadau o dan yr adran hon yn cynnwys cynnal breintiau a hawliau hanesyddol, megis rhai sy'n gysylltiedig â statws dinas a bwrdeistref.
43. Mae adran 21 yn cynnwys diwygiadau canlyniadol i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Bydd diwygiadau canlyniadol eraill i ddeddfwriaeth sy'n deillio o'r Bil. Bydd y rhain yn cael eu cynnwys yn y Bil pan gaiff ei gyflwyno.
44. Mae adran 21 hefyd yn cyflwyno Atodlen 5, sy'n gwneud rhagor o ddiwygiadau i Ddeddf 1972 a darpariaeth drosiannol yn ymwneud ag etholiadau o ganlyniad i ddiwygio Llywodraeth Leol. Mae symud at strwythur Llywodraeth Leol newydd, gan gynnwys cyfnod pontio pan fydd Awdurdod Cysgodol yn bodoli, yn cael effaith ar gyfnod swydd Cynghorwyr. Mae Atodlen 5 yn gwneud y darpariaethau angenrheidiol o ran etholiadau o ganlyniad i ddiwygio Llywodraeth Leol. Mae'n darparu mai tair blynedd fydd cyfnod swydd olaf Cynghorwyr y Cynghorau a ddiddymir. Cynhelir etholiadau olaf y Cynghorau a ddiddymir ym mis Mai 2017 a daw cyfnod swydd y Cynghorwyr i ben ar 1 Ebrill 2020.
45. Pedair blynedd fydd cyfnod swydd Cynghorwyr y Cynghorau Sir newydd a fydd yn cael eu hethol ym mis Mai 2019, a daw'r cyfnod swydd i ben ym mis Mai 2023.
46. Mae'r cyfnod diwygio yn cael effaith ar Gyngor Sir Powys hefyd, er nad yw'r darpariaethau uno yn y Rhan hon o'r Bil Drafft yn effeithio ar Bowys. Oherwydd bod angen sicrhau bod etholiadau ym Mhowys yn cydymffurfio ag etholiadau gweddill Cymru, gwneir darpariaeth er mwyn i etholiadau ym Mhowys gael eu cynnal ym mis Mai 2020 a mis Mai 2023. Mae hyn yn golygu y bydd Cynghorwyr ym Mhowys yn gwasanaethu am ddau gyfnod o dair blynedd o'r etholiadau yn 2017 a 2020.
47. Cynhelir etholiadau ym mhob un o'r Siroedd newydd yn 2023. Wedi hynny, bydd etholiadau ym mhob Sir yn cael eu cynnal bob pum mlynedd yn unol ag adran 10.

Rhan 2: Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol

(Cyfeiriadau allweddol yn y Bil Drafft: Rhan 2, Penodau 1 a 2)

Y Pŵer Cyffredinol (Pennod 1)

48. Cafwyd cefnogaeth gref gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn i ganiatáu pŵer cymhwysedd cyffredinol (cyfeirir at hyn fel 'pŵer

cyffredinol') i Gynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol. Felly, mae adrannau 23 i 26 yn rhoi pŵer cyffredinol i Gynghorau Sir a 'Cynghorau Cymuned â chymhwysedd' ("Awdurdod Lleol cymwys"). Mae'r cyfyngiadau ar ddefnyddio'r pŵer cyffredinol yn cydymffurfio â chyfyngiadau tebyg a osodwyd ar gynghorau yn Lloegr o ran y defnydd a wnânt o bŵer cyffredinol. Mae adran 27 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru amrywio'r ffordd y caiff y pŵer cyffredinol ei gymhwyso a'i arfer, drwy reoliadau. Mae'r adran hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i ddiddymu neu ddiwygio deddfwriaeth sy'n bodoli eisoes sy'n rhwystro Awdurdodau Lleol cymwys rhag defnyddio'r pŵer cyffredinol.

49. Bydd y pŵer cyffredinol yn caniatáu i Awdurdodau Lleol cymwys weithredu er budd pennaf eu cymunedau, i wneud arbedion effeithlonrwydd a sicrhau canlyniadau sy'n rhoi gwerth am arian. Byddant hefyd yn gallu codi arian drwy godi ffi am wasanaethau dewisol a masnachu yn unol â phwerau sy'n bodoli eisoes. Hefyd, bydd y pŵer cyffredinol yn caniatáu i Awdurdodau Lleol cymwys gymryd rhan mewn gweithgareddau y gellid ystyried eu bod y tu allan i gylch gwaith pŵer lles yn Neddf Llywodraeth Leol 2000 (a fydd yn cael ei ddiddymu gan ddarpariaethau yn adran 28). Er enghraifft, byddai'n eu galluogi i ddarparu indemniadau a gwarantau penodol. Ystyrir y bydd y pŵer cyffredinol yn caniatáu i awdurdodau lleol cymwys fod yn fwy arloesol, a symud oddi wrth sefyllfa lle mae'n rhaid iddynt ddefnyddio pŵer penodol er mwyn ymgymryd â gweithgaredd penodol, at sefyllfa lle cymerir yn ganiataol eu bod yn cael gwneud rhywbeth oni bai fod cyfyngiad statudol yn ei atal.

Cynghorau Cymuned â Chymhwysedd (Pennod 2)

50. Bwriad y darpariaethau yw gwella proffesiynoldeb a chymhwysedd y sector Cynghorau Cymuned, fel bod ganddo'r gallu i wneud cyfraniad mwy i lesiant lleol a chyd-nerthu cymunedol. Bydd Cynghorau Cymuned sy'n cyflawni hyn yn gallu defnyddio'r pŵer cymhwysedd cyffredinol. Dyma'r pŵer ychwanegol mwyaf arwyddocaol a ganiatawyd i Gynghorau Cymuned ers creu'r plwyfi sifil yn y 1890au, a bydd y eu galluogi i fod yn uchelgeisiol ac arloesol.

51. Mae'r darpariaethau yn adrannau 31 i 33 yn sefydlu gofynion y mae'n rhaid i Gynghorau Cymuned eu bodloni, a phasio cynnig eu bod yn eu bodloni, er mwyn cael eu hystyried i fod yn 'gymwys' ac â'r gallu i arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol. Dyma'r amodau:

- *Democratiaeth*: bod o leiaf ddwy ran o dair o'r Cynghorwyr ar Gyngor Cymuned wedi cael eu hethol (naill ai mewn etholiad cyffredin neu mewn isetholiad);
- *Gallu*: bod rhaid i'r Cyngor Cymuned gyflogi cleric sydd â chymhwyster proffesiynol perthnasol;
- *Llywodraethu*: bod y Cyngor wedi cael barn archwilydd ddiamedod ar ei gyfrifon am ddwy flynedd ariannol yn olynol. Dylai'r farn ddiweddaraf fod wedi ei chyflwyno o fewn y 12 mis diwethaf.

52. Bydd cael ei ystyried yn 'gymwys' yn rhoi rhywfaint o hyder i'r sefydliadau sy'n delio â'r Cyngor Cymuned fod y Cyngor dan sylw wedi bodloni amodau penodol ac, felly, bod ganddo'r wybodaeth, y gallu a'r dibynadwyedd i 'gynnal busnes'. Bydd mantais o ran enw da hefyd, lle bydd cymunedau'n gallu gweld bod eu Cyngor yn bodloni safonau penodol o ran y ffordd y mae'n cyflawni ei swyddogaethau.
53. Bydd yn ofynnol i Gyngorau Cymuned asesu a phenderfynu a oes ganddynt y 'cymhwysedd' ym mhob cyfarfod blynyddol a gynhelir yn ystod blwyddyn etholiad cyffredin. Byddant yn parhau i fod 'â chymhwysedd' tan y cyfarfod cyffredinol blynyddol nesaf yn dilyn etholiad cyffredin. Bydd hynny'n wir pa un a ydynt yn parhau i fodloni'r gofynion cymhwysedd ai peidio, oni bai eu bod yn pasio cynnig i'r gwrthwyneb. Caiff Cyngor Cymuned sy'n peidio â bod yn Gyngor Cymuned â chymhwysedd barhau i arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol ar gyfer gweithgareddau a gychwynnodd gan ddefnyddio'r pŵer cymhwysedd cyffredinol.
54. Ein bwriad yw cychwyn y darpariaethau o ran pŵer cymhwysedd cyffredinol a Chyngorau Cymuned â chymhwysedd cyn gynted â phosibl ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol.

Rhan 3: Hybu Mynediad i Lywodraeth Leol

(Cyfeiriadau allweddol yn y Bil Drafft: Rhan 3, Penodau 1 i 6)

Cyfranogiad y Cyhoedd mewn Llywodraeth Leol (Pennod 2)

55. Bwriad y polisi yw annog y cyhoedd i gymryd rhan mewn democratiaeth leol. Roedd y rhai a ymatebodd i ymgynghoriad y Papur Gwyn yn cytuno y dylai Awdurdodau Lleol ymgysylltu'n fwy effeithiol â phreswylwyr. Mae'r darpariaethau yn y bennod hon yn nodi y bydd yn ofynnol i Gyngorau Sir newydd hyrwyddo cyfranogiad gan y cyhoedd yn eu gweithdrefnau penderfynu a chraffu. Bydd gofyn i Awdurdodau baratoi 'strategaeth cyfranogiad y cyhoedd', ymgynghori arni a'i hadolygu.
56. Roedd y Papur Gwyn yn gofyn am farn ynghylch ymgysylltu ynglŷn â blaenoriaethau gwariant. Roedd rhai o'r ymatebion gan Awdurdodau Lleol yn cydnabod manteision ymgysylltu effeithiol ac awydd i rannu arferion da. Roedd hynny'n cyferbynnu â safbwyntiau eraill gan Awdurdodau Lleol nad yw'r math hwn o ymgysylltu yn effeithiol bob amser ac nad oes angen ffurfioli'r broses. Roedd mwyafrif llethol yr ymatebion gan unigolion a sefydliadau eraill (gan gynnwys llawer o Gyngorau Tref a Chyngorau Cymuned) o blaid ymgynghoriad manwl a chynhwysfawr ar wariant Llywodraeth Leol. Roedd y sylwadau'n awgrymu diffyg ymddiriedaeth rhwng cymunedau a Chyngorau a bod pobl yn ystyried bod ymgynghori'n digwydd er mwyn cadarnhau penderfyniadau sydd wedi'u gwneud eisoes.
57. Mae Llywodraeth Cymru yn credu bod ymgysylltu eang ynglŷn â'r ffordd y mae Cyngorau'n defnyddio arian cyhoeddus yn hanfodol os ydynt am fod yn dryloyw, os ydynt am i bobl ymddiried ynddynt ac os ydynt am ymateb i newidiadau o ran anghenion eu cymunedau. Bydd hyn o'r pwys mwyaf

wrth i'r cyni cyllidol barhau a gorfodi Cyngorau Sir i wneud penderfyniadau anodd ynghylch darparu gwasanaethau.

58. Mae adran 40 yn rhoi dyletswydd ar Gyngorau Sir i gynnal gweithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu cyn pennu eu cyllideb yn ffurfiol. Mae'r darpariaethau hyn yn gweithio gyda'r darpariaethau eraill sy'n ymwneud â chyfranogiad y cyhoedd, ond gwneir darpariaeth benodol ar gyfer prosesau pennu cyllidebau oherwydd eu bod yn cael effaith uniongyrchol ar ystod llawer mwy eang o randdeiliaid, yn ogystal â'r boblogaeth gyfan o drigolion lleol.

59. Bydd Cyngorau Sir yn ddarostyngedig i ganllawiau gan Weinidogion Cymru ar y ffordd y maent yn hwyluso cyfranogiad.

Pwyllgorau Ardaloedd Cymunedol (Pennod 3)

60. Mae'r darpariaethau yn adrannau 43 i 58 yn ei gwneud hi'n ofynnol i Gyngorau Sir ddilyn dull cynhwysol, ar sail ardal, ar gyfer llywodraethu cymunedol. Maent i wneud hynny drwy sefydlu pwyllgor ardal gymunedol ym mhob ardal gymunedol, fel y'i diffinnir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bydd aelodau pwyllgorau ardaloedd cymunedol yn cynnwys pob Cyngorydd Sir yn yr ardal gymunedol, a chynrychiolwyr Cyngorau Cymuned, cyrff cyhoeddus eraill a chyrff gwirfoddol. Y bwriad gyda phwyllgorau ardaloedd cymunedol yw sicrhau bod Cyngorwyr a chynrychiolwyr cymunedol yn cael dylanwad uniongyrchol ar wariant lleol drwy wneud datganiad blynyddol ynghylch blaenoriaethau ac amcanion lleol. Mae'r darpariaethau yn caniatáu i gyngor sir ddirprwyo swyddogaethau i bwyllgorau ardaloedd cymunedol.

61. Bydd pwyllgorau ardaloedd cymunedol yn cael eu ffurfio mewn modd cynhwysol, ond mae'n hanfodol eu bod yn parhau i fod yn bwyllgorau Cyngor Sir o fewn y maes llywodraethu democrataidd. Bydd hyn yn galluogi Cyngorwyr i gymryd rôl arweinyddiaeth gymunedol, fwy gweithredol. Bydd hefyd yn gwrthbwysu pŵer y Weithrediaeth, yn ogystal â sicrhau bod Cyngorau Sir yn cysylltu â'u cymunedau ac yn ymwybodol o'u dyheadau a'u pryderon. Bydd hyn yn sicrhau bod prosesau penderfynu yn agored a thryloyw ac yn galluogi pobl i weld y gwahaniaeth y mae eu cyfranogiad mewn democratiaeth leol yn ei wneud.

62. Mae yma gyfle clir i bwyllgorau ardaloedd cymunedol feithrin perthynas gref â'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) lleol. Bydd y BGC wedi cynnal asesiad o lesiant ar draws yr ardal Cyngor Sir drwy ystyried anghenion pob ardal gymunedol. Wrth iddo wneud hynny, ac wrth iddo lunio a chyflawni ei gynllun llesiant lleol, byddem yn disgwyl i'r BGC ymgysylltu'n weithredol â phwyllgorau ardaloedd cymunedol. Mae hyn er mwyn i flaenoriaethau cymunedol gael eu cydnabod wrth i'r cynllun llesiant lleol gael ei baratoi ac er mwyn i weithredoedd y pwyllgorau ardaloedd cymunedol i wella llesiant lleol gael eu cydnabod yn adroddiadau blynyddol y BGC.

Ceisiadau Gwella (Pennod 4)

63. Mae adrannau 64 i 72 yn cynnwys darpariaethau sy'n rhoi'r pŵer i gyrrff cymunedol gyflwyno cais gwella i Gyngor Sir, gyda'r nod o gychwyn trafodaeth ynghylch sut y gellid gwella gwasanaethau. Mae'r diffiniad o 'gorff sydd â diddordeb' yn un eang. Mae'n cynnwys grwpiau sy'n gweithio er budd y gymuned, grwpiau gwirfoddol, elusennau ac eraill, er mwyn bod mor gynhwysol â posibl ac i sicrhau nad yw rhai cymunedau (sy'n seiliedig ar le neu ddiddordeb) o dan anfantais bellach oherwydd amodau caeth.
64. Mae'r weithdrefn yn nodi y bydd y Cyngor Sir, ar ddiwedd y cyfnod trafod, yn llunio crynodeb o'r trafodaethau a'r camau y mae'r corff sydd â diddordeb a'r Cyngor Sir wedi cytuno arnynt, ac yn cyhoeddi'r crynodeb hwnnw mewn adroddiad ar ei wefan. Bydd yn ofynnol i'r Cyngor Sir gyhoeddi adroddiad blynyddol ar yr holl geisiadau gwella a gyflwynwyd iddo a'r newidiadau a wnaethpwyd o ganlyniad. Bydd disgwyl i'r Cyngor Sir a'r cyrrff sydd â diddordeb lynu wrth y materion y maent wedi cytuno arnynt yn gyhoeddus. Nid ydym yn ystyried y byddai'n ffafriol o ran meithrin perthynas dda rhwng Cynghorau Sir a grwpiau cymunedol, nac o ran meithrin diwylliant o gydweithio, pe byddem yn gosod dyletswyddau sydd wedi'u rhagnodi'n fanwl ar y Cyngor Sir.
65. Mae adran 70 yn ei gwneud hi'n ofynnol i Gyngor Sir sefydlu gweithdrefn i ymdrin â chwynion sy'n ymwneud â cheisiadau gwella. Caiff Gweinidogion Cymru wneud darpariaeth drwy reoliadau ynghylch materion y mae'n rhaid i'r weithdrefn gwyno ymdrin â hwy. Mae adran 74 yn cynnwys pwerau gwneud rheoliadau pellach ar gyfer Gweinidogion Cymru, gan gynnwys rheoliadau sy'n ymwneud â'r gweithdrefnau i'w dilyn, hyrwyddo ceisiadau gwella a'r cymorth y dylid ei ddarparu i gyrrff sydd â diddordeb.

Mynediad i Gyfarfodydd etc. Awdurdodau Lleol (Pennod 5)

66. Mae adran 75 yn ei gwneud hi'n ofynnol i Arweinydd y Cyngor, o leiaf unwaith y flwyddyn, fynychu cyfarfod i roi cyfle i'r cyhoedd gwrdd â'r Arweinydd yn bersonol a gofyn cwestiynau iddo/iddi am y ffordd y mae'r Cyngor yn gweithredu.
67. Mae adran 76 yn ei gwneud yn ofynnol i Gynghorau Sir ddarparu cyfarfodydd sy'n agored i'r cyhoedd yn electronig wrth iddynt gael eu cynnal. Rhaid i'r darllediad fod ar gael ar ffurf electronig am gyfnod rhesymol ar ôl y cyfarfod. Bydd yn ddyletswydd ar Gynghorau i roi ystyriaeth i ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru. Mae darpariaethau hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i osod gofynion tebyg, drwy reoliadau, ar Awdurdodau Tân ac Achub ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (a'u pwyllgorau). Bydd gan Weinidogion Cymru bwerau hefyd i gyhoeddi rheoliadau a chanllawiau a fyddai'n pennu pa gyfarfodydd na ddylid eu darlledu.
68. Hefyd, mae adran 77 yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth i'r cyhoedd ffilmio a recordio cyfarfodydd Cynghorau. Mae gwahardd gweithgareddau o'r fath yn golygu bod y Cyngor yn gweithredu'n groes i arferion bywyd cyhoeddus ac yn brwydro yn erbyn dull agored a thryloyw. Dylai bod gwneud rheoliadau o dan yr

adran hon yn lleihau biwrocratiaeth a gwaith gweinyddol i'r Cyngor Sir ac mae'n golygu bod rhaid i'r Cyngor feddwl am gyfranogiad y cyhoedd ym mhob un o'i weithgareddau. Bydd hyn yn arwain at gyfranogiad mwy cydlynol ac effeithiol.

69. Gall rheoliadau o dan adran 77 fod yn berthnasol hefyd i ffilmio cyfarfodydd Cyngorau Cymuned, Awdurdodau Tân ac Achub ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol.

70. Mae adran 78 hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyfranogiad y cyhoedd mewn cyfarfodydd Cyngorau Cymuned sy'n agored i'r cyhoedd.

Dyletswyddau Pellach Cyngorau Sir (Pennod 6)

71. Mae Adran 37 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, yn ei gwneud yn ofynnol i Gyngorau Sir fabwysiadu cyfansoddiad sy'n nodi eu rheolau sefydlog a'u rheolau'n ymwneud â gweithdrefnau, ymddygiad a manylebau rolau yn ymwneud â llywodraethu, gweinyddu, cyllid, a gweithgareddau masnachol a chydweithredol Cyngorau. Eu diben yw galluogi Cyngorwyr, swyddogion, y cyhoedd a rhanddeiliaid i ddeall sut y mae'r Cyngor wedi gwneud penderfyniadau a phwy sy'n gyfrifol am y penderfyniadau hynny.

72. Y canlyniad yw cyfansoddiadau Cyngorau Sir neu Gyngorau Bwrdeistref Sirol yng Nghymru sy'n amrywio o tua 250 o dudalennau i dros 450. Er bod angen o bosibl i gyfansoddiadau Cyngorau Sir fod yn hir er mwyn cyflawni gofynion y ddeddfwriaeth, mae'n amheus a yw dogfennau mor hir â hyn yn helpu aelod cyffredin o'r cyhoedd i ddeall sut y mae Llywodraeth Leol yn gwneud penderfyniadau, neu'n helpu i gyfleu gwerthoedd Cyngor Sir i'r bobl y mae'n eu gwasanaethu.

73. Mewn ymateb i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn, roedd 92% o'r ymatebwyr ar-lein yn cytuno y dylai "Awdurdodau Lleol nodi mewn iaith glir eu gwerthoedd a'r egwyddorion y byddant yn eu defnyddio yn eu cyfansoddiad". Roedd cefnogaeth hefyd ymhlith y rhai a ymatebodd gan ddefnyddio ffurflenni rhydd, gyda llawer yn tynnu sylw at yr angen i gyfansoddiadau ganolbwyntio ar bobl yn lle prosesau.

74. Mae'r darpariaethau yn Adran 79 yn ei gwneud yn ofynnol i Gyngorau Sir baratoi a chyhoeddi arweiniad i'w cyfansoddiad sy'n esbonio cynnwys eu cyfansoddiad mewn iaith gyffredin. Arweiniad i'r cyfansoddiad ar gyfer y lleygwr, a fydd yn galluogi'r cyhoedd i ddeall sut y mae'r Cyngor Sir yn gweithredu ac yn gwneud penderfyniadau, fydd hwn.

75. Dylai Cyngorwyr fod ar gael yn rhwydd i bobl leol. Mae Adran 80 yn ei gwneud yn ofynnol i Gyngorau Sir gyhoeddi cyfeiriadau swyddogol pob Aelod o'r Cyngor ar ei gwefan.

Rhan 4: Swyddogaethau Cyngorau Sir a'u Haelodau

(Cyfeiriadau allweddol yn y Bil Drafft: Rhan 4, Penodau 1 i 8)

Dyletswyddau ar Aelodau o Gyngorau Sir (Pennod 2)

76. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn yn cytuno y dylai rolau a chyfrifoldebau Cyngorwyr gael eu diffinio mewn deddfwriaeth. Mae Adrannau 82 i 86 yn darparu y bydd Aelodau'r Cyngorau Sir newydd yn destun rhai cyfrifoldebau statudol, a ddisgrifir isod.
77. Caiff aelodau o Gyngorau Sir eu gosod o dan rwymedigaeth i fynychu cyfarfodydd y Cyngor llawn ac o unrhyw Bwyllgorau y maent yn aelodau ohonynt, ac unrhyw gyfarfodydd y disgwylid yn rhesymol iddynt eu mynychu wrth arfer eu swyddogaethau fel Aelodau'r Cyngor, oni bai bod ganddynt reswm da dros beidio.
78. Bydd yr Aelodau hefyd yn ddarostyngedig i ofyniad i gynnal cymorthfeydd rheolaidd, h.y. sesiynau a gynhelir yn eu wardiau y gall Aelodau o'u hetholaethau eu mynychu a siarad â'u Cyngorydd yn breifat.
79. Bydd yn ofynnol hefyd i'r Aelodau ateb gohebiaeth a anfonir at eu cyfeiriad swyddogol a mynd i'r afael â hi, oni bai bod ganddynt reswm da dros beidio â gwneud hynny.
80. Bydd yn ofynnol i Aelodau gwblhau pob cwrs hyfforddi gorfodol. Caiff cyngorau eu galluogi i benderfynu pa elfennau ar yr hyfforddiant a'r cyrsiau datblygu sydd ar gael i'r Aelodau y dylai fod yn orfodol iddynt eu cwblhau. Bydd Gweinidogion Cymru'n cynhyrchu canllawiau y dylai Cyngorau a'u Haelodau roi sylw iddynt.
81. Ar hyn o bryd, anogir Aelodau i gynhyrchu adroddiadau blynyddol i grynhoi'r hyn y maent wedi'i gyflawni dros bobl leol yn y flwyddyn flaenorol. Er hynny, nid yw pob un yn gwneud. Bydd Adran 86 yn ei gwneud yn ofynnol i bob Aelod gyhoeddi adroddiad blynyddol.

Torri Dyletswyddau o dan Bennod 2 (Pennod 3)

82. Mae Adran 87 yn darparu y caiff person wneud cwyn ynghylch methiant honedig gan Gyngorydd i barchu'r dyletswyddau a nodir uchod i swyddog monitro'r Cyngor hwnnw. Mae Adrannau 88 i 93 yn nodi'r weithdrefn ar gyfer ymdrin â chwynion o'r fath. Mae'r weithdrefn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Swyddog Monitro gyfeirio'r mater at gadeirydd y Pwyllgor Safonau. Os yw'r Swyddog Monitro a chadeirydd y Pwyllgor Safonau yn ystyried na ddylid ymchwilio i fater, ni all ymchwiliad ddigwydd. Os bydd naill ai'r Swyddog Monitro neu gadeirydd y Pwyllgor o'r farn y dylid ymchwilio i fater, rhaid i'r Swyddog Monitro ymchwilio iddo. Ar ôl cynnal ymchwiliad rhaid i'r Swyddog Monitro roi adroddiad ar yr ymchwiliad i Bwyllgor Safonau'r Cyngor. Mae'r darpariaethau'n nodi rôl y Pwyllgor Safonau a'r camau y caiff eu cymryd os oes cyngorydd wedi methu â chydymffurfio â dyletswydd.

Darpariaeth Bellach ynghylch Dyletswyddau ar Aelodau (Pennod 4)

83. Mae Adrannau 94 a 95 yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru wneud darpariaeth bellach trwy reoliadau ynghylch y ffordd y bwriedir ymdrin â

methiant posibl i gydymffurfio â'r dyletswyddau, a chyhoeddi canllawiau y mae rhaid i Gynghorwyr, Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau roi sylw iddynt. Mae Adrannau 96 a 97 yn diwygio'r dyletswyddau ar Bwyllgor Safonau i ddarparu hyfforddiant ar gyfer Aelodau er mwyn iddi gynnwys y dyletswyddau newydd.

84. Mae Adran 98 yn darparu bod rhaid i arweinydd grŵp gwleidyddol Cyngor gymryd camau rhesymol i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan Aelodau'r grŵp. Mae'r ddarpariaeth yn cefnogi'r bwriad polisi sef sicrhau bod amrywiaeth yn cael ei hyrwyddo a mynd i'r afael â bwlio ac aflonyddu ymhlith Cynghorwyr a staff y Cyngor. Mae'r darpariaethau ym Mhenod 7 o'r Rhan hon yn gosod dyletswydd ar Bwyllgor Safonau i wneud adroddiad blynyddol a fydd yn cynnwys asesiad y Pwyllgor ynghylch i ba raddau mae arweinwyr grwpiau gwleidyddol ar y Cyngor wedi cydymffurfio â'u dyletswyddau.

Gweithrediaethau Cynghorau Sir (Pennod 5)

85. Gofynnodd y Papur Gwyn am safbwyntiau ar ddiffinio rolau a chyfrifoldebau Arweinwyr a Meiri Etholedig mewn deddfwriaeth. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr ar-lein (73%) yn cytuno â'r cynnig hwn. Mae Adran 99 yn darparu y gosodir cyfrifoldebau penodol ar Arweinydd Cyngor Sir ac y bydd ganddo gyfrifoldeb dros bennu amcanion ar gyfer y Cabinet ac, ar wahân, o dan Adran 104, ar gyfer Prif Weithredwr y Cyngor.

86. Ar ôl penodi'r Cabinet, bydd yn ofynnol i Arweinydd y Cyngor bennu amcanion ar gyfer y Cabinet y mae rhaid eu cyhoeddi. Bydd yr amcanion yn gorfod cael eu hadolygu a bydd modd eu diwygio ar unrhyw adeg. Bydd yn ofynnol i'r Arweinydd gyhoeddi adroddiad blynyddol sy'n amlinellu cynnydd y Cabinet tuag at gyflawni'r amcanion hynny.

87. Mae Adran 100 yn ei gwneud yn ofynnol i bob ymgeisydd am swydd Arweinydd Cyngor gynhyrchu maniffesto ysgrifenedig. Rhaid rhoi'r cyfle i'r Arweinydd hyrwyddo ei fanifesto ysgrifenedig mewn cyfarfod o'r Cyngor cyn i'r Arweinydd gael ei ethol.

88. Yn y Papur Gwyn ymgynghorwyd ynghylch a ddylid cael rôl i ddirprwy aelodau Cabinet, er mwyn ehangu amrywiaeth Gweithredwyr a chynnig cyfle i aelodau iau ennill profiad. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr o blaid. Bydd y darpariaethau yn Adran 101 yn galluogi Cynghorwyr i gael eu penodi fel 'cynorthwywyr i'r Weithrediaeth'. Er hynny, mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y terfyn uchaf presennol o 10 ar y nifer o Aelodau'r Weithrediaeth yn ddigon, felly nid yw'r darpariaethau hyn yn caniatáu i gynorthwywyr y Weithrediaeth fod yn aelodau o'r Weithrediaeth at ddibenion cydnabyddiaeth ariannol neu bleidleisio ar benderfyniadau'r Weithrediaeth etc.

Penodi etc. Rhai Prif Swyddogion (Pennod 6)

89. Yn y Papur Gwyn, ymgynghorwyd ar ofyniad i benodi Prif Weithredwr, rheoli perfformiad y Prif Weithredwr a gwahaniaethau'n glir rhwng cyfrifoldebau'r Arweinydd a'r Prif Weithredwr, a statws rôl 'Pennaeth

Gwasanaethau Democrataidd'. Cytunodd y mwyafrif o'r ymatebwyr â'n cynigion.

90. Fel yr amlinellwyd yn y Papur Gwyn, rhaid i Gyngor Sir, o dan ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, ddynodi swyddog yn 'Bennaeth Gwasanaeth Cyflogedig'. Mae'r swyddog hwnnw'n cael ei ddisgrifio fel rheol fel Prif Swyddog Gweithredol y Cyngor neu, ar adegau, y Rheolwr Gyfarwyddwr. Er hynny, nid oes dim byd mewn deddfwriaeth i'w gwneud yn ofynnol cyfuno swydd y Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig â swydd y Prif Weithredwr ac nid oes unrhyw rwymedigaeth i Gyngor benodi Prif Weithredwr. Yn ogystal, nid oes unrhyw ddiffiniad statudol o unrhyw rai o ddyletswyddau eraill Prif Weithredwr mewn Cyngor Sir.
91. Mae'r darpariaethau yn Adran 103 yn ei gwneud yn ofynnol i Gyngor Sir benodi Prif Weithredwr. Mae'r darpariaethau'n diffinio swydd Prif Swyddog Gweithredol Cyngor Sir yn y gyfraith. Bydd y swydd hon yn cwmpasu rôl 'Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig' yn ogystal â dyletswyddau newydd mewn perthynas â pherfformiad a gwella. Fel hyn, daw'r Prif Weithredwr yn atebol am reoli staff y Cyngor a hefyd am sicrhau bod swyddogion y cyngor yn cymryd y camau angenrheidiol i gyflawni bwriad polisi'r Weithrediaeth.
92. Mae Adran 104 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Arweinydd bennu amcanion y Prif Weithredwr am dymor y Cyngor ac adolygu'r rhain yn flynyddol mewn adolygiad perfformiad. Caiff yr amcanion eu cyhoeddi. Bydd yn ofynnol i'r Arweinydd baratoi adroddiad i'r Cyngor ar ganlyniad yr adolygiad gyda'r Prif Weithredwr. Bydd hyn yn darparu ar gyfer gwahaniaethu'n glir rhwng rôl Arweinydd y Cyngor a rôl Prif Weithredwr y Cyngor. Bydd gan yr Arweinydd gyfrifoldeb dros ddatblygu polisi a bydd y Prif Weithredwr yn gyfrifol am sicrhau bod swyddogion y cyngor yn cyflawni'r polisiâu hyn.
93. Mae'r darpariaethau yn Adran 105 yn diwygio Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 a Deddf Lleoliaeth 2011 er mwyn i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd gael ei drin fel prif swyddog.

Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu a Phwyllgorau Safonau (Pennod 7)

94. Ymgynghorwyd yn y Papur Gwyn ar gynigion i wneud rôl craffu mewn Cyngor Sir yn fwy effeithiol a sicrhau bod gan y gymuned leol fwy o ran yn y gwaith o graffu ar bolisiâu Cyngor.
95. Ar hyn o bryd, mae'r gyfraith yn caniatáu i aelodau cyfetholedig bwyllgorau cynghori'r Cyngor gael hawliau pleidleisio, ond (gyda rhai eithriadau) nid yw'n caniatáu i aelodau cyfetholedig Pwyllgorau Craffu gael hawliau pleidleisio. Mae Llywodraeth Cymru yn credu y bydd hyn yn cyfyngu ar allu Pwyllgorau Craffu i fanteisio i'r eithaf ar brofiad a gwybodaeth arbenigwyr, defnyddwyr gwasanaethau a phobl nad ydynt wedi'u cynrychioli'n ddigonol. Diben y ddarpariaeth yn Adran 106 yw galluogi Cynghorau Sir i roi hawliau pleidleisio i aelodau craffu cyfetholedig yn fwy cyffredinol. Mae'r Bil Drafft yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru

wneud darpariaeth ynghylch arfer y swyddogaeth newydd hon a hynny trwy reoliadau.

96. Mae Adran 22(10) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol darparu gwybodaeth am benderfyniadau y mae'r Weithrediaeth wedi'u gwneud neu'n bwriadu eu gwneud. Yn Lloegr mae rheoliadau wedi'u gwneud ynghylch yr hyn a elwir yn gyffredin yn 'benderfyniadau allweddol', sef, penderfyniadau sydd â goblygiadau ariannol sylweddol neu effaith sylweddol ar gymunedau lleol. Hyd yn hyn, nid yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud rheoliadau o'r fath. Fel y nodwyd yn y Papur Gwyn, mae'n fwriad gennym wneud hynny, er mwyn bod Pwyllgorau Craffu'n cael rhybudd digonol o benderfyniadau cyn iddynt gael eu gwneud, felly cânt graffu ar y Weithrediaeth yn fwy effeithiol. Mae Adran 107 yn diwygio Adran 22(10) o Ddeddf 2000 er mwyn i reoliadau ei gwneud yn ofynnol rhoi rhybudd o'r fath i Bwyllgorau Craffu a'i His-bwyllgorau.
97. Mae Adran 108 o'r Bil Drafft yn darparu y gall rheoliadau ei gwneud yn ofynnol i Gynghorau Sir sefydlu Cyd-bwyllgor Craffu. Gallai'r pŵer i wneud Rheoliadau gael ei ddefnyddio i'w gwneud yn ofynnol i Gynghorau sefydlu Cyd-bwyllgorau Craffu lle mae gwasanaethau'n cael eu darparu ar draws ardaloedd y Cynghorau hynny. Diben y ddarpariaeth hon yw sicrhau craffu effeithiol ac effeithlon ar wasanaethau a ddarperir ar y cyd.
98. O gofio'r rôl fwy sylweddol sydd gan Bwyllgorau Safonau o dan y Bil Drafft, mae'n bwysig iddynt gael cyfle i adolygu eu gwaith o bryd i'w gilydd ac adrodd ar unrhyw faterion o bwys y maent wedi ymdrin â hwy ac unrhyw dueddiadau sy'n dod i'r amlwg. O dan Adran 109, bydd yn ofynnol i Bwyllgorau Safonau gyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cyngor ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol yn disgrifio sut y mae swyddogaethau'r Pwyllgor wedi cael eu cyflawni yn ystod y flwyddyn ariannol.

Mân Ddiwygiadau i Ddeddfwriaeth arall (Pennod 8)

99. Mae Adran 110 yn gwneud mân Ddiwygiadau i Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 a Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013.

Rhan 5: Cynghorau Sir: Llywodraethu yn Well

(Cyfeiriadau allweddol yn y Bil Drafft: Rhan 5, Penodau 1 i 7)

Dyletswydd i Wneud Trefniadau i Sicrhau Llywodraethu Da Etc. (Pennod 1)

100. Mae Adran 111 yn darparu bod rhaid i Gynghorau Sir wneud a gweithredu trefniadau llywodraethu at ddiben sicrhau llywodraethu da, atebolrwydd a darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wth ddefnyddio eu hadnoddau. Rhaid i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch egwyddorion, prosesau ac arferion yn ymwneud â llywodraethu da. Mae'r ddyletswydd yn gysylltiedig yn agos â'r darpariaethau newydd yn y Rhan hon ynghylch asesiadau ac adolygiadau llywodraethu (gweler isod) a gyda'i gilydd maent yn disodli'r drefn wella a sefydlwyd o dan Ran 1 o

Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 na fydd bellach yn gymwys i'r Awdurdodau Lleol.

Cynlluniau Corfforaethol (Pennod 2)

101. Roedd yr ymatebion i'r cynnig y dylai fod yn ofynnol i bob Cyngor Sir gynhyrchu cynllun corfforaethol yn gefnogol ar y cyfan. Roedd yr ymatebwyr yn teimlo bod y rhestr arfaethedig o eitemau i'w cynnwys mewn cynllun corfforaethol yn rhesymol, ond wrth bennu canllawiau ni ddylai Llywodraeth Cymru fod yn rhy ragnodol. Yr unig agwedd nad oedd ymatebwyr yn cytuno â hi oedd mai'r Prif Weithredwr ddylai fod yn gyfrifol am y cynllun corfforaethol; yn hytrach fe ddylai fod 'ym mherchnogaeth' y Cyngor. Mae'r darpariaethau yn Adran 112 yn adlewyrchu'r adborth hwn.
102. Mae Adrannau 112 i 115 yn ei gwneud yn ofynnol i Gynghorau Sir gynhyrchu cynllun corfforaethol ar gyfer y tymor etholiadol, gan fireinio'r ddogfen yn flynyddol i adrodd, ymhlith pethau eraill, ar berfformiad blaenorol. Bydd ymgynghori ar gynllun corfforaethol a'i gyhoeddi yn ffordd i Gynghorau Sir gyflawni nifer o'u dyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
103. Ymhlith gofynion y cynllun corfforaethol mae gofyniad i nodi gwybodaeth am strategaeth Cyngor Sir yn ymwneud â 'materion ariannol a chynllunio ariannol'. Bwriedir i'r pwerau ar wneud rheoliadau a chanllawiau gael eu defnyddio i annog y Cynghorau newydd i baratoi cynlluniau uchelgeisiol ar gyfer darparu gwasanaethau yn eu hardaloedd sy'n seiliedig ar gynlluniau adnoddau cadarn a chynaliadwy. Y bwriad yw y bydd yn ofynnol i Gynghorau Sir baratoi a chyhoeddi cynlluniau ariannol fel rhan o'r cynllun corfforaethol, gan roi sylw i'r canllawiau sydd wedi'u cyhoeddi gan Weinidogion Cymru ar egwyddorion ac elfennau cynllunio ariannol ystyrion a strategol, gan gynnwys strategaethau ar gyfer dal a defnyddio cronfeydd ariannol wrth gefn.

Asesu Trefniadau Llywodraethu (Pennod 3)

104. Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn mewn perthynas â hunanasesu ac asesiadau gan gymheiriaid yn gefnogol. Codwyd pryderon, er hynny, ynghylch baich cynnal asesiad ddwywaith y flwyddyn gan gymheiriaid. Pwysleisiodd Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) fanteision arwain asesiadau gan gymheiriaid gan y sector. Mae'r Bil Drafft yn adlewyrchu'r newidiadau yr ydym wedi'i gwneud i'r cynnig hwn yn dilyn adborth.
105. Y sail ar gyfer hunanasesu/asesu gan gymheiriaid/asesiadau ar y cyd fydd cydymffurfriad y Cyngor Sir â'i 'ddyletswydd trefniadau llywodraethu' (gweler paragraff 100). Mae'n bosibl y gellid mabwysiadu elfennau ar ddogfen CIPFA/Solace *Delivering Good Governance in Local*

*Government:Framework*⁹ (trwy reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru) o fewn yr egwyddorion, y prosesau a'r arferion sy'n ymwneud â llywodraethu da etc y byddai angen i Gyngor Sir gydymffurfio â hwy wrth wneud ei drefniadau llywodraethu.

106. Mae Adran 117 yn ei gwneud yn ofynnol i bob Cyngor Sir ymgymryd â hunanasesiad blynyddol. Dylai'r hunanasesiad gael ei ddefnyddio gan y Cyngor Sir i ystyried a nodi pa gamau, os oes rhai, y byddant yn eu cymryd i wella eu trefniadau llywodraethu.
107. Mae Adrannau 118 i 121 yn ei gwneud yn ofynnol i bob Cyngor Sir gynnal asesiadau gan gymheiriaid o leiaf unwaith pob cylch etholiadol a nodi'r weithdrefn i'w dilyn. Yn dilyn asesiad gan gymheiriaid, dylai'r Cyngor Sir ystyried a nodi pa gamau, os oes rhai, y byddant yn eu cymryd i wella eu trefniadau llywodraethu.
108. Bydd yn ofynnol i Gynghorau Sir gyhoeddi eu hunanasesiadau a'u hasesiadau gan gymheiriaid yn ogystal â'u hymatebion. Bydd yn ofynnol i Bwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio'r Cyngor Sir ystyried yr ymatebion hyn a darparu her adeiladol. Bydd adroddiadau hunanasesu ac asesiadau gan gymheiriaid yn adroddiadau cyhoeddus a byddant ar gael i'r rheoleiddwyr perthnasol. Bydd hyn yn helpu i lywio rhaglenni gwaith y rheoleiddwyr. Y rheoleiddwyr perthnasol yw Estyn, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru.
109. Mae Adrannau 117 a 122 yn galluogi Gweinidogion Cymru i nodi ffurf a chynnwys adroddiadau hunanasesu ac asesiadau gan gymheiriaid, gan gynnwys pryd a sut y cânt eu cyhoeddi, a hynny trwy reoliadau.
110. Roedd ymatebion ar-lein i gynigion y Papur Gwyn ynghylch asesiad allanol o drefniadau llywodraethu Cynghorau Sir unigol yn gefnogol ar y cyfan. Digon prin fu'r drafodaeth ar y cynigion hyn mewn ymatebion a gyflwynwyd ar ffurflenni rhydd. Roedd gan CLILC a'r Cynghorau Sir neu'r Cynghorau Bwrdeistref Sirol a wnaeth ymateb bryderon ynghylch baich 'archwiliad iechyd' bob dwy flynedd. Yn dilyn trafodaethau pellach â'r rheoleiddwyr perthnasol, mae Llywodraeth Cymru'n derbyn y ddadl hon ac mae'r Bil Drafft yn darparu ar gyfer trefn llai rhagnodol ar gyfer asesiadau ar y cyd.
111. Er bod adrannau 123 to 126 yn ei gwneud yn ofynnol i'r rheoleiddwyr perthnasol gydweithredu i gynhyrchu asesiad ar y cyd o berfformiad pob Cyngor Sir mewn perthynas â'r 'ddyletswydd trefniadau llywodraethu', gofynnwyd i'r rheoleiddwyr ystyried sut y gallai hyn gweithio yn ymarferol. Mae'r system y maent yn ei gynnig yn cynnwys:

⁹ <http://www.cipfa.org/polisi-and-guidance/publications/d/delivering-good-governance-in-local-government-framework>

- Y rheoleiddwyr i adolygu 'iechyd' pob Cyngor Sir yn flynyddol gan dynnu ar yr wybodaeth sy'n bodoli eisoes, megis adroddiadau archwilio ac arolygu, hunanasesiadau ac adolygiadau gan gymheiriaid;
- Byddai trafodaeth â phob Cyngor Sir i drafod unrhyw ganfyddiadau sy'n dod i'r amlwg;
- Byddai'r rheoleiddwyr wedyn yn cynhyrchu asesiad ar y cyd a gâi ei roi i bob Cyngor Sir gyda chopi i Weinidogion Cymru, yn crynhoi'r materion sy'n dod i'r amlwg a'r drafodaeth a gafwyd â'r Cyngor Sir;
- Byddai angen wedyn i Gynghorau Sir ystyried y canfyddiadau a phenderfynu a oes angen gweithredu.

112. Byddai'r rheoleiddwyr yn defnyddio'r wybodaeth a gâi ei darparu gan yr asesiadau ar y cyd i lywio eu blaenoriaethau gwaith yn y dyfodol â phob Cyngor Sir a phenderfynu a oes angen unrhyw waith ychwanegol. Byddem wedyn yn disgwyl iddynt dynnu ar arbenigedd rheoleiddwyr eraill pan fo'n briodol, megis Comisiynydd y Gymraeg ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

113. Cynigir mai'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio ddylai fod yn gyfrifol am herio'r Cyngor Sir ynghylch eu camau arfaethedig mewn ymateb i hunanasesiadau, asesiadau gan gymheiriaid ac asesiadau ar y cyd. Mae Adran 126 yn darparu bod rhaid i'r Cyngor drefnu bod yr adroddiadau hyn a'r ymatebion drafft ar gael i'w Bwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio a rhoi sylw i unrhyw argymhellion sy'n cael eu gwneud gan y Pwyllgor. Mae hyn yn cefnogi'r dull a nodir gennym yn y Papur Gwyn sef bod rhaid i Gynghorau Sir ddefnyddio eu trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd mewnol i sicrhau cyfleoedd ar gyfer gweddnewid a gwella.

Adolygiadau Llywodraethu ac Ymyriadau (Pennod 4)

114. Roedd yr ymatebion i'r Papur Gwyn o blaid cadw pwerau i Weinidogion Cymru ymyrryd mewn achosion lle mae llywodraethu corfforaethol wedi methu'n ddifrifol. Cynigiodd y Papur Gwyn y dylai fod gan Weinidogion Cymru bwerau i gomisiynu adolygiad annibynnol o drefniadau llywodraethu corfforaethol Cyngor Sir cyn unrhyw ymyriad posibl. Byddai adolygiad o'r fath yn rhan o nifer o fecanweithiau a allai arwain at gynnig cymorth ychwanegol i Gyngor Sir neu, yn ôl yr angen, ymyriad mwy ffurfiol gan Weinidogion Cymru.

115. Mae Adrannau 128 i 134 yn nodi'r trefniadau a'r gweithdrefnau i'w dilyn ar gyfer cynnal adolygiad o gydymffurfriad Cyngor Sir â'i 'ddyletswydd trefniadau llywodraethu'. Rhaid i adroddiad yr adolygiad gael ei gyhoeddi cyn pen 14 diwrnod ar ôl iddo gael ei gyflwyno i'r Cyngor Sir a Gweinidogion Cymru. Wrth baratoi ei ymateb i'r adroddiad, rhaid i'r Cyngor Sir nodi pa gamau y mae'n bwriadu eu cymryd ac anfon copi o'i ymateb drafft i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio. Rhaid i'r Cyngor gyhoeddi ei ymateb terfynol cyn pen 31 diwrnod i gael yr adroddiad o'r adolygiad, a hynny ar ôl rhoi sylw i unrhyw argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio. Rhaid i gopi o ymateb terfynol y Cyngor gael ei anfon i Weinidogion Cymru a chael ei gyhoeddi.

116. Mae Adrannau 135 i 141 yn rhoi pwerau ymyrryd i Weinidogion Cymru yn dilyn adolygiad llywodraethu.

117. Mae Adrannau 136 i 138 yn nodi'r dewisiadau ymyriad gan Weinidogion Cymru o dan y Bil:

- Cyfarwyddo Cyngor Sir i gael gwasanaethau cymorth (adran 136);
- Cyfarwyddo Cyngor Sir i gymryd camau penodedig (adran 137);
- Cyfarwyddo bod swyddogaethau penodedig y Cyngor yn cael eu harfer, er enghraifft, gan gomisiynwyr (adran 138).

118. Cyn unrhyw ymyriad, byddai Gweinidogion Cymru yn ei gwneud yn ofynnol ymgynghori â'r Cyngor Sir perthnasol a rhaid i'r cyfarwyddyd gael ei ddyroddi yn ysgrifenedig. Mae'n ofynnol i Gyngor Sir o dan Adran 140 gydweithredu â phobl sydd wedi'u hawdurdodi i gynnal ymyriad trwy, er enghraifft, ddarparu dogfennau, cofnodion a gwybodaeth arall. Mae Adran 141 yn darparu bod gan y bobl sydd wedi'u hawdurdodi i gynnal ymyriad yr hawl i fynd i mewn i fangre'r Cyngor, archwilio a chopio unrhyw gofnodion neu ddogfennau, cael gafael ar unrhyw gyfrifiadur a gofyn am gymorth wrth wneud hynny.

Cydweithredu rhwng Rheoleiddwyr (Pennod 5)

119. Nod y darpariaethau yn Adran 143 yw hyrwyddo cydweithio effeithiol rhwng y rheoleiddwyr perthnasol er mwyn cadw'r baich ar Lywodraeth Leol mor fach â phosibl, gwella tryloywder i'r cyhoedd, a darparu gwell gwybodaeth i gefnogi gwaith y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio a Phwyllgorau Craffu Cyngor. Bydd y darpariaethau hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau er mwyn hyrwyddo mwy o rannu gwybodaeth rhwng y rheoleiddwyr er mwyn:

- nodi a mynd i'r afael â materion o bryder posibl o ran perfformiad Cyngor Sir penodol yn gyflymach er mwyn mynd i'r afael â phroblemau cyn iddynt gynyddu;
- nodi a mynd i'r afael â materion o bryder posibl ar draws Llywodraeth Leol yn ei chyfanrwydd;
- nodi meysydd o arferion da i gefnogi rhannu rhwng Cyngorau Sir.

Darpariaeth Amrywiol ynghylch Penodau 1 i 5 (Pennod 6)

120. Mae'r Bennod hon yn gwneud darpariaethau amrywiol mewn perthynas ag arfer swyddogaethau o dan y Rhan hon. Mae Adran 147 yn diwygio Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 er mwyn dileu Cyngorau Sir o'r drefn wella yn Rhan 1 o'r Mesur hwnnw.

Pwyllgorau Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio (Pennod 7)

121. Gwnaeth y Papur Gwyn nifer o gynigion ar gyfer cryfhau trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd mewnol mewn Cyngorau Sir o ganlyniad i ddileu Cyngorau o'r drefn wella yn Rhan 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Cynnig allweddol oedd egluro a chryfhau rôl Pwyllgorau

Archwilio Cynghorau Sir, o gofio'r cynnig i gynyddu eu swyddogaethau yn sylweddol.

122. Mae Adran 148 yn newid enw'r Pwyllgor Archwilio i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio er mwyn adlewyrchu'r rôl ehangach hon. Mae Adran 149 yn nodi swyddogaethau newydd y Pwyllgor sef asesu ac adrodd ar allu'r Cyngor (i) i gydymffurfio â'i ddyletswydd mewn perthynas â threfniadau llywodraethu, (ii) i wneud cynnydd mewn perthynas â'r blaenoriaethau a nodir yng nghynllun corfforaethol y Cyngor, (iii) i ymdrin â chwynion yn effeithiol, ac ar y trefniadau sydd wedi'u gwneud ar gyfer hunanasesu ac asesiad gan gymheiriaid. Mae Adran 150 yn diwygio darpariaethau ynghylch aelodaeth o'r Pwyllgor gan gynnwys gofyniad bod rhaid i un rhan o dair o aelodaeth o'r Pwyllgor gynnwys aelodau lleyg, a bod rhaid penodi un o'r rheini'n gadeirydd.

Rhan 6: Cynghorau Cymuned

(Cyfeiriadau allweddol yn y Bil Drafft: Rhan 6, Penodau 1 i 3)

Adolygiad o Drefniadau Cynghorau Cymuned (Pennod 1)

123. Ceisiodd y Papur Gwyn safbwyntiau ar gynigion i roi pwerau i Gynghorau Sir i adolygu strwythur, rôl a llywodraethu Cynghorau Cymuned yn eu hardaloedd. O ganlyniad i'r ymatebion i'r ymgynghoriad ac ar ôl ystyried y mater ymhellach, mae'r cynnig wedi cael ei ddiwygio. Er mwyn sicrhau bod yr adolygiad yn cael ei gwblhau erbyn etholiadau 2023, bydd Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (nid y Cynghorau Sir) yn cynnal yr adolygiad. Mae Adrannau 153 i 166 yn nodi'r weithdrefn ar gyfer cynnal a gweithredu adolygiad o drefniadau Cyngor Cymuned.

124. Yn unol â'r cynnig gwreiddiol yn y Papur Gwyn, bwriedir i'r darpariaethau ddiwygio'r sector Cynghorau Cymuned, gan arwain at fwy o gysondeb, a rhagwelir y gallai cymunedau llai gael eu grwpio o dan Gynghorau Cymuned cyffredin, gan gynyddu capasiti a gallu'r sector i gyfrannu'n effeithiol at gyflawni amcanion cyffredin yn y gwasanaethau cyhoeddus. Bydd y darpariaethau hyn, o'u cymryd â'r rhai sy'n ymwneud â phŵer cyffredinol cymhwysedd a fydd ar gael i Gynghorau Cymuned sydd â chymhwysedd, hefyd yn hybu'r egwyddor o sybsidiaredd.

125. Mae Adran 153 yn peri bod ar Gomisiwn Democratiaeth Leol a Ffiniau Cymru ddyletswydd i gynnal adolygiad o Gyngor Cymuned ym mhob un o'r siroedd newydd yng Nghymru, er mwyn argymhell newidiadau i'r trefniadau hynny i sicrhau Llywodraeth Leol effeithiol a chyfleus. Nodir y weithdrefn ar gyfer cynnal yr adolygiad a rhoi unrhyw newidiadau ar waith yn adrannau 153 i 166.

126. Mae Adran 163 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth drosiannol trwy reoliadau mewn perthynas â materion megis ymddiriedolwyr siarter a throsglwyddo staff, eiddo, hawliau, rhwymedigaethau ac achosion troseddol. O safbwynt trosglwyddo staff, bydd Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006 yn gymwys i staff sy'n cael eu trosglwyddo o dan orchmynion gweithredu a

wneir o dan y darpariaethau hyn. Mae hyn, er hynny, yn destun dau eithriad mewn perthynas ag atebolrwydd troseddol a phensiynau. Y cyntaf yw sicrhau y caiff unrhyw atebolrwydd troseddol sy'n codi mewn perthynas â contract cyflogaeth ei drosglwyddo i'r Cynghorau Cymuned newydd. Yr ail yw sicrhau bod unrhyw hawliau neu rwymedigaethau sy'n cael eu cronni o dan gynlluniau pensiwn galwedigaethol yn cael eu trosglwyddo fel na fydd staff sy'n trosglwyddo'n cael eu rhoi o dan anfantais. Bydd yn ofynnol i'r Cynghorau Sir newydd roi'r newidiadau hynny ar waith erbyn Etholiadau Llywodraeth Leol 2023.

127. Ymgynghorir â Chynghorau Cymuned, Cynghorau Sir a phobl sy'n byw mewn ardaloedd lle nad oes Cyngor Cymuned ar hyn o bryd ar bob cam o'r adolygiad. Er mwyn rhoi i'r Comisiwn y cyd-destun sefydlog i gynnal yr adolygiad, mae Adran 166 yn darparu y caiff y ddeddfwriaeth bresennol sy'n galluogi i Gynghorau Cymuned gael eu ffurfio a'u diddymu etc. gael ei hatal am hyd yr adolygiad ac am gyfnod wedi hynny.

Aelodau o Gynghorau Cymuned i Gwblhau Hyfforddiant (Pennod 2)

128. Mae Adranau 167 i 170 yn darparu bod rhaid i Gynghorau Sir ystyried anghenion hyfforddiant Cynghorwyr Cymuned a darparu'r hyfforddiant. Os yw'r hyfforddiant yn orfodol, rhaid i gynghorwyr Cymuned ei ddilyn.

Dyddiadau Etholiadau Cynghorau Cymuned (Pennod 3)

129. Mae Etholiadau cyffredin i Gynghorau Cymuned yn cael eu cynnal fel rheol ar yr un diwrnod ag etholiadau cyffredin i'r Cyngor Sir neu'r Cyngor Bwrdeistref Sirol y mae cymunedau wedi'u lleoli ynddynt. Lle mae'r etholiadau cyffredin yn cyd-ddigwydd, mae Adran 36(3AB) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 yn pennu y caiff y ddau etholiad eu cyfuno ac y caiff y costau eu rhannu rhwng y ddau etholiad. Gall hyn arwain at arbediad sylweddol, yn enwedig i'r Cyngor Cymuned, gan na fydd y Cyngor Sir neu'r Cyngor Bwrdeistref Sirol mewn llawer o achosion yn codi tâl arnynt o gwbl neu'n ceisio ad-daliad enwol yn unig am gostau Etholiad y Cyngor Cymuned.

130. Mae'r darpariaethau yn Adran 171 yn darparu ar gyfer gohirio Etholiadau Cynghorau Cymuned o 2021 i 2023 o ganlyniad i ddiwygio f Llywodraeth Leol. Cynhelir etholiadau i bob Cyngor Cymuned ym Mai 2017 a Mai 2023. Mae'r Bil Drafft darparu ar gyfer ymestyn cyfnodau swydd Cynghorwyr Cymuned a etholir yn 2017, gan gynnwys Cynghorau Cymuned ym Mhowys, am y cyfnod hwn er mwyn iddynt wasanaethu am gyfnod o chwe blynedd. O 2023 cynhelir etholiadau cyffredin Cynghorau Cymuned bob pum mlynedd, a fydd yn cyd-fynd ag etholiadau cyffredin y Cyngor Sir y lleolir y cymunedau ynddynt.

Rhan 7: Materion y Gweithlu

(Cyfeiriadau allweddol yn y Bil Drafft: Rhan 7, Penodau 1 a 2)

Canllawiau i Gyrrff Cyhoeddus ar faterion y Gweithlu (Pennod 1)

131. Mae Adran 172 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru roi canllawiau i gyrrff cyhoeddus penodedig ynghylch materion y gweithlu a rhaid i'r cyrrff hynny roi sylw iddi. Mae Adran 173 yn diffinio 'materion y gweithlu' i gynnwys cynllunio'r gweithlu, recriwtio a chadw, rheoli a chydnyddiaeth ariannol, hyfforddiant a datblygu, materion y gweithlu yng nghyd-destun trefniadau cydweithredu, a rhannu gwybodaeth. Nodir y cyrrff cyhoeddus penodedig yn Adran 174.

Comisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus (Pennod 2)

132. Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r materion a godwyd ym Mhapur Gwyn¹⁰ Comisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus, bydd darpariaethau yn y Bil Drafft yn sefydlu Comisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus i gynghori Gweinidogion Cymru ar faterion y gweithlu mewn gwasanaethau cyhoeddus datganoledig yng Nghymru. Byddai Comisiwn Staff statudol y Gwasanaethau Cyhoeddus yn disodli'r Comisiwn Staff anstatudol a sefydlwyd ym Medi 2015. Mae hyn yn adlewyrchu'r sylwadau gan rai ymatebwyr y byddai gan Gomisiwn a sefydlir trwy gyfraith fwy o statws, annibyniaeth a hygredd nag un anstatudol.

133. Sefydlir y Comisiwn presennol o dan Adran 60 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru wneud unrhyw beth sy'n briodol yn eu barn hwy i wella llesiant economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol Cymru. Yn dibynnu ar ganlyniad datblygiadau parhaus yn y setliad datganoli a sail cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol, mae'n bosibl y bydd Comisiwn Staff statudol y Gwasanaethau Cyhoeddus yn fwy cyfyngedig o ran materion y caiff eu hystyried o'u cymharu â'r Comisiwn Staff anstatudol. Bydd y Llywodraeth, gyda'i phartneriaid, yn parhau i adolygu'r mater hwn.

134. Yn unol â'n bwriad na ddylai'r Comisiwn fod yn gorff parhaol gan mai ei ddiben yw darparu cyngor ar faterion y gweithlu yn ystod y cyfnod hwn o ddiwygio gwasanaethau cyhoeddus, mae Adran 178 yn darparu y bydd y Comisiwn yn rhoi'r gorau i ddarparu cyngor o 1 Ebrill 2021 ac y daw i ben yn llwyr ar 1 Hydref 2021 ar ôl cyflwyno adroddiad terfynol i Weinidogion Cymru. Caiff Gweinidogion Cymru ymestyn oes y Comisiwn hyd at ddyddiad o 1 Ebrill 2023 fan bellaf, a hynny trwy reoliadau.

Rhan 8: Cyffredinol

135. Mae'r darpariaethau yn Rhan 8 yn pennu gweithdrefn y Cynulliad ar gyfer rheoliadau, yn nodi sut y daw'r gwahanol ddarpariaethau i rym, a'r teitl byr. Maent hefyd yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ganlyniadol a throsiannol trwy reoliadau.

¹⁰<http://gov.Cymru/ymgyngoriad/improving/public-gwasanaethau-staff-commission-consultation/?lang=cy>

4. Ymgynghori

136. Yn ei Ddatganiad Deddfwriaethol ym mis Gorffennaf 2011, ymrwymodd y Prif Weinidog i ymgynghori'n briodol ac i ymgysylltu mewn modd ystyrlon â'n partneriaid wrth ddatblygu deddfwriaeth. Yn unol â'r ymrwymiad hwn, fel y nodwyd ym Mhennod 3, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi tri Phapur Gwyn ac wedi ymgynghori arnynt. Roedd y rhain yn nodi'r rhesymau pam yr ydym yn cynnig y dylid diwygio llywodraeth leol yng Nghymru a sut y byddem yn mynd ati i'w diwygio.
137. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y Papur Gwyn cyntaf *Diwygio Llywodraeth Leol* o 8 Gorffennaf tan 1 Hydref 2014 a derbyniwyd 170 o ymatebion. Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ym mis Rhagfyr 2014 ac mae ar gael yn [Llywodraeth Cymru | Papur Gwyn Datganioli, Democratiaeth a Chyflawni - Diwygio Llywodraeth Leol](#). Prif ddiben y Papur Gwyn oedd nodi cynigion ar gyfer y Bil Llywodraeth Leol (Cymru) cyntaf. Roedd hefyd yn amlinellu gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer dyfodol llywodraeth leol yng Nghymru.
138. Derbyniwyd 52 o ymatebion i'r ymgynghoriad ar yr ail Bapur Gwyn, *Comisiwn Staff i'r Gwasanaethau Cyhoeddus* a gynhaliwyd o 21 Hydref 2014 tan 13 Ionawr 2015. Roedd yr ymgynghoriad yn canolbwyntio ar nifer o faterion yn ymwneud â chylch gorchwyl, aelodaeth, amseru, cwmipas a threfniadau gweithio Comisiwn Staff, boed yn anstatudol neu'n statudol. Roedd consensws cyffredinol yn yr ymatebion ynglŷn â gwerth posibl Comisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus o ran cynorthwyo'r broses o uno Awdurdodau lleol ac ystyried materion ehangach yn ymwneud â gweithlu'r gwasanaethau cyhoeddus. Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion ym mis Mawrth 2015 ac mae ar gael yn [Llywodraeth Cymru | Papur Gwyn Datganioli, Democratiaeth a Chyflawni - Comisiwn Staff i'r Gwasanaethau Cyhoeddus](#).
139. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y trydydd Papur Gwyn *Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol* o 3 Chwefror tan 28 Ebrill 2015. Prif ddiben y trydydd Papur Gwyn oedd nodi cynigion ar gyfer Bil Drafft (y Bil Drafft hwn), a fyddai'n cael ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad ym mis Tachwedd 2015, er mwyn cwblhau'r rhaglen o uno a diwygio Siroedd neu Fwrdeistrefi Sirol. Roedd yr ymgynghoriad yn ymwneud â nifer fawr o faterion - rhai ohonynt o natur dechnegol. Cyhoeddwyd tair fersiwn o'r Papur Gwyn i hwyluso'r ymgynghoriad - fersiwn lawn, fersiwn Pob Dydd a fersiwn Pobl Ifanc. Datblygwyd holiadur ymgynghori ar-lein hefyd. Roedd hyn yn rhoi'r cyfle i ymatebwyr nail ai i fynd i'r afael â'r holl faterion a oedd dan sylw yn y Papur Gwyn neu i lenwi fersiwn fyrrach o'r holiadur, a oedd yn canolbwyntio ar y prif faterion a fyddai o ddiddordeb i'r cyhoedd. Anogwyd yr ymatebwyr i lenwi'r holiadur ar-lein, er bod y dewis ar gael iddynt anfon ymateb ysgrifenedig hefyd. Mae'r Papur Gwyn ar gael yn [Llywodraeth Cymru | Papur Gwyn Datganioli, Democratiaeth a Chyflawni - Grym i Bobl Leol](#).
140. Yn ystod y cyfnod ymgynghori, cynhaliwyd ymgyrch gyhoeddus 'Mae Cynghorau yng Nghymru yn mynd i newid' i godi ymwybyddiaeth o'r

ymgyngoriad ar y Papur Gwyn, gwella dealltwriaeth o ddiwygio Llywodraeth Leol a chynyddu nifer yr ymatebion oddi wrth aelodau'r cyhoedd yn gyffredinol. Fel cam unigryw hefyd, sefydlwyd 'Pôl Piniwn' i geisio barn am faterion allweddol. Denodd hyn 3,166 o ymatebion oddi wrth ystod eang o bobl o bob ardal Llywodraeth Leol yng Nghymru.

141. Yn ystod y cyfnod ymgynghori, cynhaliwyd 38 o ddigwyddiadau ymgysylltu gydag Awdurdodau Lleol ac amrywiaeth helaeth o randdeiliaid. Daeth dros 600 o unigolion i'r cyfarfodydd, a oedd wedi'u cynllunio i gyfleu i bob grŵp o randdeiliaid sut y byddai'r diwygiadau yn effeithio arnynt hwy, ac i'w helpu i ymateb yn effeithiol i'r ymgynghoriad.

142. Derbyniwyd cyfanswm o 726 o ymatebion i'r ymgynghoriad oddi wrth ystod eang o unigolion a sefydliadau. Llenwodd 452 o ymatebwyr yr holiadur llawn a'r fersiwn pob dydd a dewisodd 274 o'r ymatebwyr gyflwyno ymatebion rhydd.

Math o Ymatebydd	Nifer	%
Aelod o'r Cyhoedd	298	41%
Aelod Etholedig	49	7%
Cyngor Sir neu Gyngor Bwrdeistref Sirol	40 ¹¹	5%
Cyngor Tref / Cymuned	196	27%
Grŵp Gwleidyddol / Plaid Wleidyddol	31	4%
Undeb Llafur	6	1%
Y Trydydd Sector	20	3%
Corff Cynrychioliadol / Corff neu Gymdeithas Broffesiynol	26	2%
Asiantaeth Llywodraeth / Corff Sector Cyhoeddus Arall	17	4%
Arall	43	6%

143. Cyhoeddwyd adroddiad yn crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn ac mae i'w weld yn: [Llywodraeth Cymru | Papur Gwyn Datganoli, Democratiaeth a Chyflawni - Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol.](#)

144. Nid ydym yn bwrw ymlaen â'r holl gynigion a drafodwyd yn y trydydd Papur Gwyn yn y Drafft Bil hwn. Mae'r cynigion a oedd wedi'u cynnwys yn y Papur Gwyn ond sydd heb eu cynnwys yn y Bil Drafft hwn wedi'u cynnwys yn y Ddogfen Ymgynghori a gyhoeddir i gyd-fynd â'r Bil Drafft hwn.

¹¹ Cafwyd ymatebion gan yr holl brif awdurdodau lleol. Mae'r ffigurau'n cynnwys ymatebion gan Adrannau unigol o fewn Cyngorau Sir neu Gyngorau Bwrdeistref Sirol.

5. Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth

145. Ceir darpariaethau yn y Bil Drafft i wneud is-ddeddfwriaeth, cyfarwyddiadau a phenderfyniadau, ac i gyhoeddi canllawiau. Mae Tabl 5.1 (is-ddeddfwriaeth) a Thabl 5.2 (cyfarwyddiadau, penderfyniadau a chanllawiau) yn nodi'r canlynol mewn perthynas â'r darpariaethau hyn:

- i) yr unigolyn neu'r corff y rhoddir y pŵer iddo;
- ii) ar ba ffurf y caiff y pŵer ei arfer;
- iii) priodoldeb y pŵer dirprwyedig; a
- iv) y weithdrefn a gymhwysir (cadarnhaol neu negyddol) os o gwbl, ynghyd â'r rheswm pam yr ystyrir ei bod yn briodol.

146. Bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar gynnwys yr is-ddeddfwriaeth pan ystyrir bod hynny'n briodol.

5.1 Darpariaethau is-ddeddfwriaeth gyda'r Bil Drafft

Adran o'r Bil neu Atodlen i'r Bil	Rhoddir y pŵer i	Ffurf	Priodoldeb	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
Adran 15(3)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'n rhoi'r pŵer i ragnodi swyddogaethau a chyllid Awdurdodau Cysgodol. Mae angen ymgynghori ac ymgysylltu â'r Cynghorau presennol er mwyn pennu'n union pa swyddogaethau y bydd angen i Awdurdodau Cysgodol eu harfer.	Negyddol	Rheoliadau dros dro eu natur fydd y rhain a byddant ond yn ymwneud â swyddogaethau presennol llywodraeth leol sydd i'w harfer gan y Cynghorau Sir newydd yn ystod y cyfnod cysgodol.
Adran 19(1)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'n rhoi'r pŵer i wneud darpariaethau atodol, cysylltiedig, canlyniadol a throsiannol neu ddarpariaethau arbed. Bydd y rheoliadau yn ymdrin â manylion.	Negyddol, oni fyddant yn ceisio addasu ac ati ddeddfwriaeth sylfaenol, os felly byddant yn gadarnhaol.	Bydd y rheoliadau hyn yn gyfyngedig i faterion at ddibenion cyffredinol darpariaethau Rhan 2 o'r Bil Drafft, sy'n deillio ohonynt neu sy'n rhoi effaith iddynt ac, felly, byddant yn cynnwys manylion cymharol fân. Felly, mae'n briodol dilyn y weithdrefn penderfyniad negyddol. Os bydd y rheoliadau yn addasu neu'n diwygio ac ati ddarpariaethau mewn deddfwriaeth sylfaenol, byddai'r weithdrefn gadarnhaol yn gymwys.

Adran 20(1)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'n rhoi'r pŵer i roi dyddiad diweddarach yn lle unrhyw ddyddiad yn y Rhan hon, darpariaethau penodedig eraill yn y Bil Drafft ac adrannau 2(8) a 39(2) o Ddeddf Llywodraeth (Cymru) 2015. O dan rai amgylchiadau efallai y bydd angen newid rhai'r o'r dyddiadau yn y darpariaethau penodedig ond ni ellir rhagweld p'un a gaiff y pŵer hwn ei arfer na pha ddyddiad diweddarach a gâi ei bennu ar yr adeg hon.	Cadarnhaol	Byddai'r rheoliadau yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol ac, felly, ystyrir ei bod yn briodol dilyn y weithdrefn gadarnhaol.
-------------	--------------------	------------	--	------------	---

Adran 27(1)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio, dirymu, diddymu neu ddatgymhwyso deddfwriaeth bresennol y maent yn ystyried ei bod yn atal awdurdodau lleol rhag arfer y pŵer cyffredinol. Ni ellir rhagweld sut y bydd awdurdodau lleol cymwys am ddefnyddio'r pŵer cyffredinol na pha rwystrau deddfwriaethol a fydd yn eu hwynebu, o bosibl. Mae'n briodol sicrhau bod gan Weinidogion Cymru yr hyblygrwydd i ymdrin â rhwystrau o'r fath drwy reoliadau.	Cadarnhaol, oni bai bod y rheoliadau ond yn ceisio diwygio rheoliadau cynharach neu is-ddeddfwriaeth (Negyddol).	Gallai rheoliadau o dan yr adran hon ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol ac, felly, ystyrir ei bod yn briodol dilyn gweithdrefn gadarnhaol y Cynulliad o dan yr amgylchiadau hynny. Fodd bynnag, ystyrir ei bod yn briodol dilyn y weithdrefn negyddol pan fo'r rheoliadau ond yn ceisio diwygio is-ddeddfwriaeth neu reoliadau cynharach.
-------------	--------------------	------------	--	--	--

Adran 27(2)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	<p>Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i leihau neu ddileu unrhyw orgyffwrdd rhwng y pŵer cyffredinol ac unrhyw bwerau sy'n bodoli eisoes. Ni ellir rhagweld sut y bydd awdurdodau lleol cymwys am ddefnyddio'r pŵer cyffredinol na pha rwystrau deddfwriaethol a fydd yn eu hwynebu, o bosibl. Mae'n briodol sicrhau bod gan Weinidogion Cymru yr hyblygrwydd i ymdrin â gorgyffwrdd o'r fath drwy reoliadau.</p>	<p>Cadarnhaol, oni bai bod y rheoliadau ond yn ceisio diwygio rheoliadau cynharach neu is-ddeddfwriaeth (Negyddol).</p>	<p>Gallai rheoliadau o dan yr adran hon ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol ac, felly, ystyrir ei bod yn briodol dilyn gweithdrefn gadarnhaol y Cynulliad o dan yr amgylchiadau hynny.</p> <p>Fodd bynnag, ystyrir ei bod yn briodol dilyn y weithdrefn negyddol pan fo'r rheoliadau ond yn ceisio diwygio is-ddeddfwriaeth neu reoliadau cynharach.</p>
-------------	--------------------	------------	--	---	--

Adran 27(3)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i atal awdurdodau lleol cymwys rhag defnyddio'r pŵer cyffredinol at ddibenion penodol. Ni ellir rhagweld sut y bydd awdurdodau lleol cymwys am ddefnyddio'r pŵer cyffredinol ac efallai y ceir amgylchiadau lle y bydd angen cyfyngu ar y pŵer cyffredinol. Mae'n briodol bod gan Weinidogion Cymru y pŵer i fynd i'r afael ag amgylchiadau o'r fath drwy reoliadau.	Cadarnhaol, oni bai bod y rheoliadau ond yn ceisio diwygio rheoliadau cynharach (negyddol).	Gallai rheoliadau o dan yr adran hon newid y ffordd y mae deddfwriaeth sylfaenol yn gweithredu ac ystyrir ei bod yn briodol dilyn gweithdrefn gadarnhaol y Cynulliad o dan yr amgylchiadau hynny. Fodd bynnag, ystyrir ei bod yn briodol dilyn y weithdrefn negyddol pan fo'r rheoliadau ond yn ceisio diwygio rheoliadau cynharach (a fydd wedi bod yn destun y weithdrefn gadarnhaol)
Adran 27(4)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i osod amodau ar y ffordd y caiff y pŵer cyffredinol ei arfer. Ni ellir rhagweld sut y bydd awdurdodau lleol cymwys am ddefnyddio'r pŵer cyffredinol ac efallai y ceir amgylchiadau lle y bydd angen gosod amodau ar y ffordd y caiff y pŵer cyffredinol ei arfer. Mae'n briodol bod Gweinidogion Cymru yn gallu gosod amodau o'r fath drwy reoliadau.	Cadarnhaol, oni bai bod y rheoliadau ond yn ceisio diwygio rheoliadau cynharach (negyddol).	Gallai rheoliadau o dan yr adran hon newid y ffordd y mae deddfwriaeth sylfaenol yn gweithredu ac, felly, ystyrir ei bod yn briodol dilyn gweithdrefn gadarnhaol y Cynulliad o dan yr amgylchiadau hynny. Fodd bynnag, ystyrir ei bod yn briodol dilyn y weithdrefn negyddol pan fo'r rheoliadau ond yn ceisio diwygio rheoliadau cynharach (a fydd wedi bod yn destun y weithdrefn gadarnhaol)

Adran 31(5)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Y pŵer i Weinidogion Cymru ragnodi'r cymwysterau y mae'n rhaid i glerc Cyngor Cymuned feddu arnynt er mwyn bodloni amod cymhwysedd. Mae'r Bil Drafft yn nodi bod yn rhaid i'r clerc feddu ar gymhwyster proffesiynol er mwyn i'r Cyngor fod â chymhwysedd ond mae natur cymwysterau proffesiynol yn newid yn rheolaidd a byddai angen newid y ddeddfwriaeth sylfaenol yn aml pe bai'r manylion wedi'u rhagnodi yn y Bil Drafft. Felly, mae'n briodol bod Gweinidogion Cymru yn gallu rhagnodi cymwysterau mewn rheoliadau.	Negyddol	Mae'n dechnegol/gweithdrefnol ei natur ac, felly, ystyrir bod y weithdrefn negyddol yn briodol.
-------------	--------------------	------------	--	----------	---

Adran 34(1)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'n rhoi'r hyblygrwydd i Weinidogion Cymru ddiwygio'r amodau sy'n wneud â Chynghorau Cymuned â chymhwysedd. Nodir yr amodau yn y Bil Drafft ond yng ngoleuni profiad, efallai y bydd amgylchiadau lle y byddai'n fuddiol naill ai diwygio, dileu neu ychwanegu amodau cymhwysedd yn y dyfodol. Felly, ystyrir ei bod yn briodol bod Gweinidogion Cymru yn gallu cael pŵer i wneud rheoliadau er mwyn ymdrin ag amgylchiadau o'r fath.	Cadarnhaol	Gan y bydd y pŵer i wneud rheoliadau yn ei gwneud yn bosibl i ddeddfwriaeth sylfaenol gael ei diwygio drwy ddileu, ychwanegu neu newid gofyniad o ran cymhwysedd neu newid yr amgylchiadau lle y gall Cyngor beidio â bod yn gymwys, ystyrir y bydd y weithdrefn gadarnhaol yn sicrhau'r lefel briodol o graffu gan y Cynulliad.
Adran 37(4)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Pŵer i ddiwygio'r rhestr o gyrff sy'n awdurdodau sy'n gysylltiedig â'r Cyngor Sir. Mae'r Bil Drafft yn nodi'r cyrff hynny rydym bellach yn ystyried eu bod yn awdurdodau sy'n gysylltiedig â'r Cyngor Sir ond efallai y bydd angen diwygio'r rhestr rywbryd yn y dyfodol felly mae'n briodol bod gan Weinidogion Cymru yr hyblygrwydd i ddiwygio'r rhestr drwy reoliadau.	Cadarnhaol	Gallai'r ffaith ei fod wedi'i restru'n awdurdod sy'n gysylltiedig â Chyngor Sir gael effaith sylweddol ar gorff cyhoeddus, felly mae angen lefel briodol o graffu gan y Cynulliad.

Adran 52(7)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Pŵer i wneud darpariaeth bellach ynghylch ffurf a chynnwys datganiad o flaenoriaethau ac amcanion. Mae'n Bil Drafft yn nodi'r prif ofyniad i lunio datganiad. Nid ystyrir bod y manylion am ffurf a chynnwys y datganiad yn ddigon pwysig i gyfiawnhau eu nodi yn y Bil Drafft.	Negyddol	Mae'n dechnegol/gweithdrefnol ei natur ac efallai y bydd angen ei ddiwygio yn eithaf aml.
-------------	--------------------	------------	---	----------	---

Adran 57(1)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	<p>Pŵer i fynnu bod trefniadau yn cael eu gwneud ynglŷn â dirprwyo swyddogaethau i bwyllgorau ardaloedd cymunedol neu i gyfyngu ar y swyddogaethau a gaiff eu dirprwyo iddynt. Oherwydd y nifer fawr o swyddogaethau a fydd gan y Cynghorau newydd, mae darpariaethau ynghylch dirprwyo pwerau neu gyfyngu ar y pwerau a gaiff eu dirprwyo yn debygol o fod yn fanwl ac yn dechnegol ac efallai y bydd angen eu diwygio yn eithaf aml wrth i swyddogaethau presennol gael eu diwygio, wrth i swyddogaethau newydd gael eu rhoi neu yng ngoleuni profiad. Felly, mae'n briodol sicrhau bod gan Weinidogion Cymru yr hyblygrwydd i ymdrin â materion o'r fath drwy reoliadau.</p>	Negyddol	<p>Mae'n dechnegol/gweithdrefnol ei natur ac efallai y bydd angen ei ddiwygio yn eithaf aml.</p>
-------------	--------------------	------------	---	----------	--

Adran 61(1)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	<p>Pŵer i gymhwyso deddfiadau at bwyllgorau ardaloedd cymunedol. Mae'n briodol defnyddio rheoliadau i wneud darpariaeth ynghylch cymhwyso deddfiadau eraill at bwyllgorau ardaloedd cymunedol am fod y darpariaethau yn debygol o fod yn rhai technegol iawn eu natur ac mae'n debygol y bydd angen eu diweddarau'n eithaf aml er mwyn adlewyrchu diwygiadau i ddeddfwriaeth bresennol neu ddeddfu deddfwriaeth newydd. Mae'n briodol bod gan Weinidogion Cymru yr hyblygrwydd i ymdrin â'r broses o gymhwyso deddfiadau at bwyllgorau ardaloedd cymunedol drwy reoliadau.</p>	Negyddol	<p>Mae'n dechnegol/gweithdrefnol ei natur ac efallai y bydd angen ei ddiwygio yn eithaf aml.</p>
-------------	--------------------	------------	--	----------	--

Adran 64(3)(e)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'r Bil Drafft yn rhestru categorïau o gyrff a all fod yn gyrff sydd â diddordeb ac mae wedi'i lunio'n eang er mwyn bod yn gynhwysfawr. Fodd bynnag, pe bai angen ychwanegu at y rhestr, mae'r pŵer hwn yn ei gwneud yn bosibl i gyrff eraill sydd â diddordeb gael eu rhagnodi. Mae'n briodol bod gan Weinidogion Cymru yr hyblygrwydd i ychwanegu at y rhestr drwy reoliadau.	Negyddol	Mae'n dechnegol/gweithdrefnol ei natur ac efallai y bydd angen ei ddiwygio yn eithaf aml.
----------------	--------------------	------------	---	----------	---

Adran 64(6)(b)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'n rhoi'r pŵer i ragnodi awdurdodau perthnasol ychwanegol y gall cyrff sydd â diddordeb gyflwyno ceisiadau gwella iddynt. Yn y lle cyntaf, y bwriad yw mai dim ond i Gyngorau Sir y bydd modd cyflwyno ceisiadau gwella. Mae'n bosibl, yn y dyfodol, y byddai'n ddymunol cynnwys cyrff cyhoeddus eraill. Felly, mae'n briodol bod gan Weinidogion Cymru yr hyblygrwydd i wneud darpariaethau o'r fath mewn rheoliadau.	Cadarnhaol	Ar y sail, pe câi ei ddefnyddio, y byddai'n cymhwyso'r ddyletswydd at gyrff cyhoeddus am y tro cyntaf ac y gallai gyfiawnhau'r gwaith craffu sy'n gysylltiedig â'r weithdrefn gadarnhaol.
Adran 65(c)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'n rhoi'r pŵer i osod gofynion o ran y ffordd y caiff ceisiadau gwella eu cyflwyno. Mae'r Bil Drafft yn nodi'n fanwl y weithdrefn ar gyfer rheoli ceisiadau gwella ond mae'n bosibl, yng ngoleuni profiad, y bydd angen rhagor o fanylion, felly pŵer galluogi yw hwn.	Negyddol	Mae'n dechnegol/gweithdrefnol ei natur, felly efallai y bydd angen ei ddiwygio yn eithaf aml.

Adran 69(2)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'n rhoi'r pŵer i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau perthnasol gyhoeddi gwybodaeth am benderfyniadau i gynnal trafodaethau â chyrff sydd wedi cyflwyno ceisiadau gwella. Mae'r Bil Drafft yn nodi'r prif ofyniad. Byddai rheoliadau yn briodol ar gyfer gwneud darpariaeth ar gyfer manylion a materion sy'n ymwneud â gweithdrefnau y mae'n bosibl y bydd angen eu diwygio yn eithaf aml.	Negyddol	Mae'n dechnegol/gweithdrefnol ei natur, felly efallai y bydd angen ei ddiwygio yn eithaf aml.
Adran 70(2)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'n rhoi'r pŵer i ragnodi pa faterion y mae'n rhaid mynd i'r afael â hwy yng ngweithdrefn gwyno awdurdod perthnasol. Mae'r Bil Drafft yn nodi'r prif ofyniad ac mae Cyngorau wedi sefydlu gweithdrefnau a all fod yn ddigonol. Byddai rheoliadau ond yn ymdrin â manylion, pe bai angen.	Negyddol	Mae'n dechnegol/gweithdrefnol ei natur, felly efallai y bydd angen ei ddiwygio yn eithaf aml.

Adran 74(1)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'n rhoi'r pŵer i wneud darpariaeth bellach ynghylch ceisiadau gwella. Mae adran 74(2) yn nodi'r prif faterion y byddai angen i reoliadau fynd i'r afael â hwy. Byddai rheoliadau yn briodol er mwyn darparu ar gyfer manylion y weithdrefn ar gyfer materion y cyfeirir atynt yn adran 74(2). Mae'n briodol sicrhau bod gan Weinidogion Cymru yr hyblygrwydd i ymdrin â materion o'r fath drwy reoliadau.	Negyddol	Mae'n dechnegol/gweithdrefnol ei natur ac efallai y bydd angen ei ddiwygio yn eithaf aml.
-------------	--------------------	------------	--	----------	---

Adran 74(3)(a)-(c)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Pŵer i ddiwygio neu ddiidymu'r rhestr o gyrff sydd â diddordeb, y diffiniad o gorff gwirfoddol a gwneud diwygiadau i'r Rhan hon o ganlyniad i arfer pwerau o dan adran 64 neu 74 (i newid diffiniadau o gyrff sydd â diddordeb neu awdurdodau perthnasol neu ragnodi rhai ychwanegol). Mae'r Bil Drafft yn nodi bwriadau Gweinidogion Cymru ond yn rhoi iddynt bŵer galluogi i wneud diwygiadau os bydd angen yn y dyfodol. Sut bynnag, byddai arfer y pŵer yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.	Cadarnhaol	Byddai'n newid y ddarpariaeth ar wyneb deddfwriaeth sylfaenol.
Adran 76(4)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Pŵer i ragnodi trafodion Cyngor Sir nad yw'r ddyletswydd i ddarlledu'n electronig yn gymwys iddynt. Mae'r Bil Drafft yn nodi'r prif ofynion yn glir ond efallai y bydd angen rhoi hyblygrwydd i ymdrin ag amgylchiadau penodol.	Negyddol	Mae'n dechnegol/gweithdrefnol ei natur ac efallai y bydd angen ei ddiwygio yn eithaf aml.

Adran 76(7)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Pŵer i sicrhau y caiff trafodion awdurdodau tân ac achub a/neu awdurdodau Parciau Cenedlaethol eu darlledu'n electronig. Mae'r Bil Drafft yn gosod gofynion ar Gynghorau Sir i ddechrau ond, yn y dyfodol, efallai yr ystyrir ei bod yn briodol cymhwyso gofynion tebyg at yr Awdurdodau eraill sydd wedi'u rhestru. Byddai'r pŵer hwn yn galluogi hynny.	Negyddol	Mae'n dechnegol/gweithdrefnol ei natur ac efallai y bydd angen ei ddiwygio yn eithaf aml.
Adran 77(1)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Pŵer i ragnodi egwyddorion cyhoeddusrwydd e.e. ffilmio neu recordiad llafar. Mae mynediad cyhoeddus i gyfarfodydd, fel y'i disgrifir yn yr adran hon, wedi gweithio'n dda ar y cyfan gyda rhai eithriadau. Byddai'r pwerau yn ei gwneud yn bosibl i reoliadau gael eu gwneud ynghylch y materion sydd wedi'u rhestru ond efallai y byddant yn ei gwneud yn ofynnol i ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol gael ei diwygio.	Cadarnhaol	Byddai'n newid y ddarpariaeth ar wyneb deddfwriaeth sylfaenol.

Adran 91(3)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	<p>Pŵer i wneud rheoliadau ynghylch y cyhoeddusrwydd y dylid ei roi i adroddiadau ac argymhellion a wneir gan swyddogion monitro ar ôl ymchwilio i fethiannau honedig aelodau i gydymffurfio â dyletswyddau perfformiad aelodau. Efallai y bydd angen nodi mwy o fanylion am gyhoeddusrwydd, er enghraifft, er mwyn sicrhau y rhoddir y wybodaeth ddiweddaraf i'r cyhoedd a hefyd ddiogelu hawliau Cynghorwyr. Mae a wnelo'r mater hwn â manylion ac mae rheoliadau'n fwy priodol ar ei gyfer, o ystyried yr amgylchiadau ar y pryd.</p>	Negyddol	Mae'n dechnegol/gweithdrefnol ei natur ac efallai y bydd angen ei ddiwygio yn eithaf aml.
-------------	--------------------	------------	--	----------	---

Adran 93(4)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	<p>Pŵer i wneud rheoliadau ynghylch y cyhoeddusrwydd y dylid ei roi i unrhyw benderfyniad o dan adran 93 (penderfyniadau'r Pwyllgor Safonau) ac unrhyw gamau a gymerir yn erbyn aelod. Mae'r Bil Drafft yn nodi'r prif ofyniad i'r Swyddog Monitro Iunio adroddiadau a gwneud argymhellion ynghylch achosion o dor-dyletswydd yn y rhan hon. Efallai y bydd angen rhoi mwy o fanylion am gyhoeddusrwydd, er enghraifft, er mwyn sicrhau y rhoddir y wybodaeth ddiweddaraf i'r cyhoedd a hefyd ddiogelu hawliau Cynghorwyr. Mae a wnelo'r mater hwn â manylion ac mae rheoliadau'n fwy priodol ar ei gyfer, o ystyried yr amgylchiadau ar y pryd.</p>	Negyddol	<p>Mae'n dechnegol/gweithdrefnol ei natur ac efallai y bydd angen ei ddiwygio yn eithaf aml.</p>
-------------	--------------------	------------	--	----------	--

Adran 93(5)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Dyletswydd i wneud rheoliadau sy'n rhoi hawl i Aelodau Cyngor Sir apelio yn erbyn unrhyw benderfyniad gan bwyllgor safonau o dan adran 93. Mae'r Bil Drafft yn nodi bod yn rhaid bod gan Aelodau hawl i apelio ond mae'n fwy priodol ymdrin â'r weithdrefn fanwl mewn rheoliadau.	Negyddol	Mae'n dechnegol/gweithdrefnol ei natur ac efallai y bydd angen ei ddiwygio yn eithaf aml.
Adran 94(1)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Pŵer i wneud darpariaeth bellach ynghylch y ffordd yr ymdrinnir ag achos posibl o fethu â chydymffurfio â dyletswydd a osodwyd gan Bennod 2. Mae adran 94(2) yn rhoi manylion am y materion allweddol sydd i'w hystyried ond mae'n fwy priodol ymdrin â manylion y gweithdrefnau mewn rheoliadau.	Negyddol	Mae'n dechnegol/gweithdrefnol ei natur ac efallai y bydd angen ei ddiwygio yn eithaf aml.

Adran 98(2)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Pŵer i wneud darpariaeth at ddibenion adran 52A o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ynghylch yr amgylchiadau lle y dylid trin aelodau o Gyngor Sir yng Nghymru fel pe baent yn grŵp gwleidyddol ac y dylid trin aelod o grŵp gwleidyddol fel arweinydd y grŵp. Mae'r Bil Drafft yn nodi'n glir yr unigolion hynny y bwriedir i'r darpariaethau hyn effeithio arnynt ond mae'r diffiniad manwl o'r categorïau hyn o bobl yn debygol o newid dros amser a byddai'n fwy priodol ymdrin â hwy mewn rheoliadau	Negyddol	Mae'n dechnegol/gweithdrefnol ei natur ac efallai y bydd angen ei ddiwygio yn eithaf aml.
-------------	--------------------	------------	--	----------	---

<p>Adran 106 (2) Mae'n mewnosod paragraff 15 yn Atodlen 1 i Ddeddf Llywodraeth Leol 2000</p>	<p>Gweinidogion Cymru</p>	<p>Rheoliadau</p>	<p>Mae'n addas ar gyfer pwerau dirprwyedig am fod hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth bellach ar gyfer y weithdrefn sydd i'w dilyn gan Awdurdodau Lleol wrth benderfynu a ddylid rhoi caniatâd i aelodau cyfetholedig Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu bleidleisio.</p>	<p>Negyddol</p>	<p>Mae'r pwnc yn gymharol ddibwys yn y cynllun deddfwriaethol cyffredinol ac mae'n dechnegol/gweinyddol ei natur.</p>
--	-------------------------------	-------------------	---	-----------------	---

Adran 111(3)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Dyletswydd i wneud darpariaeth ynghylch yr egwyddorion, y prosesau a'r arferion sy'n ymwneud â llywodraethu da, gan gynnwys rhagnodi unrhyw god ymarfer neu ganllawiau, p'un a gawsant eu rhoi gan Weinidogion Cymru ai peidio. Mae'r darpariaethau hyn, gan gynnwys nodi unrhyw god ymarfer, yn debygol o newid dros amser ac, felly, mae'n fwy priodol ymdrin â hwy mewn rheoliadau.	Cadarnhaol	Er mwyn rhoi sicrwydd ychwanegol i'r Cynulliad y caiff yr egwyddorion ac ati sy'n ymwneud â llywodraethu da eu hystyried yn llawn ac y bydd cyfle i drafod. Yr egwyddorion ac ati fydd y rhan fwyaf sylweddol o ddyletswydd awdurdod lleol i wneud trefniadau llywodraethu a chydymffurfio â hwy, a chydymffurfiaeth â'r ddyletswydd honno a gaiff ei hasesu o dan y darpariaethau diweddarach ar gyfer hunanasesiadau/asesiadau gan gymheiriaid/asesiadau cyfun ac efallai y byddant yn destun adolygiad llywodraethu o dan adran 128.
--------------	--------------------	------------	--	------------	---

Adran 111(4)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'n addas ar gyfer pwerau dirprwyedig am fod hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth bellach ynghylch trefniadau llywodraethu – o ran atebolrwydd ac o ran defnyddio adnoddau Awdurdod Lleol mewn ffordd ddarbodus, effeithlon ac effeithiol.	Negyddol	Mae'n dechnegol/gweithdrefnol ei natur ac efallai y bydd angen ei ddiwygio yn eithaf aml.
Adran 112(7)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Pŵer i wneud darpariaeth bellach ynghylch yr hyn y mae'n rhaid ei gynnwys yn y cynllun corfforaethol. Mae'r Bil Drafft yn nodi'r prif faterion y mae'n rhaid eu cynnwys yn y cynllun corfforaethol ond mae'r gofynion ar Gyngorau Sir yn newid yn rheolaidd dros amser ac mae angen pŵer galluogi er mwyn adlewyrchu amgylchiadau sy'n newid.	Negyddol	Mae'n dechnegol/gweithdrefnol ei natur ac efallai y bydd angen ei ddiwygio yn eithaf aml.

Adran 113(3)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Pŵer i wneud darpariaeth ynghylch sut a phryd y dylid cyhoeddi cynllun corfforaethol. Mae hwn yn ofyniad sy'n debygol o newid dros amser ac, felly, mae rheoliadau'n fwy priodol ar ei gyfer.	Negyddol	Mae'n dechnegol/gweithdrefnol ei natur ac efallai y bydd angen ei ddiwygio yn eithaf aml.
Adran 117(7)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Y pŵer i wneud darpariaeth ynghylch ffurf a chynnwys adroddiad hunanasesu a phryd a sut y mae'n rhaid ei gyhoeddi. Manylion gweithdrefnol sy'n debygol o newid dros amser yw'r rhain ac mae rheoliadau'n fwy priodol ar eu cyfer.	Negyddol	Mae'n dechnegol/gweithdrefnol ei natur ac efallai y bydd angen ei ddiwygio yn eithaf aml.
Adran 118(3)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Pŵer i wneud darpariaeth ynghylch penodi paneli i gynnal asesiadau gan gymheiriaid. Manylion gweithdrefnol sy'n debygol o newid dros amser yw'r rhain ac maent yn fwy priodol ar gyfer rheoliadau.	Negyddol	Mae'n dechnegol/gweithdrefnol ei natur ac efallai y bydd angen ei ddiwygio yn eithaf aml.

Adran 119(3)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Pŵer i ddiwygio adran 119(1) a (2) er mwyn newid pryd a pha mor aml y mae'n rhaid cynnal asesiad gan gymheiriaid. Manylion gweithdrefnol sy'n debygol o newid dros amser yw'r rhain ac maent yn fwy priodol ar gyfer rheoliadau.	Negyddol	Mae'n dechnegol/gweithdrefnol ei natur ac efallai y bydd angen ei ddiwygio yn eithaf aml.
Adran 122	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Pŵer i wneud darpariaeth ynghylch ffurf a chynnwys adroddiad asesiad gan gymheiriaid ac unrhyw ymateb i'r asesiad hwnnw a phryd a sut y mae'n rhaid cyhoeddi'r adroddiad a'r ymateb. Manylion gweithdrefnol sy'n debygol o newid dros amser yw'r rhain ac maent yn fwy priodol ar gyfer rheoliadau.	Negyddol	Mae'n dechnegol/gweithdrefnol ei natur ac efallai y bydd angen ei ddiwygio yn eithaf aml.

Adran 123(3)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Pŵer i newid y diffiniad o reoleiddiwr perthnasol drwy ddiwygio adran 123(2) er mwyn ychwanegu neu ddileu unrhyw berson neu swyddogaeth ac amrywio'r disgrifiad o berson neu swyddogaeth. Mae'r Bil Drafft yn nodi'r rheoleiddwyr sy'n berthnasol ar hyn o bryd. Mae hyn yn debygol o newid mewn ffyrdd na ellir eu rhagweld ac, felly, mae angen pŵer galluogi.	Negyddol	Mae'n dechnegol/gweithdrefnol ei natur ac efallai y bydd angen ei ddiwygio yn eithaf aml.
Adran 127	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Pŵer i wneud darpariaeth ynghylch pryd y mae'n rhaid cynnal asesiad cyfun, ffurf a chynnwys adroddiad asesiad cyfun ac unrhyw ymateb i'r asesiad hwnnw a phryd a sut y mae'n rhaid cyhoeddi'r adroddiad a'r ymateb. Manylion gweithdrefnol sy'n debygol o newid dros amser yw'r rhain ac maent yn fwy priodol ar gyfer rheoliadau.	Negyddol	Mae'n dechnegol/gweithdrefnol ei natur ac efallai y bydd angen ei ddiwygio yn eithaf aml.

Adran 132(6)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Pŵer i newid y rhestr o bobl sydd eu hangen i helpu adolygwr sy'n cynnal adolygiad llywodraethu drwy ddiwygio adran 132(3) er mwyn ychwanegu neu ddileu person neu amrywio'r disgrifiad o berson. Manylion gweithdrefnol sy'n debygol o newid dros amser yw'r rhain ac maent yn fwy priodol ar gyfer rheoliadau.	Negyddol	Mae'n dechnegol/gweithdrefnol ei natur ac efallai y bydd angen ei ddiwygio yn eithaf aml.
--------------	--------------------	------------	--	----------	---

Adran 138(3)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Pŵer i ddiwygio, diddymu, dirymu neu gymhwyso unrhyw ddarpariaeth statudol berthnasol at ddibenion ei chymhwyso mewn perthynas â swyddogaethau sy'n arferadwy gan Weinidogion Cymru neu eu henwebai yn rhinwedd cyfarwyddyd o dan adran 138 (1) y bydd swyddogaethau penodol Cyngor Sir yn cael eu harfer gan Weinidogion Cymru neu berson a enwebwyd ganddynt. Bydd yr amgylchiadau lle y ceir ymyriad yn wahanol ym mhob achos ac, felly, ni ellir rhagweld ym mha ffordd y gallai angen cymhwyso darpariaeth statudol.	Negyddol	Mae'n dechnegol/gweithdrefnol ei natur gan mai dim ond pan fydd angen gwneud hynny er mwyn sicrhau effeithiolrwydd cyfarwyddyd o dan adran 138(1) y caiff ei ddefnyddio. Felly, bydd unrhyw ddiwygiad ac ati a wneir gan y rheoliadau am gyfnod cyfyngedig yn unig.
Adran 143(2)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Pŵer i wneud darpariaeth bellach o ran cydgysylltu'r broses o arfer swyddogaethau perthnasol gan reoleiddwyr perthnasol. Manylion gweithdrefnol sy'n debygol o newid dros amser yw'r rhain ac maent yn fwy priodol ar gyfer rheoliadau.	Negyddol	Mae'n dechnegol/gweithdrefnol ei natur ac efallai y bydd angen ei ddiwygio yn eithaf aml.

Adran 157(3)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'n rhoi'r hyblygrwydd i Weinidogion Cymru bennu dyddiad addas y bydd yn rhaid i'r Comisiwn gyflwyno ei adroddiadau terfynol i'r Cynghorau Sir yn unol ag ef. Felly, mae'n briodol bod gan Weinidogion Cymru yr hyblygrwydd i bennu dyddiad drwy reoliadau.	Negyddol	Mae pwnc y rheoliadau hyn yn dechnegol/gweithdrefnol ei natur ac mae ond yn pennu dyddiad y bydd yn rhaid cyflwyno adroddiadau yn unol ag ef.
Adran 158(1)	Cyngor Sir	Gorchymyn	Pŵer i weithredu argymhellion i newid trefniadau Cynghorau Cymuned mewn adroddiad gan Gomisiwn Democratiaeth Leol a Ffiniau Cymru heb addasiadau neu gyda'r cyfryw addasiadau ag y cytunir arnynt â'r Comisiwn. Dim ond ar ôl i'r Comisiwn gwblhau ei adolygiad o dan y Bil Drafft y bydd y Cyngor yn gallu gweithredu argymhellion y Comisiwn. Bydd angen pŵer gorchymyn i roi'r argymhellion ar waith, nad yw'n rhan o'r Bil Drafft.	Dim gweithdrefn gan y Cynulliad	Ni fydd y gorchymyn yn cael ei ystyried gan y Cynulliad gan y bydd yn cael ei wneud gan y Cyngor Sir ac felly ni fydd unrhyw weithdrefn gan y Cynulliad ynghlwm wrtho.

Adran 158(3)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'n rhoi'r hyblygrwydd i Weinidogion Cymru bennu dyddiad y bydd yn rhaid i orchymyn gan Gyngor Sir mewn perthynas â threfniadau Cyngor Cymuned ddod i rym yn unol ag ef. Mater gweithdrefnol yw hwn ac felly mae'n briodol ar gyfer rheoliadau.	Gweithdrefn negyddol	Mae pwnc y rheoliadau hyn yn dechnegol/gweithdrefnol ei natur ac mae ond yn pennu dyddiad y bydd yn rhaid i orchymyn ddod i rym yn unol ag ef.
Adran 159(2)	Gweinidogion Cymru	Gorchymyn	Mae'n rhoi'r hyblygrwydd i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ar gyfer trefniadau Cynghorau Cymuned os nad yw'r Comisiwn yn cyflwyno adroddiad sy'n cynnwys ei argymhellion terfynol fel na fydd oedi cyn rhoi'r adolygiad ar waith. Ni wyddys o dan ba amgylchiadau y gallai fyth fod angen gwneud gorchymyn o'r fath ac, felly, mae'n briodol bod gan Weinidogion Cymru y pŵer i ymdrin ag amgylchiadau o'r fath drwy reoliadau.	Dim gweithdrefn gan y Cynulliad	Mae'r weithdrefn yn adlewyrchu'r hyn sydd eisoes ar waith i weithredu argymhellion adolygiad o'r fath yn Neddf Democratiaeth Leol (Cymru) 2013 a'r Bil Llywodraeth Leol (Cymru) cyntaf, a ystyrir yn "orchmynion lleol". Fel rhan o weithdrefn yr adolygiad, bydd cryn dipyn o ymgynghori â'r cyhoedd ynghylch y materion y mae angen mynd i'r afael â hwy yn y rheoliadau ac unrhyw argymhellion gan CDLFFC.

Adran 159(6)	Gweinidogion Cymru	Gorchymyn	Mae'n rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru amrywio neu ddiddymu gorchymyn a wneir o dan 159 (2) pan na fydd y Comisiwn wedi cyflwyno adroddiad sy'n cynnwys ei argymhellion terfynol. Ni fydd modd gwybod o dan ba amgylchiadau y gallai fod angen gwneud gorchymyn felly mae angen pŵer galluogi.	Dim gweithdrefn gan y Cynulliad	Bydd gorchmynion o dan adran 159(2) yn cael eu hystyried yn "orchmynion lleol" ac ni fyddant yn destun gweithdrefn gan y Cynulliad. Ystyrir ei bod yn briodol y dylid ystyried bod unrhyw orchmynion sy'n eu hamrywio neu'n eu diddymu hefyd gael eu hystyried yn orchmynion lleol ac felly na fyddant yn destun gweithdrefn gan y Cynulliad.
Adran 160(1)	Gweinidogion Cymru	Gorchymyn	Mae'n rhoi'r pŵer i weithredu argymhellion y Comisiwn heb addasiadau neu gyda'r cyfryw addasiadau ag y cytunir arnynt â'r Comisiwn os nad oes gorchymyn wedi cael ei wneud gan Gyngor erbyn dyddiad penodedig. Felly nid oes modd gwybod o dan ba amgylchiadau y gallai fod angen gorchymyn ac felly mae angen pŵer galluogi.	Dim gweithdrefn gan y Cynulliad	Mae'r weithdrefn yn adlewyrchu'r hyn sydd eisoes ar waith i weithredu argymhellion y cyfryw adolygiad yn Neddf Democratiaeth Leol (Cymru) 2013 a'r Bil Llywodraeth Leol (Cymru) cyntaf, a ystyrir yn "orchmynion lleol" gan fod ganddynt gymeriad deddfwriaeth leol ac na fyddant yn destun unrhyw weithdrefn gan y Cynulliad.

Adran 162(2)	Gweinidogion Cymru a Chynghorau Sir	Gorchymyn	Mae'n galluogi Cyngor Sir neu Weinidogion Cymru (yn dibynnu ar bwy a wnaeth y gorchymyn gwreiddiol) i amrywio neu ddiddymu gorchmynion a wneir o dan adran 158(1) a 160(1), gan gynnwys unrhyw ddarpariaeth gysylltiedig, atodol neu drosiannol a wneir o dan 161(2). Nid oes modd gwybod o dan ba amgylchiadau y bydd y gorchmynion hyn yn cael eu gwneud ac felly mae angen pŵer galluogi.	Dim gweithdrefn gan y Cynulliad	<p>Bydd gorchmynion gan Weinidogion Cymru i roi adolygiadau o Gynghorau Cymuned ar waith yn cael eu hystyried yn "orchmynion lleol" ac ni fyddant yn destun unrhyw weithdrefn gan y Cynulliad. Felly ystyrir ei bod yn briodol y dylid ystyried unrhyw ddarpariaeth gysylltiedig ac ati yn ddeddfwriaeth leol hefyd ac felly na fydd yn destun gweithdrefn gan y Cynulliad.</p> <p>Ni fydd gorchmynion gan gynghorau sir yn cael eu hystyried gan y Cynulliad ac felly ni fydd unrhyw weithdrefn gan y Cynulliad ynghlwm wrthynt.</p>
--------------	-------------------------------------	-----------	--	---------------------------------	---

Adran 163(1)	Gweinidogion Cymru	Rheoliad	Mae'n rhoi'r pŵer i wneud darpariaeth gysylltiedig, ganlyniadol, atodol neu drosiannol mewn perthynas â gorchmynion a wneir o dan adrannau 158(1), 159(2) neu 160(1). O ran Gweinidogion Cymru, nid oes modd gwybod ymlaen llaw o dan ba amgylchiadau y bydd y gorchmynion hyn yn cael eu gwneud felly mae angen pŵer galluogi.	Gweithdrefn negyddol, ond gweithdrefn gadarnhaol os bydd angen diwygio, diddymu neu addasu deddfwriaeth sylfaenol	Bydd pwnc y rheoliadau yn dechnegol ei natur ac ni fydd yn cyflwyno polisi newydd. Felly mae'r weithdrefn negyddol yn briodol, oni fydd y rheoliadau yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol, os felly ystyrir bod y weithdrefn gadarnhaol yn rhoi lefel briodol o graffu i'r Cynulliad.
Adran 166(3)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae adran 166(2) yn rhoi pŵer cyfarwyddo i Weinidogion Cymru atal ceisiadau cymunedol (i greu, uno ac ati Gyngor Cymuned) nes bod cyfarwyddyd arall wedi'i wneud. Dim ond yn ystod yr adolygiad o Gyngorau Cymuned a'r cyfnod gweithredu, ac am gyfnod byr wedi hynny y bwriedir i'r pŵer cyfarwyddo fod ar gael. Mae'r pŵer hwn i wneud rheoliadau yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiddymu'r pŵer i wneud cyfarwyddyd pan na fydd ei angen mwyach.	Negyddol	Mater gweithredol yw hwn, sy'n ymwneud â llywodraethu lleol ac nid yw'n cyflwyno polisi newydd.

Adran 175(1)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'n rhoi'r pŵer i ychwanegu corff at gylch gwaith Comisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus neu ei ddileu ohono. Mae'r rhestr yn y Bil Drafft yn hollgynhwysfawr ond mae'r posibilrwydd o greu neu ddiddymu cyrff cyhoeddus yn y dyfodol yn golygu bod angen pŵer galluogi.	Negyddol	Mae swyddogaethau'r Comisiwn Staff a Gweinidogion Cymru ar wyneb y Bil. Ni fyddai ychwanegu cyrff cyhoeddus newydd yn effeithio ar y ddarpariaeth yn sylweddol nac yn rhoi pwerau sylweddol eraill i Weinidogion Cymru.
Adran 178(4)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'n rhoi'r pŵer i ddiwygio'r dyddiad ar gyfer diddymu isadrannau (1) i (3). Mae'r Bil yn darparu ar gyfer diddymu'r Comisiwn erbyn dyddiad penodedig ond efallai y bydd amgylchiadau lle y byddai'n fanteisiol newid y dyddiad hwn. Pŵer galluogi yw hwn ond mae'n gyfyngedig ac ni chaiff ei arfer i estyn oes y Comisiwn y tu hwnt i 1 Ebrill 2023.	Cadarnhaol	Byddai estyniad i oes Comisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus yn cynyddu lefelau gwariant y Llywodraeth mewn perthynas ag ef.

Adran 181(1)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'n rhoi pŵer i wneud darpariaeth atodol ac ati mewn perthynas â rhoi effaith lawn i unrhyw rai o'r darpariaethau yn Rhan 2 i Ran 7 o'r Bil Drafft, ar wahân i Bennod 1 o Ran 6. Rheoliad safonol yw hwn, sy'n gwneud pŵer i wneud newidiadau canlyniadol na ellir eu rhagweld.	Negyddol	Bydd pwnc y rheoliadau hyn yn dechnegol ei natur ac ni fyddant yn cyflwyno polisi newydd.
Adran 183(3)	Gweinidogion Cymru	Gorchymyn	Pŵer i gychwyn darpariaethau yn y Bil nad ydynt eisoes wedi'u cychwyn yn 183(2).	Negyddol	Bydd pwnc y rheoliadau hyn yn dechnegol ei natur a bydd yn gweithredu darpariaethau a gymeradwyir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.
Paragraff 1(2) o Atodlen 1	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Pŵer i ragnodi enwau'r siroedd newydd (ac eithrio Powys). Penderfynir ar enwau'r siroedd newydd gan y Cynghorau Sir fel Awdurdodau Cysgodol. Mae rôl Gweinidogion Cymru yn gyfyngedig i adlewyrchu'r enw y penderfynir arno gan y Cyngor Sir yn y Bil Drafft (pan fydd yn cael ei ddeddfu).	Dim gweithdrefn	Gan fod hwn yn fater lleol.

Paragraff 4(9) o Atodlen 3	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	<p>Mae'n rhoi'r pŵer i wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • ei gwneud yn ofynnol i asedau sy'n unol â disgrifiad a nodwyd yn y rheoliadau sy'n dod o dan gronfa Cyngor gael eu dal mewn cronfa ar wahân yng nghronfa'r Cyngor; • ei gwneud yn ofynnol i unrhyw gronfa sy'n unol â disgrifiad a nodwyd yn y rheoliadau a sefydlir gan Gyngor newydd gael ei chynnal fel cronfa ar wahân yng nghronfa'r Cyngor. <p>Mae lefel y manylion sy'n ofynnol yn rhy feichus i'w cynnwys yn y Bil Drafft.</p>	Negyddol	Mae'r pŵer hwn yn dechnegol ei natur a gall newid.
----------------------------	--------------------	------------	--	----------	--

Paragraff 4(10) o Atodlen 3	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	<p>Pŵer i wneud darpariaeth mewn perthynas â'r rhwymedigaeth ar Gyngorau newydd i wneud taliadau o gronfeydd eu Cyngor mewn perthynas â phraeseptau a gyhoeddir o dan Bennod 4 o Ran 1 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.</p> <p>Nid yw lefel y manylion sy'n ofynnol yn briodol i'w cynnwys yn y Bil Drafft.</p>	Negyddol	Mae'r pŵer hwn yn dechnegol ei natur a gall newid.
Paragraff 4(11) o Atodlen 3	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	<p>Mae'n rhoi'r pŵer i wneud darpariaeth ar gyfer rhannu ymhlith Cyngor a phrif awdurdodau sy'n praeseptio swm hafal i'r holl ddidyniad neu ran o unrhyw ddidyniad sy'n cael ei wneud wrth gyfrifo cyfraniad ardrethu annomestig y Cyngor am flwyddyn ariannol.</p> <p>Mae lefel y manylion sy'n ofynnol yn rhy feichus i'w cynnwys yn y Bil Drafft.</p>	Negyddol	Mae'r pŵer hwn yn dechnegol ei natur a gall newid.

5.2 Pwerau i wneud cyfarwyddiadau a phenderfyniadau a rhoi canllawiau

Adran o'r Bil neu Atodlen i'r Bil	Rhoddir y pŵer i	Ffurf	Priodoldeb	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
Adran 15(5)	Gweinidogion Cymru	Canllawiau	Pŵer i roi canllawiau mewn perthynas ag arfer swyddogaethau gan Awdurdodau Cysgodol. Nid oes modd gwybod beth yw'r manylion ar hyn o bryd gan y gall amgylchiadau newid, gan gynnwys yng ngoleuni cyngor gan Gyngorau a Phwyllgorau Pontio.	Dim gweithdrefn gan y Cynulliad	Bwriedir i'r pŵer i roi canllawiau hwyluso'r ffordd y cymhwysir y ddeddfwriaeth sylfaenol. Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud yn bennaf â phroses ac, fel y cyfryw, nid ystyrir ei bod yn briodol bod gweithdrefn gan y Cynulliad yn cael ei chymhwyso.

Adran 35	Gweinidogion Cymru	Canllawiau	<p>Pŵer i roi canllawiau i Gynghorau Cymuned mewn perthynas ag amodau cymhwysedd. Bydd yn ofynnol i Gynghorau Cymuned gael canllaw 'iaith glir' i'r ddeddfwriaeth. Mae'r adrannau sy'n ymwneud â Chynghorau Cymuned â chymhwysedd yn cynnwys darpariaeth fanwl mewn perthynas â'r gofynion cymhwysedd ac ystyrir y byddai'n briodol rhoi canllawiau ar y materion hynny er mwyn helpu'r Cynghorau i arfer y swyddogaethau a roddir iddynt gan y darpariaethau.</p>	Dim gweithdrefn gan y Cynulliad	<p>Bwriedir i'r pŵer i roi canllawiau hwyluso'r ffordd y cymhwysir y ddeddfwriaeth sylfaenol. Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud yn bennaf â phroses ac, fel y cyfryw, nid ystyrir ei bod yn briodol bod gweithdrefn gan y Cynulliad yn cael ei chymhwyso.</p>
----------	--------------------	------------	--	---------------------------------	---

Adran 40(4)	Gweinidogion Cymru	Canllawiau	Pŵer i roi canllawiau i Gynghorau Sir ar ymgynghori ynghylch y gofyniad cyllidebol. Mae adrannau 40(1) a (2) yn nodi gofyniad ar Gynghorau i ymgynghori ynghylch eu gofyniad cyllidebol ac maent yn rhestru'r brif bobl y dylent ymgynghori â hwy. Mae'n briodol bod manylion ac arfer o ran cynnal ymgynghoriadau yn cael eu cwmpasu mewn canllawiau.	Dim gweithdrefn gan y Cynulliad	Bwriedir i'r pŵer i roi canllawiau hwyluso'r ffordd y cymhwysir y ddeddfwriaeth sylfaenol. Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud yn bennaf â phroses ac, fel y cyfryw, nid ystyrir ei bod yn briodol bod gweithdrefn gan y Cynulliad yn cael ei chymhwyso.
Adran 41(1)	Gweinidogion Cymru	Canllawiau	<p>Pŵer i roi canllawiau mewn perthynas â chyfranogiad y cyhoedd mewn Llywodraeth Leol.</p> <p>Mae adran 38(2) yn nodi prif gynnwys y strategaeth ar gyfer cyfranogiad y cyhoedd ac mae adran 39 yn nodi'r weithdrefn ar gyfer ymgynghori ac adolygu. Bydd y canllawiau yn ymdrin â manylion a phrosesau a byddant yn cael eu hadolygu o bryd i'w gilydd.</p>	Dim gweithdrefn gan y Cynulliad	Bwriedir i'r pŵer i roi canllawiau hwyluso'r ffordd y cymhwysir y ddeddfwriaeth sylfaenol. Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud yn bennaf â phroses ac, fel y cyfryw, nid ystyrir ei bod yn briodol bod gweithdrefn gan y Cynulliad yn cael ei chymhwyso.

Adran 59	Gweinidogion Cymru	Canllawiau	<p>Pŵer i roi canllawiau mewn perthynas â phwyllgorau ardaloedd cymunedol.</p> <p>Mae'n debygol y bydd y canllawiau'n cael eu hadolygu o bryd i'w gilydd. Mae darpariaethau Pennod 3 o Ran 3 yn gwneud darpariaeth fanwl mewn perthynas â phwyllgorau ardaloedd cymunedol. Byddai'n briodol rhoi canllawiau ar y materion hynny er mwyn helpu'r cyrff a'r personau y rhoddir swyddogaethau iddynt i gyflawni eu swyddogaethau.</p>	Dim gweithdrefn gan y Cynulliad	Bwriedir i'r pŵer i roi canllawiau hwyluso'r ffordd y cymhwysir y ddeddfwriaeth sylfaenol. Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud yn bennaf â phroses ac, fel y cyfryw, nid ystyrir ei bod yn briodol bod gweithdrefn gan y Cynulliad yn cael ei chymhwyso.
----------	--------------------	------------	--	---------------------------------	--

Adran 73	Gweinidogion Cymru	Canllawiau	<p>Pŵer i roi canllawiau i Awdurdodau perthnasol ar gymhwyso'r darpariaethau mewn perthynas â cheisiadau gwella.</p> <p>Bydd y canllawiau yn cael eu diwygio o bryd i'w gilydd. Mae darpariaethau Pennod 4 o Ran 3 yn gwneud darpariaeth fanwl mewn perthynas â cheisiadau gwella. Byddai'n briodol rhoi canllawiau ar y materion hynny er mwyn helpu'r Awdurdodau perthnasol i gyflawni eu swyddogaethau.</p>	Dim gweithdrefn gan y Cynulliad	Bwriedir i'r pŵer i roi canllawiau hwyluso'r ffordd y cymhwysir y ddeddfwriaeth sylfaenol. Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud yn bennaf â phroses ac, fel y cyfryw, nid ystyrir ei bod yn briodol bod gweithdrefn gan y Cynulliad yn cael ei chymhwyso.
----------	--------------------	------------	--	---------------------------------	--

Adran 76(5)	Gweinidogion Cymru	Canllawiau	<p>Pŵer i roi canllawiau ar ddarlledu cyfarfodydd Awdurdodau Lleol penodol.</p> <p>Bydd Cynghorau yn cael canllawiau o bryd i'w gilydd yng nghyd-destun technoleg sy'n newid yn gyflym. Byddai'n briodol mynd i'r afael â materion o'r fath ar ffurf canllawiau, y gellir eu diweddarau'n hawdd er mwyn ystyried datblygiadau newydd.</p>	Dim gweithdrefn gan y Cynulliad	Bwriedir i'r pŵer i roi canllawiau hwyluso'r ffordd y cymhwysir y ddeddfwriaeth sylfaenol. Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud yn bennaf â phroses ac, fel y cyfryw, nid ystyrir ei bod yn briodol bod gweithdrefn gan y Cynulliad yn cael ei chymhwyso.
Adran 78	Gweinidogion Cymru	Canllawiau	<p>Pŵer i roi canllawiau i'r person sy'n cadeirio cyfarfodydd cynghorau cymuned. Mae canllawiau'n briodol er mwyn helpu'r rhai y gosodir dyletswydd arnynt i roi cyfle rhesymol i'r cyhoedd sy'n bresennol wneud sylwadau i gydymffurfio â'r ddyletswydd honno.</p>	Dim gweithdrefn gan y Cynulliad	Bwriedir i'r pŵer i roi canllawiau hwyluso'r ffordd y cymhwysir y ddeddfwriaeth sylfaenol. Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud yn bennaf â phroses ac, fel y cyfryw, nid ystyrir ei bod yn briodol bod gweithdrefn gan y Cynulliad yn cael ei chymhwyso.

Adran 95	Gweinidogion Cymru	Canllawiau	<p>Pŵer i roi canllawiau i Gynghorwyr a Phwyllgorau Safonau ar y darpariaethau sy'n ymwneud â chyflawni dyletswyddau Cynghorwyr ac ymdrin ag achosion posibl o dorri'r dyletswyddau.</p> <p>Bydd y canllawiau yn cael eu diwygio o bryd i'w gilydd. Mae Penodau 2 a 3 o Ran 4 yn gwneud darpariaeth fanwl mewn perthynas â'r dyletswyddau a osodir ar Gynghorwyr Sir a'r gweithdrefnau ar gyfer gorfodi'r dyletswyddau hynny. Mae canllawiau'n briodol er mwyn helpu Cynghorwyr i gydymffurfio â'r dyletswyddau hynny a phersonau sy'n gyfrifol am ymchwilio a gorfodi'r dyletswyddau hynny.</p>	Dim gweithdrefn gan y Cynulliad	Bwriedir i'r pŵer i roi canllawiau hwyluso'r ffordd y cymhwysir y ddeddfwriaeth sylfaenol. Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud yn bennaf â phroses ac, fel y cyfryw, nid ystyrir ei bod yn briodol bod gweithdrefn gan y Cynulliad yn cael ei chymhwyso.
----------	--------------------	------------	--	---------------------------------	--

Adran 98(2)	Gweinidogion Cymru	Canllawiau	<p>Pŵer i roi canllawiau i arweinwyr grwpiau gwleidyddol ar hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel ymhlith aelodau grwpiau gwleidyddol.</p> <p>Bydd y canllawiau yn cael eu diwygio o bryd i'w gilydd. Mae canllawiau'n briodol er mwyn helpu arweinwyr grwpiau gwleidyddol i sicrhau cydymffurfiaeth â'r swyddogaethau a osodir arnynt.</p>	Dim gweithdrefn gan y Cynulliad	Bwriedir i'r pŵer i roi canllawiau hwyluso'r ffordd y cymhwysir y ddeddfwriaeth sylfaenol. Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud yn bennaf â phroses ac, fel y cyfryw, nid ystyrir ei bod yn briodol bod gweithdrefn gan y Cynulliad yn cael ei chymhwyso.
-------------	--------------------	------------	--	---------------------------------	--

Adran 102	Gweinidogion Cymru	Canllawiau	<p>Pŵer i roi canllawiau i Awdurdodau Lleol, Meiri Etholedig ac Arweinwyr Gweithrediaeth ynglŷn ag arfer da mewn perthynas â chydaddoldeb ac amrywiaeth mewn perthynas â threfniadau'r weithrediaeth mewn Awdurdodau Lleol.</p> <p>Bydd y canllawiau yn cael eu diwygio o bryd i'w gilydd. Mae canllawiau'n briodol er mwyn helpu Awdurdodau Lleol, Meiri Etholedig ac Arweinwyr Gweithrediaeth i benderfynu ar drefniadau eu gweithrediaeth a deall y ffactorau y mae Gweinidogion Cymru yn eu hystyried yn berthnasol i benderfynu ar y trefniadau hynny.</p>	Dim gweithdrefn gan y Cynulliad	Bwriedir i'r pŵer i roi canllawiau hwyluso'r ffordd y cymhwysir y ddeddfwriaeth sylfaenol. Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud yn bennaf â phroses ac, fel y cyfryw, nid ystyrir ei bod yn briodol bod gweithdrefn gan y Cynulliad yn cael ei chymhwyso.
-----------	--------------------	------------	---	---------------------------------	--

Adran 104(8)	Gweinidogion Cymru	Canllawiau	<p>Pŵer i roi canllawiau i uwch Aelodau'r Weithrediaeth a Chynghorau Sir ar bennu amcanion i'r Prif Weithredwr.</p> <p>Bydd y canllawiau yn cael eu diwygio o bryd i'w gilydd. Mae canllawiau'n briodol er mwyn helpu uwch Aelodau'r Weithrediaeth a Chynghorau Sir i arfer y swyddogaethau sy'n ymwneud â phennu amcanion i Brif Weithredwyr.</p>	Dim gweithdrefn gan y Cynulliad	Bwriedir i'r pŵer i roi canllawiau hwyluso'r ffordd y cymhwysir y ddeddfwriaeth sylfaenol. Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud yn bennaf â phroses ac, fel y cyfryw, nid ystyrir ei bod yn briodol bod gweithdrefn gan y Cynulliad yn cael ei chymhwyso.
--------------	--------------------	------------	--	---------------------------------	--

Ystyrir adran 135(1) ar y cyd ag adran 136(1).	Gweinidogion Cymru	Cyfarwyddyd	<p>Pŵer i roi cyfarwyddyd ymyrryd er mwyn cael gwasanaethau cymorth.</p> <p>Os bydd Gweinidogion Cymru o'r farn bod cyfarwyddyd ymyrryd yn angenrheidiol neu'n briodol yn sgil adolygiad llywodraethu, cânt roi cyfarwyddyd i Gyngor bod yn rhaid iddo wneud trefniadau i gael gwasanaethau cymorth penodol.</p> <p>Dim ond yng ngoleuni'r amgylchiadau a'r materion sy'n ymwneud ag ymyriad penodol y gellid drafftio cyfarwyddiadau.</p>	Dim gweithdrefn gan y Cynulliad	<p>Dim ond ar ôl i Weinidogion Cymru sefydlu adolygiad llywodraethu o dan adran 128 ac ar ôl iddynt ystyried yr adroddiad a baratoir gan yr adolygiad hwnnw ac ymateb y cyngor y bydd y pŵer hwn i roi cyfarwyddyd ar gael. Os bydd Gweinidogion Cymru o'r farn bod ymyriad yn angenrheidiol neu'n briodol, hwy fydd yn dyfarnu (yng ngoleuni'r holl wybodaeth a chyngor sydd ar gael iddynt) pa fath o ymyriad sy'n angenrheidiol ac yn briodol a'r graddau y bydd y cyfarwyddyd hwnnw yn cael effaith – o gyfarwyddo'r cyngor i gael gwasanaethau cymorth (o dan adran 136) i ymgymryd â'r cyfrifoldeb am swyddogaethau a ragnodir yn y cyfarwyddyd (o dan adran 138). Bydd i unrhyw gyfarwyddyd derfyn amser. Bydd cyfarwyddyd hefyd yn cael ei adolygu'n barhaus a bydd angen i Weinidogion Cymru ystyried o bryd i'w gilydd a ddylid diddymu neu ddiwygio'r cyfarwyddyd. Dim ond i'r cyngor sy'n destun adolygiad llywodraethu y gellir rhoi cyfarwyddyd: ni all fod yn gymwys, er enghraifft, i bob cyngor. Nid yw cyfarwyddiadau o'r fath yn ddeddfwriaethol eu natur: maent yn weinyddol eu natur, gyda'r bwriad o sicrhau cydymffurfiaeth cyngor â'i ddyletswydd o dan adran 111.</p>
--	--------------------	-------------	--	---------------------------------	--

<p>Ystyrir adran 135(1) ar y cyd ag adran 137(1)</p>	<p>Gweinidogion Cymru</p>	<p>Cyfarwyddyd</p>	<p>Pŵer i roi cyfarwyddyd ymyrryd i gymryd camau penodol.</p> <p>Os bydd Gweinidogion Cymru o'r farn bod cyfarwyddyd ymyrryd yn angenrheidiol neu'n briodol yn sgil adolygiad llywodraethu, cânt roi cyfarwyddyd i Gyngor fod yn rhaid iddo gymryd camau penodol o fewn cyfnod penodol.</p> <p>Dim ond yng ngoleuni'r amgylchiadau a'r materion sy'n ymwneud ag ymyriad penodol y gellid drafftio cyfarwyddiadau.</p>	<p>Dim gweithdrefn gan y Cynulliad</p>	<p>Dim ond ar ôl i Weinidogion Cymru sefydlu adolygiad llywodraethu o dan adran 128 ac ar ôl iddynt ystyried yr adroddiad a baratoir gan yr adolygiad hwnnw ac ymateb y cyngor y bydd y pŵer hwn i roi cyfarwyddyd ar gael. Os bydd Gweinidogion Cymru o'r farn bod ymyriad yn angenrheidiol neu'n briodol, hwy fydd yn dyfarnu (yng ngoleuni'r holl wybodaeth a chyngor sydd ar gael iddynt) pa fath o ymyriad sy'n angenrheidiol ac yn briodol a'r graddau y bydd y cyfarwyddyd hwnnw yn cael effaith – o gyfarwyddo'r cyngor i gael gwasanaethau cymorth (o dan adran 136) i ymgymryd â'r cyfrifoldeb am swyddogaethau a ragnodir yn y cyfarwyddyd (o dan adran 138). Bydd i unrhyw gyfarwyddyd derfyn amser. Bydd cyfarwyddyd hefyd yn cael ei adolygu'n barhaus a bydd angen i Weinidogion Cymru ystyried o bryd i'w gilydd a ddylid diddymu neu ddiwygio'r cyfarwyddyd. Dim ond i'r cyngor sy'n destun adolygiad llywodraethu y gellir rhoi cyfarwyddyd: ni all fod yn gymwys, er enghraifft, i bob cyngor. Nid yw cyfarwyddiadau o'r fath yn ddeddfwriaethol eu natur: maent yn weinyddol eu natur, gyda'r bwriad o sicrhau cydymffurfiaeth cyngor â'i ddyletswydd o dan adran 111.</p>
--	---------------------------	--------------------	---	--	--

Ystyrir adran 135(1) ar y cyd ag adran 138(1)	Gweinidogion Cymru	Cyfarwyddyd	<p>Pŵer i roi cyfarwyddyd bod swyddogaethau penodol yn cael eu cyflawni gan Weinidogion Cymru neu eu henwebai.</p> <p>Os bydd Gweinidogion Cymru o'r farn bod cyfarwyddyd ymyrryd yn angenrheidiol neu'n briodol yn sgil adolygiad llywodraethu, cânt roi cyfarwyddyd y bydd swyddogaethau penodol Cyngor Sir yn cael eu harfer gan Weinidogion Cymru neu berson a enwebir ganddynt.</p> <p>Dim ond yng ngoleuni'r amgylchiadau a'r materion sy'n ymwneud ag ymyriad penodol y gellid drafftio cyfarwyddiadau.</p>	Dim gweithdrefn gan y Cynulliad	<p>Dim ond ar ôl i Weinidogion Cymru sefydlu adolygiad llywodraethu o dan adran 128 ac ar ôl iddynt ystyried yr adroddiad a baratoir gan yr adolygiad hwnnw ac ymateb y cyngor y bydd y pŵer hwn i roi cyfarwyddyd ar gael. Os bydd Gweinidogion Cymru o'r farn bod ymyriad yn angenrheidiol neu'n briodol, hwy fydd yn dyfarnu (yng ngoleuni'r holl wybodaeth a chyngor sydd ar gael iddynt) pa fath o ymyriad sy'n angenrheidiol ac yn briodol a'r graddau y bydd y cyfarwyddyd hwnnw yn cael effaith – o gyfarwyddo'r cyngor i gael gwasanaethau cymorth (o dan adran 136) i ymgymryd â'r cyfrifoldeb am swyddogaethau a ragnodir yn y cyfarwyddyd (o dan adran 138). Bydd i unrhyw gyfarwyddyd derfyn amser. Bydd cyfarwyddyd hefyd yn cael ei adolygu'n barhaus a bydd angen i Weinidogion Cymru ystyried o bryd i'w gilydd a ddylid diddymu neu ddiwygio'r cyfarwyddyd. Dim ond i'r cyngor sy'n destun adolygiad llywodraethu y gellir rhoi cyfarwyddyd: ni all fod yn gymwys, er enghraifft, i bob cyngor. Nid yw cyfarwyddiadau o'r fath yn ddeddfwriaethol eu natur: maent yn weinyddol eu natur, gyda'r bwriad o sicrhau cydymffurfiaeth cyngor â'i ddyletswydd o dan adran 111.</p>
---	--------------------	-------------	--	---------------------------------	--

Adran 144	Gweinidogion Cymru	Canllawiau	<p>Pŵer i roi canllawiau i'r rhai sy'n arfer swyddogaethau mewn perthynas â threfniadau llywodraethu, cynlluniau corfforaethol, asesiadau o drefniadau llywodraethu, adolygiadau llywodraethu ac ymyriadau, a chydgysylltu rhwng rheoleiddwyr.</p> <p>Bydd y canllawiau yn cael eu diwygio o bryd i'w gilydd.</p>	Dim gweithdrefn gan y Cynulliad	Bwriedir i'r pŵer i roi canllawiau hwyluso'r ffordd y cymhwysir y ddeddfwriaeth sylfaenol. Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud yn bennaf â phroses ac, fel y cyfryw, nid ystyrir ei bod yn briodol bod gweithdrefn gan y Cynulliad yn cael ei chymhwyso.
-----------	--------------------	------------	---	---------------------------------	--

Adran 165(1)	Gweinidogion Cymru	Cyfarwyddyd	<p>Pŵer i roi cyfarwyddiadau i'r Comisiwn Democratiaeth Leol a Ffiniau ynglŷn â'r trefniadau i adolygu Cynghorau Cymuned.</p> <p>Mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Comisiwn a chyrrff sy'n cynrychioli buddiannau Cynghorau Sir neu Gymuned cyn rhoi cyfarwyddyd.</p> <p>Mae pŵer cyfarwyddo yn briodol gan y bydd cyfarwyddiadau yn ymdrin â manylion a materion a fydd yn newid yn ôl yr amgylchiadau ar y pryd.</p>	Dim gweithdrefn gan y Cynulliad	Pŵer cyfyngedig yw'r pŵer i roi cyfarwyddiadau gan mai dim ond i'r Comisiwn y bydd yn gymwys a bydd yn ymwneud â'r swyddogaethau mewn perthynas â'r darpariaethau hyn.
--------------	--------------------	-------------	---	---------------------------------	--

Adran 165(3)	Gweinidogion Cymru	Canllawiau	<p>Pŵer i roi canllawiau y mae'n rhaid i'r Comisiwn a Chynghorau Sir (a Chynghorau Bwrdeistref Sirol) roi sylw iddynt mewn perthynas â chynnal a gweithredu adolygiad o drefniadau Cynghorau Cymuned.</p> <p>Mae pŵer cyfarwyddo yn briodol er mwyn helpu'r Comisiwn a Chynghorau i arfer y swyddogaethau a roddir iddynt gan y Bil. Bydd cynnwys y canllawiau yn dibynnu ar gynnwys cyfarwyddyd a roddir o dan adran 165(1) i raddau helaeth.</p>	Dim gweithdrefn gan y Cynulliad	Bwriedir i'r pŵer i roi canllawiau hwyluso'r ffordd y cymhwysir y ddeddfwriaeth sylfaenol. Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud yn bennaf â materion nad ystyrir bod gweithdrefn gan y Cynulliad yn briodol ar eu cyfer.
--------------	--------------------	------------	--	---------------------------------	---

Adran 167	Gweinidogion Cymru	Canllawiau	<p>Pŵer i roi canllawiau y mae'n rhaid i Gynghorau Sir roi sylw iddynt mewn perthynas â hyfforddi Cynghorwyr Cymuned.</p> <p>Bydd y canllawiau yn cael eu diwygio o bryd i'w gilydd. Mae canllawiau'n briodol er mwyn helpu Cyngor Sir i esbonio'r ffactorau y mae Gweinidogion Cymru yn eu hystyried yn berthnasol wrth benderfynu pa hyfforddiant ddylai fod yn orfodol i Gynghorwyr Cymuned.</p>	Dim gweithdrefn gan y Cynulliad	Bwriedir i'r pŵer i roi canllawiau hwyluso'r ffordd y cymhwysir y ddeddfwriaeth sylfaenol. Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud yn bennaf â phroses ac, fel y cyfryw, nid ystyrir ei bod yn briodol bod gweithdrefn gan y Cynulliad yn cael ei chymhwyso.
-----------	--------------------	------------	---	---------------------------------	--

Adran 172(1)	Gweinidogion Cymru	Canllawiau	<p>Pŵer i roi canllawiau ar faterion sy'n ymwneud â'r gweithlu y mae'n rhaid i rai neu bob un o'r cyrff cyhoeddus a ragnodir yn adran 174 roi sylw iddynt.</p> <p>Mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r cyrff cyhoeddus perthnasol, undebau llafur a phersonau eraill cyn rhoi canllawiau o dan yr adran hon, eu diwygio neu eu tynnu'n ôl.</p> <p>Caiff canllawiau eu diwygio o bryd i'w gilydd ac maent yn briodol er mwyn helpu awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru i ddilyn arfer gorau mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â'r gweithlu.</p>	Dim gweithdrefn gan y Cynulliad	Bwriedir i'r pŵer i roi canllawiau hwyluso'r ffordd y cymhwysir y ddeddfwriaeth sylfaenol. Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud yn bennaf â phroses ac, fel y cyfryw, nid ystyrir ei bod yn briodol bod gweithdrefn gan y Cynulliad yn cael ei chymhwyso.
--------------	--------------------	------------	--	---------------------------------	--

Paragraff 1(1) o Atodlen 2	Gweinidogion Cymru	Cyfarwyddyd	Pŵer i gyfarwyddo Cyngor Sir neu Gyngor Bwrdeistref Sirol i benodi swyddog canlyniadau ar gyfer etholiadau Cynghorwyr i Gynghorau Sir newydd ym mis Mai 2019. Mae hwn yn bŵer i ddatrys mater technegol sy'n ymwneud â manion.	Dim gweithdrefn gan y Cynulliad	Mae'r pŵer hwn yn datrys mater technegol o ran y ddeddfwriaeth bresennol ac fel y cyfryw, nid ystyrir ei bod yn briodol bod gweithdrefn gan y Cynulliad yn cael ei chymhwyso.
----------------------------	--------------------	-------------	--	---------------------------------	---

Mae tudalen hwn yn fwiadol wag

RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CYNGOR

Cyfarfod	Eitem (disgrifiad / teitl)		Pwrpas yr Adroddiad	Angen penderfyniad gan y Cyngor (oes/nac oes)	Aelod Arweiniol a Swyddog Cyswllt
23 Chwefror 2016	1	Treth y Cyngor	I'r Cyngor osod lefel Treth y Cyngor ar gyfer 2016/17	Oes	Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill / Richard Weigh
	2	Ystyried y Strategaeth Caffael Ddrafft Derfynol a CPR			Tom Booty
	3	Cyfansoddiad o'r Model Newydd	I fabwysiadu Cyfansoddiad newydd y Cyngor	Oes	Y Cynghorydd Barbara Smith / Gary Williams / Lisa Jones
	34	Cynllun Cyfalaf	Ystyried y Cynllun Cyfalaf		Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill /Richard Weigh/Richard Humphreys
	5	Strategaeth Rheoli'r Trysorlys	Cymeradwyo Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor	Oes	Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill /Richard Weigh
	6	Adolygiad Tâl UDA		Oes	Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill / Catrin Roberts a Sophie Vaughan (AD)
Briffio'r Cyngor 7 Mawrth 2016	1	Cam-fanteisio'n Rhywiol ar Blant		Amh.	Y Cyng. Bobby Feeley / Nicola Stubbins / Colin Tucker
	2	Rheolau Mynwent	Ystyried ymagwedd y Cyngor tuag at reoli ei fynwentydd a'i ymroddiad i feinciau coffa yn ei fynwentydd	Amh.	Y Cynghorydd David Smith / Steve Parker / Simon Billington
12 Ebrill 2016	1	Enwebiadau ar gyfer Swyddi'r Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor	Cytuno ar yr enwebiadau.	Oes	Gary Williams

RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CYNGOR

	2	Amserlen y Pwyllgor / Adolygiad Blynyddol o Gydbwysedd Gwleidyddol	Cymeradwyo amserlen y pwyllgor tan ddiwedd 2017 ac adolygu cydbwysedd gwleidyddol y pwyllgorau	Oes	Y Cynghorydd Barbara Smith / Steve Price
	3	Adolygiad Ffyniol Prestatyn (i'w gadarnhau)	I adolygu trefniadau ward ar gyfer Prestatyn	Oes	Y Cynghorydd Barbara Smith/ Steve Price
Cyfarfod Blynyddol 10 Mai 2016	1	Penodi Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor	Y Cyngor i benodi arweinwyr dinesig y Cyngor ar gyfer blwyddyn y cyngor 2016/17	Oes	Gary Williams
	2	Adroddiad Blynyddol Pwyllgorau Archwilio 2015/2016	Adolygu gweithgareddau'r Pwyllgorau Archwilio	Dim	Rhian Evans/Steve Price
BRIFFIO'R CYNGOR 6 Mehefin 2016	1	Dysgu o Rotherham - Panel Diogelu Corfforaethol		Amh.	Y Cyng. Bobby Feeley / Nicola Stubbins
5 Gorffennaf 2016					
6 Medi 2016					
18 Hydref 2016	1	Adroddiad Gwella Blynyddol		Oes	Y Cyng. Julian Thompson-Hill / Alan Smith
BRIFFIO'R CYNGOR 14 Tachwedd 2016					
6 Rhagfyr 2016					

RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CYNGOR

Nodyn i swyddogion - Dyddiadau Cau Adroddiadau i'r Cabinet

<i>Cyfarfod</i>	<i>Dyddiad cau</i>	<i>Cyfarfod</i>	<i>Dyddiad cau</i>	<i>Cyfarfod</i>	<i>Dyddiad cau</i>
<i>Ionawr 2016</i>	<i>11 Ionawr 2016</i>	<i>Chwefror</i>	<i>8 Chwefror 2016</i>	<i>Ebrill</i>	<i>24 Mawrth 2016</i>

Diweddarwyd 13/01/2016 SLW

Rhaglen Gwaith y Cyngor.doc

Mae tudalen hwn yn fwiadol wag